# Dogfennau Ategol - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

# Hybrid - Pecyn Atodol - Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli nas Defnyddir (Cymru)

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 2 Craffu Cyfnod 1 Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 265)

Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Chris Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Etifeddiaeth Mwyngloddio a Diogelwch Cronfeydd Dŵr - Llywodraeth Cymru

Madeline Rees, Cyfreithwraig - Llywodraeth Cymru

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Memorandwm Esboniadol (yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol)

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli nas Defnyddir (Cymru)

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

**RHAN 1**

AWDURDOD TOMENNI NAS DEFNYDDIR CYMRU

*Sefydlu a phrif amcan*

1 Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru
2 Prif amcan yr Awdurdod

*Swyddogaethau cyffredinol*

3 Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy
4 Cynhorthwy ariannol
5 Pwerau ategol

**RHAN 2**

ASESU, COFRESTRU A MONITRO TOMENNI NAS DEFNYDDIR

**PENNOD 1**

COFRESTR TOMENNI NAS DEFNYDDIR

*Y gofrestr*

6 Dyletswydd i lunio a chadw cofrestr
7 Y meini prawf ar gyfer cofrestru
8 Cynnwys y gofrestr
9 Caniatáu i'r cyhoedd weld y gofrestr

*Monitro tomenni cofrestredig*

10 Dyletswydd i fonitro tomenni cofrestredig

**PENNOD 2**

ASESU TOMENNI NAS DEFNYDDIR

*Cyffredinol*

11 Trosolwg

*Asesiad rhagarweiniol*

12 Ystyr "asesiad rhagarweiniol"
13 Asesiadau rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir
14 Asesiadau rhagarweiniol ychwanegol

*Asesiad llawn*

15 Ystyr "asesiad llawn"
16 Asesiad llawn o domen anghofrestredig
17 Asesiad llawn o domen gofrestredig
18 Hysbysiad o fwriad i gynnal asesiad llawn
19 Hysbysiad o gasgliadau asesiad llawn

**PENNOD 3**

COFRESTRU A DATGOFRESTRU TOMENNI NAS DEFNYDDIR

20 Cynnig i gofrestru tomen
21 Penderfyniad ynghylch cofrestru
22 Cynnig i ddileu tomen o'r gofrestr
23 Penderfyniad ynghylch dileu tomen o'r gofrestr

**PENNOD 4**

Y CATEGORÏAU O DOMENNI NAS DEFNYDDIR ETC.

24 Categorïau tomenni nas defnyddir
25 Datganiad polisi ar gategoreiddio
26 Categoreiddio cychwynnol tomen nas defnyddir
27 Adolygiadau o gategori

**PENNOD 5**

NEWIDIADAU HYSBYSADWY I'R GOFRESTR

28 Ystyr "newid hysbysadwy"
29 Cynnig i wneud newid hysbysadwy
30 Penderfyniad ynghylch newid hysbysadwy

**PENNOD 6**

DARPARIAETH ATODOL

31 Digolledriad am ddifrod neu aflonyddu
32 Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau

## RHAN 3

YMDRIN AG ANSEFYDLOGRWYDD TOMEN A BYGYTHIADAU I SEFYDLOGRWYDD TOMEN

### PENNOD 1

EI GWNEUD YN OFYNNOL I BERCHENNOG AR DIR I GYNNAL GWEITHREDIADAU


33 Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir i gynnal gweithrediadau
34 Hawl y perchennog i fynd ar dir etc.
35 Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant
36 Hawl perchennog a phartïon â buddiant i apelio yn erbyn hysbysiad
37 Penderfynu apelau
38 Darpariaeth atodol ynghylch apelau
39 Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad
40 Pŵer i ganslo hysbysiad
41 Ad-dalu treuliau'r perchennog ar ôl canslo hysbysiad


### PENNOD 2

GWEITHREDIADAU A GYNHELIR GAN YR AWDURDOD


42 Pŵer yr Awdurdod i gynnal gweithrediadau
43 Hawl yr Awdurdod i symud ymaith eiddo a'i waredu
44 Dyletswydd i roi hysbysiad i berchnogion
45 Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant


### PENNOD 3

TALIADAU MEWN CYSYLLTIAD Â GWEITHREDIADAU


46 Gorchmynion cyfrannu
47 Ystyr "gorchymyn cyfrannu", "cyfrannydd" ac "y ganran benodedig"
48 Digollediad am ddifrod, colled neu aflonyddu etc.
49 Hawl perchennog i adennill treuliau oddi wrth gyfrannydd
50 Hawl cyfrannydd i apelio yn erbyn archiad perchennog
51 Hawl yr Awdurdod i adennill treuliau penodol
52 Yr hawl i apelio yn erbyn archiad yr Awdurdod


### PENNOD 4

DARPARIAETH ATODOL


53 Pŵer i gynnal ymchwiliadau
54 Cosb am rwystro gweithrediadau etc.


## RHAN 4

DARPARIAETH ATODOL

*Rhannu gwybodaeth*


55 Ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol"

56 Pŵer yr Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth
57 Dyletswyddau'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i rannu gwybodaeth
58 Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau mewn tir
59 Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron
60 Gwybodaeth i adnabod neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir etc.
61 Cosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth

*Pwerau mynediad*

62 Pŵer i fynd ar dir
63 Mynediad i dir heb warant
64 Gwarant i fynd ar dir
65 Mynd ar dir gyda gwarant
66 Cosb am rwystro mynd ar dir
67 Mynd ar dir y Goron

*Amrywiol*

68 Darparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol
69 Canllawiau
70 Diwygio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969

**RHAN 5**

CYFFREDINOL

*Troseddau*

71 Troseddau gan gyrff corfforedig
72 Dwyn achos

*Rheoliadau*

73 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.
74 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

*Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill*

75 Darpariaeth gyffredinol ynghylch rhoi hysbysiadau etc.
76 Darpariaeth ychwanegol ynghylch rhoi hysbysiadau etc. i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir
77 Rhoi hysbysiadau etc. i'r Goron

*Achosion arbennig*

78 Codi arian mewn achosion penodol i gwrdd â gwariant
79 Tir Eglwys Loegr

80 Pŵer i addasu cymhwysiad y Ddeddf i dir yr Awdurdod

*Dehongli*

81 Ystyr “tomen” a “tomen nas defnyddir”
82 Ystyr “bygythiad i les pobl”
83 Ystyr “perchennog”
84 Diffiniadau sy’n ymwneud â’r Goron
85 Dehongli cyffredinol
86 Mynegai o dermau wedi eu diffinio

*Amrywiol*

87 Dod i rym
88 Enw byr

Atodlen 1 - Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru
Atodlen 2 - Hawliadau am ddigolllediad gan berchnogion a chyfranwyr
Atodlen 3 - Addasiadau i adrannau 49 a 50 pan fo hysbysiad o dan adran 33 yn cael ei ganslo

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru; i wneud darpariaeth i atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd; ac i wneud darpariaeth at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## AWDURDOD TOMENNI NAS DEFNYDDIR CYMRU

*Sefydlu a phrif amcan*

### 1 Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

(1) Mae Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru wedi ei sefydlu fel corff corfforedig.

(2) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at "yr Awdurdod" yn gyfeiriadau at y corff hwnnw.

(3) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr Awdurdod.

### 2 Prif amcan yr Awdurdod

(1) Prif amcan yr Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

(2) Yn unol â'i brif amcan, rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd.

*Swyddogaethau cyffredinol*

### 3 Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

(1) Rhaid i'r Awdurdod roi unrhyw wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy i Weinidogion Cymru y gall fod eu hangen arnynt mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n berthnasol i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon neu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau eraill.

(2) Caiff yr Awdurdod, ar ei gymhelliad ei hun, roi gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n berthnasol i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon neu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau eraill.

(3) Caiff yr Awdurdod roi gwybodaeth neu gyngor i unrhyw berson ac eithrio Gweinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n ymwneud â thomen nas defnyddir benodol neu domenni nas defnyddir yn gyffredinol, neu roi cynorthwy iddynt â'r mater hwnnw.

(4) Caiff yr Awdurdod godi ffi am ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (3).

(5) Yn yr adran hon, mae "cynhorthwy" yn cynnwys cynnal gweithrediadau ar dir.

**4 Cynhorthwy ariannol**

(1) Caiff yr Awdurdod, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, roi cynhorthwy ariannol i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwariant perthnasol.

(2) Yn is-adran (1), ystyr "gwariant perthnasol" yw gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo gan y person ar unrhyw beth y mae'r Awdurdod ystyried ei fod yn ffafriol i gyflawni ei brif amcan.

(3) Caniateir rhoi cynhorthwy ariannol o dan is-adran (1)—

(a) drwy grant neu fenthyciad;

(b) yn ddarostyngedig i amodau.

**5 Pwerau ategol**

(1) Caiff yr Awdurdod wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau neu sy'n ffafriol neu'n ddeilliadol i'w harfer.

(2) Ond ni chaiff yr Awdurdod gael benthyg arian oddi wrth unrhyw berson heblaw Gweinidogion Cymru.

## RHAN 2

## ASESU, COFRESTRU A MONITRO TOMENNI NAS DEFNYDDIR

### PENNOD 1

### COFRESTR TOMENNI NAS DEFNYDDIR

*Y gofrestr*

**6 Dyletswydd i lunio a chadw cofrestr**

(1) Rhaid i'r Awdurdod lunio a chadw cofrestr electronig o domenni nas defnyddir y mae'r Awdurdod yn penderfynu—

(a) eu bod yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd, neu

(b) y gallant beri bygythiad o'r fath pe bai ansefydlogrwydd.

(2) Mae Pennod 3 yn nodi'r broses ar gyfer cynnwys tomenni nas defnyddir yn y gofrestr neu eu dileu o'r gofrestr.

(3) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at "y gofrestr" yn gyfeiriadau at y gofrestr y cyfeirir ati yn is-adran (1).

**7 Y meini prawf ar gyfer cofrestru**

At ddibenion y Rhan hon, y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir yw—

(a) bod y domen yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd, neu

(b) y gallai beri bygythiad o'r fath pe bai ansefydlogrwydd.

**8 Cynnwys y gofrestr**

(1) Rhaid i gofnod yn y gofrestr ar gyfer tomen nas defnyddir gynnwys—

(a) map sy'n dangos ardal y domen, a

(b) yr wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2).

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) enw neu enwau cyffredin y domen (os oes un neu rai);

(b) lleoliad y domen;

(c) dynodydd unigryw y mae'r Awdurdod wedi ei roi i'r domen;

(d) categori'r domen (gweler Pennod 4);

(e) dyddiad yr arolygiad diweddaraf o'r domen (os bu un);

(f) unrhyw wybodaeth ychwanegol a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Awdurdod cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2)(f).

(4) Ni chaniateir newid y map sy'n dangos ardal tomen nas defnyddir na newid categori tomen ond yn unol â Phennod 5.

**9 Caniatáu i'r cyhoedd weld y gofrestr**

Rhaid i'r Awdurdod sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd weld y mapiau a'r wybodaeth yn y gofrestr, ac eithrio unrhyw wybodaeth a bennir drwy reoliadau o dan adran 8(2)(f), yn electronig ar bob adeg resymol.

*Monitro tomenni cofrestredig*

**10 Dyletswydd i fonitro tomenni cofrestredig**

(1) Rhaid i'r Awdurdod fonitro sefydlogrwydd, a bygythiadau i sefydlogrwydd, pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr.

(2) Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), caiff yr Awdurdod gynnal unrhyw arolygiadau neu weithgareddau monitro eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

**PENNOD 2**

ASESU TOMENNI NAS DEFNYDDIR

*Cyffredinol*

**11 Trosolwg**

Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu tomenni nas defnyddir; yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal—

(a) asesiad rhagarweiniol o domenni nas defnyddir nad ydynt yn y gofrestr, er mwyn nodi'r tomenni hynny y gall fod angen eu cynnwys ynddi;

(b) asesiad llawn o'r tomenni hynny y mae asesiad rhagarweiniol yn nodi eu bod yn rhai y gall fod angen eu cynnwys yn y gofrestr;

(c) mewn amgylchiadau penodol, asesiad llawn o domenni sydd eisoes yn y gofrestr.

*Asesiad rhagarweiniol*

**12 Ystyr "asesiad rhagarweiniol"**

Yn y Bennod hon, ystyr "asesiad rhagarweiniol" yw asesiad o ba un a yw'n ymddangos y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir fod wedi eu bodloni.

**13 Asesiadau rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir**

(1) Rhaid i'r Awdurdod—

(a) cynnal asesiad rhagarweiniol mewn perthynas â phob tomen nas defnyddir, a

(b) llunio adroddiad ar bob asesiad.

(2) Rhaid i'r Awdurdod lunio rhaglen sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cynnal yr asesiadau rhagarweiniol sy'n ofynnol gan yr adran hon, a'i amserlen arfaethedig ar gyfer hynny.

(3) Rhaid i'r Awdurdod anfon y rhaglen at Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo cyn diwedd 12 mis sy'n dechrau â phan ddaw'r adran hon i rym.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r rhaglen ag addasiadau neu hebddynt.

(5) Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r rhaglen fel y'i cymeradwyir gan Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(6) Caiff yr Awdurdod ddiwygio'r rhaglen gyhoeddedig gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(7) Os yw'r Awdurdod yn diwygio'r rhaglen gyhoeddedig, rhaid iddo ei chyhoeddi ar ei ffurf ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y diwygiad.

(8) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r rhaglen ddiweddaraf a gyhoeddwyd ganddo o dan yr adran hon.

**14 Asesiadau rhagarweiniol ychwanegol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo asesiad rhagarweiniol wedi ei gynnal o dan y Bennod hon mewn perthynas â thomen nas defnyddir nad yw yn y gofrestr, ond bod yr Awdurdod yn ystyried y dylid cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol mewn perthynas â'r domen—

(a) oherwydd newid mewn amgylchiadau, neu

(b) oherwydd bod gwybodaeth ar gael nas ystyriwyd pan gynhaliwyd yr asesiad blaenorol.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol—

(a) cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol mewn perthynas â'r domen, a

(b) llunio adroddiad ar yr asesiad.

*Asesiad llawn*

**15 Ystyr "asesiad llawn"**

Yn y Bennod hon ystyr "asesiad llawn", mewn perthynas â thomen nas defnyddir, yw asesiad o—

(a) sefydlogrwydd y domen;

(b) materion sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y domen neu a allai effeithio ar hynny (gan gynnwys unrhyw ryngddibyniaethau rhwng y domen ac unrhyw domen nas defnyddir arall);

(c) a allai unrhyw ryngddibyniaethau rhwng y domen a thomen nas defnyddir arall effeithio ar sefydlogrwydd y domen arall;

(d) a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni.

**16 Asesiad llawn o domen anghofrestredig**

Os, ar sail asesiad rhagarweiniol o dan y Bennod hon, yr ymddengys i'r Awdurdod y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir fod wedi eu bodloni mewn perthynas â thomen nas defnyddir nad yw yn y gofrestr, rhaid i'r Awdurdod—

(a) cynnal asesiad llawn mewn perthynas â'r domen, a

(b) llunio adroddiad ar yr asesiad.

**17 Asesiad llawn o domen gofrestredig**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Awdurdod yn ystyried y dylid cynnal asesiad llawn ychwanegol mewn perthynas â thomen nas defnyddir sydd eisoes yn y gofrestr—

(a) oherwydd newid mewn amgylchiadau, neu

(b) oherwydd bod gwybodaeth ar gael nas ystyriwyd pan gynhaliwyd asesiad llawn ddiwethaf mewn perthynas â'r domen.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol—

(a) cynnal asesiad llawn ychwanegol mewn perthynas â'r domen, a

(b) llunio adroddiad ar yr asesiad.

**18 Hysbysiad o fwriad i gynnal asesiad llawn**

(1) Cyn cynnal asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar dir y mae angen mynediad iddo at ddibenion yr asesiad.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) datgan bod yr Awdurdod wedi trefnu asesiad llawn mewn perthynas â'r domen;

(b) datgan enw'r unigolyn a fydd yn cynnal yr asesiad;

(c) esbonio y gallai fod angen mynd ar y tir i gynnal yr asesiad;

(d) pennu'r dyddiad y gallai fod angen mynd ar y tir (na chaiff fod yn llai na 14 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad);

(e) datgan y caiff yr Awdurdod, oni bai mai tir y Goron yw'r tir, wneud cais am warant i fynd ar y tir o dan adran 64 os gwrthodir mynediad.

**19 Hysbysiad o gasgliadau asesiad llawn**

Pan fo'r Awdurdod yn llunio adroddiad ar asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad ynghylch casgliadau'r adroddiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno.

## PENNOD 3

### COFRESTRU A DATGOFRESTRU TOMENNI NAS DEFNYDDIR

**20 Cynnig i gofrestru tomen**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo adroddiad ar asesiad llawn o dan adran 16 yn dod i'r casgliad fod y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir wedi eu bodloni.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad ei fod yn cynnig cynnwys y domen yn y gofrestr ("hysbysiad o gofrestriad arfaethedig") i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno, a

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai.

(3) Rhaid i hysbysiad o gofrestriad arfaethedig—

(a) nodi'r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys map sy'n dangos ardal y domen;

(c) esbonio bod yr Awdurdod yn cynnig cofrestru'r domen a'i resymau dros y cynnig;

(d) pennu'r categori y mae'r Awdurdod yn ei gynnig ar gyfer y domen a'i resymau dros y cynnig;

(e) pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod ynghylch y cynnig, y mae'n rhaid iddo fod yn gyfnod o 30 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad;

(f) esbonio sut y caiff person gyflwyno sylwadau.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (3)(e) i newid y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**21 Penderfyniad ynghylch cofrestru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnig i gynnwys tomen nas defnyddir yn y gofrestr wedi dod i ben.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benderfynu pa un a yw'n fodlon bod y meini prawf ar gyfer cofrestru'r domen wedi eu bodloni.

(3) Wrth wneud ei benderfyniad, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i—

(a) casgliadau yr adroddiad ar yr asesiad llawn a grybwyllir yn adran 20, a

(b) unrhyw sylwadau a wnaed am y cynnig gan berson y rhoddwyd yr hysbysiad o gofrestriad arfaethedig iddo.

(4) Caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol.

(5) Pan fo'r Awdurdod yn penderfynu bod y meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni, rhaid iddo gynnwys y domen yn y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(6) Caiff yr Awdurdod gofrestru tomen nas defnyddir rywfodd arall yn hytrach nag yn unol â'r cynnig yn yr hysbysiad o gofrestriad arfaethedig os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(7) Rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad o benderfyniad o dan yr adran hon ("hysbysiad penderfynu") i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno,

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai, ac

(c) unrhyw berson arall y rhoddwyd yr hysbysiad o gofrestriad arfaethedig iddo.

(8) Rhaid i hysbysiad penderfynu—

(a) nodi'r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys map sy'n dangos ardal y domen;

(c) esbonio penderfyniad yr Awdurdod a'i resymau dros wneud y penderfyniad;

(d) os yw'r domen wedi ei chynnwys yn y gofrestr—

(i) pennu'r dyddiad yr ychwanegwyd y domen at y gofrestr,

(ii) pennu categori'r domen, a

(iii) pan fo'r domen wedi ei chofrestru rywfodd arall yn hytrach nag yn unol â'r hysbysiad o gofrestriad arfaethedig, esbonio unrhyw wahaniaethau a'r rhesymau dros y gwahaniaethau.

**22 Cynnig i ddileu tomen o'r gofrestr**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo adroddiad ar asesiad llawn o dan adran 17 yn dod i'r casgliad nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni mwyach mewn perthynas â thomen nas defnyddir yn y gofrestr.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad ei fod yn bwriadu dileu'r domen o'r gofrestr ("hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig") i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno, a

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai.

(3) Rhaid i hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig—

(a) nodi'r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys map sy'n dangos ardal y domen;

(c) esbonio bod yr Awdurdod yn cynnig dileu'r domen o'r gofrestr a'i resymau dros y cynnig;

(d) pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod mewn perthynas â'r cynnig, y mae'n rhaid iddo fod yn gyfnod o 30 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad;

(e) esbonio sut y caiff person gyflwyno sylwadau.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (3)(d) i newid y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**23 Penderfyniad ynghylch dileu tomen o'r gofrestr**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn perthynas â chynnig i ddileu tomen nas defnyddir o'r gofrestr wedi dod i ben.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benderfynu pa un a yw'n fodlon nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni mwyach mewn perthynas â'r domen.

(3) Wrth wneud ei benderfyniad, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i—

(a) casgliadau'r adroddiad ar yr asesiad llawn a grybwyllir yn adran 22, a

(b) unrhyw sylwadau a wnaed am y cynnig gan berson y rhoddwyd yr hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig iddo.

(4) Caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol.

(5) Pan fo'r Awdurdod yn penderfynu nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn cael eu bodloni mwyach, rhaid iddo ddileu'r domen o'r gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(6) Rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad o benderfyniad o dan yr adran hon ("hysbysiad penderfynu") i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno,

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai, ac

(c) unrhyw berson arall y rhoddwyd yr hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig iddo.

(7) Rhaid i hysbysiad penderfynu—

(a) nodi'r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys map sy'n dangos ardal y domen;

(c) esbonio penderfyniad yr Awdurdod a'i resymau dros wneud y penderfyniad;

(d) os yw'r domen wedi ei dileu o'r gofrestr, pennu'r dyddiad y cafodd ei dileu.

## PENNOD 4

## Y CATEGORÏAU O DOMENNI NAS DEFNYDDIR ETC.

**24 Categorïau tomenni nas defnyddir**

(1) Mae pedwar categori y caniateir rhoi tomen nas defnyddir yn y gofrestr ynddo o dan y Rhan hon: categori 1, 2, 3 neu 4.

(2) Mae'r pedwar categori yn cynrychioli'r graddau gwahanol y mae tomenni nas defnyddir yn peri pryder i'r Awdurdod, fel a ganlyn—

(a) categori 1 yn cynrychioli'r tomenni nas defnyddir hynny sy'n peri'r pryder mwyaf i'r Awdurdod, a

(b) categori 4 yn cynrychioli'r tomenni nas defnyddir hynny sy'n peri'r pryder lleiaf i'r Awdurdod,

ar sail asesiad o un neu ragor o'r materion a nodir yn is-adran (3).

(3) Y materion yw—

(a) ansefydlogrwydd y domen;

(b) ansefydlogrwydd posibl y domen;

(c) y bygythiad i les pobl a berir gan ansefydlogrwydd y domen;

(d) y bygythiad y gallai'r domen ei beri i les pobl pe bai ansefydlogrwydd.

**25 Datganiad polisi ar gategoreiddio**

(1) Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi datganiad o'i bolisi ar gategoreiddio tomenni nas defnyddir.

(2) Caiff yr Awdurdod ddiwygio'r datganiad ond, pan fo'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r datganiad ar ei ffurf ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y diwygiad.

**26 Categoreiddio cychwynnol tomen nas defnyddir**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) cynnig o dan adran 20 i gofrestru tomen nas defnyddir, a

(b) penderfyniad o dan adran 21 i gofrestru tomen nas defnyddir.

(2) Wrth gynnig categori neu benderfynu categori ar gyfer tomen, rhaid i'r Awdurdod—

(a) rhoi sylw i'r adroddiad ar yr asesiad llawn a gynhaliwyd o dan adran 16 mewn perthynas â'r domen, a

(b) dilyn y polisi yn y datganiad a gyhoeddir o dan adran 25.

(3) Wrth gynnig neu benderfynu categori ar gyfer tomen caiff yr Awdurdod roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol.

**27 Adolygiadau o gategori**

(1) Pan fo—

(a) yr Awdurdod yn cynnal asesiad llawn o dan adran 17 mewn perthynas â thomen nas defnyddir yn y gofrestr, a

(b) yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod y meini prawf ar gyfer cofrestru'r domen yn parhau i gael eu bodloni,

rhaid i'r Awdurdod adolygu categori'r domen cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Caiff yr Awdurdod adolygu categori tomen nas defnyddir ar unrhyw adeg arall.

(3) Os yw'r Awdurdod yn ystyried ar adolygiad y dylid newid categori tomen nas defnyddir, rhaid iddo gynnig categori gwahanol ar gyfer y domen cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(4) Wrth adolygu categori tomen nas defnyddir, ac wrth gynnig categori gwahanol ar gyfer tomen nas defnyddir, rhaid i'r Awdurdod—

(a) rhoi sylw i'r adroddiad ar yr asesiad llawn diweddaraf a gynhaliwyd mewn perthynas â'r domen, a

(b) dilyn y polisi yn y datganiad a gyhoeddir o dan adran 25.

(5) Wrth adolygu categori tomen nas defnyddir, neu gynnig categori gwahanol ar gyfer tomen nas defnyddir, caiff yr Awdurdod roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol.

(6) Gweler Pennod 5 ar gyfer darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan yr Awdurdod pan fydd yn cynnig newid i'r categori ar gyfer tomen nas defnyddir, a phan fydd yn gwneud newid o'r fath.

## PENNOD 5

## NEWIDIADAU HYSBYSADWY I'R GOFRESTR

### 28 Ystyr "newid hysbysadwy"

Yn y Bennod hon, ystyr "newid hysbysadwy" yw—

(a) newid i'r ardal a ddangosir fel ardal tomen nas defnyddir ar fap yn y gofrestr (gweler adran 8(1)(a)), neu

(b) newid i gategori tomen nas defnyddir.

### 29 Cynnig i wneud newid hysbysadwy

(1) Os yw'r Awdurdod yn cynnig gwneud newid hysbysadwy mewn perthynas â thomen nas defnyddir, rhaid iddo roi hysbysiad o'r cynnig ("hysbysiad o newid arfaethedig i'r gofrestr") i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno, a

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai.

(2) Rhaid i hysbysiad o newid arfaethedig i'r gofrestr—

(a) nodi'r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys copi o'r map yn y gofrestr sy'n dangos ardal y domen;

(c) esbonio'r newid y mae'r Awdurdod yn ei gynnig (y mae rhaid iddo, yn achos newid i ardal tomen sydd wedi ei dangos ar fap yn y gofrestr, gynnwys map sy'n dangos y diwygiadau arfaethedig wedi eu marcio'n glir);

(d) esbonio rhesymau'r Awdurdod dros y cynnig;

(e) pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod mewn perthynas â'r cynnig, y mae'n rhaid iddo fod yn gyfnod o 30 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad;

(f) esbonio sut y caiff person gyflwyno sylwadau.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (2)(e) i newid y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**30 Penderfyniad ynghylch newid hysbysadwy**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo’r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn perthynas â chynnig i wneud newid hysbysadwy wedi dod i ben.

(2) Rhaid i’r Awdurdod, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, benderfynu pa un ai i wneud y newid.

(3) Pan fo—

(a) y newid arfaethedig yn newid i’r map yn y gofrestr sy’n dangos ardal tomen nas defnyddir, a

(b) yr Awdurdod yn ystyried y dylid gwneud y newid ar ffurf addasedig,

caiff benderfynu gwneud y newid gydag unrhyw addasiadau y mae’n ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(4) Pan fo’r newid arfaethedig yn newid i gategori tomen nas defnyddir, caiff yr Awdurdod benderfynu newid y categori i gategori sy’n wahanol i’r categori a gynigiwyd ganddo.

(5) Wrth wneud ei benderfyniad o dan is-adran (2) , rhaid i’r Awdurdod roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan berson y rhoddwyd hysbysiad o’r cynnig iddo.

(6) Caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae’n ystyried ei bod yn berthnasol.

(7) Pan fo’r Awdurdod yn penderfynu gwneud newid hysbysadwy, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, ddiweddaru’r gofrestr i adlewyrchu ei benderfyniad.

(8) Rhaid i’r Awdurdod roi hysbysiad o’i benderfyniad o dan is-adran (2) (“hysbysiad penderfynu”) i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno,

(b) unrhyw berson arall a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai, ac

(c) unrhyw berson arall y rhoddwyd hysbysiad o’r newid arfaethedig i’r gofrestr iddo.

(9) Rhaid i hysbysiad penderfynu—

(a) nodi’r domen nas defnyddir;

(b) cynnwys map sy’n dangos ardal y domen;

(c) esbonio penderfyniad yr Awdurdod a’i resymau dros wneud y penderfyniad;

(d) os gwnaed newid i’r cofnod yn y gofrestr ar gyfer y domen, roi’r dyddiad y gwnaed y newid.

## PENNOD 6

DARPARIAETH ATODOL

### 31 Digollediad am ddifrod neu aflonyddu

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) arolygiad neu weithgaredd monitro arall yn cael ei gynnal o dan Bennod 1, neu

(b) asesiad rhagarweiniol neu asesiad llawn yn cael ei gynnal o dan Bennod 2.

(2) Os, o ganlyniad i gynnal yr arolygiad, y gweithgaredd neu’r asesiad—

(a) difrodir unrhyw dir neu eiddo arall, neu

(b) aflonyddir ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir,

mae gan y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) hawlogaeth i adennill digollediad oddi wrth yr Awdurdod mewn cysylltiad â’r difrod neu’r aflonyddu.

(3) Y personau yw—

(a) yn achos difrod i dir, unrhyw berson a chanddo ystad neu fuddiant yn y tir;

(b) yn achos difrod i eiddo arall, perchennog yr eiddo;

(c) mewn achos o aflonyddu ar fwynhad person o dir, y person yr aflonyddir ar ei fwynhad o’r tir.

(4) Mae unrhyw anghydfod sy’n codi ynghylch hawliad am ddigollediad o dan yr adran hon i’w benderfynu gan y llys.

(5) Mae Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â hawliadau penodol am ddigollediad o dan yr adran hon.

### 32 Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau

(1) Mae person sy’n rhwystro’n fwriadol neu’n ymyrryd yn fwriadol ag—

(a) arolygiad neu weithgaredd monitro arall o dan Bennod 1, neu

(b) asesiad rhagarweiniol neu asesiad llawn o dan Bennod 2,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(3) Nid yw torri is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy’n gwasanaethu’r Goron).

## RHAN 3

## YMDRIN AG ANSEFYDLOGRWYDD TOMEN A BYGYTHIADAU I SEFYDLOGRWYDD TOMEN

### PENNOD 1

### EI GWNEUD YN OFYNNOL I BERCHENNOG AR DIR I GYNNAL GWEITHREDIADAU

**33 Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir i gynnal gweithrediadau**

(1) Caiff yr Awdurdod drwy hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau ar y tir os yw'r Awdurdod yn ystyried bod y gweithrediadau yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan a ganlyn.

(2) Yr amcan yw—

(a) atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu

(b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog,

er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) y domen nas defnyddir y rhoddir yr hysbysiad mewn cysylltiad â hi,

(b) y gweithrediadau y mae rhaid eu cynnal, ac

(c) y bygythiad i les pobl y bwriedir i'r gweithrediadau penodedig ei osgoi neu ei leihau.

(4) Rhaid i hysbysiad hefyd bennu'r cyfnod y mae'r gweithrediadau i'w cwblhau ynddo, a rhaid iddo fod yn gyfnod sy'n dechrau o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog.

**34 Hawl y perchennog i fynd ar dir etc.**

(1) O dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) os nad yw perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33 yn meddiannu'r tir, neu unrhyw ran o'r tir, y mae rhaid cynnal y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad arno, a

(b) os yw ystad y perchennog yn y tir yn uwch nag unrhyw ystad neu fuddiant sydd gan y meddiannydd,

mae gan y perchennog yr hawl i fynd ar y tir er mwyn cynnal y gweithrediadau ac unrhyw waith adfer canlyniadol.

(2) Caiff perchennog sy'n arfer hawl mynediad o dan is-adran (1) fynd ag unrhyw bersonau eraill, unrhyw gyfarpar ac unrhyw ddeunydd ar y tir fel y bo'n angenrheidiol.

(3) Caiff perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33, at ddiben cynnal gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad ar y tir, symud ymaith a gwaredu unrhyw eiddo y mae person arall yn berchen arno sydd wedi ei leoli ar y tir.

(4) Os yw perchennog ar dir yn gwaredu eiddo o dan is-adran (3) drwy ei werthu, rhaid i berchennog y tir roi cyfrif i berchennog yr eiddo am yr enillion gwerthu.

(5) Nid yw is-adran (4) yn atal perchennog ar dir rhag—

(a) didynnu o'r enillion gwerthu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol gan y perchennog wrth werthu'r eiddo;

(b) gosod yr enillion gwerthu, neu unrhyw ran o'r enillion hynny, yn erbyn unrhyw swm y mae gan y perchennog hawlogaeth i'w adennill oddi wrth berchennog yr eiddo o dan Bennod 3.

**35 Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant**

(1) Pan fo'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad i berchennog ar dir o dan adran 33, rhaid iddo hefyd roi copi o'r hysbysiad i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr hysbysiad.

(2) At ddibenion yr adran hon, mae'r personau a ganlyn (yn ogystal â'r perchennog) yn bersonau a chanddynt fuddiant mewn hysbysiad—

(a) person sy'n meddiannu tir y mae'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad i'w cynnal arno;

(b) person a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai;

(c) person—

(i) a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, heblaw fel morgeisai, ystâd neu fuddiant yn y tir y mae'r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno, neu

(ii) y bu ganddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, heblaw fel morgeisai, ystâd neu fuddiant yn y tir hwnnw ar unrhyw adeg yn y 12 mlynedd cyn y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog;

(d) person a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, fuddiant yn (gan gynnwys hawl i gaffael) yr holl ddeunydd neu unrhyw ddeunydd sydd yn y domen nas defnyddir;

(e) person sydd, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (c), wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel;

(f) person y mae'r Awdurdod yn credu ei fod, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (c), wedi peri neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad drwy—

(i) cynnal gweithrediadau eraill neu gyflawni unrhyw weithgaredd arall ar unrhyw dir, neu

(ii) methu â gwneud rhywbeth y gallai'r person yn rhesymol fod wedi ei wneud ar unrhyw dir i osgoi creu neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "tomen nas defnyddir" yw'r domen nas defnyddir y rhoddir yr hysbysiad o dan adran 33 mewn cysylltiad â hi.

(4) Rhaid i'r Awdurdod roi'r copïau sy'n ofynnol gan yr adran hon o fewn 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog.

**36 Hawl perchennog a phartïon â buddiant i apelio yn erbyn hysbysiad**

(1) Caiff perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33, neu berson y rhoddir copi o'r hysbysiad iddo o dan adran 35, wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio neu ganslo'r hysbysiad.

(2) Rhaid gwneud cais o dan yr adran hon o fewn 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog.

(3) Caniateir gwneud cais o dan yr adran hon ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) nad oes sail resymol dros gredu bod y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad yn angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau'r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;

(b) bod y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad yn fwy helaeth nag sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau'r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;

(c) bod—

(i) y bygythiad i les dynol a bennir yn yr hysbysiad yn fygythiad y gellid ei osgoi, neu ei leihau i'r un graddau o leiaf, drwy gynnal gweithrediadau gwahanol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad, a

(ii) y perchennog yn fodlon cynnal y gweithrediadau amgen;

(d) bod—

(i) y perchennog neu berson arall eisoes wedi dechrau, neu wedi ymrwymo i gontract gyda thrydydd parti i ddechrau, gweithrediadau sy'n wahanol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad, a

(ii) y gweithrediadau amgen yn osgoi, neu'n lleihau i'r un graddau o leiaf, y bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad;

(e) nad yw'r cyfnod y mae rhaid cynnal y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad ynddo yn rhesymol ddigonol;

(f) bod diffyg neu wall perthnasol yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef.

(4) Caiff perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33 hefyd wneud cais o dan yr adran hon ar y sail nad yw'r perchennog yn gallu talu costau'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad.

(5) Ar ôl cael cais o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu—

(a) yr Awdurdod, a

(b) pob person y rhoddwyd yr hysbysiad neu gopi o'r hysbysiad iddo.

**37 Penderfynu apelau**

(1) Mae cais o dan adran 36 i'w benderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru ("person penodedig").

(2) Os yw'r person penodedig wedi ei fodloni, ar gais o dan adran 36, fod y sail (neu unrhyw un neu ragor o'r seiliau) y gwneir y cais arno wedi ei phrofi neu eu profi, caiff y person penodedig amrywio neu ganslo'r hysbysiad drwy gyfarwyddyd.

(3) Pan fo person penodedig yn amrywio hysbysiad o dan is-adran (2), mae'r hysbysiad ac unrhyw gopi ohono a roddir o dan adran 35 i'w drin fel pe bai bob amser wedi cael effaith fel y'i hamrywiwyd.

(4) Pan wneir cais o dan adran 36 ac nad yw'n cael ei dynnu'n ôl, nid yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fel y cyfnod y mae rhaid cwblhau'r gweithrediadau ynddo yn dod i ben cyn penderfynu'r cais.

(5) Pan wneir cais o dan adran 36, caiff y person penodedig estyn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fel y cyfnod y mae rhaid cwblhau'r gweithrediadau ynddo, ni waeth pa un a yw'r sail (neu unrhyw un neu ragor o'r seiliau) y gwneir y cais arno wedi ei phrofi neu eu profi.

(6) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i berson penodedig benderfynu cais o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r personau a ganlyn am y canlyniad—

(a) yr Awdurdod, a

(b) pob person y rhoddwyd yr hysbysiad neu gopi o'r hysbysiad iddo.

(7) Pan fo person penodedig yn amrywio hysbysiad, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd roi copi o'r hysbysiad fel y'i hamrywiwyd i'r personau a grybwyllir yn is-adran (6)(a) a (b).

**38 Darpariaeth atodol ynghylch apelau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch y weithdrefn i'w dilyn wrth benderfynu ceisiadau o dan adran 36.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â phenderfynu ceisiadau o dan adran 36.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, ymysg pethau eraill, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch presenoldeb a holi partïon neu dystion (gan gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi person penodedig i weinyddu llwon neu i gymryd cadarnhadau);

(b) ynghylch dangos dogfennau ac arolygu dogfennau;

(c) ar gyfer pwerau i fynd ar dir.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon roi disgresiwn i berson.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon greu troseddau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y rheoliadau neu odanynt.

**39 Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad**

(1) Mae perchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33 yn cyflawni trosedd os yw'r perchennog, heb esgus rhesymol, yn methu â chynnal y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad neu, os caiff y cyfnod hwnnw ei estyn o dan adran 37, o fewn y cyfnod estynedig.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(3) Nid yw torri is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy'n gwasanaethau'r Goron).

**40 Pŵer i ganslo hysbysiad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo'r Awdurdod wedi rhoi hysbysiad i berchennog ar dir o dan adran 33 ("yr hysbysiad adran 33"), a

(b) pan na fo'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad wedi eu cwblhau.

(2) Caiff yr Awdurdod roi hysbysiad i'r perchennog ("hysbysiad canslo") yn canslo'r hysbysiad adran 33.

(3) Pan roddir hysbysiad canslo i berchennog ar dir, nid yw'n ofynnol mwyach i'r perchennog gynnal y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad adran 33.

(4) Caiff yr Awdurdod roi hysbysiad canslo hyd yn oed—

(a) os yw cais o dan adran 36 wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r hysbysiad adran 33,

(b) os yw'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad adran 33 wedi dechrau cael eu cynnal, neu

(c) os yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad adran 33 ar gyfer cwblhau'r gweithrediadau wedi dod i ben.

(5) Pan fo'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad canslo o dan yr adran hon, rhaid iddo hefyd roi copi o'r hysbysiad i bob person a gafodd gopi o'r hysbysiad adran 33.

(6) Nid yw hysbysiad canslo yn effeithio ar—

(a) unrhyw gosb a gafwyd eisoes gan y perchennog o dan adran 39, neu

(b) pŵer yr Awdurdod i roi hysbysiad pellach o dan adran 33 mewn perthynas â'r tir.

**41 Ad-dalu treuliau'r perchennog ar ôl canslo hysbysiad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo'r Awdurdod wedi canslo hysbysiad a roddwyd o dan adran 33, a

(b) pan fo perchennog ar dir y rhoddwyd yr hysbysiad iddo wedi mynd i wariant wrth gydymffurfio ag ef.

(2) Caiff y perchennog wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ad-daliad gan yr Awdurdod ar gyfer—

(a) unrhyw wariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad i roi'r hysbysiad, a

(b) unrhyw wariant yr aed iddo gan y perchennog y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad (pa un a ellir ei briodoli i adfer unrhyw dir, canslo unrhyw gontract neu fel arall).

(3) Mae cais o dan yr adran hon i'w benderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru ("person penodedig").

(4) Caiff y person penodedig gyfarwyddo'r Awdurdod i ad-dalu i'r perchennog y cyfan neu unrhyw ran o'r gwariant y cyfeirir ato yn is-adran (2).

(5) Wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd o dan is-adran (4), neu i ba raddau y dylai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ad-dalu'r perchennog, rhaid i'r person penodedig roi sylw i holl amgylchiadau'r achos ac, yn benodol, i—

(a) y seiliau y rhoddodd yr awdurdod yr hysbysiad canslo arnynt o dan adran 40, a

(b) pa un a yw'r Awdurdod wedi rhoi neu'n bwriadu rhoi hysbysiad pellach i'r perchennog o dan adran 33 neu'n bwriadu cynnal gweithrediadau ei hun o dan adran 42.

(6) Rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (4).

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu ceisiadau o dan yr adran hon.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â phenderfynu ceisiadau o dan yr adran hon.

(9) Mae is-adrannau (3) i (5) o adran 38 yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau o dan yr adran hon fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr is-adrannau hynny at adran 38 yn gyfeiriadau at yr adran hon.

## PENNOD 2

## GWEITHREDIADAU A GYNHELIR GAN YR AWDURDOD

### 42 Pŵer yr Awdurdod i gynnal gweithrediadau

(1) Caiff yr Awdurdod gynnal gweithrediadau ar unrhyw dir os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn cyflawni'r amcan a ganlyn, ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 44.

(2) Yr amcan yw—

(a) atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu

(b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog,

er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

(3) Pan fo'r Awdurdod yn cynnal gweithrediadau o dan is-adran (1), caiff hefyd gynnal unrhyw waith adfer canlyniadol y mae'n ystyried ei fod yn rhesymol angenrheidiol.

### 43 Hawl yr Awdurdod i symud ymaith eiddo a'i waredu

(1) Caiff yr Awdurdod, at ddiben cynnal gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol ar dir o dan adran 42, symud ymaith a gwaredu unrhyw eiddo y mae person arall yn berchen arno sydd wedi ei leoli ar y tir.

(2) Os yw'r Awdurdod yn gwaredu eiddo o dan is-adran (1) drwy ei werthu, rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif i berchennog yr eiddo am yr enillion gwerthu.

(3) Nid yw is-adran (2) yn atal yr Awdurdod rhag—

(a) didynnu o'r enillion gwerthu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol gan yr Awdurdod wrth werthu'r eiddo;

(b) gosod yr enillion gwerthu, neu unrhyw ran o'r enillion hynny, yn erbyn unrhyw swm y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w adennill oddi wrth berchennog yr eiddo o dan Bennod 3.

**44 Dyletswydd i roi hysbysiad i berchnogion**

(1) Ni chaiff yr Awdurdod gynnal gweithrediadau ar dir o dan adran 42 oni bai ei fod wedi rhoi o leiaf 21 o ddiwrnodau clir o hysbysiad i berchennog y tir o'i fwriad i wneud hynny, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (3).

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1) bennu—

(a) y domen nas defnyddir y rhoddir yr hysbysiad mewn cysylltiad â hi,

(b) natur a maint y gweithrediadau arfaethedig ac unrhyw waith adfer canlyniadol arfaethedig, ac

(c) y bygythiad i les pobl y bwriedir i'r gweithrediadau ei osgoi neu ei leihau.

(3) Os yw'r Awdurdod yn ystyried bod angen cynnal gweithrediadau ar unwaith, caiff gynnal y gweithrediadau hynny—

(a) heb roi hysbysiad o dan is-adran (1), neu

(b) pan fo wedi rhoi hysbysiad o dan is-adran (1), cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-adran honno.

(4) Pan fo'r Awdurdod yn dechrau gweithrediadau ar dir heb roi hysbysiad, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad i berchennog y tir bod y gweithrediadau wedi dechrau.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (4) bennu—

(a) y domen nas defnyddir y rhoddir yr hysbysiad mewn cysylltiad â hi,

(b) natur a maint gweithrediadau ac unrhyw waith adfer canlyniadol, ac

(c) y bygythiad i les pobl y bwriedir i'r gweithrediadau ei osgoi neu ei leihau.

**45 Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant**

(1) Pan fo'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad o dan adran 44 i berchennog ar dir, rhaid iddo hefyd roi copi o'r hysbysiad i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr hysbysiad.

(2) At ddibenion yr adran hon, mae'r personau a ganlyn (yn ychwanegol at y perchennog) yn bersonau a chanddynt fuddiant mewn hysbysiad—

(a) person sy'n meddiannu tir y mae'r gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad i'w cynnal arno;

(b) person a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw heblaw fel morgeisai;

(c) person—

(i) a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, heblaw fel morgeisai, ystâd neu fuddiant yn y tir y mae'r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno, neu

(ii) y bu ganddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, heblaw fel morgeisai, ystâd neu fuddiant yn y tir hwnnw ar unrhyw adeg yn y 12 mlynedd cyn y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog;

(d) person a chanddo, hyd y gŵyr yr Awdurdod, fuddiant yn (gan gynnwys hawl i gaffael) yr holl ddeunydd neu unrhyw ddeunydd sydd yn y domen nas defnyddir;

(e) person sydd, hyd y gŵyr yr Awdurdod, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (c), wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel;

(f) person y mae'r Awdurdod yn credu ei fod ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (c), wedi peri neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad drwy—

(i) cynnal gweithrediadau eraill neu gyflawni unrhyw weithgaredd arall ar unrhyw dir, neu

(ii) methu â gwneud rhywbeth y gallai'r person yn rhesymol fod wedi ei wneud ar unrhyw dir i osgoi creu neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "tomen nas defnyddir" yw'r domen nas defnyddir y rhoddir yr hysbysiad o dan adran 44 mewn cysylltiad â hi.

(4) Rhaid i'r Awdurdod roi'r copïau sy'n ofynnol gan yr adran hon ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y diwrnod hwnnw.

## PENNOD 3

## TALIADAU MEWN CYSYLLTIAD Â GWEITHREDIADAU

### 46 Gorchmynion cyfrannu

(1) Caiff y llys, ar gais a wneir o dan yr adran hon, orchymyn bod rhaid i un neu ragor o'r personau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) gyfrannu tuag at y treuliau y byddai'n rhaid i berchennog ar dir eu hysgwyddo fel arall o ganlyniad i gynnal gweithrediadau a bennir mewn hysbysiad o dan adran 33 neu 44.

(2) Y personau yw—

(a) person yr oedd ganddo, heblaw fel morgeisai, ystad neu fuddiant yn y tir y mae'r domen nas defnyddir wedi ei lleoli arno—

(i) ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad i'r perchennog, neu

(ii) ar unrhyw adeg yn y 12 mlynedd sy'n dod i ben yn union cyn y diwrnod hwnnw;

(b) person sydd, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (a), wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel;

(c) person sydd, ym marn y llys, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mlynedd a grybwyllir ym mharagraff (a), wedi peri neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad drwy—

(i) cynnal gweithrediadau eraill neu gyflawni unrhyw weithgaredd arall ar unrhyw dir, neu

(ii) methu â gwneud rhywbeth y gallai'r person yn rhesymol fod wedi ei wneud ar unrhyw dir i osgoi creu neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "tomen nas defnyddir" yw'r domen nas defnyddir y rhoddwyd yr hysbysiad mewn cysylltiad â hi.

(4) Caiff cais o dan yr adran hon gael ei wneud gan—

(a) y perchennog ar dir y rhoddwyd yr hysbysiad iddo, a

(b) yn achos hysbysiad o dan adran 44, yr Awdurdod.

(5) Rhaid i berson sy'n gwneud cais o dan yr adran hon, ar yr un pryd, roi copi o'r cais i bob person y ceisir gorchymyn mewn perthynas ag ef.

(6) Rhaid i gais o dan yr adran hon gael ei wneud—

(a) pan fo'n ymwneud â hysbysiad o dan adran 33 ac nad oes cais yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r hysbysiad hwnnw o dan adran 36 (hawl i apelio yn erbyn hysbysiad), o fewn 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad;

(b) pan fo'n ymwneud â hysbysiad o dan adran 33 ac y gwneir cais mewn cysylltiad â'r hysbysiad hwnnw o dan adran 36, o fewn 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y cais ei dynnu yn ôl neu ei benderfynu;

(c) pan fo'n ymwneud â hysbysiad o dan adran 44, o fewn 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

(7) Wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn o dan yr adran hon, ac wrth bennu swm unrhyw gyfraniad, rhaid i'r llys roi sylw i'r holl amgylchiadau, ac yn benodol—

(a) i'r graddau y mae'n ymddangos i'r llys fod y person, drwy unrhyw weithred neu anweithred, wedi peri neu gyfrannu at yr angen am y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad;

(b) i'r graddau y mae'r person wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel;

(c) i natur a maint unrhyw ystad neu fuddiant a oedd gan y person, ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad, yn y tir yr oedd y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad i'w cynnal arno;

(d) pan fu gan berson ystad neu fuddiant yn y tir hwnnw ond yr oedd wedi ei waredu cyn y dyddiad hwnnw, i ba un, a wnaeth y person hwnnw, yn marn y llys, y gwarediad hwnnw at y diben o osgoi unrhyw atebolrwydd (pa un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) mewn cysylltiad â'r tir;

(e) i delerau unrhyw gyfamod, cytundeb neu ddarpariaeth statudol sy'n effeithio ar hawliau a rhwymedigaethau'r person a'r perchennog mewn perthynas â'r tir hwnnw.

(8) Rhaid i orchymyn o dan yr adran hon bennu swm y cyfraniad sydd i'w wneud gan y person y mae'n ymwneud ag ef fel canran (a all fod yn 100 y cant) o'r cyfanswm y gellir hawlio cyfraniad mewn cysylltiad ag ef o dan y Bennod hon.

**47 Ystyr "gorchymyn cyfrannu", "cyfrannydd" ac "y ganran benodedig"**

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "gorchymyn cyfrannu" ("*contribution order*") yw gorchymyn o dan adran 46;

ystyr "cyfrannydd" ("*contributory*") yw'r person y mae gorchymyn cyfrannu yn ymwneud ag ef;

ystyr "y ganran benodedig" ("*the specified percentage*") , mewn perthynas â chyfrannydd, yw'r ganran a bennir, yn unol ag adran 46(8), yn y gorchymyn cyfrannu sy'n ymwneud â'r cyfrannydd.

**48 Digollediad am ddifrod, colled neu aflonyddu etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo, o ganlyniad i weithrediadau a gynhelir gan berchennog ar dir mewn cydymffurfedd â hysbysiad o dan adran 33, neu unrhyw waith adfer canlyniadol—

(i) unrhyw dir yn cael ei ddifrodi,

(ii) unrhyw eiddo arall yn cael ei ddifrodi, ei symud ymaith neu ei waredu, neu

(iii) aflonyddu ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir;

(b) pan fo, o ganlyniad i weithrediadau, neu unrhyw waith adfer canlyniadol, a gynhelir gan yr Awdurdod o dan adran 42—

(i) unrhyw dir yn cael ei ddifrodi,

(ii) unrhyw eiddo arall yn cael ei ddifrodi, ei symud ymaith neu ei waredu, neu

(iii) aflonyddu ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir;

(c) pan fo, o ganlyniad i ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 53 i benderfynu a oes angen i weithrediadau fod yn ofynnol o dan adran 33 neu a oes angen eu cynnal o dan adran 42—

(i) unrhyw dir yn cael ei ddifrodi,

(ii) unrhyw eiddo arall yn cael ei ddifrodi, neu

(iii) aflonyddu ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir.

(2) Mae gan y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) hawlogaeth i ddigollediad mewn perthynas â'r difrod, y golled neu'r aflonyddu neu, yn achos symud ymaith eiddo, mewn perthynas ag unrhyw golled ariannol y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r symud ymaith.

(3) Y personau yw—

(a) yn achos difrod i dir, unrhyw berson a chanddo ystad neu fuddiant yn y tir;

(b) yn achos difrod i eiddo arall, neu symud ymaith neu waredu'r eiddo hwnnw, perchennog yr eiddo;

(c) mewn achos o aflonyddu ar fwynhad person o dir, y person yr aflonyddir ar ei fwynhad o'r tir.

(4) Mae digollediad mewn perthynas â difrod, symud ymaith, colled neu aflonyddu sy'n deillio o gynnal gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol yn adenilladwy oddi wrth—

(a) perchennog y tir, os cynhaliwyd y gweithrediadau neu'r gwaith gan y perchennog;

(b) yr Awdurdod, os cynhaliwyd y gweithrediadau neu’r gwaith gan yr Awdurdod.

(5) Mae digollediad mewn perthynas â difrod neu aflonyddu sy’n deillio o gynnal ymchwiliadau yn adenilladwy oddi wrth yr Awdurdod.

(6) Nid oes dim yn yr adran hon yn rhoi hawlogaeth i berchennog ar dir i gael digolledіad mewn perthynas â difrod, symud ymaith, colled neu aflonyddu sy’n deillio o weithrediadau a gynhelir gan y perchennog neu gan unrhyw berson arall a oedd yn berchennog ar y tir ar yr adeg y cynhaliwyd y gweithrediadau.

(7) Mae unrhyw anghydfod sy’n codi ynghylch hawliad am ddigolledіad o dan yr adran hon i’w benderfynu gan y llys.

(8) Mae Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â hawliadau penodol am ddigolledіad o dan yr adran hon.

**49 Hawl perchennog i adennill treuliau oddi wrth gyfrannydd**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) perchennog ar dir wedi cynnal gweithrediadau mewn cydymffurfedd â hysbysiad o dan adran 33, a

(b) gorchymyn cyfrannu wedi ei wneud mewn perthynas â’r gweithrediadau hynny.

(2) Mae gan berchennog y tir hawlogaeth i adennill oddi wrth y cyfrannydd y ganran benodedig o’r cyfanswm a bennir yn unol ag is-adran (3) (ond gweler is-adran (7)).

(3) At ddibenion yr adran hon, y cyfanswm yw swm cyfanredol—

(a) y treuliau yr eir iddynt yn rhesymol gan berchennog y tir wrth gynnal y gweithrediadau ac unrhyw waith adfer sy’n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i gynnal y gweithrediadau hynny,

(b) swm unrhyw ddigolledіad sy’n adenilladwy (neu a adenillwyd) oddi wrth berchennog y tir o dan adran 48, ac

(c) swm unrhyw ddigolledіad o dan adran 48 y gallai perchennog y tir fod wedi gwneud hawliad o dan yr adran honno mewn cysylltiad ag ef pe bai’r gweithrediadau ac unrhyw waith adfer canlyniadol wedi cael eu cynnal gan yr Awdurdod.

(4) Nid yw unrhyw gyfraniad yn adenilladwy o dan yr adran hon oni bai bod y perchennog yn rhoi archiad i’r cyfrannydd am y cyfraniad.

(5) Rhaid i archiad o dan is-adran (4) bennu—

(a) swm y cyfraniad;

(b) y cyfanswm yr hawlir y cyfraniad mewn perthynas ag ef;

(c) y symiau ar wahân sy’n ffurfio’r cyfanswm, a nodwyd drwy gyfeirio at baragraffau (a), (b) ac (c) o is-adran (3).

(6) Mae archiad o dan is-adran (4) yn derfynol ac yn bendant, oni bai bod cais i amrywio’r archiad yn cael ei wneud o dan adran 50.

(7) Pan fo perchennog y tir wedi cynnal gweithrediadau a bennir mewn hysbysiad o dan adran 33 a bod yr hysbysiad hwnnw yn cael ei ganslo gan yr Awdurdod o dan adran 40, mae’r adran hon ac adran 50 yn cael effaith gyda’r addasiadau yn Atodlen 3.

**50 Hawl cyfrannydd i apelio yn erbyn archiad perchennog**

(1) Caiff cyfrannydd y rhoddir archiad iddo o dan adran 49(4) wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n amrywio'r archiad.

(2) Rhaid gwneud cais o dan yr adran hon o fewn 6 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr archiad i'r cyfrannydd.

(3) Caniateir gwneud cais o dan yr adran hon ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) bod swm y treuliau yr aed iddynt gan berchennog y tir wrth gynnal y gweithrediadau yn fwy nag a oedd yn rhesymol;

(b) bod swm y treuliau yr aed iddynt gan berchennog y tir wrth gynnal gwaith adfer yn fwy nag a oedd yn rhesymol angenrheidiol i adfer y tir o ganlyniad i'r gweithrediadau;

(c) bod swm y digollediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag y byddai wedi bod fel arall, oherwydd bod y perchennog ar y tir wedi cymryd amser afresymol o hir i gynnal y gweithrediadau neu'r gwaith adfer canlyniadol;

(d) bod swm y digollediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag sy'n angenrheidiol i ddigolledu'r person o dan yr adran honno;

(e) bod y swm a bennir yn yr archiad fel y swm y cyfeirir ato yn adran 49(3)(c) yn fwy na'r digollediad y gallai perchennog y tir fod wedi ei hawlio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw;

(f) bod y swm a hawlir yn yr archiad yn fwy na'r ganran benodedig o'r cyfanswm a bennir o dan adran 49(3).

(4) Os yw'r llys wedi ei fodloni bod y sail (neu unrhyw un neu ragor o'r seiliau) ar gyfer y cais yn wedi ei phrofi neu eu profi, caiff y llys wneud gorchymyn sy'n lleihau'r swm y gellir ei adennill gan berchennog y tir oddi wrth y cyfrannydd.

**51 Hawl yr Awdurdod i adennill treuliau penodol**

(1) Pan fo'r Awdurdod wedi cynnal gweithrediadau ar dir o dan adran 42, mae ganddo hawlogaeth i adennill oddi wrth berchennog y tir—

(a) y treuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan yr Awdurdod wrth gynnal unrhyw ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at gynnal y gweithrediadau,

(b) y treuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan yr Awdurdod wrth gynnal y gweithrediadau ac unrhyw waith adfer a oedd yn rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i gynnal y gweithrediadau, ac

(c) swm unrhyw ddigollediad o dan adran 48 sy'n adenilladwy (neu a adenillwyd) oddi wrth yr Awdurdod yn unol â hawliad o dan yr adran honno.

(2) Pan fo'r Awdurdod wedi cynnal ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at roi hysbysiad o dan adran 33 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau ar y tir, mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i adennill oddi wrth y perchennog ar y tir—

(a) y treuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan yr Awdurdod wrth gynnal yr ymchwiliadau, a

(b) swm unrhyw ddigollediad o dan adran 48 sy'n adenilladwy (neu a adenillwyd) oddi wrth yr Awdurdod yn unol â hawliad o dan yr adran honno.

(3) Pan fo gorchymyn cyfrannu wedi ei wneud mewn perthynas â'r treuliau y byddai'n rhaid i berchennog y tir eu hysgwyddo fel arall o dan is-adran (1) neu (2)—

(a) mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i adennill oddi wrth y cyfrannydd y ganran benodedig o'r swm sy'n adenilladwy oddi wrth berchennog y tir o dan yr is-adran berthnasol, a

(b) mae'r swm y caiff yr Awdurdod ei adennill oddi wrth berchennog y tir o dan yr is-adran berthnasol yn cael ei ostwng gan y swm y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w adennill oddi wrth y cyfrannydd o dan baragraff (a).

(4) Nid yw unrhyw swm yn adenilladwy o dan yr adran hon oddi wrth berchennog ar dir neu gyfrannydd oni bai bod yr Awdurdod yn rhoi archiad i'r person hwnnw am y swm hwnnw.

(5) Rhaid i archiad o dan is-adran (4) bennu—

(a) y swm a hawlir gan yr Awdurdod oddi wrth y person;

(b) os rhoddir yr archiad i gyfrannydd, y cyfanswm yr hawlir y cyfraniad mewn cysylltiad ag ef;

(c) os rhoddir yr archiad i berchennog y tir, y symiau (os oes rhai) y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w hadennill oddi unrhyw gyfrannydd neu gyfranwyr;

(d) ym mhob achos, y symiau ar wahân sy'n ffurfio'r cyfanswm sy'n adenilladwy gan yr Awdurdod, a nodir drwy gyfeirio at baragraffau (a) i (c) o is-adran (1) neu, yn ôl y digwydd, baragraffau (a) a (b) o is-adran (2).

(6) Mae archiad o dan is-adran (4) yn derfynol ac yn bendant, oni bai bod cais i amrywio neu ganslo'r archiad yn cael ei wneud o dan adran 52.

(7) Mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i adennill llog ar unrhyw swm sy'n adenilladwy o dan yr adran hon, ar gyfradd a bennir gan yr Awdurdod, o'r dyddiad y rhoddir yr archiad am y swm i'r person hyd nes y telir y swm yn llawn.

(8) Caniateir i unrhyw swm sy'n adenilladwy o dan yr adran hon, os yw'r Awdurdod yn cytuno, gael ei dalu mewn rhandaliadau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod.

(9) At ddibenion yr adran hon—

(a) perchennog y tir—

(i) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1), yw'r person a oedd yn berchennog pan ddechreuodd yr Awdurdod gynnal y gweithrediadau y cyfeirir atynt yn yr is-adran honno;

(ii) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (2), yw'r person y rhoddwyd yr hysbysiad y cyfeirir ato yn yr is-adran honno iddo;

(b) mae ymchwiliadau i'w trin fel pe baent wedi arwain at gynnal gweithrediadau o dan adran 42 os dechreuodd yr Awdurdod gynnal y gweithrediadau o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliadau;

(c) mae ymchwiliadau i'w trin fel pe baent wedi arwain at roi hysbysiad o dan adran 33 i berchennog ar dir os rhoddodd yr Awdurdod hysbysiad o dan yr adran honno i berchennog y tir o fewn 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliadau.

**52 Yr hawl i apelio yn erbyn archiad yr Awdurdod**

(1) Caiff person y rhoddir archiad iddo o dan adran 51(4) wneud cais i'r llys am orchymyn yn amrywio neu ganslo'r archiad.

(2) Rhaid gwneud cais o dan yr adran hon o fewn 6 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr archiad i'r person.

(3) Pan fo'r archiad yn cael ei wneud mewn achos sy'n dod o fewn adran 51(1), y seiliau y caniateir gwneud cais arnynt yw—

(a) bod swm y treuliau yr aed iddynt gan yr Awdurdod wrth gynnal yr ymchwiliadau neu'r gweithrediadau yn fwy nag a oedd yn rhesymol;

(b) bod swm y treuliau yr aed iddynt gan yr Awdurdod wrth gynnal gwaith adfer yn fwy nag a oedd yn rhesymol angenrheidiol i adfer y tir o ganlyniad i'r gweithrediadau;

(c) nad oedd unrhyw sail resymol dros gredu, ar yr adeg y dechreuwyd y gweithrediadau, bod y gweithrediadau'n angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau'r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad a roddwyd i berchennog y tir o dan adran 44 ynghylch y gweithrediadau;

(d) bod y gweithrediadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn fwy helaeth nag oedd yn angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau'r bygythiad i les pobl a bennir yn yr hysbysiad a roddwyd i berchennog y tir o dan adran 44 ynghylch y gweithrediadau;

(e) bod swm y digolllediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag y byddai wedi bod fel arall, oherwydd bod yr amser a gymerodd yr Awdurdod i gynnal yr ymchwiliadau neu'r gweithrediadau neu unrhyw waith adfer canlyniadol yn afresymol o hir;

(f) bod swm y digolllediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag sy'n angenrheidiol i ddigolledu'r person o dan yr adran honno;

(g) yn achos archiad a roddir i gyfrannydd, bod y swm a hawlir yn yr archiad yn fwy na'r ganran benodedig o'r cyfanswm sy'n adenilladwy gan yr Awdurdod o dan adran 51(1);

(h) yn achos archiad a roddir i berchennog y tir y cynhaliwyd y gweithrediadau arno, nad yw'r swm a hawlir yn yr archiad yn rhoi ystyriaeth briodol i swm y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w adennill oddi wrth gyfrannydd.

(4) Pan fo'r archiad yn cael ei wneud mewn achos sy'n dod o fewn adran 51(2), y seiliau y caniateir gwneud cais arnynt yw—

(a) bod swm y treuliau yr aed iddynt gan yr Awdurdod wrth gynnal yr ymchwiliadau yn fwy nag a oedd yn rhesymol;

(b) bod y digollediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag y byddai wedi bod fel arall, oherwydd bod yr amser a gymerodd yr Awdurdod i gynnal yr ymchwiliadau yn afresymol o hir;

(c) bod swm y digollediad a dalwyd neu sy'n daladwy i berson yn unol â hawliad o dan adran 48 yn fwy nag sy'n angenrheidiol i ddigolledu'r person o dan yr adran honno;

(d) yn achos archiad a roddir i gyfrannydd, bod y swm a hawlir yn yr archiad yn fwy na'r ganran benodedig o'r cyfanswm sy'n adenilladwy gan yr Awdurdod o dan adran 51(2);

(e) yn achos archiad a roddir i berchennog y tir y cynhaliwyd y gweithrediadau arno, nad yw'r swm a hawlir yn yr archiad yn rhoi ystyriaeth briodol i swm y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w adennill oddi wrth gyfrannydd.

(5) Os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni bod sail (neu unrhyw un neu ragor o seiliau) y cais yn gymwys, caiff y llys wneud gorchymyn—

(a) yn canslo'r archiad y gwnaed y cais mewn cysylltiad ag ef, neu

(b) yn gostwng y swm sy'n adenilladwy oddi wrth y person y rhoddwyd yr archiad iddo.

## PENNOD 4

### DARPARIAETH ATODOL

**53 Pŵer i gynnal ymchwiliadau**

Caiff yr Awdurdod gynnal ymchwiliadau ar dir i benderfynu—

(a) pa un a oes angen gwneud gweithrediadau yn ofynnol o dan adran 33 neu ba un a oes angen eu cynnal o dan adran 42, neu

(b) pa un a yw gweithrediadau yn cael eu cynnal mewn cydymffurfedd â hysbysiad a roddir o dan adran 33.

**54 Cosb am rwystro gweithrediadau etc.**

(1) Mae person sy'n rhwystro neu'n ymyrryd yn fwriadol ag—

(a) ymchwiliad i—

(i) pa un a oes angen gwneud gweithrediadau yn ofynnol o dan adran 33 neu ba un a oes angen eu cynnal o dan adran 42, neu

(ii) pa un a yw gweithrediadau yn cael eu cynnal mewn cydymffurfedd â hysbysiad a roddir o dan adran 33,

(b) cynnal gweithrediadau sy'n ofynnol drwy hysbysiad o dan adran 33, neu

(c) cynnal gweithrediadau o dan adran 42,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n difrodi'n fwriadol neu'n ymyrryd fel arall ag unrhyw waith a gwblhawyd yn ystod gweithrediadau sy'n ofynnol drwy hysbysiad o dan adran 33 neu a gynhaliwyd o dan adran 42 yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) neu (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(4) Nid yw torri is-adran (1) neu (2) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy'n gwasanaethu'r Goron).

## RHAN 4

## DARPARIAETH ATODOL

*Rhannu gwybodaeth*

### 55 Ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol"

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol" yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(c) cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

(d) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(e) yr Awdurdod Glo;

(f) Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer ardal yng Nghymru.

(2) Yn is-adran (1)(f), ystyr "Awdurdod Tân ac Achub" yw awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i newid y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol".

(4) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (3) gynnwys person o fewn cwmpas y diffiniad oni bai bod y person yn awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)).

### 56 Pŵer yr Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus perthnasol roi unrhyw wybodaeth i'r Awdurdod y mae'r Awdurdod yn gofyn amdani at ddiben arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon.

(2) Nid yw'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

(3) Os yw awdurdod cyhoeddus perthnasol yn penderfynu peidio â chydymffurfio a chais o dan is-adran (1), rhaid iddo roi ei resymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r Awdurdod.

**57 Dyletswyddau'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i rannu gwybodaeth**

(1) Os yw awdurdod cyhoeddus perthnasol, wrth arfer ei swyddogaethau—

(a) yn dod yn ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu dystiolaeth o ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir, a

(b) yn ystyried y dylid rhannu'r wybodaeth â'r Awdurdod er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les pobl,

rhaid i'r awdurdod cyhoeddus roi'r wybodaeth i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Os daw'r Awdurdod, wrth arfer ei swyddogaethau, yn ymwybodol o rywbeth y mae'n ystyried y dylid ei ddwyn i sylw awdurdod cyhoeddus perthnasol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod cyhoeddus, rhaid iddo roi'r wybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(3) Nid yw'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

**58 Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau mewn tir**

(1) Caiff yr Awdurdod roi hysbysiad i feddiannydd tir, neu i berson sy'n cael rhent (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) mewn cysylltiad â thir, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gadarnhau yn ysgrifenedig—

(a) natur ystâd neu fuddiant y person yn y tir, a

(b) os yw'r person hwnnw'n gwybod am berson arall a chanddo ystad neu fuddiant yn y tir, enw a manylion cyswllt y person arall (os ydynt yn hysbys).

(2) Yn is-adran (1)(b), ystyr "manylion cyswllt", mewn perthynas a pherson, yw cyfeiriad y person ac unrhyw wybodaeth arall ynghylch sut y gellir cysylltu â'r person.

(3) Ni chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad o dan yr adran hon oni bai bod arno angen yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr hysbysiad i'w alluogi neu i'w gynorthwyo i arfer swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon.

(4) Caiff hysbysiad o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol rhoi'r wybodaeth o fewn—

(a) 20 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith cyntaf drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir yn yr hysbysiad neu a gytunir gan yr Awdurdod.

(5) Nid yw'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

(6) Ni chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad o dan yr adran hon i awdurdod cyhoeddus perthnasol.

(7) Ni chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad o dan yr adran hon i awdurdod priodol y Goron mewn cysylltiad ag ystâd neu fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat.

**59 Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i ystâd neu fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat.

(2) Caiff yr Awdurdod, at y diben o'i alluogi neu ei gynorthwyo i arfer swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon, wneud cais i awdurdod priodol y Goron i gadarnhau yn ysgrifenedig—

(a) natur yr ystâd neu fuddiant, a

(b) os yw'r awdurdod yn gwybod am berson arall a chanddo ystad neu fuddiant yn y tir, enw a manylion cyswllt y person arall (os ydynt yn hysbys).

(3) Yn is-adran (2)(b), ystyr "manylion cyswllt", mewn perthynas â pherson, yw cyfeiriad y person ac unrhyw wybodaeth arall ynghylch sut y gellir cysylltu â'r person.

(4) Rhaid i awdurdod priodol y Goron gydymffurfio a chais o dan is-adran (2) ac eithrio i'r graddau—

(a) nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn gwybodaeth yr awdurdod, neu

(b) y byddai gwneud hynny yn datgelu gwybodaeth am—

(i) diogelwch gwladol, neu

(ii) y mesurau a gymerwyd, neu sydd i'w cymryd, i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu unrhyw eiddo arall.

**60 Gwybodaeth i adnabod neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir etc.**

(1) Caiff yr Awdurdod roi hysbysiad ("hysbysiad gwybodaeth") i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person roi gwybodaeth i'r Awdurdod o ddisgrifiad a bennir yn yr hysbysiad, os yw'r Awdurdod—

(a) yn ystyried y bydd gwybodaeth o'r disgrifiad hwnnw yn ei alluogi neu ei gynorthwyo i adnabod neu asesu bygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i asesu sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, a

(b) bod ganddo reswm i gredu bod yr wybodaeth ym meddiant y person neu o dan reolaeth y person.

(2) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r wybodaeth mewn ffordd ac ar ffurf a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r wybodaeth o fewn—

(a) 20 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith cyntaf drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir yn yr hysbysiad neu a gytunir gan yr Awdurdod.

(4) Nid yw'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

(5) Ni chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad gwybodaeth i awdurdod cyhoeddus perthnasol.

**61 Cosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth**

(1) Mae person y mae'n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan adran 58 neu 60 yn cyflawni trosedd os yw'r person yn methu, heb esgus rhesymol, â rhoi'r wybodaeth.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Mae person y mae’n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan adran 58 neu 60 yn cyflawni trosedd os yw’r person, gan honni ei fod yn cydymffurfio â’r hysbysiad—

(a) yn rhoi gwybodaeth sy’n anwir neu yn gamarweiniol mewn modd perthnasol, a

(b) naill ai—

(i) yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol, neu

(ii) yn ddi-hid ynghylch pa un a yw’r wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol.

(4) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(5) Nid yw torri is-adran (1) neu (3) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy’n gwasanaethu’r Goron).

*Pwerau mynediad*

**62 Pŵer i fynd ar dir**

(1) Caiff person awdurdodedig fynd ar dir at ddiben gwneud unrhyw un neu ragor o’r pethau a ganlyn ar ran yr Awdurdod—

(a) cynnal asesiad rhagarweiniol neu asesiad llawn o dan Ran 2;

(b) cynnal arolygiad neu weithgaredd monitro arall mewn perthynas â thomen a gofrestrwyd o dan y Rhan honno;

(c) ymchwilio i weld pa un a oes angen i weithrediadau fod yn ofynnol neu gael eu cynnal o dan Ran 3;

(d) ymchwilio i weld pa un a yw gweithrediadau yn cael eu cynnal mewn cydymffurfedd â hysbysiad a roddir o dan adran 33 o’r Rhan honno;

(e) cynnal gweithrediadau a gwaith adfer canlyniadol o dan adran 42 o’r Rhan honno;

(f) archwilio unrhyw weithgareddau eraill sy’n cael eu cynnal ar y tir lle gallai’r gweithgareddau hynny effeithio ar sefydlogrwydd tomen nas defnyddir.

(2) Caiff person awdurdodedig, at y dibenion a grybwyllir yn is-adran (1)—

(a) mynd ag unrhyw bersonau eraill, unrhyw gyfarpar ac unrhyw ddeunydd ar y tir fel y bo’n angenrheidiol;

(b) gadael cyfarpar a deunydd ar y tir.

(3) Caiff person awdurdodedig, at y dibenion a grybwyllir yn is-adran (1)—

(a) cynnal arolygiadau ac archwiliadau (gan gynnwys profion ac arolygon) ar y tir;

(b) cymryd mesuriadau a thynnu lluniau a gwneud recordiadau;

(c) cymryd samplau a’u symud ymaith o’r tir.

(4) Yn y Rhan hon, ystyr “person awdurdodedig” yw person sydd wedi ei awdurdodi’n ysgrifenedig gan yr Awdurdod i weithredu ar ei ran.

**63 Mynediad i dir heb warant**

(1) Ni chaiff person awdurdodedig, o dan adran 62, fynnu mynediad fel mater o hawl i unrhyw dir a feddiennir oni bai bod o leiaf 48 awr o rybudd o'r mynediad arfaethedig wedi ei roi i bob meddiannydd ar y tir.

(2) Ni chaiff person awdurdodedig, o dan adran 62, fynnu fel mater o hawl—

(a) mynd â phersonau eraill, cyfarpar neu ddeunydd ar dir a feddiennir, neu

(b) gadael cyfarpar neu ddeunydd ar y tir,

oni bai bod o leiaf 48 awr o rybudd o'r bwriad i wneud hynny (gan gynnwys manylion y personau, y cyfarpar neu'r deunydd) wedi ei roi i bob meddiannydd ar y tir.

(3) Nid yw is-adrannau (1) a (2) yn gymwys os yw'r Awdurdod yn credu—

(a) bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog, a

(b) bod ansefydlogrwydd y domen yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1)(c) neu (e).

(4) Ni chaiff person awdurdodedig, o dan adran 62, fynnu mynediad i dir preswyl fel mater o hawl.

(5) Caiff person awdurdodedig fynnu mynediad fel mater o hawl i dir o dan adran 62—

(a) dim ond ar adeg resymol, oni bai bod yr amod yn is-adran (3) wedi ei fodloni;

(b) ar unrhyw adeg, os bodlonir yr amod hwnnw.

(6) Rhaid i berson awdurdodedig—

(a) os gofynnir iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog ar y tir neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno o dan adran 62;

(b) os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

(7) Yn yr adran hon—

nid yw "tir" ("*land*") yn cynnwys tir y Goron;

ystyr "tir preswyl" ("*residential land*") yw cymaint o unrhyw dir ag sy'n cynnwys—

(a) annedd neu ran o annedd,

(b) gardd, iard, garej breifat neu dŷ allan sy'n cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio a'i mwynhau neu ei fwynhau yn gyfan gwbl neu'n bennaf gydag annedd, neu

(c) yn achos adeilad sy'n cynnwys un neu ragor o anheddau, unrhyw ran o'r adeilad a ddefnyddir ac a fwynheir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gyda'r anheddau hynny neu unrhyw un neu ragor ohonynt.

(8) Gweler adran 67 ar gyfer darpariaeth ynghylch mynd ar dir y Goron o dan adran 62.

**64 Gwarant i fynd ar dir**

(1) Caiff ynad heddwch, ar gais a wneir gan yr Awdurdod, ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i berson awdurdodedig i fynd ar dir, drwy rym os oes angen.

(2) Ni chaiff ynad heddwch ddyroddi gwarant ond os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd ar y tir at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1), a

(b) y bodlonir un neu ragor o'r amodau yn is-adran (3).

(3) Yr amodau yw—

(a) nad yw wedi bod yn bosibl rhoi hysbysiad o dan adran 63 i bob meddiannydd ar y tir, er gwaethaf ymdrechion rhesymol i wneud hynny;

(b) bod mynediad i'r tir wedi ei wrthod neu ei rwystro neu y disgwylir yn rhesymol iddo gael ei wrthod neu ei rwystro;

(c) ei bod yn angenrheidiol i'r person awdurdodedig fynd ar dir preswyl.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b), mae mynediad i dir i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais neu archiad i fynd ar y tir o fewn cyfnod rhesymol.

(5) Os yw ynad heddwch wedi ei fodloni, ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw, ei bod yn angenrheidiol i'r person awdurdodedig, at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1)—

(a) mynd ag unrhyw bersonau eraill, unrhyw gyfarpar neu unrhyw ddeunydd ar y tir, neu

(b) gadael cyfarpar neu ddeunydd ar y tir,

caiff y warant hefyd roi pŵer i'r person awdurdodedig i wneud y pethau hynny; ac os yw'r warant yn gwneud hynny, rhaid iddo gynnwys manylion y personau, y cyfarpar neu'r deunydd.

(6) Caiff gwarant a ddyroddir o dan is-adran (1) roi pŵer i'r person awdurdodedig—

(a) i gynnal arolygiadau ac archwiliadau (gan gynnwys profion ac arolygon) ar y tir;

(b) i gymryd mesuriadau a thynnu lluniau a gwneud recordiadau;

(c) i gymryd samplau a'u symud ymaith o'r tir.

(7) Mae gwarant a ddyroddir o dan yr adran hon yn parhau i fod mewn grym hyd nes y cyflawnir y diben y'i dyroddir ar ei gyfer.

(8) Yn yr adran hon—

nid yw "tir" ("*land*")yn cynnwys tir y Goron;

mae i "tir preswyl" ("*residential land*") yr ystyr a roddir gan adran 63(7);

**65 Mynd ar dir gyda gwarant**

(1) Ni chaiff gwarant o dan adran 64 roi pŵer i fynd ar dir ond ar adeg resymol.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys os yw'r ynad heddwch sy'n dyroddi'r warant wedi ei fodloni, ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog, a

(b) bod ansefydlogrwydd y domen yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith, drwy rym os oes angen, at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1)(c) neu (e).

(3) Rhaid i berson a awdurdodir drwy warant o dan adran 64 i fynd ar dir—

(a) os gofynnir iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog ar y tir neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos y warant a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno;

(b) os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

**66 Cosb am rwystro mynd ar dir**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo pŵer i fynd ar dir yn cael ei roi i berson gan adran 62(1) neu drwy warant a ddyroddir o dan adran 64(1).

(2) Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol arfer y pŵer yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Nid yw torri is-adran (2) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy'n gwasanaethu'r Goron).

**67 Mynd ar dir y Goron**

(1) Ni chaiff person awdurdodedig fynd ar dir y Goron o dan adran 62 oni bai—

(a) bod awdurdod priodol y Goron wedi rhoi caniatâd i'r person awdurdodedig wneud hynny, neu

(b) bod yr Awdurdod yn credu—

(i) bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog, a

(ii) bod ansefydlogrwydd y domen yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1)(c) neu (e).

(2) Yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (1)(b), caiff y person awdurdodedig—

(a) mynnu mynediad i'r tir fel mater o hawl, a

(b) mynnu fel mater o hawl—

(i) mynd â phersonau eraill, cyfarpar neu ddeunydd ar y tir, a

(ii) gadael cyfarpar neu ddeunydd ar y tir.

(3) Ond ni chaiff y person awdurdodedig fynnu mynediad fel mater o hawl i unrhyw ran o dir y Goron sy'n dir preswyl.

(4) Os yw person awdurdodedig yn mynd ar dir y Goron o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (1)(b) heb ganiatâd awdurdod priodol y Goron, rhaid i'r Awdurdod hysbysu awdurdod priodol y Goron cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Rhaid i berson awdurdodedig—

(a) os gofynnir iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog ar dir y Goron neu unrhyw feddiannydd ar dir y Goron, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd ar y tir o dan adran 62;

(b) os yw’n ymadael â’r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

(6) Yn yr adran hon, mae i “tir preswyl” yr un ystyr ag yn adran 63(7).

*Amrywiol*

**68 Darparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol**

(1) Caiff yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)).

(2) Caiff yr Awdurdod godi ffi am ddarparu gwasanaeth o dan is-adran (1).

**69 Canllawiau**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i’r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i berson a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu—

(a) cais o dan adran 36 (cais i amrywio neu ganslo hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog gynnal gweithrediadau), neu

(b) cais o dan adran 41 (cais am ad-dalu gwariant perchennog pan fo hysbysiad i gynnal gweithrediadau yn cael ei ganslo),

roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau a roddir i’r person gan y Ddeddf hon neu odani.

**70 Diwygio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969**

(1) Mae Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (p. 10) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mhennawd Rhan 2 (atal perygl i’r cyhoedd o domenni nas defnyddir), ar ôl “tips” mewnosoder “: England and Scotland”.

(3) Yn adran 11 (awdurdodau lleol sydd â swyddogaethau o dan Ran 2)—

(a) yn y pennawd, ar ôl “local authorities” mewnosoder “in England and Scotland”;

(b) yn is-adran (1), ar ôl “local authorities” mewnosoder “in England and Scotland”;

(c) yn is-adran (3), hepgorer paragraff (aa).

(4) Yn adran 36 (dehongli Rhan 2)—

(a) yn is-adran (1), yn y diffiniad o “Ministers”, hepgorer “, the Secretary of State for Wales”;

(b) yn is-adran (4), hepgorer paragraff (b).

## RHAN 5

## CYFFREDINOL

*Troseddau*

### 71 Troseddau gan gyrff corfforedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan brofir bod trosedd yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w phriodoli i esgeulustod ar ran—

(a) uwch-swyddog i'r corff, neu

(b) person a oedd yn honni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff.

(2) Mae'r uwch-swyddog neu'r person (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(4) Ond yn achos corff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, ystyr "cyfarwyddwr" yw aelod o'r corff.

### 72 Dwyn achos

Ni chaniateir dwyn achos mewn cysylltiad â throsedd yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, ac eithrio gan yr Awdurdod neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu drwy gydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

*Rheoliadau*

### 73 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion y Ddeddf hon, o ganlyniad iddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) addasu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys y Ddeddf hon).

(3) Yn is-adran (2), mae "addasu" yn cynnwys diwygio, dirymu a diddymu.

### 74 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys—

(a) pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) pŵer i wneud—

(i) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(ii) darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo oni fo drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(4) Mae is-adran(3) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 38 (gweithdrefn etc. ar gyfer apelau o dan Bennod 1 o Ran 3);

(b) adran 41 (gweithdrefn etc ar gyfer hawliadau am ad-dalu treuliau perchnogion o dan Bennod 1 o Ran 3);

(c) adran 55 (newid i ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol" yn Rhan 4);

(d) adran 80 (cymhwyso'r Ddeddf i dir y mae'r Awdurdod yn berchen arno);

(e) adran 81 (newid i ystyr "tomen nas defnyddir").

(5) Mae is-adran (3) hefyd yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 73 sy'n addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

(6) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur gan y Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

*Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill*

**75 Darpariaeth gyffredinol ynghylch rhoi hysbysiadau etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu reoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall i berson (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r ymadrodd "rhoi" neu unrhyw ymadrodd arall).

(2) Caniateir rhoi'r ddogfen drwy—

(a) ei rhoi i'r person â llaw,

(b) ei gadael yng nghyfeiriad priodol y person,

(c) ei hanfon drwy'r post at y person yn y cyfeiriad hwnnw, neu

(d) ei hanfon drwy e-bost i gyfeiriad e-bost y person.

(3) Rhoddir dogfen yn unol ag is-adran (2)(a)—

(a) os yw'r person yn gorff corfforedig, drwy ei rhoi â llaw i un o swyddogion y corff,

(b) os yw'r person yn bartneriaeth, drwy ei rhoi â llaw i bartner, neu

(c) os yw'r person yn gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, drwy ei rhoi â llaw i aelod o gorff llywodraethu'r gymdeithas.

(4) At ddibenion is-adran (2)(b) ac (c), cyfeiriad priodol person yw—

(a) yn achos corff corfforedig, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff yn y Deyrnas Unedig;

(b) yn achos partneriaeth, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth yn y Deyrnas Unedig;

(c) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y person (pa un ai preswylfa'r person neu fan lle y mae'r person yn cynnal busnes neu wedi ei gyflogi) neu, os yw'r person wedi darparu cyfeiriad lle caniateir rhoi dogfennau o dan y Ddeddf hon, y cyfeiriad hwnnw.

(5) At ddibenion is-adran (2)(d), cyfeiriad e-bost person yw—

(a) unrhyw gyfeiriad e-bost a gyhoeddir am y tro gan y person hwnnw fel cyfeiriad ar gyfer cysylltu â'r person hwnnw, neu

(b) os nad oes cyfeiriad a gyhoeddir o'r fath, unrhyw gyfeiriad e-bost y mae'r person wedi cytuno i gael dogfennau ynddo neu wedi cytuno i gael y ddogfen ynddo.

(6) Yn yr adran hon—

ystyr "swyddog" ("officer") mewn perthynas â chorff corfforedig, yw unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff;

ystyr "wedi cytuno" ("*agreed*") yw wedi cytuno yn ysgrifenedig.

(7) Nid yw adrannau 231 a 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) yn gymwys i ddogfennau sydd i'w rhoi i awdurdod lleol neu gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf hon.

(8) Nid yw'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall i'r Goron.

**76 Darpariaeth ychwanegol ynghylch rhoi hysbysiadau etc. i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys (yn ogystal ag adran 75) pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall—

(a) i berson am fod ganddo ystad neu fuddiant mewn tir, neu

(b) i berson am ei fod yn meddiannu tir,

(pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r ymadrodd "rhoi" neu unrhyw ymadrodd arall).

(2) Pan—

(a) bo'r ddogfen i'w rhoi i berson am fod ganddo ystad neu fuddiant mewn tir, a

(b) nad oes modd darganfod enw'r person ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol,

caniateir cyfeirio'r ddogfen at y person fel "y perchennog" ar y tir (y mae rhaid ei ddisgrifio).

(3) Pan fo'r ddogfen i'w rhoi i berson am ei fod yn feddiannydd ar dir, caniateir ei chyfeirio at y person yn ôl ei enw neu fel "y meddiannydd" y tir (y mae rhaid ei disgrifio).

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys—

(a) pan—

(i) bo dogfen i'w rhoi i berson am fod ganddo ystad neu fuddiant mewn tir, a

(ii) nad oes modd darganfod cyfeiriad priodol y person (o fewn ystyr adran 75) ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol;

(b) pan fo dogfen i’w rhoi i berson am ei fod yn feddiannydd ar dir.

(5) Mae’r ddogfen i’w thrin fel pe bai wedi ei rhoi yn briodol os caiff ei chyfeirio at y person, ei marcio’n glir fel cyfathrebiad pwysig sy’n effeithio ar dir y person, ac—

(a) yn cael ei hanfon i’r tir drwy’r post ac nad yw’n cael ei dychwelyd fel dogfen nas danfonwyd,

(b) yn cael ei rhoi â llaw i berson sy’n preswylio neu’n cael ei gyflogi ar y tir, neu yr ymddengys ei fod yn preswylio neu’n cael ei gyflogi ar y tir, neu

(c) wedi ei gosod yn sownd mewn lle gweladwy wrth wrthrych ar y tir.

(6) Nid yw’r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu’n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall i’r Goron.

**77 Rhoi hysbysiadau etc. i’r Goron**

Pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu’n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall i’r Goron (pa un a yw’r ddarpariaeth yn defnyddio’r ymadrodd “rhoi” neu unrhyw ymadrodd arall), rhaid rhoi’r ddogfen i awdurdod priodol y Goron.

*Achosion arbennig*

**78 Codi arian mewn achosion penodol i gwrdd â gwariant**

(1) Mae’r adran hon yn cael effaith mewn cysylltiad â chodi arian mewn achosion penodol ar gyfer talu—

(a) treuliau yr eir iddynt wrth gynnal gweithrediadau yn unol â hysbysiad o dan adran 33 ac wrth gynnal unrhyw waith adfer canlyniadol;

(b) digolllediad sy’n adenilladwy o dan adran 48 ac sydd i’w briodoli i unrhyw weithrediadau neu waith adfer o’r fath;

(c) symiau sy’n adenilladwy o dan adran 49 neu 51.

(2) Yn yr adran hon, ystyr “gwariant perthnasol” yw unrhyw dreuliau, unrhyw ddigolledliad neu unrhyw symiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(a) i (c).

(3) Mae’r dibenion a awdurdodir ar gyfer cymhwyso arian cyfalaf gan adran 73 o Ddeddf Tir Setledig 1925 (p. 18) yn cynnwys talu unrhyw wariant perthnasol.

(4) Mae’r dibenion a awdurdodir ar gyfer codi arian drwy forgais gan adran 71 o Ddeddf Tir Setledig 1925 yn cynnwys talu unrhyw wariant perthnasol.

(5) Mae’r dibenion a awdurdodir gan adran 25 o Ddeddf Dugiaeth Caerhirfryn 1817 (p. 97) ar gyfer cymhwyso arian sy’n codi drwy’r gwerthiant hwnnw o flwydd-daliadau sy’n sefyll yn enw neu i gyfrif Dugiaeth Caerhirfryn a grybwyllir yn yr adran honno yn cynnwys talu unrhyw wariant perthnasol.

(6) Mae’r dibenion a awdurdodir gan adran 8 o Ddeddf Rheoli Dugiaeth Cernyw 1863 (p. 49) ar gyfer blaendalu rhannau o’r symiau gros hynny a grybwyllir yn yr adran honno yn cynnwys talu unrhyw wariant perthnasol.

**79 Tir Eglwys Loegr**

(1) Pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon, neu mewn rheoliadau a wneir odani, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi rhoi hysbysiad neu ddogfen arall i berson gan ei fod yn meddiannu tir sy'n dir Eglwys Loegr, neu berson am ei fod yn berchennog ar ystad neu fuddiant mewn tir sy'n dir Eglwys Loegr, rhaid rhoi copi o'r ddogfen hefyd i'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol.

(2) Rhaid i ddigollediad sy'n daladwy o dan adran 31 neu 48 i berson yn rhinwedd bod gan y person ystad rydd-ddaliadol mewn tir sy'n dir Eglwys Loegr (pan fo'r ystad wedi ei breinio mewn person heblaw'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol)—

(a) cael ei dalu i'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol, a

(b) cael ei gymhwyso gan y Bwrdd hwnnw at y dibenion y byddai enillion gwerthu'r tir drwy gytundeb yn gymwys iddynt o dan unrhyw ddeddfiad neu Fesur gan Eglwys Loegr sy'n awdurdodi, neu'n gwaredu enillion, gwerthiant o'r fath.

(3) Pan fo tir Eglwys Loegr wedi ei freinio ym mheriglor bywoliaeth eglwysig sydd heb ddeiliad, mae'r tir i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai wedi ei freinio yn y Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol.

(4) Mewn achos—

(a) pan na fo is-adran (3) yn gymwys, a

(b) pan fo person yn atebol i dalu swm o dan y Ddeddf hon, naill ai fel perchennog neu fel cyfrannydd, yn rhinwedd bod yr ystad rydd-ddaliadol mewn tir yn eiddo i fywoliaeth eglwysig a freinir yn y person,

caiff y Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol gymhwyso unrhyw symiau a ddelir ganddo wrth gyflawni'r cyfan neu unrhyw ran o'r rhwymedigaeth honno.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol" ("*appropriate Diocesan Board of Finance*"), mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol ar gyfer yr esgobaeth y mae'r tir ynddi;

ystyr "tir Eglwys Loegr" ("*Church of England land*") yw tir—

(a) sy'n perthyn i fywoliaeth eglwysig,

(b) sy'n eglwys neu'n ffurfio rhan o eglwys sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob yn un o esgobaethau Eglwys Loegr neu safle eglwys o'r fath, neu

(c) sy'n gladdfa neu'n ffurfio rhan o gladdfa sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob o'r fath;

ystyr "Mesur gan Eglwys Loegr" ("*Church Measure*") yw Mesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr;

ystyr "bywoliaeth eglwysig" ("*ecclesiastical benefice*") yw un o fywiolaethau eglwysig Eglwys Loegr.

**80 Pŵer i addasu cymhwysiad y Ddeddf i dir yr Awdurdod**

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu cymhwysiad y Ddeddf hon mewn perthynas â thir y mae gan yr Awdurdod ystad neu fuddiant ynddo.

*Dehongli*

**81 Ystyr "tomen" a "tomen nas defnyddir"**

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "tomen" yw croniad neu ddyddodiad gwastraff (beth bynnag ei ffurf neu ei gyfansoddiad) o fwynglawdd neu chwarel ac eithrio croniad neu ddyddodiad sydd wedi ei leoli o dan y ddaear.

(2) Mae unrhyw wal neu strwythur arall (pa un a yw wedi ei ffurfio yn gyfan gwbl neu'n rhannol o wastraff ai peidio) sy'n cadw neu'n cyfyngu tomen i'w thrin neu i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel rhan o'r domen.

(3) Yn y Ddeddf hon, ystyr "tomen nas defnyddir" yw tomen wedi ei lleoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru ac eithrio un y mae Rheoliadau Chwareli 1999 (O.S. 1999/2024) neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 (O.S. 2014/3248) yn gymwys iddi.

(4) Os yw'r naill neu'r llall o'r Rheoliadau a grybwyllir yn is-adran (3) yn cael ei ddirymu neu ei ddiwygio, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran hon drwy reoliadau i newid y diffiniad o "tomen nas defnyddir".

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau nad yw tomen o ddisgrifiad a ragnodir gan y rheoliadau i'w thrin, er gwaethaf is-adran (3), fel tomen nas defnyddir at ddibenion y Ddeddf hon neu unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon a ragnodir gan y rheoliadau.

**82 Ystyr "bygythiad i les pobl"**

At ddibenion y Ddeddf hon, mae bygythiad i les pobl yn bodoli pan fo posibilrwydd o—

(a) marwolaeth pobl,

(b) salwch neu anaf difrifol i bobl,

(c) difrod difrifol i eiddo,

(d) tarfu difrifol ar gyflenwad o fwyd, dŵr, ynni neu danwydd,

(e) tarfu difrifol ar system gyfathrebu,

(f) tarfu difrifol ar gyfleusterau ar gyfer trafnidiaeth, neu

(g) tarfu difrifol ar wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd.

**83 Ystyr "perchennog"**

Yn y Ddeddf hon, ystyr "perchennog", mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r person sydd ag ystad gyfreithiol yn y tir—

(a) sydd naill ai yr ystad rydd-ddaliadol neu'n denantiaeth am gyfnod penodol sydd ag o leiaf blwyddyn ar ôl ac nad yw'n gyfnod morgais, a

(b) nad yw mewn rifersiwn sy'n ddibynnol ar derfynu tenantiaeth o'r fath.

**84 Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "tir y Goron" yw tir y ceir buddiant y Goron neu fuddiant Dugiaeth ynddo.

(3) Ystyr "buddiant y Goron" yw ystâd neu fuddiant—

(a) sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Ei ystadau preifat, neu

(b) sy'n perthyn i adran o'r llywodraeth neu sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o'r llywodraeth.

(4) Ystyr "buddiant Dugiaeth" yw ystâd neu fuddiant—

(a) sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, neu

(b) sy'n perthyn i Ddugiaeth Cernyw.

(5) Ystyr "buddiant preifat" mewn perthynas â thir y Goron, yw ystâd neu fuddiant nad yw'n fuddiant y Goron nac yn fuddiant Dugiaeth.

(6) Ystyr "awdurdod priodol y Goron"—

(a) mewn perthynas â thir y Goron, yw—

(i) yn achos tir sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl y Goron ac sy'n ffurfio rhan o ystad y Goron, Comisiynwyr Ystad y Goron;

(ii) mewn perthynas ag unrhyw dir arall sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl y Goron, yr adran o'r llywodraeth sy'n rheoli'r tir;

(iii) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl ei ystadau preifat, person a benodir gan Ei Fawrhydi yn ysgrifenedig o dan y Llofnod Brenhinol neu, os na wneir unrhyw benodiad o'r fath, Gweinidogion Cymru;

(iv) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, Canghellor y Ddugiaeth;

(v) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i Ddugiaeth Cernyw, person a benodir gan Ddug Cernyw, neu gan y person sy'n meddu ar y Ddugiaeth am y tro;

(vi) yn achos tir sy'n perthyn i adran o'r llywodraeth neu sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o'r llywodraeth, yr adran;

(b) mewn unrhyw achos arall, y Trysorlys.

(7) Mae "y Goron" i'w drin fel pe bai'n cynnwys Comisiwn y Senedd.

(8) Rhaid atgyfeirio unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch pwy yw awdurdod priodol y Goron mewn perthynas ag unrhyw dir i'r Trysorlys, y mae ei benderfyniad yn derfynol.

(9) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at ystadau preifat Ei Fawrhydi i'w darllen yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37);

(b) mae cyfeiriadau at adran o'r llywodraeth yn cynnwys Gweinidog y Goron a Chomisiwn y Senedd (a gweler adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), sy'n darparu bod cyfeiriadau at adran o'r llywodraeth yn cynnwys Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol).

**85 Dehongli cyffredinol**

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "y llys" ("*the court*") yw'r Uchel Lys neu'r llys sirol.

mae "gweithrediadau" ("*operations*") yn cynnwys gweithrediadau adeiladu a pheirianneg, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

**86 Mynegai o dermau wedi eu diffinio**

Mae'r tabl isod yn rhestru termau sy'n cael eu diffinio neu eu hesbonio fel arall yn y Ddeddf hon.

TABL 1

| Term | Y Ddarpariaeth |
|---|---|
| aelodau anweithredol ("*non-executive members*") | Atodlen 1, paragraff 2(3)(a) |
| aelodau gweithredol ("*executive members*") | Atodlen 1, paragraff 2(3)(b) |
| asesiad llawn ("*full assessment*") | adran 15 |
| asesiad rhagarweiniol ("*preliminary assessment*") | adran 12 |
| yr Awdurdod ("*the Authority*") | adran 1(2) |
| awdurdod cyhoeddus perthnasol ("*relevant public authority*") | adran 55 |
| awdurdod priodol y Goron ("*appropriate Crown authority*") | adran 84(6) |
| buddiant preifat ("*private interest*") | adran 84(5) |
| bygythiad i les pobl ("*threat to human welfare*") | adran 82 |
| categori ("*category*") | adran 24 |
| cyfrannydd ("*contributory*") | adran 47 |
| y ganran benodedig ("*the specified percentage*") | adran 47 |
| y gofrestr ("*the register*") | adran 6(3) |
| gorchymyn cyfrannu ("*contribution order*") | adran 47 |
| y Goron ("*the Crown*") | adran 84(7) |
| gweithrediadau ("*operations*") | adran 85 |
| y llys ("*the court*") | adran 85 |
| y meini prawf ar gyfer cofrestru ("*criteria for registration*") | adran 7 |
| newid hysbysadwy ("*notifiable change*") | adran 28 |
| perchennog ("*owner*") | adran 83 |
| person awdurdodedig ("*authorised person*") | adran 62(4) |
| tir y Goron ("*Crown land*") | adran 84(2) |
| tir preswyl ("*residential land*") | adran 63(7) |
| tomen ("*tip*") | adran 81(1) |
| tomen nas defnyddir ("*disused tip*") | adran 81(3) |

*Amrywiol*

**87 Dod i rym**

(1) Daw'r Rhan hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw adrannau 1, 2 a 5 ac Atodlen 1 i rym ar 1 Ebrill 2027.

(3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3) wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

**88 Enw byr**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) [2025], neu

(b) the Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Act [2025].

# ATODLEN 1

*(a gyflwynir gan adran 1(3))*

## AWDURDOD TOMENNI NAS DEFNYDDIR CYMRU

### RHAN 1

### STATWS

*Statws*

1 (1) Nid yw'r Awdurdod i'w ystyried yn was nac yn asiant i'r Goron nac yn un sy'n mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

(2) Nid yw eiddo'r Awdurdod i'w ystyried yn eiddo i'r Goron nac yn eiddo a ddelir ar ran y Goron.

### RHAN 2

### AELODAU

*Aelodau*

2 (1) Aelodau'r Awdurdod yw—

(a) person a benodir gan Weinidogion Cymru yn gadeirydd iddo,

(b) o leiaf 3 ond dim mwy na 5 person arall a benodir gan Weinidogion Cymru,

(c) ei brif weithredwr (gweler paragraff 6), a

(d) o leiaf 1 ond dim mwy na 2 aelod arall a benodir gan y prif weithredwr a'r aelodau anweithredol o blith staff yr Awdurdod.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un o'r aelodau a benodir o dan is-baragraff (1)(b) yn ddirprwy gadeirydd.

(3) Yn yr Atodlen hon—

(a) cyfeirir at y cadeirydd ac aelodau'r Awdurdod a benodir o dan is-baragraff (1)(b) ar y cyd fel "aelodau anweithredol";

(b) cyfeirir at y prif weithredwr ac aelodau'r Awdurdod a benodir o dan is-baragraff (1)(d) ar y cyd fel "aelodau gweithredol".

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-baragraff (1) drwy reoliadau er mwyn rhoi rhif gwahanol yn lle unrhyw un neu ragor o'r rhifau a bennir ynddo am y tro; ond rhaid i'r rheoliadau sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn parhau i fod yn fwy na nifer yr aelodau gweithredol.

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol*

3 Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi, neu rhag dal swydd, fel aelod anweithredol o'r Awdurdod os yw'r person yn, neu'n dod yn—

(a) aelod o staff yr Awdurdod,

(b) aelod o Senedd Cymru,

(c) aelod o gyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru,

(d) aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi,

(e) aelod o Lywodraeth Cymru,

(f) person a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth, neu

(g) deiliad swydd, neu'n aelod o gorff neu'n aelod o staff corff, a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

*Telerau aelodaeth anweithredol*

4 (1) Mae aelod anweithredol o'r Awdurdod yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) a pharagraff 5.

(2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 5 mlynedd.

(3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod anweithredol gael ei ailbenodi'n aelod anweithredol unwaith yn unig (ac mae is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ailbenodiad).

(4) Caiff yr Awdurdod, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru—

(a) talu tâl, treuliau a lwfansau i'w aelodau anweithredol;

(b) talu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Awdurdod, neu mewn cysylltiad â hwy, a symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Awdurdod, neu mewn cysylltiad â hwy.

*Diswyddo etc. aelodau*

5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo person sy'n aelod anweithredol drwy hysbysiad os ydynt wedi eu bodloni—

(a) bod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu

(b) nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad atal dros dro berson sy'n aelod anweithredol o'i swydd os yw'n ymddangos iddynt—

(a) ei bod yn bosib fod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu

(b) ei bod yn bosib nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.

(3) Mae person wedi ei atal dros dro o dan is-baragraff (2) nes y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad pellach iddo.

(4) Caiff person sy'n aelod anweithredol ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(5) Mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol o'r Awdurdod os yw'r person hwnnw'n dod yn anghymwys o dan baragraff 3.

(6) Mae person yn peidio â bod yn gadeirydd neu'n ddirprwy gadeirydd (yn ôl y digwydd) os yw'r person hwnnw'n peidio â bod yn aelod anweithredol o'r Awdurdod.

(7) Mae person yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r Awdurdod pan fo'n peidio â bod yn aelod o staff yr Awdurdod.

RHAN 3

STAFF

*Prif weithredwr*

6 (1) Rhaid i'r Awdurdod gael prif weithredwr.

(2) Mae prif weithredwr cyntaf yr Awdurdod i'w benodi gan Weinidogion Cymru ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y maent yn penderfynu arnynt.

(3) Mae penodiadau dilynol i'w gwneud gan yr aelodau anweithredol ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y maent, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn penderfynu arnynt.

*Staff eraill*

7 (1) Caiff yr Awdurdod benodi aelodau o staff heblaw prif weithredwr.

(2) Penodir aelod o staff a benodir o dan y paragraff hwn ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y penderfynir arnynt gan yr Awdurdod.

(3) Ni chaiff yr Awdurdod gytuno ar delerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau neu bensiwn heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

RHAN 4

DIRPRWYO

*Pwyllgorau ac is-bwyllgorau*

8 (1) Caiff yr Awdurdod sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn sefydlu is-bwyllgorau.

(3) Caiff pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r Awdurdod nac yn aelodau o'i staff, ond nid oes gan y personau hynny yr hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor (yn ôl y digwydd).

(4) Caiff yr Awdurdod dalu unrhyw dâl, treuliau a lwfansau a bennir gan Weinidogion Cymru i unrhyw berson—

(a) sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, ond

(b) nad yw'n aelod o'r Awdurdod, nac yn aelod o'i staff.

*Dirprwyo*

9 (1) Caiff yr Awdurdod ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i unrhyw un neu ragor—

(a) o'i bwyllgorau,

(b) o'i is-bwyllgorau (pa un ai y'u sefydlir o dan baragraff 8(1) neu (2)),

(c) o'i aelodau, neu

(d) o'i aelodau o staff.

(2) Caiff pwyllgor o'r Awdurdod ddirprwyo unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy ganddo i—

(a) is-bwyllgor o'r Awdurdod (pa un ai y'i sefydlir o dan baragraff 8(1) neu (2)),

(b) aelod o'r Awdurdod, neu

(c) aelod o staff yr Awdurdod.

(3) Caiff is-bwyllgor o'r Awdurdod (pa un ai y'i sefydlir o dan baragraff 8(1) neu (2)) ddirprwyo unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy ganddo i—

(a) aelod o'r Awdurdod, neu

(b) aelod o staff yr Awdurdod.

(4) Caiff yr Awdurdod—

(a) cyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor o'r Awdurdod na chaiff ddirprwyo swyddogaeth a bennir yn y cyfarwyddyd;

(b) cyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor o'r Awdurdod i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyad a bennir yn y cyfarwyddyd;

(c) cyfarwyddo pwyllgor o'r Awdurdod i amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan y pwyllgor o dan is-baragraff (5).

(5) Caiff pwyllgor o'r Awdurdod sydd wedi dirprwyo swyddogaeth i is-bwyllgor—

(a) cyfarwyddo'r is-bwyllgor na chaiff ddirprwyo'r swyddogaeth;

(b) cyfarwyddo'r is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyad o'r swyddogaeth honno a wneir ganddo.

(6) Dirprwyir swyddogaeth o dan y paragraff hwn i'r graddau ac ar y telerau a bennir gan y person sy'n gwneud y dirprwyad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan is-baragraff (4) neu (5).

(7) Nid yw dirprwyo swyddogaeth o dan y paragraff hwn yn atal yr Awdurdod (na'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, yn ôl y digwydd) rhag arfer y swyddogaeth.

(8) Nid yw dirprwyo swyddogaeth o dan y paragraff hwn yn effeithio ar gyfrifoldeb yr Awdurdod dros arfer y swyddogaeth.

RHAN 5

GWEITHDREFN ETC.

*Gweithdrefn*

10 (1) Rhaid i'r Awdurdod wneud rheolau i reoleiddio ei weithdrefn ei hun (gan gynnwys cworwm).

(2) Rhaid i'r rheolau ddarparu nad yw cyfarfod o'r Awdurdod yn ffurfio cworwm oni bai bod y mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

(3) Rhaid i'r Awdurdod wneud rheolau i reoleiddio gweithdrefn ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau (gan gynnwys cworwm).

(4) Caiff rheolau a wneir gan yr Awdurdod o dan is-baragraff (3) awdurdodi ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau i benderfynu ar eu gweithdrefn eu hunain (gan gynnwys cworwm).

*Dilysrwydd trafodion a gweithredoedd*

11 Nid yw'r canlynol yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion a gweithredoedd yr Awdurdod (na'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau)—

(a) unrhyw swydd wag ymhlith aelodaeth yr Awdurdod, na

(b) unrhyw ddiffyg o ran penodi aelod.

*Sêl*

12 Os oes gan yr Awdurdod sêl, rhaid iddi gael ei dilysu drwy lofnod—

(a) aelod o'r Awdurdod; neu

(b) aelod o staff yr Awdurdod,

a awdurdodwyd at y diben hwnnw.

*Tystiolaeth*

13 Mae dogfen yr honnir ei bod wedi ei gweithredu'n briodol o dan sêl yr Awdurdod, neu wedi ei llofnodi ar ran yr Awdurdod, i'w derbyn yn dystiolaeth ac, oni phrofir i'r gwrthwyneb, i'w chymryd fel pe bai wedi ei gweithredu neu ei llofnodi felly.

RHAN 6

MATERION ARIANNOL

*Cyllid*

14 Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau i'r Awdurdod o unrhyw symiau, ac ar unrhyw adegau, ac yn unol ag unrhyw amodau, y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

*Swyddog cyfrifyddu*

15 (1) Prif weithredwr yr Awdurdod yw ei swyddog cyfrifyddu.

(2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid yr Awdurdod, y cyfrifoldebau a bennir am y tro gan Weinidogion Cymru.

(3) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon;

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid yr Awdurdod;

(c) cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o'i adnoddau;

(d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Senedd Cymru neu ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.ag

*Cyfrifon*

16 (1) Rhaid i'r Awdurdod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—

(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddo,

(b) y modd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno, ac

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy.

(3) Heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Awdurdod gyflwyno ei ddatganiad o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol honno i—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru.

*Archwilio*

17 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru gan yr Awdurdod o dan baragraff 16(3)(b).

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei ardystio ac adrodd arno;

(b) darparu copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon ynghyd a'r adroddiad i'r Awdurdod.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r diwrnod pan gyflwynir y datganiad o gyfrifon ("y cyfnod o 4 mis"), osod gerbron Senedd Cymru—

(a) copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon a'r adroddiad, neu

(b) os nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio â pharagraff (a), ddatganiad i'r perwyl hwnnw, y mae rhaid iddo gynnwys rhesymau o ran pam felly.

(4) Pan fo datganiad wedi ei osod o dan is-baragraff (3)(b), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon a'r adroddiad gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 4 mis.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-baragraff (2), rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio a aed, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu'r gwariant hwnnw, ac adrodd ar hynny.

*Archwilio'r defnydd o adnoddau*

18 (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran sut y mae adnoddau wedi eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

(2) Ond nid yw hynny'n rhoi'r hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru i gwestiynu rhinweddau amcanion polisi'r Awdurdod.

(3) Cyn cynnal archwiliad o dan y paragraff hwn, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) ymgynghori â Senedd Cymru, a

(b) ystyried barn Senedd Cymru ynghylch pa un a ddylid cynnal archwiliad ai peidio.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau archwiliad a gynhelir o dan y paragraff hwn, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.

## RHAN 7

## GOFYNION ADRODD ETC.

*Cynllun corfforaethol*

19 (1) Rhaid i'r Awdurdod lunio cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio.

(2) Rhaid i'r cynllun corfforaethol nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod cynllunio.

(3) Rhaid i'r Awdurdod gyflwyno'r cynllun corfforaethol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun corfforaethol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau y cytunir arnynt rhyngddynt hwy a'r Awdurdod.

(5) Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r cynllun corfforaethol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r cynllun corfforaethol a gymeradwywyd gerbron Senedd Cymru.

(7) Caiff yr Awdurdod adolygu'r cynllun corfforaethol a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod cynllunio y mae'n ymwneud ag ef a chyflwyno cynllun corfforaethol diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(8) Mae is-baragraffau (2) i (7) yn gymwys i gynllun corfforaethol diwygiedig fel y maent yn gymwys i gynllun corfforaethol.

(9) Ystyr "cyfnod cynllunio" yw—

(a) y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ag 1 Hydref 2027, a

(b) pob cyfnod dilynol o 3 blynedd.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-baragraff (9)(b).

(11) Rhaid i'r cynllun corfforaethol ar gyfer cyfnod cynllunio gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn dechrau'r cyfnod.

*Adroddiad blynyddol*

20 (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Awdurdod—

(a) llunio a chyhoeddi adroddiad ("adroddiad blynyddol") ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a

(b) anfon copi o'i adroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad blynyddol gerbron Senedd Cymru.

## RHAN 8

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf y Diwydiant Glo 1994 (p. 21)*

21 Yn adran 59 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 (gwybodaeth i'w chadw'n gyfrinachol gan yr Awdurdod Glo), ar ôl is-adran (3)(f) mewnosoder—

"(g) the Disused Tips Authority for Wales is a relevant authority in relation to its functions under the Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Act [2025]."

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)*

22 Yn adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ystyr "Welsh public records"), ar ôl is-adran (2)(ca) mewnosoder—

"(cb) the Disused Tips Authority for Wales,".

*Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)*

23 Yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (cyrff cyhoeddus etc.: safonau), yn y tabl, o dan y pennawd "Cyffredinol", ar ôl y cofnod ar gyfer yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ("*The Disused Tips Authority for Wales*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion". |

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)*

24 (1) Yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (ystyr corff cyhoeddus), ar ôl is-adran (1)(l) mewnosoder—

"(m) Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru".

(2) Mae adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill) i'w darllen mewn perthynas â'r Awdurdod fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (2)(a)—

"(a) heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn ariannol y sefydlir Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ynddi, a".

## ATODLEN 2

*(a gyflwynir gan adrannau 31(5) a 48(8))*

### HAWLIADAU AM DDIGOLLEDIAD GAN BERCHNOGION A CHYFRANWYR

1 (1) Mae'r Atodlen hon yn gymwys i berchennog ar dir—

(a) os yw'r Awdurdod wedi cynnal gweithrediadau ar y tir o dan adran 42, neu wedi cynnal ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at gynnal y gweithrediadau,

(b) os yw'r perchennog wedi hawlio digolledediad gan yr awdurdod o dan y Ddeddf hon, ac

(c) naill ai—

(i) nad oes gorchymyn cyfrannu wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r treuliau y mae rhaid i'r perchennog eu hysgwyddo fel arall mewn perthynas â chynnal y gweithrediadau neu'r ymchwiliadau hynny, neu

(ii) mae un neu ragor o orchmynion o'r fath wedi eu gwneud ond mae'r ganran benodedig neu, yn ôl y digwydd, gyfanswm y canrannau penodedig yn llai na 100.

(2) Mae'r Atodlen hon yn gymwys i gyfrannydd—

(a) os yw'r treuliau y caniateir hawlio cyfraniad mewn cysylltiad â hwy o dan adran 49 neu 51 yn cynnwys treuliau yr aed iddynt wrth gynnal unrhyw weithrediadau neu ymchwiliadau y cyfeirir atynt yn adran 51(1) neu (2), a

(b) os yw'r cyfrannydd wedi hawlio digolledediad gan berchennog ar dir neu'r Awdurdod o dan y Ddeddf hon.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae ymchwiliadau i'w trin fel pe baent wedi arwain at gynnal gweithrediadau os, o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliadau, y dechreuodd yr Awdurdod gynnal y gweithrediadau.

2 (1) Pan fo'r Atodlen hon yn gymwys i berchennog ar dir, nid oes gan y perchennog hawlogaeth i orfodi'r hawliad am ddigolledediad, ac eithrio drwy ei osod yn erbyn swm y gwneir archiad ar ei gyfer oddi wrth y perchennog gan yr Awdurdod o dan adran 51, hyd at ddiwedd 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd y gweithrediadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.

(2) Ond pan fo—

(a) yr Awdurdod yn rhoi archiad i berchennog y tir o dan adran 51(4), a

(b) bod y swm y gellir ei adennill yn rhinwedd yr archiad hwnnw (gan roi sylw i unrhyw gais a wneir gan y perchennog o dan adran 52) yn llai na swm hawliad y perchennog am ddigolledediad oddi wrth yr Awdurdod,

nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i achos a ddygir gan y perchennog i adennill gweddill y digolledediad hwnnw oddi wrth yr Awdurdod.

3 (1) Pan fo'r Atodlen hon yn gymwys i gyfrannydd, nid oes gan y cyfrannydd hawlogaeth i orfodi'r hawliad am ddigolledediad, ac eithrio drwy ei osod yn erbyn unrhyw swm y gwneir archiad ar ei gyfer oddi wrth y cyfrannydd o dan adran 49 neu 51, hyd at ddiwedd y cyfnod perthnasol.

(2) Ond—

(a) pan roddir archiad am gyfraniad i'r cyfrannydd o dan adran 49 neu 51, a

(b) pan fo'r swm y gellir ei adennill yn rhinwedd yr archiad hwnnw (gan roi sylw i unrhyw gais a wneir o dan adran 50 neu 52) yn llai na swm hawliad y cyfrannydd am ddigollediad oddi wrth y person a roddodd yr archiad,

nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i achos a ddygir gan y cyfrannydd i adennill gweddill y digollediad oddi wrth y person hwnnw.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, y "cyfnod perthnasol" yw—

(a) mewn perthynas â hawliad gan gyfrannydd am ddigollediad sy'n adenilladwy oddi wrth berchennog ar dir, 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhaodd y perchennog y gweithrediadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1(2)(a);

(b) mewn perthynas â hawliad gan gyfrannydd am ddigollediad sy'n adenilladwy oddi wrth yr Awdurdod—

(i) pan fo'r treuliau y caniateir hawlio cyfraniad mewn cysylltiad â hwy oddi wrth y cyfrannydd yn dod o fewn adran 51(1), 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd y gweithrediadau y cyfeirir atynt yn yr adran honno;

(ii) pan fo'r treuliau y caniateir hawlio cyfraniad mewn cysylltiad â hwy oddi wrth y cyfrannydd yn dod o fewn adran 51(2), 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr ymchwiliadau y cyfeirir atynt yn yr adran honno.

4 Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at weithrediadau yn cynnwys gwaith adfer sy'n ganlyniadol ar y gweithrediadau hynny.

5 Yn achos perchennog ar dir neu gyfrannydd y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddo, mae sail i achos y person i adennill y digollediad y cyfeirir ato ym mharagraff 1 i'w ystyried, at ddibenion adran 9 o Ddeddf Cyfyngiadau 1980 (p. 58), fel pe bai wedi cronni—

(a) ar ddiwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 2(1) neu 3(1), pa un bynnag sy'n gymwys, neu

(b) os yw paragraff 2(2) neu 3(2) yn gymwys, ar y dyddiad y rhoddwyd yr archiad y cyfeirir ato yn y paragraff perthnasol.

## ATODLEN 3

*(a gyflwynir gan adran 49(7))*

## ADDASIADAU I ADRANNAU 49 A 50 PAN FO HYSBYSIAD O DAN ADRAN 33 YN CAEL EI GANSLO

1 Pan fo'r Awdurdod wedi canslo hysbysiad a roddir i berchennog ar dir o dan adran 33, mae adrannau 49 a 50 yn cael effaith gyda'r addasiadau a bennir yn yr Atodlen hon.

2 Mae cyfeiriad yn yr adrannau hynny at weithrediadau a gynhelir yn unol â'r hysbysiad o dan adran 33 i'w ddehongli fel cyfeiriad at weithrediadau a gynhaliwyd felly cyn canslo'r hysbysiad.

3 (1) Wrth benderfynu, at ddibenion adrannau 49 ac 50, swm y treuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan berchennog y tir wrth gynnal y gweithrediadau, didynner unrhyw swm—

(a) y gellir ei adennill (neu sydd wedi ei adennill) gan y perchennog oddi wrth yr Awdurdod yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 41, a

(b) sydd i'w briodoli i wariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad i roi'r hysbysiad o dan adran 33.

(2) Nid yw unrhyw swm yn adenilladwy gan berchennog ar dir o dan adran 49 mewn perthynas â threuliau yr aed iddynt gan y perchennog wrth gynnal gwaith adfer.

4 Pan fo gan berchennog ar dir, yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 41, hawlogaeth i adennill (neu pan fo wedi adennill) swm oddi wrth yr Awdurdod mewn cysylltiad â'r gwariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad i roi hysbysiad o dan adran 33—

(a) rhaid i archiad o dan adran 49(4) bennu'r cyfanswm sy'n adenilladwy (neu sydd wedi ei adennill) yn rhinwedd y cyfarwyddyd, gan wahaniaethu rhwng—

(i) y rhan sydd i'w phriodoli i wariant yr aed iddo o ganlyniad i roi'r hysbysiad o dan adran 33, a

(ii) y rhan sydd i'w phriodoli i wariant yr aed iddo gan y perchennog sydd i'w briodoli i ganslo'r hysbysiad;

(b) mae'r cyfeiriad yn adran 49(5) at y cyfanswm y mae'r cyfraniad yn cael ei hawlio mewn cysylltiad ag ef i'w ddehongli fel cyfeiriad at y swm y gellid bod wedi hawlio'r cyfraniad mewn perthynas ag ef pe na bai cyfarwyddyd wedi ei roi;

(c) caniateir gwneud cais o dan adran 50 ar y sail nad yw'r swm a hawlir yn yr archiad yn rhoi ystyriaeth briodol i swm y mae rhaid ei ddidynnu yn rhinwedd paragraff 3.

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**9 Rhagfyr 2024**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

### Memorandwm Esboniadol i'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei osod gerbron Senedd Cymru.

### Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru), a gyflwynir gennyf ar 25 Tachwedd 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

***Huw Irranca-Davies* AS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

9 Rhagfyr 2024

# Tudalen Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 1** | **Memorandwm Esboniadol** | |
| | | |
| 1 | Disgrifiad | 3 |
| 2 | Cymhwysedd Deddfwriaethol | 4 |
| 3 | Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael | 5 |
| 4 | Ymgynghori | 31 |
| 5 | Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 39 |
| | | |
| **Rhan 2** | **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** | |
| | | |
| 6 | Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 51 |
| 7 | Yr opsiynau | 56 |
| 8 | Costau a manteision | 63 |
| 9 | Asesiadau o’r Effaith | 106 |
| 10 | Asesiad Fforddiadwyedd | 115 |
| 11 | Adolygu ar ôl gweithredu | 118 |
| | | |
| **Atodiad 1** | **Nodiadau Esboniadol** | 120 |
| **Atodiad 2** | **Mynegai Rheolau Sefydlog** | 164 |
| **Atodiad 3** | **Geirfa** | 168 |

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer system newydd o reoleiddio tomenni nas defnyddir yng Nghymru (tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo), gan ddarparu dull cyson o asesu, cofrestru, monitro, cynnal a chadw a goruchwylio tomenni nas defnyddir. Mae'n dileu swyddogaethau a osodwyd ar awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (Deddf 1969) er mwyn sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn beryglus i aelodau'r cyhoedd. Mae hyn, i bob pwrpas, yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 mewn perthynas â Chymru i raddau helaeth. Mae'r Bil yn sefydlu corff newydd i weithredu'r gyfundrefn, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (Yr Awdurdod), a phrif amcan y corff hwn wrth gyflawni ei swyddogaethau yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau, ac mae'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau ar dir ei hun. Hefyd, mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer dibenion cysylltiedig.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Senedd Cymru (y Senedd) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) (y Bil) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Cefndir Polisi Cyffredinol

### Nod y Bil

3.1 Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

3.2 Ni ddylid trin y Bil fel endid ar wahân. Mae'n rhan o waith ehangach o fewn y Rhaglen Diogelwch Tomenni Glo i gyflawni yn erbyn amcanion polisi ac mae’n adeiladu ar y gwaith hwn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- cyllid i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir (dyrannodd Llywodraeth Cymru £65m ers 2020 i Raglen Diogelwch Tomenni Glo),
- parhau i ddatblygu a gwella partneriaethau a chydweithio â rhanddeiliaid a sefydliadau'r sector cyhoeddus,
- mynd i'r afael â bwlch sgiliau yn y gweithlu, er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti a gallu i gwblhau'r archwiliadau a'r rhaglenni cynnal a chadw parhaus sy’n ofynnol, a
- chynorthwyo prosiectau ymchwil a datblygu sy'n ceisio ymgymryd â gweithgareddau ac arferion arloesol wrth fonitro, cynnal a chadw a rheoli tomenni nas defnyddir.

### Amcanion y Bil

3.3 Prif ddiben y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn trwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

3.4 Mae amcanion y Bil yn cynnwys:

- sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd;
- creu a chynnal cofrestr o domenni nas defnyddir sy'n bygwth, neu a allai fygwth, lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd;
- sicrhau dull cyson o reoli pob tomen nas defnyddir.

3.5 Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, yr Awdurdod, ac yn rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu a chategoreiddio

tomenni nas defnyddir, monitro swyddogaethau a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Hefyd, mae'r Bil yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau ar dir, os yw'n ystyried bod angen gweithrediadau o'r fath i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau, os yw'n credu bod y cyfryw weithrediadau yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan a nodir yn y Bil. Pan fo'r Awdurdod o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, caiff gyflawni gweithrediadau ar unrhyw dir i atal neu ddelio â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag dod yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir ac mae'n gallu rhoi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

## Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu

3.6 Mae ein Rhaglen Lywodraethu (2021-2026) yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i ymdrin â gwaddol canrifoedd o gloddio a sicrhau diogelwch tomenni glo yn ystod tymor y Senedd hon.

3.7 Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd ei flaenoriaethau deddfwriaethol ar gyfer tymor nesaf y Senedd. Fel rhan o'r datganiad hwnnw, cyhoeddodd y byddai'n cyflwyno "Bil Diogelwch Tomenni nas Defnyddir a fydd yn arwain y gad o ran rheoli hen domenni gwastraff. Bydd hwn yn diwygio cyfreithiau presennol ynghylch diogelwch tomenni glo ac yn rhoi rhagor o ddiogelwch i'r bobl sy'n byw yn eu cysgod".[1]

3.8 Ar 9 Gorffennaf 2024 traddododd y Prif Weinidog ar y pryd ei ddatganiad deddfwriaethol lle cyhoeddodd y bydd y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) "yn rhoi mwy o sicrwydd i'r bobl sy'n byw yn eu cysgod".

3.9 Mae'r Bil hwn yn bodloni'r ymrwymiad i ddeddfu.

## Pam mae angen y Bil?

### Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969

3.10 Y fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n darparu ar gyfer diogelwch a sefydlogrwydd gwastraff mwyngloddio yn y DU yw Deddf 1969. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth hon yn dilyn trychineb Aberfan ym mis Hydref 1966, pan wnaeth tomen lo lithro ac amlyncu rhes o dai ac ysgol, gan ladd 28 oedolyn a 116 o blant. Cyn Deddf 1969 nid oedd unrhyw

[1] Y Prif Weinidog yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

ddeddfau na rheoliadau yn rheoli tomenni mwyngloddiau a chwareli a thomenni sborion. Oherwydd graddfa'r cynnydd mewn mwyngloddio, yn enwedig yng nghymoedd y De, cafodd tomenni eu lleoli'n uwch i fyny dyffrynnoedd serth ar dirwedd a oedd yn agored i dirlithriadau naturiol (ac sy'n parhau i fod felly heddiw), ac yn agos at gymunedau a oedd yn tyfu.

3.11 Adeg cyflwyno Deddf 1969, roedd y diwydiant cloddio glo yn y DU yn parhau i fod yn weithredol. Roedd y ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar ddiwydiant mwyngloddio gweithredol, a'i bwriad oedd rheoleiddio tipio gwastraff o byllau glo gweithredol, yn ogystal â mwyngloddiau a chwareli a oedd yn gysylltiedig ag echdynnu deunyddiau eraill. Ni chredwyd bod tomenni nas defnyddir yn broblem ar y pryd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o domenni glo, bron i 2,500 i gyd, yn domenni glo nas defnyddir. Erbyn hyn, nid yw Deddf 1969 yn darparu cyfundrefn statudol ddigonol ar gyfer y sefyllfa bresennol, lle mae'r diwydiant mwyngloddio wedi darfod i raddau helaeth.

3.12 Yn dilyn glaw trwm yn y De ym mis Chwefror 2020, cafwyd tirlithriad arall - y tro hwn yn Nhylorstown yn y Rhondda. O ganlyniad, disgynnodd 60,000 tunnell o ddeunydd i afon Rhondda Fach, gan ddifrodi carthffos fudr a chladdu prif bibell ddŵr strategol o dan sawl metr o falurion. Yn ffodus, ni wnaeth unrhyw un farw. Dangosodd y tirlithriad yn Nhylorstown fod risgiau i gymunedau ac eiddo gan rai tomenni nas defnyddir yng Nghymru, olion yr oes ddiwydiannol, yn fygythiad o hyd.

3.13 Yn sgil tirlithriad Tylorstown, sefydlodd y Prif Weinidog ar y pryd y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau lleol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Pwrpas y Tasglu yw cydweithio er mwyn darparu rhaglen waith, gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ledled Cymru, ac archwilio a chynnal y tomenni nas defnyddir sy’n peri lefel uwch o fygythiad posibl. Ers ei sefydlu, mae'r Tasglu wedi gweithio gyda phartneriaid i gael dealltwriaeth well o raddfa'r her a datblygu'r rhaglen waith.

**Adolygiad Comisiwn y Gyfraith**

3.14 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad annibynnol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu diogelwch tomenni glo yng Nghymru a gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio.

3.15 Hefyd, gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith ystyried opsiynau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol modern ac argymell system gydlynol a safonol a fydd yn parhau’n addas i’r diben yn y dyfodol ar gyfer nodi, cofnodi, archwilio a chynnal tomenni glo trwy gydol eu cylch bywyd, gan nodi set gyffredinol o ddyletswyddau a mabwysiadu dull cyson o asesu risg. Dechreuodd y Comisiwn ei adolygiad ym mis Tachwedd 2020, ac aeth ati i gynnal ymgynghoriad yn ystod haf 2021 cyn cyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion ar 24 Mawrth 2022.

3.16 Daeth adolygiad Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod y ddeddfwriaeth bresennol wedi dyddio; fe'i cyflwynwyd ar adeg pan oedd gan Gymru ddiwydiant mwyngloddio gweithredol a phan oedd profiad arbenigol perthnasol ar gael. Nododd y Comisiwn fod Deddf 1969 yn rhoi’r cyfrifoldeb am domenni nas defnyddir i awdurdodau lleol, ond ei bod yn rhoi pwerau ymyrryd cyfyngedig iddynt, sydd wedi'u cyfyngu i sefyllfaoedd lle credir bod y cyhoedd mewn perygl oherwydd bod tomen yn ansefydlog. Nododd adroddiad Comisiwn y Gyfraith fod y mecanweithiau yn Neddf 1969 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion wneud gwaith adfer yn feichus ac yn cymryd llawer o amser, a bod y dewis arall a ddarperir ganddi – sef bod yr awdurdod lleol yn gwneud y gwaith ac yn codi tâl ar y perchennog - yn anhylaw. Dywedodd fod darnio pwerau ar draws awdurdodau lleol yn arwain at anghysondeb o ran safonau diogelwch a dosbarthiadau risg. Nododd yr adroddiad fod diwygiadau yn hanfodol er mwyn diogelu’r cyhoedd yn erbyn unrhyw dirlithriadau yn y dyfodol. Roedd canfyddiadau allweddol eraill yr adolygiad yn cynnwys:

- Pwerau cyfyngedig yn unig i ymyrryd sydd gan awdurdodau lleol - dim ond os yw awdurdod lleol o'r farn fod tomen yn ansefydlog. Os oes anghytundeb, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer dull hir a system ddryslyd o hysbysiadau a gwrth-hysbysiadau. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad yw tomenni peryglus yn cael eu harchwilio na'u cynnal a'u cadw,
- Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw bŵer i oruchwylio gwaith cynnal a chadw arferol nac unrhyw bwerau i orfodi perchennog ar domen i fodloni hyd yn oed gofynion cynnal a chadw sylfaenol i wneud tomen yn ddiogel,
- Nid oes unrhyw ofynion mewn deddfwriaeth i ddarparu categoreiddio cyson, lefel ofynnol o arbenigedd neu gysondeb mewn archwiliadau,
- Mae'r mecanwaith ar gyfer cyflwyno hysbysiadau yn feichus, yn cymryd llawer o amser ac yn gostus,
- Nid yw awdurdodau lleol yn gallu ymyrryd nes eu bod yn gallu profi bod risg, ond ni allant brofi bod risg yn bodoli heb ymyrryd, a
- Gall perchnogion ar domenni anghytuno bod yna berygl i'r cyhoedd trwy ddadlau y gallai'r risg gael ei lliniaru trwy ddefnyddio dull gwahanol i waith adferol.

3.17 Nododd Comisiwn y Gyfraith fod bylchau yn bodoli yn y ddarpariaeth a wnaed gan Ddeddf 1969. Nid yw'r system bresennol yn creu dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch tomenni glo. Nid yw ychwaith yn darparu pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion ar domenni wneud gwaith cynnal a chadw ataliol er mwyn atal tomen rhag mynd yn beryglus, nac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud gwaith o'r fath. Nid yw'n cwmpasu peryglon ac eithrio ansefydlogrwydd. Yn hanfodol, nid yw Deddf 1969 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a gwneud yn ddiogel domenni nas defnyddir. Y cyfan mae'n ei wneud yw darparu cyfundrefn ganiataol.

3.18 Mae gan Ddeddf 1969 lawer o fylchau, gan gynnwys y canlynol:

- Nid oes unrhyw safonau cyson wedi'u cymhwyso i asesu'r risg sy'n deillio o domenni nas defnyddir,
- Nid oes unrhyw ddull categoreiddio cyson ar gyfer tomenni nas defnyddir,
- Nid oes unrhyw fethodoleg safonol ar gyfer pennu lefel risg tomen nas defnyddir,
- Nid oes unrhyw safonau cyson ar gyfer monitro ac archwilio tomenni nas defnyddir,
- Nid oes unrhyw safonau cyson ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir,
- Nid oes unrhyw ddull safonol o gynnal a chadw cofnodion,
- Nid oes unrhyw system fonitro reolaidd ar waith, sy'n codi cwestiynau am gywirdeb y data sy'n cael ei ddefnyddio i gwblhau asesiadau,
- Nid oes unrhyw drefniadau goruchwylio a gorfodi ffurfiol,
- Nid oes unrhyw gofrestr ganolog o domenni nas defnyddir.

3.19 Mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi'u rhestru ym Mhennod 13 o'i Adroddiad.

3.20 Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 22 Mawrth 2023. Nododd yr ymateb hwn safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad, gan ddarparu'r sail resymegol am yr ymatebion i'r argymhellion. Mae'r llythyr yn egluro bod yna gytundeb cyffredinol ar egwyddor yr argymhellion, ond gallai rhai agweddau ar gyflawni amrywio er mwyn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru.

**Materion ehangach yn ymwneud â Diogelwch Tomenni**

3.21 Gall rhai gweithrediadau ar neu wrth ymyl tomenni nas defnyddir greu problemau sy'n gallu cael effaith negyddol ar sefydlogrwydd tomen, gan gynnwys y canlynol:

- Cloddio/newid proffiliau tomen,
- Gall tipio deunyddiau heb reolaeth ar lwyfandiroedd neu lethrau orlwytho'r ardaloedd hynny neu effeithio ar y seilwaith draenio,
- Gall storio deunyddiau heb reolaeth ar lwyfandiroedd neu lethrau orlwytho'r ardaloedd hynny,
- Blocio/gwyro draeniau/cyrsiau dŵr,
- Gwaredu seilwaith draenio neu newidiadau i'r seilwaith draenio heb awdurdod,
- Defnydd hamdden answyddogol, fel defnyddio beiciau modur a beiciau - er enghraifft, cerbydau oddi ar y ffordd yn torri i fyny ac i lawr yr ysgafellau ac yn achosi sgwrio a rhigolau sy'n newid ac yn gwaethygu sgwriad yr arwyneb lleol, a
- Gweithrediadau llosgi ar wyneb y domen.

**Diffyg arbenigedd**

3.22 Dros y ddau ddegawd diwethaf mae awdurdodau lleol wedi colli arbenigedd mewn perthynas â gweithrediadau mwyngloddio a thomenni nas defnyddir. Mae hyn yn adlewyrchu'r dirywiad mewn gweithgarwch cloddio glo, ac mae sawl ffactor yn gyfrifol amdano, gan gynnwys gweithwyr yn ymddeol, ailstrwythuro awdurdodau lleol a chyfyngiadau cyllido. Dros amser, mae'r cyfrifoldeb am domenni glo wedi symud o dimau tomenni glo arbenigol mewn awdurdodau lleol, ac erbyn hyn, mae adrannau llifogydd, priffyrdd neu ddraenio tir yn aml yn gyfrifol amdanynt. Mewn awdurdodau lleol llai, mae diogelwch tomenni nas defnyddir yn gallu bod yn un agwedd yn unig ar swydd un person. Mae arolygon sgiliau a gwblhawyd mewn awdurdodau lleol wedi dangos bod bwlch sgiliau yn bodoli, sy'n effeithio ar ansawdd archwiliadau a'r gallu i ddatblygu gwaith cynnal a chadw.

**Ffactorau sy'n arwain at Fethiannau Tomenni**

3.23 Mae nifer o ffactorau yn gallu arwain at ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir, ac un ohonynt yw dŵr. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.12, roedd hi wedi glawio’n drwm cyn y tirlithriad yn Nhylorstown, ac mae tirlithriadau tomenni eraill wedi digwydd ar yr un pryd â glaw trwm. O ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mae cyfanswm y glaw sy'n disgyn ar dde Cymru wedi cynyddu 13% ers y 1960au, ac mae mwy o’r glaw hwnnw’n disgyn yn ystod misoedd y gaeaf, sy'n golygu bod lefel y glawiad yn llai cyfartal trwy gydol y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn mewn glawiad yn parhau.

3.24 Mae ffactorau eraill yn gallu achosi gwendid mewn tomenni, gan gynnwys ffactorau yn ymwneud ag adeiladwaith gwreiddiol tomen. Nid oes gan rai tomenni hŷn system ddraenio ffurfiol, ac fe'u hadeiladwyd yn syml trwy dipio deunydd ar dir agored, a oedd ar lethr yn aml. Mae erydiad yn cyfrannu at wendidau hefyd gan ei fod yn gallu effeithio ar y draeniad, ac mae cwympo coed yn gallu arwain at ansefydlogrwydd tomen gan fod gwreiddiau coed yn angori'r pridd.

3.25 Mae llawer iawn o dystiolaeth am effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd, cymunedau, iechyd, llesiant a seilwaith. Mae hyn yn arwyddocaol iawn ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir, felly hefyd ar gyfer heriau hirdymor eraill fel rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, oherwydd gallai cynnydd mewn stormydd a dwyster glaw oherwydd y newid yn yr hinsawdd gynyddu'r pwysau ar nodweddion peirianyddol tomenni, sy'n hanfodol i gynnal eu sefydlogrwydd.

3.26 Mae dros 90% o'r tomenni nas defnyddir sydd â lefel uwch o fygythiad posibl (C a D) yng nghymoedd y De, ardal sydd â lefelau uchel o dlodi. Mae nifer o dirlithriadau tomenni glo, fel yr un yn Nhylorstown, wedi'u hachosi gan gynnydd mewn glawiad sy'n effeithio ar y systemau draenio

peirianyddol, ac nid oedd rhai o'r systemau hyn wedi’u cynllunio i ymdopi â'r lefelau presennol na'r lefelau a ragwelir o lawiad.

3.27 Yn 2021, fe wnaeth y Climate Change Risk Assessment for Wales annibynnol gydnabod y potensial i effeithiau hinsawdd gynyddu'r risg yn y dyfodol o dirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â gweithrediadau mwyngloddio hanesyddol.

3.28 Cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd adroddiad ym mis Chwefror 2022: “Climate Change: Impacts, Adaptation and Vulnerability”. Nododd yr adroddiad fod newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl wedi cyfrannu at effeithiau niweidiol eang a cholledion a niwed cysylltiedig i bobl a natur. Mae'r bobl a'r systemau mwyaf agored i niwed yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

3.29 Yn fwy diweddar, dangosodd adroddiad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd 2023 y bydd effeithiau a risgiau hinsawdd yn cynyddu yn unol â chynhesu byd-eang, ac y bydd yn fwyfwy cymhleth ac anodd rheoli risgiau.

3.30 Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r angen am gynlluniau cryfach i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ac i ddatblygu cyfuniadau o addasiadau sy'n gallu ymateb i newid yn yr hinsawdd. Bydd risgiau yn digwydd ar yr un pryd a bydd effeithiau amrywiol ar ein cymunedau.

**Papur Gwyn Llywodraeth Cymru**

3.31 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru) (Y Papur Gwyn) ar 12 Mai 2022. Roedd y papur yn ddogfen ymgynghori yn amlinellu cynigion ar gyfer Bil Diogelwch Tomenni Glo (Cymru), ac roedd yn gofyn am ymatebion erbyn 4 Awst 2022. Roedd yn adlewyrchu llawer o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mewn rhai meysydd roedd y papur yn cyflwyno dull gweithredu amgen, yn enwedig mewn perthynas â monitro a chynnal a chadw tomenni glo nas defnyddir ac mewn perthynas ag asesiadau o beryglon a chategoreiddio tomenni. Roedd y cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn yn darparu fframwaith cyffredinol, sy'n addas ar gyfer tomenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.

**Effeithiau**

3.32 Mae'r Bil yn ataliol o ran natur. Bydd y Bil yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr (bydd y tomenni nas defnyddir sy'n peri lefel uwch o fygythiad posibl yn destun gwiriadau amlach a manylach), a bydd yn rhoi pwerau i'r Awdurdod sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, er mwyn mynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni. Mae tirlithriadau yn gallu cael

effaith drychinebus gan gynnwys marwolaethau posibl, anafiadau, difrod i'r amgylchedd a seilwaith allweddol, yr effaith gysylltiedig ar gymunedau a'r gost sylweddol o atgyweirio'r difrod. Mae cyfundrefn reoli effeithiol yn gallu helpu i leihau costau cyweirio yn sylweddol gan fod archwiliadau a gwaith cynnal a chadw arferol yn helpu i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl, a thrwy hynny leihau'r angen am waith drutach os yw tomen yn llithro.

## Crynodeb o'r Bil

3.33 Bydd y gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl, cymunedau a seilwaith allweddol Cymru trwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni.

3.34 Mae'r Bil yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu corff newydd, yr Awdurdod, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r gyfundrefn newydd gan sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd,
- Datblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir sy'n fygythiad, neu a allai fod yn fygythiad, i les pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd,
- Dull cenedlaethol newydd o gategoreiddio tomenni, sy'n seiliedig ar asesiad llawn o bob safle lle mae asesiad cychwynnol yn penderfynu y gallai cofrestru fod yn briodol,
- Cyfundrefn fonitro sydd â gofynion monitro a rheoli gwahanol;
- Bydd yr Awdurdod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu berchnogion unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog,
- Bydd gan yr Awdurdod y pŵer i ymgymryd â gweithrediadau ar unrhyw dir i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog. Hefyd, bydd yn gallu adennill arian gan y perchnogion am gostau mewn cysylltiad â chamau neu weithrediadau a gwaith adfer sy'n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i'r gweithrediadau hynny, a
- Mae rhwystro asesiadau monitro neu weithgareddau o dan y Bil yn drosedd. Hefyd, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â phwerau mynediad a phwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau gan gyrff penodol.

## Darpariaethau manwl

3.35 Diben y Bil yw cyflwyno dull cyson o reoli, monitro a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir a fydd yn cael ei weithredu gan gorff cyhoeddus newydd. Amcan y Bil yw atal neu ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiadau i'w sefydlogrwydd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau tomenni nas defnyddir trwy reoli tomenni yn briodol, gan ddiogelu lles pobl.

3.36 Dyma amcanion y gyfundrefn newydd:

- Egluro rolau a chyfrifoldebau,
- Dull cyson o ymdrin â phob tomen nas defnyddir,
- Monitro ac archwilio tomenni nas defnyddir yn effeithiol er mwyn eu rheoli yn effeithiol ac atal bygythiadau i les pobl,
- Hysbysu'r rhai y gallai eu gweithredoedd effeithio ar sefydlogrwydd tomen nas defnyddir (gan gynnwys perchnogion, meddianwyr, tirfeddianwyr cyfagos neu eraill) am y camau sy'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod y domen yn parhau i fod yn sefydlog, mynd i'r afael ag unrhyw ansefydlogrwydd neu sefydlogi tomen nas defnyddir,
- System sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau ar y tir hwnnw gyda'r nod o atal neu ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir. Hefyd, mae'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau ei hun ac yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â chostau a hawliau apelio, a
- Chorff newydd i fonitro ac archwilio tomenni nas defnyddir, y mae ei swyddogaethau'n cynnwys ymgymryd ag amrywiaeth o weithrediadau, gan gynnwys: asesu ac wedyn categoreiddio tomenni nas defnyddir; swyddogaethau monitro; creu a chynnal cofrestr o domenni nas defnyddir; a darparu cyngor i Weinidogion Cymru ac eraill mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

3.37 Prif amcan yr Awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Yn unol â'r amcan hwn, rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd.

3.38 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o brif nodweddion y gyfundrefn a fyddai'n cael ei sefydlu gan y Bil. Mae esboniad o ddarpariaethau unigol yn y Bil ar gael yn y Nodiadau Esboniadol (Atodiad 1). Mae amcangyfrif o'r amseriadau a'r dull tebygol ar gyfer cyflwyno'r Bil wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) (Rhan 2).

## Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

## i. Cefndir

3.39 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw gorff cyhoeddus yn uniongyrchol gyfrifol am ddiogelwch tomenni. Mae Deddf 1969 yn darparu cyfundrefn ganiataol, lle nad oes modd defnyddio pwerau oni bai ei bod yn ymddangos i awdurdod lleol fod yna berygl posibl i'r cyhoedd oherwydd ansefydlogrwydd. Mae hyn yn golygu nad yw awdurdod lleol yn gallu ymyrryd yn gynharach ar sail ragweithiol er mwyn atal risg.

3.40 Fel y soniwyd eisoes, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod y gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol wedi dyddio. Hefyd, mae cyfuniad o anawsterau yn ei gwneud hi'n anodd iawn i awdurdodau lleol weithredu mewn modd rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol er mwyn sicrhau diogelwch tomenni. Ymhlith yr anawsterau hyn mae heriau gweithredol i awdurdodau lleol sydd â nifer fawr o domenni yn eu hardaloedd, diffyg arbenigedd a sgiliau arbenigol, heriau o ran adnoddau mewn awdurdodau lleol, a'r sefyllfa gymhleth o safbwynt perchnogaeth. Mae'r holl ffactorau hyn gyda'i gilydd yn cefnogi'r achos dros sefydlu corff newydd i ddarparu cyfundrefn reoli newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir.

## ii. Pam mae angen newid

3.41 Er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu'r gyfundrefn newydd a chydymffurfiaeth, mae angen goruchwyliaeth. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen arbenigedd perthnasol i ddarparu'r mewnbwn technegol a gweithredol angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn ymwneud ag awdurdod goruchwylio, a chwblhawyd dadansoddiad pellach i benderfynu a ddylai'r corff fod yn sefydliad sy'n bodoli eisoes neu'n gorff newydd.

3.42 Wrth asesu'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r gyfundrefn newydd, ystyriwyd chwe maen prawf: atebolrwydd; annibyniaeth; arbenigedd; cylch gwaith; gwerth am arian; a hyder. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad nad oedd unrhyw gorff presennol yn bodloni'r holl feini prawf.

3.43 Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr i adolygiad Comisiwn y Gyfraith (91% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn) yn cefnogi'r cynnig i sefydlu corff goruchwylio sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch yr holl domenni nas defnyddir. Mewn ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, roedd 88% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn cefnogi sefydlu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl tirlithriad Tylorstown, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo er mwyn cyflwyno rhaglen waith ar ddiogelwch tomenni glo. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddull gweithredu mwy hirdymor (gweler Rhan 2, RIA, Opsiwn 1 am fwy o fanylion).

3.44 Bydd y broses o sicrhau sylfeini deddfwriaethol i'r gyfundrefn newydd a sefydlu'r Awdurdod yn sicrhau ei hyfywedd hirdymor. Bydd yr Awdurdod

yn cael ei ariannu i gyflawni ei swyddogaethau, gan sicrhau cysondeb wrth reoli tomenni nas defnyddir ledled Cymru.

### iii. Amcanion Polisi

3.45 Amcanion polisi'r Bil yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Cyflawnir hyn trwy wneud y canlynol:

- sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio, rheoli ac archwilio tomenni;
- sefydlu corff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru, i gyflwyno'r gyfundrefn newydd.

3.46 Bydd sefydlu'r Awdurdod yn arwain at sawl mantais, gan gynnwys:

- sgiliau technegol arbenigol, sy'n gallu cynnig mantais ychwanegol i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill, tirfeddianwyr ac ati wrth reoli tomenni nas defnyddir,
- rhoi'r gyfundrefn ar waith er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson,
- darparu goruchwyliaeth a monitro i sicrhau bod tirfeddianwyr yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a allai fod wedi codi o ganlyniad i archwiliadau a gwaith cynnal a chadw,
- sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r gyfundrefn reoli, a'r
- potensial i elwa ar arbedion maint.

3.47 Mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u llunio er mwyn sicrhau mai amcan craidd yr Awdurdod yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr amcan hwn yn ganolog i ddull gweithredu'r Awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Bil yn cyflwyno system gofrestru ac asesu risg gynhwysfawr sy'n seiliedig ar risg ar gyfer tomenni; yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro ac archwilio, gan roi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr ymgymryd â gweithrediadau i fynd i'r afael ag unrhyw risg i sefydlogrwydd tomen, a phwerau i'r Awdurdod wneud gwaith ei hun, gan gynnwys gwaith sydd angen ei wneud ar frys i sicrhau sefydlogrwydd tomen. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau mynediad a'r gallu i adennill treuliau penodol gan dirfeddianwyr.

3.48 Mae'r Bil yn sefydlu Corff newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gyfundrefn newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir. Mae fframwaith o bwerau a dyletswyddau wedi'i greu ar gyfer y corff hwn. Prif amcan yr Awdurdod newydd fydd sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

3.49 Lluniwyd y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod fwy o bwerau na'r rhai sydd ar gael i

awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynnwys pwerau i gasglu gwybodaeth am domenni nas defnyddir er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, gan roi cymorth iddo asesu a chategoreiddio tomenni yn briodol, cael gwybodaeth am berchnogaeth tomenni a buddiannau pobl eraill mewn tir.

3.50 Bydd y Bil yn sicrhau bod gan yr Awdurdod bŵer mynediad nid yn unig i dir lle mae tomen wedi'i lleoli, ond hefyd i'r holl dir lle mae angen mynediad er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y pŵer hwn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob tomen nas defnyddir. Hefyd, bydd yn sicrhau bod modd datrys problemau ar dir cyfagos a allai gael effaith ar domen nas defnyddir. Bydd yn rhaid i'r Awdurdod arfer ei bwerau mynediad mewn ffordd sy'n gyfiawn ac yn rhesymol.

3.51 Bydd creu'r Awdurdod hefyd yn helpu i ddatblygu a meithrin datblygiad arbenigedd a sgiliau arbenigol yn y maes hwn, sydd wedi dirywio dros y degawdau diwethaf oherwydd dirywiad y diwydiant glo.

**iv. Diben y Ddeddfwriaeth**

3.52 Diben y ddeddfwriaeth yw disodli'r gyfundrefn reoleiddio bresennol nad yw'n addas i'r diben bellach. Bydd yn gwneud hyn trwy sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio, rheoli ac archwilio tomenni nas defnyddir, gyda'r nod o leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol, a thrwy hynny ddiogelu lles pobl, cymunedau Cymru a seilwaith wrth ymyl tomenni nas defnyddir.

3.53 Mae adran 70 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1969. Gwneir y gwelliannau hyn o ganlyniad i sefydlu'r gyfundrefn newydd o dan y Bil ar gyfer rheoli bygythiadau y gallai tomenni nas defnyddir eu hachosi i les pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd  Prif effaith y diwygiadau yw dileu'r swyddogaethau y mae Rhan 2 o Ddeddf 1969 yn eu rhoi ar awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn berygl i aelodau'r cyhoedd. Bydd swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru bellach yn mynd, yn hytrach, i'r Awdurdod. Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1969 yn effeithio ar gymhwyso Deddf 1969 i awdurdodau lleol yn Lloegr na'r Alban, y mae'r sefyllfa bresennol yn cael ei chadw mewn perthynas â hwy.

3.54 Er mwyn cyflawni'r effaith hon, gwneir diwygiadau i bennawd Rhan 2 ac adrannau 11 a 36 o Ddeddf 1969 i wneud yn glir bod Rhan 2 ddim ond yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban (nid Cymru). Mae hyn yn esbonio'r rhyngweithio rhwng y gyfundrefn newydd o dan y Bil a'r gyfundrefn bresennol o dan Ddeddf 1969, gan nodi bod y diwygiadau i Ddeddf 1969 yn fach o ran nifer ac felly nid ydynt yn ymwneud â Rheol Sefydlog 26.6C.

3.55 Bydd y gyfundrefn newydd yn darparu cyfundrefn reoli llawer mwy effeithiol, cadarn a manwl er mwyn helpu i sicrhau diogelwch tomenni

nas defnyddir. Mae'r Bil wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n rhoi'r gallu i'r Awdurdod ymyrryd er mwyn sicrhau sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir yn ystod camau gwahanol. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn cynnwys y gallu i gymryd, neu fynnu, camau rhagataliol os oes angen.

3.56 Er mwyn cyflwyno'r newidiadau gofynnol a amlinellir uchod, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- Cyflwyno'r gyfundrefn reoleiddio newydd,
- Creu a chadw cofrestr o domenni nas defnyddir,
- Cwblhau asesiadau rhagarweiniol i sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar domenni nas defnyddir a allai fod yn fygythiad i les pobl,
- Cwblhau asesiadau llawn ar domenni nas defnyddir os credir bod hyn yn briodol,
- Nodi a chategoreiddio tomenni y credir eu bod yn peri risg neu a allai beri risg,
- Cynnal archwiliadau cyffredinol neu fanwl, wedi'u llywio gan y broses o gategoreiddio ac asesu tomenni,
- Sicrhau gwaith cynnal a chadw arferol angenrheidiol sy'n berthnasol i bob tomen, a
- Defnyddio pwerau i'w gwneud yn ofynnol i eraill weithredu, neu i weithredu ei hun, pan fo’n ystyried bod angen cymryd camau o'r fath er mwyn atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu sefydlogi tomenni nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Cefnogir hyn gan bwerau mynediad, codi tâl a digolledu.

3.57 Hefyd, bydd yr Awdurdod yn darparu swyddogaeth gynghori er mwyn annog pobl, er enghraifft, perchnogion ar domenni nas defnyddir, i gyflawni eu cyfrifoldebau, neu i helpu gyda materion sy'n codi mewn perthynas â thomen nas defnyddir. Hefyd, bydd ganddo'r pŵer i ymyrryd mewn sefyllfaoedd pan nad yw'r rhai sydd â chyfrifoldeb yn gallu neu'n fodlon ymyrryd, neu os yw'n ystyried bod angen gweithredu ar unwaith.

## Asesu a chofrestru tomenni nas defnyddir

### i. Cefndir

3.58 Nid yw Deddf 1969 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a diogelu tomenni nas defnyddir. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n darparu ar gyfer cyfundrefn ganiatäol yn unig, sy'n adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol. Cyn tirlithriad Tylorstown yn 2020, nid oedd unrhyw set gyflawn o ddata ar gael ar domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Yn dilyn y tirlithriad yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Glo i gynnal adolygiad o'r holl domenni glo yng Nghymru, gan nodi eu lleoliad, eu categori risg a'u math o berchnogaeth ar draws awdurdodau

lleol. Cymerodd dros ddwy flynedd i gasglu data ar domenni glo nas defnyddir oherwydd nad oedd cofrestr ganolog.

**ii. Pam mae angen newid**

3.59 Nododd gwaith yr Awdurdod Glo ddull anghyson o gadw cofnodion, gyda gwahaniaethau yn y math o ddata sy'n cael ei gofnodi, a'r ffaith nad yw rhai awdurdodau lleol yn cadw cofnodion manwl na chynlluniau o domenni. Yn ogystal, nid oedd unrhyw system gyson i awdurdodau lleol asesu a chategoreiddio risgiau. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.18, mae nifer o gyfyngiadau i Ddeddf 1969.

**iii. Amcanion polisi**

3.60 Ein hamcan polisi yw sicrhau bod pob tomen nas defnyddir yng Nghymru yn cael ei hasesu a'i chategoreiddio. Hefyd, os oes angen, bydd sefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i'w sefydlogrwydd yn cael eu monitro. Er mwyn cyflawni'r amcan o asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir yn effeithiol ac yn gymesur, mae'r Bil yn sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflawni swyddogaethau penodol.

3.61 Bydd gan yr Awdurdod bwerau i gasglu gwybodaeth ac asesu a monitro'r holl domenni nas defnyddir yng Nghymru. Bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu hategu gan hawl mynediad i dir er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau. Darperir ar gyfer troseddau mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd perchnogion yn rhwystro asesiadau neu weithgareddau monitro, a/neu'n gwrthod darparu gwybodaeth neu fynediad i dir.

3.62 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio cofrestr electronig o domenni nas defnyddir yng Nghymru sy'n fygythiad i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd neu a allai beri bygythiad o'r fath os byddant yn mynd yn ansefydlog. Mae'r Bil yn darparu'r meini prawf ar gyfer cofrestru ac yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar gyfer pob cofnod yn y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys map sy'n dangos arwynebedd tomen, gwybodaeth am leoliad y domen a chategori'r domen. Mae'r gofrestr yn elfen ganolog o'r gyfundrefn newydd. Ar ôl ei sefydlu, bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am asesu a chategoreiddio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

3.63 Mae adran 6 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio a chadw cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Fel rhan o'r broses o benderfynu a ddylid cynnwys tomen yn y gofrestr, rhaid i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- Cynnal asesiad rhagarweiniol o bob tomen nas defnyddir, er mwyn nodi tomenni y bydd angen eu cynnwys ar y gofrestr o bosibl,
- Llunio adroddiad ar gyfer pob asesiad rhagarweiniol,

- Cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol mewn perthynas â thomen nas defnyddir os credir ei bod yn briodol gwneud hynny, oherwydd newid mewn amgylchiadau, neu os oes gwybodaeth yn dod i'r amlwg nad oedd ar gael yn ystod yr asesiad blaenorol,
- Cynnal asesiad llawn o domenni a nodwyd gan asesiad rhagarweiniol fel tomenni a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru ac y bydd angen eu cynnwys ar y gofrestr o bosibl,
- Mewn rhai amgylchiadau, cwblhau asesiad llawn o domenni sydd eisoes ar y gofrestr, a
- Llunio adroddiad ar gyfer pob asesiad.

**iv. Diben y Ddeddfwriaeth**

Asesiad Rhagarweiniol/Asesiad Llawn o domen

3.64 Mae adrannau 12 i 19 o'r Bil yn amlinellu'r gofynion yn ymwneud ag asesiadau rhagarweiniol ac asesiadau llawn o domenni nas defnyddir. Bydd rhaid i'r Awdurdod gwblhau asesiad rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir. Bydd hwn yn ymarferiad desg i alluogi'r Awdurdod i nodi pa domenni a allai beri risg i les pobl. Bydd yr ymarferiad hwn yn helpu i benderfynu a oes angen asesiad llawn ai peidio.

3.65 Yn dilyn asesiad rhagarweiniol, os yw'n ymddangos i'r Awdurdod y gellir bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru, rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad llawn o domen a llunio adroddiad o'r asesiad. Hefyd, mae'r Awdurdod yn gallu cwblhau asesiad llawn ychwanegol mewn perthynas â thomen nas defnyddir sydd eisoes wedi'i chofrestru os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny oherwydd newid mewn amgylchiadau neu oherwydd bod gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers i'r domen gael ei hasesu'n llawn ddiwethaf.

3.66 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar asesiadau rhagarweiniol ac asesiadau llawn y mae'n rhaid i'r Awdurdod roi sylw iddynt.

Cofrestru tomen

3.67 Unwaith y bydd yr Awdurdod wedi cwblhau'r asesiadau angenrheidiol, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod hysbysu pobl benodol am y cynnig i gynnwys y domen ar y gofrestr, fel y nodir yn y Bil. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl gyflwyno sylwadau ar gofrestru tomen. Pan fydd yr Awdurdod yn penderfynu bod y meini prawf ar gyfer cofrestru wedi cael eu bodloni, rhaid cynnwys y domen ar y gofrestr. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y gofrestr electronig yn cynnwys enw'r domen, y lleoliad, a'r categori.

3.68 Mae adran 8 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gofrestr, ond mae'n darparu bod yn rhaid ymgynghori â'r Awdurdod

gyntaf cyn gwneud unrhyw reoliadau. Yn ogystal, mae adran 20 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnod y gall perchnogion ar domenni a phersonau â buddiant gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod am gynnwys y domen yn y gofrestr.

Tynnu tomen oddi ar y gofrestr

3.69 Mae adran 22 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer tynnu tomen oddi ar y gofrestr ar ôl i asesiad llawn ddod i'r casgliad nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn cael eu bodloni bellach. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Awdurdod hysbysu perchennog/perchnogion ar domen ac unrhyw bersonau â buddiant (fel y nodir yn y Bil) o'i fwriad i dynnu'r domen oddi ar y gofrestr. Bydd gan berchenogion a phersonau â buddiant o leiaf 30 diwrnod i gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod ynglŷn â'r cynnig i dynnu'r domen oddi ar y gofrestr. Hefyd, mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, trwy gyflwyno rheoliadau, y cyfnod lleiaf ar gyfer gwneud sylwadau.

Categorïau o domenni nas defnyddir

3.70 Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod tomen nas defnyddir mewn un o bedwar categori gan ddibynnu ar sefydlogrwydd y domen, y potensial am ansefydlogrwydd, a bygythiad y domen i les pobl oherwydd ei hansefydlogrwydd neu ei hansefydlogrwydd posibl. Cynigir y dylai'r categorïau fod yn seiliedig ar system rifol. Mae hyn yn golygu y bydd tomenni yn cael eu cofnodi ar y gofrestr yng nghategori 1-4, gyda thomenni categori 1 yn peri lefel uwch o fygythiad posibl, a thomenni categori 4 yn peri'r lefel isaf o fygythiad posibl.

Mynediad y cyhoedd at y gofrestr

3.71 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn adran 9 i'r cyhoedd gael mynediad at y gofrestr. Bydd yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys enw'r domen, ei lleoliad a'i chategori. Bydd yr Awdurdod yn gallu penderfynu pa gofnodion y mae'n eu cadw a'i ddull o gofnodi lleoliadau tomenni nas defnyddir, ond fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gofrestr. Mae'n bwysig rhoi mynediad i'r cyhoedd at y gofrestr er mwyn helpu i wella hyder y cyhoedd drwy allu cael gafael ar wybodaeth.

Asesiadau ac adroddiadau

3.72 Wrth ystyried yr adran hon, mae'n ddefnyddiol cyfeirio at adran 69 o'r Bil sy'n darparu bod yn rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau. Cynigir y bydd y canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg ar gyfer asesiad llawn a chynnwys adroddiadau asesu. Mae hyn yn gyson â’r dull gweithredu yn y Bil, a bydd yn rhoi hyblygrwydd a chwmpas i

Weinidogion Cymru benderfynu ar lefel yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer pob dogfen ganllaw.

Cynlluniau rheoli

3.73 Cynigir hefyd y bydd Gweinidogion Cymru yn datblygu canllawiau ar gyfer yr Awdurdod, a fydd yn cynnwys canllawiau ar gynlluniau rheoli. Er nad yw'r Bil yn cynnwys gofyniad i greu cynlluniau rheoli, bydd cynlluniau o'r fath yn bwysig wrth gymhwyso'r gyfundrefn. Pwrpas cynllun rheoli fydd darparu gwybodaeth am domen benodol, a darparu strategaeth reoli ragweithiol a chymesur ar gyfer tomen. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth a'r manylion sydd eu hangen i fonitro a chynnal diogelwch y domen, ochr yn ochr â gwybodaeth benodol am nodi a rheoli risgiau a datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer tomenni penodol. Bydd cynlluniau rheoli yn cael eu llywio gan waith asesu a chategoreiddio tomenni yr Awdurdod.

3.74 Bydd y canllawiau gan Weinidogion Cymru yn cynnwys canllawiau ar rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod, sut mae rôl yr Awdurdod yn rhyngweithio â chyrff cyhoeddus eraill, a chanllawiau sydd â'r bwriad o gynorthwyo perchennog/perchnogion preifat tomenni nas defnyddir. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar gynlluniau rheoli a'u cynnwys. Bydd y canllawiau yn ei gwneud yn glir bod Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod lunio cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni yn y categorïau risg uchaf (categorïau 1 a 2), ac ystyried fesul achos a yw cynllun rheoli yn briodol ar gyfer tomenni yn y categorïau risg isaf (categori 3 a 4). Bydd y canllawiau yn ymdrin â sefyllfaoedd fel parodrwydd ar gyfer argyfwng ac ymateb i ddigwyddiadau. Bydd y canllawiau yn egluro bod lleoliad pob tomen yn unigryw, a bod disgwyl i bob cynllun rheoli ddarparu gwybodaeth am y perygl posibl, derbynleoedd mewn perygl, sefyllfaoedd argyfwng a strategaethau ymateb. Bydd y canllawiau yn cynnwys disgwyliad i'r cynlluniau ystyried y cyfyngiadau mewn safleoedd penodol a allai bennu parodrwydd ar gyfer argyfwng, yr ymateb i ddigwyddiad a strategaeth adfer. Bydd cyfyngiadau o'r fath yn cynnwys agosrwydd safleoedd sydd wedi'u dynodi am resymau ecolegol, lleoliad seilwaith allweddol cyfagos neu ryngweithio â chyrsiau dŵr dynodedig.

3.75 Bydd y canllawiau yn nodi y bydd disgwyl i'r Awdurdod weithio gyda chyrff eraill i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni o fewn eu perchnogaeth, a bydd disgwyl i'r Awdurdod ei hun lunio cynlluniau rheoli ar gyfer perchenogion ar domenni preifat, nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu llunio cynllun rheoli, neu'n barod i wneud hynny. Y disgwyl yw y bydd yr holl gynlluniau rheoli yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod.

Digolledu

3.76 Mae'r Bil yn cynnwys hawliau mynediad ar gyfer perchennog ar dir os yw'r Awdurdod wedi'i gwneud yn ofynnol iddo gyflawni gweithrediadau penodol. Hefyd, mae'n darparu bod person a awdurdodir gan yr Awdurdod yn gallu mynd ar dir er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio, monitro, asesu, gweithrediadau, gwaith canlyniadol ac ati.

3.77 Felly, mae gan y Bil ddarpariaethau yn ymwneud â digolledu mewn perthynas â sefyllfaoedd pan fo tir yn cael ei ddifrodi, eiddo yn cael ei ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes tarfu ar y gallu i fwynhau'r tir oherwydd gweithrediadau, gwaith neu ymchwiliadau.

## Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni

### i. Cefndir

3.78 Rydym eisoes wedi nodi sut mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Awdurdod Glo er mwyn sefydlu rhaglen waith i nodi lleoliad, perchnogaeth a statws tomenni glo nas defnyddir. Mae'r data diweddaraf ar domenni glo nas defnyddir yng Nghymru i'w weld yn Ffigur 1, sy'n rhoi dadansoddiad o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru fesul awdurdod lleol a chategori[2].

Ffigur 1 - (Mawrth 2024)

| Awdurdod Lleol | Categori D | Categori C | Categori B | Categori A | Categori R | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 5 | 13 | 38 | 63 | 9 | 128 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 36 | 37 | 94 | 6 | 179 |
| Caerffili | 7 | 44 | 66 | 81 | 8 | 206 |
| Caerdydd | 1 | 1 | 14 | 8 | 0 | 24 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 1 | 58 | 58 | 53 | 170 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 19 | 40 | 6 | 65 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 3 | 7 | 0 | 10 |
| Merthyr Tudful | 15 | 44 | 31 | 31 | 1 | 122 |
| Sir Fynwy | 2 | 10 | 7 | 8 | 0 | 27 |
| Castell-nedd Port Talbot | 13 | 28 | 161 | 385 | 30 | 617 |
| Sir Benfro | 0 | 1 | 6 | 54 | 0 | 61 |
| Powys | 0 | 1 | 20 | 6 | 3 | 30 |
| Rhondda Cynon Taf | 29 | 50 | 107 | 93 | 48 | 327 |
| Abertawe | 0 | 5 | 37 | 125 | 42 | 209 |
| Torfaen | 5 | 30 | 81 | 49 | 10 | 175 |
| Wrecsam | 0 | 3 | 21 | 107 | 85 | 216 |

[2] Mae'r Tabl yn rhestru tomenni nas defnyddir yng Nghategorïau D i A. Categori D yw'r categori sy'n peri'r bygythiad mwyaf posibl. Tomenni categori "R" yw'r rhai sy'n annhebygol iawn o effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, a allai gael eu gwaredu neu eu lefelu ac adeiledir drostynt yn aml. O dan ddarpariaethau'r Bil, bydd gan domenni nas defnyddir gategori rhifol o 1 – 4, gyda chategori 1 yn gategori sy'n peri'r bygythiad mwyaf posibl.

| **Cyfanswm y categori cyffredinol** | **83** | **267** | **706** | **1209** | **301** | **2566** |
|---|---|---|---|---|---|---|

(Nid oes unrhyw domenni glo nas defnyddir wedi'u cofnodi yng Ngheredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Casnewydd a Bro Morgannwg)

3.79 Mae'r data ar berchnogaeth tomenni nas defnyddir, yn ôl perchennog mwyafrif a chategori, yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2 – Perchnogion Mwyafrif Tomenni nas Defnyddir yn ôl Categori

| Categori Tomenni | Mwyafrif yr Awdurdod Glo | Mwyafrif Awdurdod Lleol | Mwyafrif Cyfoeth Naturiol Cymru | Mwyafrif Tir Preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| D – tybir Categori 1 | 5 | 25 | 10 | 43 | 83 |
| C- tybir Categori 2 | 4 | 56 | 22 | 185 | 267 |
| B – tybir Categori 3 | 11 | 154 | 110 | 432 | 706 |
| A – tybir Categori 4 | 1 | 208 | 86 | 914 | 1209 |
| R – tybir wedi'i eithrio | 2 | 75 | 2 | 222 | 301 |
| Cyfanswm | 23 | 518 | 230 | 1795 | 2566 |

3.80 Yn 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun grant i alluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a nodwyd trwy'r broses archwilio, gan gynnwys gwaith adfer ar domenni nas defnyddir sydd wedi cael tirlithriadau, fel yr un yn Nhylorstown. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno ceisiadau i'r cynllun grant nid yn unig ar gyfer eu tomenni nas defnyddir eu hunain ond hefyd ar gyfer unrhyw domenni nas defnyddir ar dir preifat y mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt. Ymrwymwyd cyfanswm o £44.4 miliwn hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 24-25.

## ii. Pam mae angen newid

3.81 Nododd adroddiad Comisiwn y Gyfraith fod y rhan fwyaf o domenni glo yng Nghymru yn rhai nas defnyddir, sy'n arwain at fwy o faich ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at gynnydd mewn glawiad, gan gynyddu'r risg y bydd tomenni'n mynd yn ansefydlog. Mae'r broblem hon wedi'i gwaethygu ymhellach yn sgil colli sgiliau a gwybodaeth arbenigol (oherwydd pobl yn ymddeol yn aml), ac nid yw'r bwlch hwn yn cael ei lenwi.

3.82 Nid yw'r rhan fwyaf o domenni ar y gofrestr yn debygol o fod angen gweithrediadau adfer cymhleth, ond yn hytrach waith cynnal a chadw arferol i atal tomenni rhag mynd yn ansefydlog. O dan y gyfundrefn bresennol, nid yw awdurdodau lleol yn gallu gorfodi perchnogion i gynnal a chadw tomenni preifat, ac nid oes cyfrifoldeb ar berchnogion i gwblhau archwiliadau a gwaith cynnal a chadw arferol. Hefyd, nid oes pŵer gan awdurdodau lleol i wneud mân waith cynnal a chadw, megis atgyweirio sianeli draenio, atgyweirio cwlfertau neu reoli erydiad. O dan Ddeddf 1969, nid oes modd gweithredu mewn unrhyw ffordd nes bod perygl i'r cyhoedd, ond y gwaith cynnal a chadw sy'n atal tomenni rhag mynd yn beryglus. Mae gwaith cynnal a chadw arferol yn llawer mwy cost-effeithiol na gwaith cyweirio, sy'n ddrud iawn yn aml.

3.83 Mae Deddf 1969 yn caniatáu cryn ddisgresiwn i awdurdodau lleol wrth ymdrin â materion fel asesu risg, categoreiddio tomenni, monitro ac archwilio, rheoli a chadw cofnodion a gorfodi, sy'n arwain at anghysondeb, Mae hyn yn cefnogi'r angen am newid deddfwriaethol a fydd yn cryfhau'r gyfundrefn reoli ar gyfer tomenni nas defnyddir ac yn sicrhau bod y dull gweithredu yn gyson ac yn gymesur.

### iii. Amcanion polisi

3.84 Ein hamcan polisi yw sicrhau y bydd yr Awdurdod yn rhagweithiol yn ei ddull o gynnal a chadw tomenni nas defnyddir ac atal ansefydlogrwydd tomenni; bydd y Bil yn galluogi'r Awdurdod i ymyrryd yn gynt nag sy'n bosibl o dan y system bresennol, a bydd yn gallu gwneud y canlynol:

- Rhoi cyngor i berchnogion ar domenni nas defnyddir ac eraill ar waith cynnal a chadw priodol ar gyfer y domen nas defnyddir, neu gyngor ar sut i ymgymryd â gweithrediadau penodol – gallai hyn fod yn gyngor cyffredinol ar waith cynnal a chadw er mwyn sicrhau diogelwch tomen, neu'n gyngor ar gyfer safle penodol;

- Argymell gwaith i sicrhau sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sicrhau nad yw'r domen nas defnyddir yn fygythiad i les pobl;

- Os yw'r Awdurdod o'r farn bod angen cyflawni gweithrediadau ar unwaith, er enghraifft, er mwyn atal argyfwng, neu os oes argyfwng wedi codi, caiff yr Awdurdod weithredu heb orfod rhoi hysbysiad cyn ymgymryd â'r gwaith.

### iv. Diben y Ddeddfwriaeth

3.85 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cynigion yn y Bil a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ymdrin yn effeithiol ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni, nid yn unig ar dir lle mae tomen nas defnyddir wedi'i lleoli, ond ar unrhyw dir er mwyn atal neu ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen.

3.86 O dan adran 2 o'r Bil, wrth geisio cyflawni ei brif amcan, rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni

nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd. Er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn, bydd angen i'r Awdurdod weithio'n helaeth gyda rhanddeiliaid a rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â thomen benodol nas defnyddir neu gyngor ar domenni nas defnyddir yn gyffredinol.

Gofyniad i berchennog gyflawni gweithrediadau

3.87 Mae adran 33 o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Awdurdod roi hysbysiad i berchennog ar unrhyw dir yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymgymryd â gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen neu atal tomen rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Cyn dyroddi hysbysiad, byddem yn disgwyl i'r Awdurdod gynnal trafodaethau gyda thirfeddianwyr ynglŷn â'r angen am y gweithrediadau a'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni.

3.88 Bydd yn bwysig i'r Awdurdod gynnal trafodaethau gyda pherchennog ar dir cyn dyroddi hysbysiad gyda gofyniad i wneud gwaith. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod am y gwaith disgwyliedig, yn enwedig os nad oes ganddynt y gallu technegol nac ymarferol, neu'r modd ariannol, i ymgymryd â'r gwaith a ddisgwylir gan yr Awdurdod.

3.89 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar y mater hwn, a rhaid i'r Awdurdod ystyried y canllawiau hyn wrth benderfynu a ddylid arfer ei bwerau i ddyroddi hysbysiad o dan adran 33.

3.90 Os yw'r Awdurdod yn penderfynu dyroddi hysbysiad o dan adran 33 mae'r Bil yn darparu hawl i apelio er mwyn amrywio neu ganslo'r hysbysiad o dan adran 36. Bydd gan berchennog ar dir, neu berson sy'n derbyn copi o'r hysbysiad, 21 diwrnod i wneud cais. Mae modd cyflwyno cais am sawl rheswm. Amlinellir trafodaeth fanylach ar y darpariaethau apêl ym mharagraffau 3.95 – 3.103.

3.91 Bydd perchennog ar dir yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad yn unol â'r amserlen benodedig. Mae hyn yn golygu y bydd yn wynebu dirwy. Rhagwelir y bydd cyfathrebu a thrafod effeithiol yn golygu mai prin iawn fydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â hysbysiad.

Pŵer Awdurdod i gyflawni gweithrediadau

3.92 Bydd gan yr Awdurdod y gallu (o dan adran 42) i gyflawni gweithrediadau ar dir os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog. Disgwylir y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau pan fo'r Awdurdod o'r farn bod

perchnogion yn methu â gwneud y gwaith eu hunain, neu'n amharod i wneud y gwaith, neu yn dilyn apêl lwyddiannus yn erbyn hysbysiad.

3.93 Enghraifft arall o sefyllfa pan allai fod yn fanteisiol i'r Awdurdod gael yr hyblygrwydd i gyflawni gweithrediadau ei hun yw sefyllfa lle mae apêl yn parhau, a bod amgylchiadau'n newid i'r fath raddau fel bod yr Awdurdod o'r farn ei bod yn angenrheidiol gweithredu er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.

3.94 Mewn argyfwng, mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Awdurdod (o dan adran 44) fynd ar dir er mwyn cyflawni gweithrediadau heb gydymffurfio'n gyntaf â'r gofynion hysbysu arferol, os yw'n ystyried bod angen cyflawni gweithrediadau ar unwaith. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod roi hysbysiad i'r perchennog ar y tir cyn cyflawni'r gweithrediadau. Fodd bynnag, unwaith y mae wedi dechrau gweithrediadau, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted â phosibl, roi hysbysiad i'r perchennog ar y tir bod y gweithrediadau wedi dechrau. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys manylion y bygythiad neu'r bygythiadau i les pobl y bwriedir i'r gweithrediadau eu hosgoi neu eu lleihau.

Apelau

3.95 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y gyfundrefn newydd yn cynnwys dulliau cadw cydbwysedd annibynnol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gyfundrefn yn deg a bod unigolion yn gallu cwestiynu, herio ac apelio yn erbyn penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud. Unwaith y bydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu, un o'i gyfrifoldebau allweddol fydd meithrin perthynas â rhanddeiliaid, yn enwedig perchnogion ar domenni nas defnyddir. Bydd pwyslais ar feithrin perthnasoedd yn helpu i leihau'r angen am apelau a hysbysiadau, gan y bydd yr Awdurdod wedi sefydlu llwybrau ar gyfer deialog ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd modd datrys materion dadleuol neu anghytundeb trwy ymgysylltiad a deialog rhwng yr Awdurdod, perchnogion ar domenni a phersonau â buddiant. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd cael pawb i gytuno ar y mater a datrys y mater ym mhob achos. Felly mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer proses apelio ffurfiol, a nodir isod.

3.96 Fel yr amlinellir uchod ym mharagraff 3.87, bydd gan yr Awdurdod y pŵer i ddyroddi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau penodedig i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Mae'r Bil yn cynnwys y dull gweithredu canlynol ar gyfer apelau mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn:

- Bydd gan berchnogion hawl i wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio neu ganslo hysbysiad o'r fath;

- Bydd gan berson â buddiant (gan gynnwys meddiannydd y tir neu rywun sydd wedi cyfrannu at yr angen am weithrediadau) hawl i wneud cais i amrywio neu ganslo hysbysiad hefyd.

3.97 Mae'r Bil yn amlinellu nifer o resymau y gallai perchennog a/neu berson â buddiant wneud cais i amrywio neu ganslo hysbysiad ar eu sail. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Nid oes unrhyw sail resymol dros gredu bod y gweithrediadau yn angenrheidiol er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les pobl,
- Mae'r gweithrediadau yn fwy helaeth nag sy'n angenrheidiol,
- Mae'r perchennog eisoes wedi dechrau gweithrediadau gwahanol a fydd yn cael yr un effaith, a
- Ni all y perchennog dalu costau'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad (dim ond tirfeddiannwr sy'n gallu apelio ar y sail hon).

3.98 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ymdrin â sefyllfa pan fo perchennog yn gallu gwneud cais i Weinidogion Cymru i adennilll costau a ysgwyddwyd o ganlyniad i ganslo hysbysiad i wneud gwaith ar domen nas defnyddir ond bod rhywfaint o waith wedi'i wneud eisoes.

3.99 Mae'r Bil yn darparu bod y ceisiadau a amlinellir uchod yn cael eu penderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru. Rydym wedi cynnig y dylai Gweinidogion Cymru benodi un o swyddogion Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i gyflawni swyddogaeth person penodedig i benderfynu ar gais, neu benodi unigolyn allanol i gyflawni'r swyddogaeth o benderfynu ar gais. Mae PEDW yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar hyn o bryd mewn perthynas ag apelau cynllunio ac apelau trwyddedau morol ar ran Gweinidogion Cymru.

3.100 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.92 o dan adran 42 o'r Bil, bydd gan yr Awdurdod bŵer i ymgymryd â gweithrediadau ar unrhyw dir i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Rhaid i'r Awdurdod roi'r hysbysiad i dirfeddianwyr a chopïau o'r hysbysiad i bartïon â buddiant - bydd yr hysbysiad yn nodi bwriad yr Awdurdod i gyflawni gweithrediadau, ond nid oes hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath. Y rheswm am hyn yw:

- Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr Awdurdod yn talu costau ymlaen llaw y gwaith (yn hytrach na'r perchennog),
- Nid oes unrhyw gosbau troseddol yn berthnasol,
- Byddai’r perchennog yn cael 21 diwrnod o rybudd am waith posibl ar y tir. Os yw'r perchennog yn dymuno gwrthod mynediad, byddai'n rhaid i'r Awdurdod wneud cais i'r Llys ddyroddi gwarant, a

- Bydd y perchennog yn gallu apelio yn erbyn unrhyw ofyniad gan yr Awdurdod am gyfraniad at gostau ar ôl i'r gweithrediadau gael eu cwblhau.

<u>Apelio yn erbyn gorchmynion cyfrannu</u>

3.101 Yn adran 51 cynigir y bydd gan yr Awdurdod y gallu i adennill oddi wrth y perchennog ar y tir, dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol mewn perthynas ag ymchwiliadau, gweithrediadau a gwaith adfer angenrheidiol o ganlyniad i'r gweithrediadau hynny.

3.102 Hefyd, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau yn adran 49 mewn perthynas â gorchmynion cyfrannu, pan fo'r perchennog ar y tir yn gallu gwneud cais am gyfraniad at gostau gan gyfrannydd. Yn adran 46 mae'r Bil yn nodi gan bwy y mae modd gofyn am gyfraniad, sy'n cynnwys:

- Person yr oedd ganddo ystad neu fuddiant yn y tir y lleolir y domen arno ar unrhyw adeg yn y 12 mlynedd cyn y rhoddwyd yr hysbysiad i'r perchennog,
- Person a ddefnyddiodd y domen i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel, a
- Pherson a achosodd neu a gyfrannodd at yr angen am y gweithrediadau.

3.103 Mae'r Bil yn awgrymu'r dull gweithredu canlynol mewn perthynas â:

- Hawl perchennog i apelio – Caiff tirfeddiannwr wneud cais i'r Llys i ganslo neu amrywio gofyniad gan yr Awdurdod am gostau, pan fo'r Awdurdod wedi cyflawni gweithrediadau ar dir i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen neu ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog.

- Hawl cyfrannydd i apelio - Gall cyfrannydd wneud cais i'r Llys i amrywio gofyniad gan berchennog ar dir i adennill treuliau yr aeth y perchennog iddynt wrth gydymffurfio â hysbysiad.

## Sut mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

3.104 Mae'r gyfundrefn bresennol yng Nghymru ar gyfer archwilio, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru yn dameidiog, yn anghyson ac, yn bwysicaf oll, nid yw'n darparu mesurau diogelu digon cadarn i helpu i atal tirlithriadau posibl yn y dyfodol. Mae'r gyfundrefn newydd wedi cael ei chynllunio i fynd i'r afael â'r gyfundrefn reoli ddiffygiol ar gyfer tomenni nas defnyddir. Mae mwy na 90% o'r tomenni sy'n peri lefel uwch o fygythiad posibl wedi'u lleoli yng nghymoedd y De, sydd eisoes wedi'u heffeithio gan lefelau uchel o dlodi. Bydd sefydlu corff newydd i gyflwyno'r gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl trwy gyflwyno dull cymesur y gellir ei orfodi o fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau eraill.

3.105 Rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, fel CNC, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd sefydlu corff newydd sy'n gyfrifol am ddiogelwch tomenni nas defnyddir yn darparu fframwaith clir ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir i waith y cyrff hyn. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda chyrff sydd â phrofiad o archwilio a chynnal a chadw tomenni glo nas defnyddir, gan gynnwys ymrwymo i gytundebau gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i feithrin a chryfhau cysylltiadau trawsddisgyblaethol a rhannu arferion gorau a chanllawiau.

3.106 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod feddwl am effaith fwy hirdymor ei benderfyniadau, gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau, a chydweithio â chyrff eraill. Hefyd, mae'n rhaid iddo fabwysiadu'r pum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau llesiant, ac un ohonynt yw cydweithio â chyrff cyhoeddus i weithio'n effeithiol.

## Risg o beidio â chyflwyno deddfwriaeth

3.107 Os na wneir y ddeddfwriaeth, mae risg sylweddol y gallai'r materion a'r anghysonderau a nodwyd yn y gyfundrefn bresennol o dan Ddeddf 1969 barhau. Gallai hyn arwain at liniaru cyfyngedig yn erbyn y risg barhaus o dir yn llithro, sydd nid yn unig yn peri risg i fywydau pobl, ond hefyd yn gosod beichiau ariannol sylweddol ar gymunedau, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol. Rydym yn gwybod bod gwaith cynnal a chadw arferol yn llawer mwy cost-effeithiol na'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith cyweirio, fel yn Nhylorstown lle amcangyfrifir bod y costau cyweirio oddeutu £20 miliwn.

3.108 Yn ogystal, os na wneir y ddeddfwriaeth, mae risg y bydd y fframwaith rheoleiddiol presennol, sy'n darparu pwerau caniataol yn unig i awdurdodau lleol, yn parhau i gael ei weithredu mewn ffordd dameidiog ac anghyson. Mae'r gyfundrefn bresennol yn ddull adweithiol, ac mae ei diffygion yn debygol o barhau os nad ydynt yn cael sylw a’u diwygio'n llwyr. Bydd peidio â deddfu yn golygu y bydd mesurau lliniaru ac ymyriadau yn cael eu cyfyngu gan yr hyn y mae deddfwriaeth bresennol yn ei ganiatáu.

3.109 Os nad ydym yn trawsnewid y gyfundrefn ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir, nid yn unig y bydd gwaddol y diwydiant glo yn parhau i fygwth ein cymunedau a'n seilwaith, bydd yn bygwth ein hecosystemau, ein cynefinoedd a'n bywyd gwyllt presennol hefyd. Mae effaith y newid yn yr hinsawdd, ac yn enwedig glaw trymach, yn cynyddu'r perygl yn y dyfodol o dirslipiadau, tirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio hanesyddol. Mae llawer o domenni nas defnyddir yn darparu ecosystemau ffyniannus, ac yn cefnogi cynefinoedd a bywyd gwyllt o gryn bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae angen gwarchod a diogelu'r ecosystemau hyn, a

bydd y cynigion yn y Bil yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu goroesi a ffynnu yn y dyfodol.

3.110 Rydym yn parhau i wynebu risgiau sylweddol a heriol sy'n deillio o domenni nas defnyddir yn symud ac yn llithro. Nid yw'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn mynd i newid, megis nifer y safleoedd, lefel a math y gwaith sydd ei angen i gynnal a chadw a sefydlogi tomenni nas defnyddir, effeithiau hinsawdd, y rhagwelir y byddant yn fwy mynych ac yn fwy difrifol yn y dyfodol, a seilwaith tomenni sy'n heneiddio. Mae'r ffactorau hyn yn tanlinellu'r angen i ddeddfu er mwyn creu cyfundrefn sy'n cydnabod yr heriau hyn.

3.111 Bydd peidio â chyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn golygu ein bod yn colli cyfle i fod y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu i sefydlu cyfundrefn reoli gadarn sy'n addas i'r diben ar gyfer tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Hefyd, bydd y gyfundrefn newydd yn darparu sicrwydd a mesurau diogelu i gymunedau yng Nghymru sy'n byw wrth ymyl tomenni nas defnyddir er mwyn eu helpu i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.

3.112 Nid yw'r dull presennol yn ddull hirdymor addas o ymdrin â’r problemau sy’n codi mewn perthynas ag ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir. Fel mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ei nodi, mae yna ddadl gref dros ddisodli'r gyfundrefn bresennol a sefydlwyd gan Ddeddf 1969 a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd.

# 4. Ymgynghori

## Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)

4.1 Roedd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yn destun ymgynghoriad yn y Papur Gwyn ar *Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru*, a gynhaliwyd rhwng 12 Mai 2022 a 4 Awst 2022. Cafodd cyfanswm o 23 o gwestiynau eu cynnwys ac roedd ymatebwyr yn gallu ymateb trwy ddefnyddio ffurflen arolwg ar-lein, cyfeiriad e-bost penodedig neu drwy'r post.

4.2 Roedd y Papur Gwyn yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion polisi ar gyfer prif nodweddion y gyfundrefn reoli newydd, sef:

- Creu Awdurdod Goruchwylio,
- Datblygu "Cofrestr Asedau Genedlaethol" newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir, a
- Dylunio'r prosesau asesu, categoreiddio, monitro, archwilio a chynnal a chadw.

4.3 Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgynghori yn y cyfnod pan oedd cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio'n raddol, felly defnyddiwyd ystod o sianeli cyfathrebu digidol (e.e. sianeli Llywodraeth Cymru, cylchlythyrau rhanddeiliaid a'r cyfryngau) i hysbysu rhanddeiliaid wedi'u targedu am gyhoeddi'r Papur Gwyn, y cynigion, a'r amserlen.

### Crynodeb o'r ymatebion

4.4 Cafwyd cyfanswm o 44 o ymatebion i'r Papur Gwyn, gyda 40 o ymatebion o bob rhan o Gymru a 4 gan ymatebwyr yn Lloegr. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys unigolion preifat, sefydliadau amrywiol, cynrychiolwyr etholedig, cwmnïau preifat, academia, cyrff proffesiynol, ac awdurdodau lleol.

4.5 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2022. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, ond yn gyffredinol roeddent yn cefnogi'r cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y Papur Gwyn.

### Ymgysylltu wedi'i dargedu yn 2022

4.6 Darparodd Llywodraeth Cymru nifer o gyflwyniadau ar y Papur Gwyn gan ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid:

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru
- Platfform yr Amgylchedd Cymru
- Pwyllgor Rhondda Cwm Taf
- Fforwm Rhanddeiliaid Taliadau Gwledig Cymru (Sefydliadau ffermio a thirfeddianwyr)
- Grŵp Cymru Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA)
- Cyd-bwyllgor Cenedlaethol Cynghori ar Chwareli (QNJAC)

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Plant yng Nghymru
- Y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant
- Grwpiau Arweinwyr Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.7 Cyflwynwyd sesiynau briffio technegol i Aelodau o'r Senedd, Aelodau Cymru o Senedd San Steffan, y cyfryngau ac arweinwyr awdurdodau lleol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad cyhoeddus ar-lein a dau ddigwyddiad ymgysylltu â phobl ifanc a drefnwyd mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru. Roedd y naill yn ddigwyddiad ar-lein gyda phobl ifanc o bob rhan o Gymru, a'r llall yn ddigwyddiad yn y cnawd yn Neuadd y Dref Castell-nedd gyda phobl ifanc o Gastell-nedd Port Talbot.

4.8 Roedd y broses ymgysylltu yn dilyn Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a darparwyd gwybodaeth i sefydliadau partner a rhanddeiliaid perthnasol.

## Datblygu Polisi yn dilyn yr ymgynghoriad Papur Gwyn

4.9 Cynhelir cyfarfod Grŵp Technegol misol ac mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol, CNC a'r Awdurdod Glo yn ei fynychu. Yn fwyaf diweddar yn ystod cam gweithredol drafftio'r Bil, mae swyddogion wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â chynigion y Bil. Er enghraifft, ymgysylltwyd â Chymdeithas Yswirwyr Prydain, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Cyfeillion y Ddaear Cymru a'r Rhwydwaith Gweithredu Glo. Rhoddwyd cyflwyniadau i'r Grŵp Cynghori Proffesiynau Iechyd ac academyddion sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir.

4.10 Mae'r gwahaniaethau rhwng y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad Papur Gwyn a'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cael eu hamlinellu isod.

### Creu Awdurdod newydd

4.11 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig creu Awdurdod Goruchwylio oherwydd nad oedd gan unrhyw gorff presennol unigol yr arbenigedd na'r gallu angenrheidiol i gyflwyno'r gyfundrefn reoli newydd.

4.12 Mae cwmpas yr Awdurdod yr un fath â'r hyn a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, mae ei swyddogaeth fel corff arbenigol wedi cael ei hail-lunio. Mae'r Bil yn rhagweld y bydd yr Awdurdod yn gorff arbenigol a fydd yn cynghori yn hytrach na rhagnodi wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Bil, gan annog y rhai sy'n gyfrifol am domenni nas defnyddir i gyflawni eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, bydd gan yr Awdurdod bwerau effeithiol ac ymarferol i weithredu os nad yw'r rhai sydd â chyfrifoldeb yn gallu gweithredu neu'n fodlon gweithredu.

**Datblygu "Cofrestr Asedau Genedlaethol" newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir**

Ystyr tomen

4.13 Ystyriodd y Papur Gwyn a oedd angen diffiniadau ar wahân ar gyfer tomenni yn unol ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ac ymgynghorodd ar y posibilrwydd o gynnwys y diffiniad o domen 'de minimis'[3] yn y Bil. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi cynnig y Papur Gwyn, ond ni chafodd ei gynnwys yn y Bil oherwydd bod gwaith datblygu polisi pellach wedi arwain at y casgliad y byddai cynnwys sawl diffiniad o domen yn creu llawer o broblemau gweithredol, ac felly nid oedd yn ddichonadwy. Mae ystyr y gair tomen yn y Bil yn aros yr un fath ag ydyw yn Neddf 1969.

4.14 Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio eithrio rhai tomenni o'r Bil ar sail nodweddion penodol, rydym wedi dewis cymryd pŵer gwneud rheoliadau (adran 81) a fydd yn caniatáu i ni adolygu ystyr "tomen nas defnyddir" ar sail profiad ac ymarfer unwaith y bydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu ac yn gwbl weithredol. Byddai hyn yn golygu bod modd gwireddu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ymwneud â'r mater hwn.

4.15 Mae tomenni sydd wedi'u lleoli "yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru" wedi'u cynnwys yn y diffiniad o "domen nas defnyddir" at ddibenion y Bil. Bydd gan yr Awdurdod y pŵer i weithredu mewn perthynas â thomenni sy'n croesi'r ffin, felly bydd yr Awdurdod yn gallu arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â thomenni a leolir yn gyfan gwbl yng Nghymru yn ogystal â thomenni a leolir yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr (tomenni trawsffiniol).

Cofrestr Asedau ar gyfer Tomenni nas Defnyddir

4.16 Cynigiodd y Papur Gwyn ofynion sylfaenol o ran cynnwys y gofrestr, a bennir mewn is-ddeddfwriaeth, yn unol ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith sy'n argymell dull cyson a chydlynol o gasglu data er mwyn osgoi data tameidiog. Roedd rhagor o waith datblygu polisi wedi cryfhau'r cynnig hwn trwy nodi cynnwys y gofrestr asedau ar gyfer tomenni nas defnyddir ar wyneb y Bil a rhoi pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru ddiwygio cynnwys y gofrestr, ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod.

**Dylunio'r prosesau asesu, categoreiddio, monitro, archwilio a chynnal a chadw**

Asesu'r peryglon

4.17 Cynigiodd y Papur Gwyn offeryn asesu perygl sy'n mesur lefelau perygl fel sylfaen i'r broses categoreiddio tomenni. Gwnaeth gwaith datblygu polisi pellach ail-lunio dyluniad yr asesiad o beryglon er mwyn ei wneud yn fwy synhwyrol, pragmatig ac ymarferol. Felly, mae'r Bil yn cynnig asesiad o

---

[3] Tudalen 26 o'r Papur Gwyn Gellid diffinio tomen de minimis yn domen ac iddi nodweddion lle mae'r risg o'r amryfal beryglon a amlinellir ym Mhennod 4 yn briodol isel neu'n fach iawn. Gellid defnyddio elfennau allweddol o'r gyfundrefn mewn ffordd gymesur ar gyfer y tomenni bach hyn, neu eu heithrio'n gyfan gwbl os nad ydynt yn peri unrhyw risg i gymunedau, i seilwaith hanfodol neu'r amgylchedd.

beryglon sy'n cynnwys dau gam cysylltiedig, sef asesiad desg rhagarweiniol i gasglu gwybodaeth gychwynnol am y domen a hysbysu'r Awdurdod wrth benderfynu a yw'n briodol symud ymlaen i'r cam nesaf, ac os felly byddai asesiad llawn yn cael ei gynnal cyn categoreiddio.

Categoreiddio

4.18 Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu categorïau ar gyfer tomenni nas defnyddir, a oedd yn seiliedig ar asesiad o beryglon ac effaith bosibl ar dderbynleoedd (e.e. ysgolion, ffyrdd, tai a seilwaith). Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.

4.19 Mae'r Bil yn symud i ffwrdd yn rhannol o'r system gategoreiddio a amlinellwyd yn y Papur Gwyn gan ei fod yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y domen yn hytrach nag effaith y perygl ar dderbynleoedd, ond mae'n cadw trefn rifiadol y Papur Gwyn, gan ddisodli system wyddor yr Awdurdod Glo.

4.20 Mae'r Bil yn nodi pedwar yn hytrach na phum categori, ac mae'n eu gosod mewn trefn o Gategori 1 sy'n cynrychioli tomenni nas defnyddir sy'n peri'r lefel uchaf o fygythiad, i Gategori 4 sy'n cynrychioli tomenni nas defnyddir sy'n peri'r lefel isaf o fygythiad. Bydd manylion am gategorïau yn cael eu cynnwys mewn canllawiau archwilio i'w datblygu gan Weinidogion Cymru.

4.21 Mae'r gwahaniaethau rhwng y tair system yn cael eu dangos yn y Ffigur 3 isod:

Ffigur 3 Gwahaniaethau rhwng y systemau categoreiddio.

| **System yr Awdurdod Glo** | | **Cynnig y Papur Gwyn** | | **Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)** |
|---|---|---|---|---|
| **D** | Y potensial i achosi risg i fywyd, hanes hysbys o ansefydlogrwydd | 1 | Uchel | Categori 1 - Lefel uchaf o fygythiad i les pobl |
| **C** | Y potensial i achosi perygl i fywyd, dim hanes hysbys o ansefydlogrwydd | 2 | Canolig | Categori 2 - Lefel ganolig o fygythiad i les pobl |
| **B** | Annhebygol o achosi perygl i fywyd/eiddo | 3 | Isel | Categori 3 - Lefel isel o fygythiad i les pobl |
| **A** | Tomen fach neu domen wedi'i hadfer | 4 | Isel Iawn | Categori 4 - Lefel isaf o fygythiad i les pobl |
| **R** | Lleoliad tomen hanesyddol | 5 | Wedi'i heithrio (anweithredol) | |
| | | | | |

Clystyrau o Domenni, Cynlluniau Rheoli ac Archwiliadau/Arfarniadau.

4.22 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig clystyrau o domenni, cynlluniau rheoli a dull tair haen o wiriadau parhaus ar amlder penodol. Roedd yr ymatebwyr o blaid y cynigion gan mwyaf. Gwnaeth rhagor o waith datblygu polisi lywio ein penderfyniad i beidio â chynnwys clystyrau o domenni yn y Bil oherwydd natur gymhleth perchnogaeth tomenni a'r her o nodi cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Ar gyfer y cynigion eraill, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau sy'n nodi disgwyliad Gweinidogion Cymru, er nad yw'n ddyletswydd statudol, y dylid llunio cynllun rheoli mewn perthynas â phob tomen nas defnyddir ar y gofrestr. Bydd y canllawiau yn egluro'r disgwyliad ar ofynion sylfaenol o ran cynnwys cynlluniau rheoli ac archwiliadau/arfarniadau. Ystyrir bod cynlluniau rheoli yn bwysig wrth gymhwyso'r gyfundrefn a byddant yn cael eu creu trwy gydweithio rhwng yr Awdurdod a thirfeddianwyr. Pwrpas cynllun rheoli fydd darparu gwybodaeth am y domen benodol, a darparu cyngor a strategaeth reoli ragweithiol a chymesur ar gyfer tomen. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a'r manylion sydd eu hangen i fonitro a chynnal a chadw’r domen yn ddiogel, ochr yn ochr â gwybodaeth benodol am nodi a rheoli risgiau a datblygu cynlluniau wrth gefn penodol i’r domen. Bydd cynlluniau rheoli yn cael eu llywio gan broses yr Awdurdod o asesu a chategoreiddio tomenni.

Cynnal a chadw

4.23 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y byddai'r Awdurdod Goruchwylio yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ar domenni dynodedig (categori 1), ac y byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal a chadw tomenni categori 2 pan fo hynny'n briodol, ac y byddai perchnogion yn gyfrifol am y tomenni â statws is (categorïau 3 a 4). Mae'r cynnig hwn wedi cael ei newid er mwyn sicrhau bod y system yn fwy ymarferol a chymesur a bod perchnogion yn parhau i fod yn gyfrifol am eu tomenni.

4.24 Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn rhoi cyngor, mewn cynlluniau rheoli, i berchnogion ar domenni ar y gwaith cynnal a chadw sydd angen ei wneud ar y domen, a bydd yn argymell gwaith i sicrhau sefydlogrwydd tomen, neu i sicrhau nad yw'r domen yn fygythiad i les pobl. Mae hyn yn wahanol i'r cytundebau cynnal a chadw mwy ffurfiol a gynigiwyd yn y Papur Gwyn.

4.25 Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau. Cynigir y bydd Gweinidogion Cymru yn datblygu canllawiau ar gyfer yr Awdurdod, a fydd yn cynnwys y disgwyliad y dylid ymgymryd â chynlluniau rheoli ar gyfer tomenni yn y categori risg uchaf (categori 1 a 2) ac yn ddewisol ar gyfer tomenni yn y categorïau is (categori 3 a 4).

4.26 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y gallai'r Awdurdod Goruchwylio ddyroddi gorchmynion cynnal a chadw pe bai perchnogion yn methu â chydymffurfio â chytundebau cynnal a chadw, ac mae'r Bil yn rhagweld pwerau tebyg ar gyfer yr Awdurdod. Bydd gan yr Awdurdod bŵer i roi hysbysiad i berchennog unrhyw dir yn ei gwneud yn ofynnol iddo/iddynt ymgymryd â chamau neu weithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen neu atal tomen rhag mynd yn fwy ansefydlog,

er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Bydd methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath o fewn yr amserlen benodol yn drosedd, a’r gosb fydd dirwy.

4.27 Hefyd, mae'r Bil yn darparu hyblygrwydd i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau ar dir ei hun os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog. Disgwylir y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau pan fo'r Awdurdod o'r farn bod perchnogion yn methu â gwneud y gwaith eu hunain, neu'n amharod wneud y gwaith eu hunain, neu yn dilyn apêl lwyddiannus yn erbyn hysbysiad cynharach.

4.28 Yn ogystal, os yw'r Awdurdod o'r farn bod angen gwneud gwaith ar unwaith er mwyn osgoi argyfwng, mae'n gallu gwneud y gwaith hwnnw heb roi hysbysiad ymlaen llaw. Yn yr un modd, mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Awdurdod fynd ar dir os yw'n ystyried bod angen cyflawni gweithrediadau ar unwaith. Ni fydd yn ofynnol i'r Awdurdod roi hysbysiad i berchennog y tir cyn mynd ar y tir. Fodd bynnag, unwaith y mae wedi dechrau gweithrediadau, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted â phosibl, roi hysbysiad i berchennog y tir bod y gweithrediadau wedi dechrau.

**Gorfodi, Codi Tâl ac Apelau**

<u>Gorfodi</u>

4.29 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig ystod o bwerau gorfodi a throseddau cysylltiedig. Roedd y rhain yn cynnwys pwerau mynediad i domenni nas defnyddir ac i dir y mae angen ei groesi er mwyn cyrraedd tomenni nas defnyddir. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig mynediad heb hysbysiad mewn sefyllfaoedd argyfwng. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer pwerau i fynd ar unrhyw dir er mwyn cyflawni gweithrediadau. Fel y nodwyd uchod, caniateir mynediad heb hysbysiad os yw tomen nas defnyddir yn ansefydlog a bod yr ansefydlogrwydd yn fygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen cael mynediad ar unwaith i'r tir. Mae mesurau diogelu ar waith ar gyfer tir preswyl, sy'n golygu os nad yw'r meddiannydd yn rhoi caniatâd, ni chaiff yr Awdurdod gael mynediad heb warant. Mae'r Bil yn cynnwys cosbau troseddol am rwystro mynediad i dir.

4.30 Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnig ystod o sancsiynau sifil megis cosbau ariannol penodedig, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ati. Nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y Bil. Yn ystod y gwaith datblygu polisi, penderfynwyd y byddai cynnwys y sancsiynau hyn yn gwneud y gyfundrefn yn or-fiwrocrataidd ac yn anhydrin. Byddai'n anodd i'r Awdurdod weithredu'r sancsiynau hyn a byddent yn gymhleth i dirfeddianwyr. Hefyd, ni fyddent yn meithrin y dull cydweithredol y mae'r Bil yn ei ffafrio gyda’r ffocws ar yr Awdurdod yn darparu cyngor a chymorth.

4.31 Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod wrth benderfynu pa lefel o ymyrraeth sydd ei hangen. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod y pŵer i roi hysbysiadau i berchnogion ar dir i gyflawni gweithrediadau ar dir neu i'r

Awdurdod ymgymryd â gweithrediadau ar dir ei hun. Os yw rhywun yn methu â chydymffurfio â hysbysiad heb esgus rhesymol, gallai wynebu dirwy ddiderfyn yn dilyn euogfarn ddiannod.

4.32 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o droseddau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn a sefydlir yn y Bil. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Mynd ati’n fwriadol i rwystro’r Awdurdod neu ymyrryd â'r Awdurdod wrth iddo archwilio neu fonitro tomenni nas defnyddir,
- Perchennog ar dir yn methu â chydymffurfio â hysbysiad a ddyroddwyd gan yr Awdurdod sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud gwaith ar y tir,
- Mynd ati’n fwriadol i rwystro neu ymyrryd ag ymchwiliad i weld a oes angen gweithrediadau ar dir neu wrth gyflawni gweithrediadau,
- Mynd ati’n fwriadol i ddifrodi neu ymyrryd fel arall â gwaith a gafodd ei wneud fel rhan o'r gweithrediadau sy'n ofynnol o dan y Bil,
- Methu â rhoi gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr Awdurdod, neu ddarparu gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol yn fwriadol neu'n ddi-hid, a
- Rhwystro person sy'n arfer pŵer mynediad o dan y Bil yn fwriadol.

Codi tâl

4.33 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig cynllun codi tâl teg, cymesur a thryloyw ac yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar sut y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio. O dan y Bil, ni fydd gan yr Awdurdod bwerau codi tâl, ond bydd yn gallu adennill costau wrth ymgymryd â gwaith ar ran perchnogion drwy roi gofyniad i berson am y swm perthnasol. Caiff person y rhoddir gofyniad iddo ac sy’n anghytuno â'r swm sy'n daladwy, wneud cais i'r llys i naill ai amrywio neu ganslo'r gofyniad.

4.34 O dan y Bil, bydd yr Awdurdod hefyd yn gallu codi tâl am wybodaeth, cyngor a chymorth (adran 3) ac am wasanaeth gweinyddol, technegol a phroffesiynol (adran 68).

Apelau

4.35 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai perchnogion/meddianwyr gael yr hawl i apelio yn erbyn cofrestru, gosod gorchmynion cynnal a chadw ac yn erbyn codi unrhyw dâl am waith o dan orchymyn cynnal a chadw, os oes anghytundeb ynglŷn â'r costau. Hefyd roedd y Papur Gwyn yn cynnig mai Tribiwnlysoedd Cymru a ddylai ymdrin ag apelau.

4.36 Mae'r Bil yn adlewyrchu'r cynigion hyn yn gyffredinol, er enghraifft mae gan berchnogion/meddianwyr yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod am gynnig i gofrestru tomen nas defnyddir, a gallant apelio yn erbyn hysbysiad i gyflawni gweithrediadau i berson a benodir gan Weinidogion Cymru am resymau amrywiol, gan gynnwys fforddiadwyedd.

4.37 Hefyd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer y posibilirwydd o berchnogion/cyfranyddion yn apelio i’r llys mewn cysylltiad â gorchmynion cyfrannu, a gallant ofyn am ganslo neu amrywio gofyniad gan yr

Awdurdod/tirfeddianwyr am gostau, pan fo gweithrediadau wedi’u cyflawni ar dir er mwyn ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen.

## Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft

4.38 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar Fil drafft. Ar y cyfan, mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cyd-fynd â'r darpariaethau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad Papur Gwyn. Os oes newidiadau wedi'u gwneud, y rheswm am hynny oedd creu dull gweithredu symlach ond mwy hyblyg, gan sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil yn gymesur ac yn rhesymol. Mae'r newidiadau'n cynrychioli esblygiad yn y dull gweithredu, yn hytrach na gwyriad sylfaenol o'r bwriad gwreiddiol.

4.39 Fel yr amlinellir uchod, ymgynghorodd y Papur Gwyn ar y dull gweithredu cyffredinol, a'r darpariaethau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn. Roedd yn adeiladu ar ymgynghoriad blaenorol Comisiwn y Gyfraith ar y gyfundrefn bresennol, a sut y dylai cyfundrefn newydd weithredu. Cynigir y bydd manylion ychwanegol am drefniadau gweithredol y gyfundrefn newydd yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth gyda chanllawiau statudol perthnasol pan fo hynny'n briodol. Cyn sefydlu'r Awdurdod, bydd Gweinidogion Cymru yn datblygu llawer o ganllawiau statudol a bydd yn rhaid i'r Awdurdod roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau. Unwaith y bydd yn weithredol, bydd yr Awdurdod yn datblygu rhagor o ganllawiau technegol.

4.40 O ystyried bod ymgynghori helaeth eisoes wedi digwydd ar adroddiad Comisiwn y Gyfraith, a bod cynllun ymgysylltu ar gyfer ymgynghori cynhwysfawr wedi'i ddatblygu ar gyfer y Papur Gwyn i lywio datblygiad y Bil, nifer yr ymatebion ac ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol ar hyd y broses o ddatblygu'r Bil, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft.

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv). y weithdrefn a gymhwysir - hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o’r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 8(2)(f) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 8 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr o domenni nas defnyddir. Mae paragraff (f) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i bennu gwybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr. Mae'n briodol cymryd pŵer i wneud rheoliadau fel bod gan Weinidogion Cymru hyblygrwydd i adlewyrchu profiad, ymarfer ac adborth defnyddwyr ar y gofrestr. | Negyddol | Nid oes unrhyw bŵer i leihau'r rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr. Mae adran 8(3) yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Awdurdod cyn gwneud rheoliadau. Mae'r pŵer i bennu gwybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr yn gymharol fân yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |
| 20(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 20 yn gwneud darpariaeth pan fo'r Awdurdod yn bwriadu cofrestru tomen. Mae'n darparu bod yn rhaid i hysbysiad am gofrestriad arfaethedig nodi'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau. Mae is-adran (3)(e) yn pennu bod yn rhaid i'r cyfnod fod yn 30 diwrnod o leiaf sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y cyfnod gofynnol hwn. Wrth i'r Awdurdod gyflawni | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod gofynnol ar gyfer cyflwyno sylwadau ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ei swyddogaethau ac wrth i'r gofrestr gael ei llunio, mae'n bosibl y bydd profiadau yn awgrymu bod angen ailystyried y cyfnod gofynnol ar gyfer cyflwyno sylwadau. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | |
| 22(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth pan fo'r Awdurdod yn bwriadu tynnu tomen oddi ar y gofrestr. Mae is-adran 22(3) yn darparu bod yn rhaid i hysbysiad datgofrestru arfaethedig nodi'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau am y cynnig i'r Awdurdod. Mae is-adran (3)(d) yn pennu bod yn rhaid i'r cyfnod fod yn 30 diwrnod o leiaf sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y cyfnod gofynnol hwn. Wrth i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau a chael profiad o ychwanegu tomenni at y gofrestr, a'u tynnu oddi arni, mae'n bosibl y bydd y profiadau hyn yn awgrymu bod angen newid y cyfnod gofynnol ar gyfer | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod gofynnol ar gyfer cyflwyno sylwadau ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyflwyno sylwadau. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | |
| 29(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 29 yn gwneud darpariaeth pan fo'r Awdurdod yn cynnig gwneud newid hysbysadwy i gofnod yn y gofrestr. Mae is-adran 29(2)(e) yn darparu bod yn rhaid i hysbysiad am newid arfaethedig bennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau am y cynnig, a bod yn rhaid i'r cyfnod fod o leiaf 30 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y cyfnod gofynnol hwn. Wrth i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau, ar sail ei brofiad, gallai ystyried ei bod yn briodol newid y cyfnod gofynnol ar gyfer gwneud sylwadau. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod gofynnol ar gyfer cyflwyno sylwadau ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |
| 38(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson penodedig wrth benderfynu ar apelau o dan adran 37. Mae adran 38(3) yn rhoi syniad o'r | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio gweithdrefn apelio ar gyfer person penodedig. Felly, credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | darpariaethau y gellir eu cynnwys mewn rheoliadau, ac mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru greu troseddau am fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau. Nid yw manylion presennol y weithdrefn apelio yn hysbys eto ac mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y mater hwn. Felly, mae angen bod yn hyblyg er mwyn gallu gweithredu system sy'n adlewyrchu ymatebion sydd wedi dod i law fel rhan o'r broses ymgynghori. Ar ben hynny, efallai y bydd angen diwygio'r weithdrefn yn y dyfodol. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |
| 38(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth arall (h.y. ac eithrio gweithdrefn) mewn cysylltiad â phenderfynu ar geisiadau, gan berson penodedig, o dan adran 36. Er enghraifft, darpariaeth mewn perthynas â hawliau mynediad.<br>Nid yw manylion presennol y weithdrefn apelio yn hysbys eto ac mae | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth arall mewn perthynas â'r weithdrefn apelio ar gyfer person penodedig. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y mater hwn. Bydd hyn yn dylanwadu ar gynnwys unrhyw reoliadau. Felly, mae angen bod yn hyblyg er mwyn gallu cyflwyno system sy'n adlewyrchu ymatebion sydd wedi dod i law fel rhan o'r broses ymgynghori. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | |
| 41(7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ymwneud â'r weithdrefn sydd i'w dilyn, gan berson penodedig, wrth benderfynu ar geisiadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 41, sef pan fydd perchennog yn gwneud cais i gael ad-daliad gan yr Awdurdod pan fo hysbysiad o dan adran 33 wedi ei ganslo a bod y perchennog wedi mynd i gostau i gydymffurfio â'r hysbysiad. Nid yw manylion presennol y weithdrefn apelio yn hysbys eto ac mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y mater hwn. Felly, mae angen bod yn hyblyg er mwyn gallu cyflwyno system sy'n adlewyrchu | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio gweithdrefn apelio ar gyfer person penodedig. Felly, credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymatebion sydd wedi dod i law fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r weithdrefn yn y dyfodol. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | |
| 41(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth arall (h.y. ac eithrio gweithdrefn) mewn cysylltiad â phenderfynu ar geisiadau, gan berson penodedig, o dan adran 41.<br>Nid yw manylion presennol y weithdrefn apelio yn hysbys eto, ac mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y mater hwn. Bydd hyn yn dylanwadu ar gynnwys unrhyw reoliadau. Felly, mae angen hyblygrwydd er mwyn gallu gweithredu system sy'n adlewyrchu ymatebion sydd wedi dod i law fel rhan o'r broses ymgynghori. Felly, ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth arall mewn perthynas â’r weithdrefn apelio ar gyfer person penodedig. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |
| 55(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 55 er mwyn newid y | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol". Mewn rhannau eraill o'r Bil (adrannau 56 a 57) mae gan yr Awdurdod bŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth, a gosodir dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol i rannu gwybodaeth. Yn y dyfodol, mae'n bosibl yr ystyrir bod angen diwygio'r diffiniad, ac felly mae pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | | diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol", sy'n gysyniad canolog i nifer o ddarpariaethau yn y Bil. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |
| 73(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc. yn ofynnol, oherwydd yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd angen gwneud diwygiadau i sicrhau bod y Bil yn gallu parhau i weithredu yn unol â'r bwriad polisi a nodwyd. | Negyddol oni bai bod Rheoliadau'n addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol (sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol). | Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. |
| 80 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru addasu cymhwyso'r Bil mewn perthynas â thir y mae gan yr | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu cymhwysiad y Bil. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Awdurdod ystad neu fuddiant ynddo. Mae pŵer i wneud rheoliadau yn briodol oherwydd na fydd gan yr Awdurdod, pan fydd wedi'i sefydlu, ystad na buddiant mewn tir. Os yw'r Awdurdod, ar ryw adeg yn y dyfodol, yn caffael ystad neu fuddiant mewn tir, rheoliadau yw'r dull mwyaf addas o sicrhau bod y gyfundrefn, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, yn gymwys i'r Awdurdod. | | er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |
| 81(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 81 i newid y diffiniad o "tomen nas defnyddir" os yw Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn cael eu dirymu neu eu diwygio. Mae'n briodol i'r pŵer hwn fod yn bŵer gwneud rheoliadau gan ei fod yn caniatáu diwygio diffiniad allweddol, os yw Rheoliadau 1999 neu 2014 yn cael eu dirymu neu eu diwygio, er mwyn sicrhau bod y Bil yn gallu parhau i weithredu yn unol â'r bwriad polisi a nodir a'i fod yn adlewyrchu unrhyw newid yn y dirwedd ddeddfwriaethol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o "tomen nas defnyddir", sy'n gysyniad canolog yn y Bil. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 81(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu na ddylid trin rhai tomenni fel tomenni nas defnyddir at ddibenion y Bil neu reoliadau a wneir odano. Wrth i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau o dan y gyfundrefn newydd, mae'n bosibl y bydd profiad yn awgrymu ei bod yn briodol dileu rhai tomenni o gwmpas y gyfundrefn. Mae'r pŵer hwn yn darparu ar gyfer y posibilrwydd hwn, ac ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu nad yw’r Bil yn gymwys i domenni penodol. Credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd. |
| 87(3) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Darpariaeth mewn perthynas â chychwyn adrannau penodedig yn y Ddeddf. Yn addas ar gyfer cychwyn drwy Orchymyn gan fod angen amseru'r dod i rym er mwyn sicrhau bod trefniadau cyflawni ar waith. | Dim gweithdrefn | Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau penodedig y Bil. |
| Atodlen 1 Paragraff 2(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau, ddiwygio nifer aelodau'r Awdurdod.<br>Mae pŵer i wneud rheoliadau yn briodol oherwydd, unwaith y bydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu ac yn cyflawni ei swyddogaethau, mae'n bosibl y bydd rhai profiadau yn cefnogi'r angen am newid nifer yr aelodau. Mae is-adran (4) yn | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i ddiwygio nifer aelodau'r Awdurdod ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | darparu bod yn rhaid i'r rheoliadau sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn parhau i fod yn fwy na nifer yr aelodau gweithredol. | | |
| Atodlen 1 Paragraff 3(g) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru bennu deiliad swydd, neu aelod o staff neu gorff, a allai gael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Awdurdod. Ystyrir bod y pŵer hwn yn briodol gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r mater hwn. | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i faes ar wahân ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |
| Atodlen 1 Paragraff 19(10) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae paragraff 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio. Mae is-baragraff (9) yn diffinio cyfnod cynllunio fel "(a) y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ag 1 Hydref 2027, a (b) pob cyfnod dilynol o 3 blynedd". Mae is-baragraff (10) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio is-baragraff (9)(b). Ystyrir bod y pŵer yn briodol ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r cyfnod cynllunio ar gyfer y cynllun corfforaethol. | Negyddol | Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i faes ar wahân ac mae'n cael ei ystyried yn fân bŵer yng nghyd-destun y gyfundrefn gyffredinol. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o’r pwerau i wneud cyfarwyddydau yn narpariaethau Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Atodlen 1<br>Paragraff 16(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Awdurdod mewn perthynas â pharatoi eu datganiad o gyfrifon. Mae hyn yn briodol gan fod cyfarwyddyd yn benodol i weithredu’r Bil yn ymarferol. Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Awdurdod wedi'i nodi ar wyneb y Bil sy'n nodi'n glir yr hyn y bydd cyfarwyddyd ei angen. | Dim gweithdrefn | Bydd pob cyfarwyddyd yn dechnegol ei natur ac yn ymdrin yn bennaf â phrosesau, ac oherwydd hynny, ni ystyrir bod gweithdrefn y Senedd yn briodol. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol - Crynodeb

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil; mae'r manylion fel a ganlyn.

6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## Tabl A

6.3. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o gostau a manteision y Bil yn ei gyfanrwydd. Lluniwyd y tabl i roi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix). Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf.

| ***Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)*** | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn a ffefrir:** Cyflwyno fframwaith rheoleiddio ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan gynnwys sefydlu Awdurdod newydd. | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2025-26 - 2039-40 | **Blwyddyn sail brisiau:** 2024 |
| **Cyfanswm y Costau Economaidd**<br>**Cyfanswm: £99.1 miliwn**<br>**Gwerth presennol: £69.1 miliwn** | **Cyfanswm y Manteision Economaidd**<br>**Cyfanswm: £143.4 miliwn**<br>**Gwerth presennol: £102.6 miliwn** | **Gwerth Presennol Net: £33.4 miliwn** |

## Y Gost Weinyddol

**Costau:** Mae'r gost o sefydlu a gweithredu yr Awdurdod fel y cynigir yn y Bil yn cynnwys costau sefydlu, costau staff a chostau rhedeg nad ydynt yn gostau staff, gan gynnwys creu a chynnal cofrestr asedau.

Mae'r cyfnod pontio yn cael ei gymryd fel y ddwy flynedd gyntaf, hyd at y pwynt yr amcangyfrifir y bydd y gyfundrefn yn mynd yn fyw (1 Ebrill 2027). Mae hyn yn cynnwys costau staff a chostau nad ydynt yn gostau staff yn ystod y cyfnod pontio wrth sefydlu'r corff newydd. Pan fydd yr arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar hyn o bryd i'r Awdurdod Glo yn cael ei ystyried, y gost ychwanegol o sefydlu a gweithredu'r Awdurdod newydd yw £97.8m ar draws y cyfnod arfarnu.

| **Math** | **Blynyddoedd** | **Cost** (£miliwn) |
|---|---|---|
| Costau pontio | 2025-26 i 2026-27 | 5.6 |
| Costau cyflog rheolaidd o dan y gyfundrefn fyw | 2027-28 i 2039-40 | 76.6 |
| Costau rheolaidd nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau o dan y gyfundrefn fyw | 2027-28 i 2039-40 | 28.6 |
| Llai Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i'r Awdurdod Glo (i gynnal asesiadau) | 2027-28 i 2039-40 | -13.0 |
| **Cyfanswm** | **2025-26 i 2039-40** | **97.8** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £5.6 miliwn** | **Rheolaidd: £92.2 miliwn** | **Cyfanswm: £97.8 miliwn** | **PV: £72.8 miliwn** |

**Arbedion costau:** Nid oes unrhyw arbedion costau wedi'u canfod.

**Cost weinyddol net: £97.8 miliwn**

## Costau Cydymffurfio

Mae'r gost o weithredu'r fframwaith rheoleiddio fel y cynigir yn cynnwys costau pob un o'r gweithgareddau sy'n ofynnol gan y gyfundrefn, llai y rhai a gyflawnir gan yr Awdurdod gan ddefnyddio'i staff ei hun, sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r costau gweinyddol uchod. Sylwer hefyd y bydd y gwaith brys yn dod o dan y cyllid grant presennol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar hyn o bryd i'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo (Y Tasglu) (ond a fydd yn trosglwyddo i'r Awdurdod o fis Ebrill 2027). Felly, ni ystyrir bod cost y gwaith brys hwn yn gost ychwanegol.

| **Gweithgaredd** | **Blynyddoedd** | **Cost** (£ miliwn) |
|---|---|---|
| Gwaith brys | 2027-28 i 2039-40 | 14.3 |
| PEDW | 2027-28 i 2039-40 | 1.3 |
| Llai cyllid Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo (yn cwmpasu gwaith brys) | 2027-28 i 2039-40 | -14.3 |
| **Cyfanswm** | | **1.3** |

| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £1.3 miliwn** | **Cyfanswm: £1.3 miliwn** | **PV: £0.9 miliwn** |
|---|---|---|---|

## Costau Eraill

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.

| **Pontio £0** | **Rheolaidd £0** | **Cyfanswm** £0 | **PV**: **£0** |
|---|---|---|---|

## Costau ac Anfanteision heb eu Meintioli

Mae'r rhaglen waith a ragwelir o dan y gyfundrefn arfaethedig yn unol â darpariaethau'r Bil yn fesuradwy ac fe'i hamcangyfrifwyd at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn.

## Manteision

Mae gan y broses o sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir fanteision wedi'u meintioli a heb eu meintioli gan gynnwys:

1. Costau a gaiff eu hosgoi yn sgil y lleihad yn nhebygolrwydd a graddfa methiannau tomenni nas defnyddir a fyddai'n gofyn am ymyrraeth gostus. Mae amlder y digwyddiadau hyn yn debygol o gynyddu o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd,
2. Gwelliannau mewn gwerth lles wedi'u cyfrifo o'r gwelliannau hamdden a all ddeillio o waith a weithredir gan y gyfundrefn, a
3. Manteision cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r gyfres o weithgareddau sy'n ymwneud â'r gyfundrefn.

Mae manteision heb eu meintoli yn cynnwys manteision gofal iechyd a chostau a gaiff eu hosgoi gyda phwyslais arbennig ar welliannau iechyd meddwl yn yr ardaloedd o amgylch tomenni nas defnyddir; a manteision amgylcheddol oherwydd cynnydd yn y gwaith o atal methiannau tomenni nas defnyddir a fyddai'n debygol o arwain at golli bioamrywiaeth, risgiau i afonydd neu allyriadau $CO_2$ sy'n gysylltiedig â llithriadau tomenni nas defnyddir a'r gwaith o'u clirio

| **Mantais** | **Blynyddoedd** | **Gwerth (**£miliynau) |
|---|---|---|
| Costau y gellir eu hosgoi | 2027-28 i 2039-40 | 54.2 |
| Manteision lles | 2027-28 i 2039-40 | 38.8 |
| Manteision cyflogaeth anuniongyrchol | 2027-28 i 2039-40 | 50.5 |
| **Cyfanswm** | | **143.5** |

| **Cyfanswm: £143.5 miliwn** | **PV: £102.6 miliwn** |
|---|---|

## Tystiolaeth Allweddol, Rhagdybiaethau ac Ansicrwydd

Mae'r RIA yn adeiladu ar yr asesiad effaith a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith ac ar y cynigion ym Mhapur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru) Llywodraeth Cymru (2022). Defnyddiwyd tystiolaeth hanesyddol o fethiannau blaenorol tomenni glo nas defnyddir fel sail ar gyfer y dadansoddiad yn yr RIA. Mae'r RIA yn defnyddio data o ffynonellau fel Stats Cymru, Prifysgol Caerwysg ac erthyglau wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolion academaidd ar effeithiau tirlithriadau. O ran ansicrwydd, un ystyriaeth allweddol yw'r anhawster wrth ragweld digwyddiadau methiannau tomenni nas defnyddir yn y dyfodol. Aethpwyd i'r afael â hyn gan ddefnyddio ffactorau sy'n deillio o amlder methiannau hanesyddol tomenni nas defnyddir.

Mae'r amcangyfrif a'r dadansoddiad o'r costau a'r manteision wedi cael eu harwain gan Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF a'u dadansoddi mewn amserlen o bymtheg mlynedd[4].

Mae gwaith y Tasglu ers 2020 wedi bod yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig ar gyfer y costau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â'r Awdurdod Glo, CNC ac awdurdodau lleol i gynnal a threialu gweithgareddau penodol a gynigir yn y Bil mewn perthynas â'r ystad tomenni glo nas defnyddir.

[4] Mae'r esboniad ar gyfer defnyddio cyfnod amser o 15 mlynedd wedi'i ddarparu isod.

## 7. Yr opsiynau

7.1. Mae'r adran hon yn amlinellu'r opsiynau sydd wedi'u gwerthuso mewn perthynas â chyflwyno fframwaith newydd ar gyfer rheoli, monitro a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir. Yna bydd yr adran ganlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob un.

7.2. Mae cryn dipyn o waith - gan gynnwys ymgyngoriadau gan Gomisiwn y Gyfraith a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru) (2022) - wedi'i wneud i lunio'r gyfundrefn arfaethedig. Wrth ddatblygu'r cynnig, ystyriwyd materion cyfreithiol gan gynnwys cymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol. Yn ogystal, mae gwaith 'ar lawr gwlad' a wnaed fel rhan o waith y Tasglu wedi caniatáu mireinio a phrofi pellach er mwyn sicrhau bod y cynigion a ystyrir yn ddichonadwy o safbwynt ymarferol.

7.3. Mae'r prosesau uchod wedi siapio'r gwaith o ddatblygu'r Bil sy'n cyflwyno fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr cydgysylltiedig iawn - hynny yw, ni fyddai'n bosib gweithredu rhai elfennau o’r gyfundrefn heb y rhai eraill – felly ni fu'n ddichonadwy darparu opsiynau manwl ar gyfer pob rhan o’r gyfundrefn.

7.4. Gellir dod o hyd i'r opsiwn o ymestyn y Tasglu am gyfnod amhenodol, fel dewis arall yn lle deddfwriaeth, fel rhan o’r ystyriaeth o'r opsiwn 'busnes fel arfer' isod.

7.5. Mae'r opsiynau canlynol wedi'u nodi a'u harchwilio:

Opsiwn 1 – busnes fel arfer.

Opsiwn 2 – cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer rheoli, monitro a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir, wedi'i isrannu fel a ganlyn:

- Opsiwn 2A – addasu corff sy'n bodoli eisoes i weithredu fel Awdurdod ar gyfer y gyfundrefn newydd; a
- Opsiwn 2B – cyflwyno corff cyhoeddus newydd i weithredu fel Awdurdod ar gyfer y gyfundrefn newydd.

### Opsiwn 1: ‘busnes fel arfer’

7.6. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y status quo rheoleiddiol o dan Ddeddf 1969. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i allu asesu a yw tomen nas defnyddir yn eu hardal yn sefydlog ac a yw unrhyw ansefydlogrwydd o ran y domen nas defnyddir yn debygol o fod yn berygl i aelodau'r cyhoedd. Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol bod y domen nas defnyddir yn ansefydlog ac yn beryglus i'r cyhoedd (neu'n debygol o fod), oherwydd ei ansefydlogrwydd, gallai'r awdurdod lleol barhau i'w gwneud yn ofynnol i berchennog y domen nas defnyddir gyflawni gweithrediadau penodol. Neu gallai'r awdurdod lleol ddewis cyflawni

gweithrediadau ei hun. Byddai'r gyfundrefn bresennol yn parhau yn ei chyflwr adweithiol ac ni fyddai gofyniad cyfreithiol i gymryd unrhyw fesurau rhagweithiol ac wedi'u trefnu i leihau'r bygythiad a berir gan unrhyw ansefydlogrwydd posibl tomenni nas defnyddir.

7.7. Fel y nodir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn ym mharagraffau 3.16 -3.19, canfu adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith fod y gyfundrefn reoleiddio bresennol wedi dyddio, gydag elfennau o'r gyfundrefn bresennol yn feichus neu'n anhylaw a bylchau yn ei darpariaeth. Daeth i'r casgliad bod diwygio'r gyfraith ar domenni nas defnyddir yn hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag y risg o dirlithriadau yn y dyfodol.

7.8. Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, a luniwyd ar sail yr argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith, yn nodi cynigion deddfwriaethol ar gyfer cyflwyno fframwaith rheoleiddio statudol newydd. Byddai hyn yn darparu dull newydd, cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir ac yn helpu i liniaru effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd. Cafwyd cefnogaeth gref gan randdeiliaid i'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn gyda chydnabyddiaeth eang o'r angen am gyfundrefn reoli effeithiol ac estynedig i helpu i sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir.

7.9. Yn syth ar ôl tirlithriad Tylorstown ym mis Chwefror 2020, sefydlodd y Prif Weinidog y Tasglu i gyflawni rhaglen eang o waith i sicrhau bod tomenni glo nas defnyddir yn cael eu rheoli'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod Glo er mwyn mapio a dyrannu categorïau interim ar gyfer tomenni glo nas defnyddir, a chynnal archwiliadau o domenni nas defnyddir, a chreu cynllun grant gan Lywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw ar domenni nas defnyddir. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Glo yn archwilio tomenni glo nas defnyddir categori C unwaith y flwyddyn a thomenni glo nas defnyddir categori D ddwywaith y flwyddyn. Dechreuodd yr archwiliadau cyntaf ar gyfer tomenni glo nas defnyddir categori B yn ystod yr hydref yn 2023.

7.10. Er bod cronfeydd wedi'u hymrwymo i'r rhaglen waith hon tan 2025, mae rhesymau clir pam na ellir ystyried y rhaglen bresennol fel ateb cynaliadwy yn yr hirdymor:

- Mae'n gweithredu o fewn cyfyngiadau Deddf 1969. Un o'r cyfyngiadau allweddol hynny yw natur adweithiol y gyfundrefn honno.
- Mae'n seiliedig ar benderfyniadau tymor byrrach ar gyllid ac adnoddau, gyda'r rhain fel arfer yn cael eu cytuno ar gyfer yr amserlenni sy'n fwy nodweddiadol o gyllidebau blynyddol neu adolygiadau gwariant tair blynedd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r

degawdau o waith rheoli a fydd ei angen ar gyfer tomenni nas defnyddir.

- Mae cyllid tymor byrrach o'r fath, a'r gwaith monitro a chynnal a chadw sy'n dibynnu arno, o reidrwydd yn agored i newidiadau yn y llywodraeth, gan ei gwneud hi'n anoddach i'r rhai sy'n byw ger tomenni nas defnyddir i ddatblygu disgwyliadau cywir am reoli tomenni nas defnyddir.
- Mae'r Tasglu yn rhaglen fewnol Llywodraeth Cymru, ac er bod sefydlu'r Tasglu wedi golygu cyflwyno staff arbenigol a chydweithio â chyrff allanol, yn enwedig yr Awdurdod Glo, nid yw hyn yn caniatáu datblygu medrusrwydd arbenigol hirdymor y byddai’r gyfundrefn newydd yn ei chefnogi.

7.11. O'r herwydd, ni ystyrir bod parhad hirdymor y Tasglu yn gynaliadwy. Gellid deall yr opsiwn 'busnes fel arfer' yn well fel sefyllfa cyn 2020 wedi’i lliniaru gan raglen waith tymor byr. Yn hytrach, tybir y bydd cyllid drwy'r Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo yn parhau, ond bydd yn cael ei reoli a'i ddosbarthu gan yr Awdurdod, yn unol â'i ddyletswyddau statudol

7.12. Felly, nid yw cynnal y 'status quo' yn cael ei ystyried yn opsiwn dichonadwy, hirdymor. Er y gallai'r opsiwn hwn barhau i ganiatáu ar gyfer archwiliadau a gwaith ar gyfer tomenni nas defnyddir, byddai hyn yn dal i fod, ar y gorau, yn ddull tameidiog. Mae'r opsiwn hwn yn tanseilio canlyniad adolygiad Comisiwn y Gyfraith a'r Papur Gwyn. Nid yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn addas i'r diben ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru nac, yn y pen draw, atal bygythiadau i les pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd, gan gynnwys drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.

## Opsiwn 2: cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd

7.13. Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno fframwaith llywodraethu cynhwysfawr pwrpasol ar gyfer tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r opsiwn hwn wedi'i rannu'n ddau is-opsiwn: opsiwn 2A a 2B, gyda chorff cyhoeddus yn gweithredu fel Awdurdod ar gyfer y gyfundrefn newydd yn y ddau ohonynt.

7.14. Diben y Bil yw cyflwyno dull cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir. Prif amcan yr Awdurdod, o dan y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy reoli tomenni mewn dull priodol, a fydd yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o fethiant yn y dyfodol.

7.15. Bydd y gyfundrefn reoleiddio newydd yn caniatáu:

- Creu a chynnal cofrestr asedau gan yr Awdurdod,

- Asesiad rhagarweiniol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar domenni nas defnyddir a allai beri bygythiad i les pobl,
- Cynnal asesiadau llawn gan yr Awdurdod ar y tomenni nas defnyddir hynny sy'n 'pasio' asesiad rhagarweiniol,
- Adnabod a chategoreiddio tomenni nas defnyddir y bernir gan yr Awdurdod eu bod yn peri bygythiad o'r fath,
- Paratoi cynlluniau rheoli, amserlenni cynnal a chadw, cofrestr risg a chynlluniau wrth gefn ar gyfer pob tomen nas defnyddir sy'n cael categori sy'n nodi lefel uwch o fygythiad, ac unrhyw domenni nas defnyddir y dyfernir categori iddynt sy'n nodi lefel is o fygythiad pan fo’r Awdurdod yn ystyried bod hynny’n fuddiol,
- Monitro'n gyson, a bennir gan waith categoreiddio ac asesu tomenni nas defnyddir gan yr Awdurdod,
- Goruchwylio gwaith cynnal a chadw arferol angenrheidiol sy'n benodol i bob tomen nas defnyddir, a
- Fframwaith ar gyfer ymateb i unrhyw waith uniongyrchol.

7.16. Bydd y fframwaith a sefydlir gan y Bil yn galluogi'r Awdurdod i weithio mewn ffordd i sicrhau:

- Eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau,
- Dull cyson ar gyfer pob tomen nas defnyddir,
- Ymateb cymesur ac unigryw i domenni nas defnyddir unigol gan nad ydynt yn homogenaidd, a
- Rheoli tomenni nas defnyddir yn effeithiol i leihau'r bygythiad i les pobl.

7.17. Bydd y gyfundrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac wedyn categoreiddio tomenni nas defnyddir; swyddogaethau monitro; creu a chynnal cofrestr asedau; a rhoi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ac eraill mewn perthynas â thomenni nas defnyddir

7.18. Mae'r ddau opsiwn ar gyfer corff o'r fath - addasu corff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes a sefydlu corff newydd - yn cael eu hystyried yn is-opsiynau 2A a 2B.

**<u>Opsiwn 2A: addasu corff sy'n bodoli eisoes</u>**

7.19. Mae opsiwn 2A yn cynnwys addasu rolau a swyddogaethau corff cyhoeddus presennol at ddibenion rheoleiddio tomenni nas defnyddir. Ystyriwyd yr opsiwn hwn mewn perthynas â thomenni glo nas defnyddir gan adolygiad ac ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith, yn ogystal ag ar gyfer tomenni nas defnyddir yn fwy cyffredinol yn y Papur Gwyn.

Ymhlith y sefydliadau posibl roedd yr Awdurdod Glo, CNC, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

7.20. Mae'r Papur Gwyn yn nodi, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, nad oes corff cyhoeddus yn uniongyrchol gyfrifol am ddiogelwch tomenni nas defnyddir. Dim ond pwerau caniataol sydd gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf 1969. At hynny, nid oes gan unrhyw gorff cyhoeddus ddyletswyddau penodol mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

7.21. Mae'r Papur Gwyn yn nodi, ym mharagraff 2.15, y chwe ffactor a ystyriwyd wrth asesu'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer goruchwylio’r gyfundrefn reoli arfaethedig newydd, sef:

- **Atebolrwydd** – byddai’n rhan o fframwaith llywodraethu Cymru, gan adrodd i Weinidogion Cymru a/neu'r Senedd, byddai’n cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a byddai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiadau mewn ymateb i unrhyw gwynion gweinyddol:
- **Annibyniaeth** – byddai ganddo strwythurau annibynnol, byddai’n atebol o fewn fframwaith llywodraethu Cymru, ac yn cael ei archwilio'n annibynnol gan gorff fel Archwilydd Cyffredinol Cymru:
- **Arbenigedd** – dylai gynnig arbenigedd ar draws sawl maes er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys gwybodaeth reoleiddiol:
- **Cylch gwaith** – dim gwrthdaro buddiannau wrth gyflawni ei swyddogaeth:
- **Gwerth am Arian** – defnydd effeithlon ac effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael; a
- **Hyder** – gan y cyhoedd a pherchnogion yn ei allu i gyflawni.

7.22. Mae'r Papur Gwyn yn nodi nad oedd yr un corff presennol yn bodloni pob un o’r chwe maen prawf. Er bod gan rai brofiad yn erbyn rhai meini prawf, nid oedd yr un yn cyflawni yn erbyn pob un o'r meini prawf. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad mewnol o'r cyrff presennol ar gyfer addasu i ymgorffori swyddogaethau rheoli diogelwch tomenni nas defnyddir. Roedd hwn yn sail i'r casgliad na fyddai modd addasu unrhyw gorff presennol at y diben a ragwelir.

7.23. Er enghraifft, nid yw'r Awdurdod Glo yn rhan o fframwaith llywodraethu Cymru ac nid yw'n atebol i Weinidogion Cymru nac i'r Senedd ac ni fyddai'n cael ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru nac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn wir am yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd, sy'n goruchwylio tomenni gweithredol o dan Reoliadau Chwareli 1999 (O.S. 1999/2024) a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 (2014/3248). Gallai CNC greu gwrthdaro ymddangosiadol neu bosibl gan ei fod yn rheoli'r ystad

tomenni glo fwyaf yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Teimlir bod goruchwyliaeth a blaenoriaethu annibynnol yn arbennig o bwysig lle mae risgiau tebygolrwydd isel ond effaith uchel yn cael eu rheoli.

7.24. Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, roedd y Papur Gwyn felly yn cynnig awdurdod goruchwylio newydd, gyda swyddogaethau llywodraethu a goruchwylio penodol ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir.[5]

7.25. Fodd bynnag, er mwyn darparu cymhariaeth fwy cyflawn, gwnaed asesiad o gostau posibl addasu corff presennol i gyflawni'r swyddogaethau fel y'u rhagwelwyd ar gyfer y gyfundrefn yn y Bil. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau i adnoddau dynol, technegol ac ariannol, yn ogystal ag arferion caffael a strwythurau llywodraethu. Mae'r costau hyn yn cael eu crynhoi isod.

**Opsiwn 2B: sefydlu corff cyhoeddus newydd**

7.26. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried sefydlu corff gweithredol newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio a gweithredu'r gyfundrefn reoleiddio arfaethedig ar gyfer tomenni nas defnyddir.

7.27. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei lywio gan yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac argymhellion dilynol yn ei adroddiad "*Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad*". Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r swyddogaeth gael ei chyflawni gan gorff cyhoeddus canolog. O dan Ran 2 o Ddeddf 1969, dyrannwyd y cyfrifoldeb am domenni nas defnyddir i awdurdodau lleol.[6] Bydd angen i'r swyddogaeth gael ei chyflawni gan un corff er mwyn "darparu dull unffurf o asesu risg ac arolygiadau, a blaenoriaethu dyrannu adnoddau yn ôl risg".[7]

7.28. Wrth ystyried pa fath o gorff cyhoeddus fyddai'n addas ar gyfer y swyddogaeth hon, dilynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau penodol, ac ystyriodd dri ffactor allweddol, sef:

- a oes angen i'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth gael ei ddarparu neu ei darparu gan y llywodraeth,
- pa lefel o arbenigedd oedd ei angen,
- pa lefel o annibyniaeth y dylai corff o'r fath ei chael.

7.29. Yn ogystal, byddai angen arbenigedd sylweddol ar draws sawl maes technegol gwahanol. Byddai angen i'r corff fod yn sefydliad hyd braich i leihau'r risg o ganfyddiad o ddiffyg annibyniaeth ymysg y cyhoedd.

[5] Gweler Pennod 2
[6] *ibid*, paragraff 2.2
[7] *Ibid*, paragraff 2.5

7.30. Mae'r prif fanteision ar gyfer sefydlu un corff goruchwylio wedi'u hamlinellu ym mharagraff 2.20 o'r Papur Gwyn fel a ganlyn:

- Sgiliau technegol arbenigol, a all gynnig budd ychwanegol i’r awdurdodau lleol wrth reoli tomenni nas defnyddir;
- Cylch gwaith penodol er mwyn sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel;
- Goruchwylio’r gyfundrefn yn annibynnol er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu;
- Goruchwylio a monitro annibynnol mewn perthynas â chydymffurfio â’r gyfundrefn newydd;
- Arbedion maint wrth gaffael gwasanaethau, casglu ymchwil a thystiolaeth a datblygu a rhannu arferion gorau a chanllawiau.

7.31. Roedd ymatebwyr i'r Papur Gwyn yn croesawu'r dull hwn ar y cyfan ac yn cydnabod y byddai corff o'r fath yn darparu'r oruchwyliaeth annibynnol hyd braich sy'n ofynnol.

## 8. Costau a Manteision

8.1. Bydd yr adran hon yn archwilio costau a manteision cysylltiedig y cynigion deddfwriaethol yn y Bil. Gan fod elfennau'r gyfundrefn yn gydgysylltiedig iawn, bydd hyn yn cael ei ystyried fel un opsiwn cynhwysfawr (Opsiwn 2). O fewn yr opsiwn hwnnw, ystyrir dau ddull gweithredu mewn perthynas â'r corff a fyddai'n goruchwylio'r gyfundrefn.

8.2. Cyfrifwyd y costau a'r manteision dros gyfnod arfarnu o 15 mlynedd, gan gwmpasu'r blynyddoedd 2025-26 i 2039-40, ac fe'u talgrynnir i'r £100,000 agosaf i adlewyrchu'r ffaith bod gwerthoedd yn amcangyfrifon o symiau mawr.[8] Mae cyfnod hirach na'r arfer wedi'i ddefnyddio i adlewyrchu'n well natur dymor hwy y rhaglen, gan gynnwys y ffaith y bydd yr holl domenni nas defnyddir yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn yn raddol dros amser. Cyflwynir yr holl gostau ym mhrisiau 'real' blwyddyn sylfaen (2024), gydag effeithiau chwyddiant cyffredinol wedi'u dileu. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Gostyngwyd y costau gan ddefnyddio cyfradd ostyngedig ganolog Trysorlys EF o 3.5%.

8.3. Bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio'n gyntaf ar domenni glo nas defnyddir, wedi'u blaenoriaethu yn ôl eu categori interim. Unwaith y bydd y rhan fwyaf o'r tomenni glo nas defnyddir wedi cael eu hasesu a, lle bo cyfiawnhad, eu hychwanegu at y gyfundrefn lawn, bydd yn ystyried tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, unwaith y byddant wedi'u mapio, bydd yr Awdurdod yn gallu blaenoriaethu'r tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo sydd yn fwy tebygol o fod angen eu hychwanegu at y gofrestr asedau. O'r herwydd, bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn yn cynyddu dros y cyfnod asesu, ond ar gyfradd sy'n gostwng yn barhaus. Erbyn diwedd y cyfnod o 15 mlynedd, byddant wedi dechrau lefelu.

8.4. Ar y llaw arall, cyfrifir y manteision gan gyfeirio at domenni glo nas defnyddir yn unig. Mae hyn oherwydd y bydd y rhain yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r manteision (a'r costau) ac mae llawer llai o dystiolaeth ar gael ar domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Bydd y manteision hyn wedi cyrraedd lefel gymharol gyson erbyn diwedd y 15 mlynedd.

### Cost Opsiwn 1

8.5. Mae yna effeithiau a chostau sylweddol posibl sy'n gysylltiedig â chynnal y status quo. Yn 2021, cydnabu Asesiad Risg Newid Hinsawdd annibynnol Cymru (CCRA3) y potensial i effeithiau'r newid

[8] Efallai na fydd cyfansymiau yn gwbl gywir oherwydd y talgrynnu hwn.

yn yr hinsawdd gynyddu'r risg o yn y dyfodol dirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio hanesyddol.[9] Gallai effaith y newid yn yr hinsawdd sbarduno digwyddiadau mwy mynych a garw o dywydd eithafol, gan arwain at lifogydd, stormydd a difrod cysylltiedig.

8.6. Mae digwyddiadau o'r fath yn cynyddu'r risg o fethiannau tomenni nas defnyddir a all arwain at gostau dynol sylweddol a chostau sylweddol o ran eiddo. Amcangyfrifir bod tirlithriad Tylorstown wedi costio £20 miliwn a mwy mewn gwaith adfer a chyweirio.[10] Mae'n bwysig nodi nad oedd y digwyddiad hwn yn cynnwys mathau eraill o ddifrod fel difrod i eiddo neu fywyd. Er mwyn cymharu, costiodd tirlithriad o domen lo nas defnyddir yn Hatfield yn Lloegr yn 2013 tua £65 miliwn i'w gyweirio a bu'n rhaid cau rheilffordd am chwe mis.[11] Nid oedd y gost hon yn cynnwys colledion economaidd eraill. Mae cynnal y sefyllfa bresennol yn golygu na fydd ateb hirdymor a chynaliadwy ar waith i liniaru'r risgiau cynyddol a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.

8.7. Mae Atodiad 4 o'r Papur Gwyn yn darparu dadansoddiad o eiddo preswyl o fewn 100 metr i ddetholiad o 10 tomen nas defnyddir sydd â lefel uwch o fygythiad. Dangosodd y dadansoddiad y gallai goblygiadau cost posibl methiant tomen lo nas defnyddir i eiddo preswyl amrywio o £900,000 i £25 miliwn, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y methiant.[12]

8.8. Roedd y dadansoddiad yn tynnu sylw hefyd at broblemau posibl gydag yswiriant, yn enwedig tanyswirio, pe bai tirlithriadau o'r tomenni glo nas defnyddir. Roedd yn cyfrifo y gallai graddfa tanyswirio fod hyd at 50%. O ystyried bod yr eiddo a ddadansoddwyd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), byddai lefelau tanyswirio o'r fath yn arwain at ganlyniadau difrifol.

8.9. Nid yw'r goblygiadau hyn o ran cost ar gyfer eiddo yn cynnwys effeithiau posibl eraill ar, er enghraifft, seilwaith, yr amgylchedd (yn enwedig ar ecosystemau), safleoedd o arwyddocâd diwylliannol, yn ogystal â goblygiadau iechyd a llesiant i'r cymunedau yr effeithir arnynt.

8.10. Mae cynnydd mewn glawiad cymedrig blynyddol yng Nghymru, yn enwedig yn y de, yn awgrymu posibilrwydd bod newid hinsawdd eisoes

[9] Trydydd Adroddiad Technegol Asesu Risg Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb ar gyfer Cymru (Saesneg yn unig), t88
[10] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig: *Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru: Ymgynghoriad,* 2022.
[11] Ibid
[12] Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru): Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru, 2022, Atodiad 4, paragraff 3.11

wedi cynyddu'r risg o dirlithriadau yn y dyfodol. Yn ogystal, disgwylir i ddyddodiad trwm gynyddu, a allai gynyddu risg honno ymhellach.[13]

## Cost Opsiwn 2

8.11. Mae'r adran hon yn ystyried costau'r gyfundrefn, ac eithrio unrhyw gostau cychwynnol a chostau parhaus creu neu addasu corff i weithredu fel yr Awdurdod. Bydd costau o'r fath yn cael eu hystyried yn opsiynau 2A a 2B.

8.12. Mae llawer o'r costau'n amrywio yn seiliedig ar gategori'r domen nas defnyddir dan sylw. Er mwyn amcangyfrif hyn, mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u gwneud:


- Mae'r categorïau interim ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yn cyfateb yn union i'r categorïau yn y dyfodol. Er enghraifft, tybir bod pob tomen nas defnyddir â chategori interim D yn domenni nas defnyddir Categori 1. Er mai dyma'r amcangyfrif gorau sydd gennym ar gyfer nifer y tomenni nas defnyddir yn y dyfodol yn ôl categori; gan y bydd yr holl domenni nas defnyddir yn y gyfundrefn newydd yn cael eu hailasesu, mae'n bosibl y gallai nifer y tomenni nas defnyddir fesul categori fod yn uwch neu'n is pan fydd y gyfundrefn newydd yn cael ei gweithredu.
- Mae niferoedd y tomenni glo nas defnyddir o bob categori ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd natur fyw y data.[14] Mae'r cyfanswm a ddefnyddir ar gyfer ein dadansoddiad yma ychydig yn uwch na'r hyn a ryddhawyd yn flaenorol, ac felly mae'n debygol o oramcangyfrif y costau ryw ychydig. Mae'r tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo sy'n cael eu hychwanegu at y gyfundrefn yn cael eu gwneud ar yr un gymhareb o gategorïau â thomenni glo nas defnyddir yn y categorïau interim, ond disgwylir bod cyfran llawer is o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn cael eu hychwanegu at y gyfundrefn (gweler paragraff 8.26 am ragor o fanylion).
- Mae costau gweithgareddau unigol yn seiliedig ar y gwaith sydd wedi'i wneud fel rhan o'r Tasglu, ac yn benodol wrth amcangyfrif nifer yr oriau ar bob gradd o staff sydd eu hangen ar gyfer gweithgaredd penodol, sydd wedyn wedi'u lluosi â chyfraddau contractio allan amcangyfrifedig er mwyn darparu amcangyfrif o gost ar gyfer contractio allan weithgaredd penodol. Ni thybir unrhyw arbedion maint at ddibenion yr RIA. Mae nifer yr oriau fesul gweithgaredd hefyd wedi cael eu gwirio gan yr Awdurdod Glo er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr. Darperir manylion ym mharagraffau 8.37-38.

---

[13] Trydydd Adroddiad Technegol Asesu Risg Newid Hinsawdd y DU: t113 (Saesneg yn unig)
[14] Sylwer bod y data'n cynrychioli ciplun a gymerwyd ym mis Gorffennaf 2023, er bod perchnogaeth yn destun newid.

8.13. Mae'r penderfyniad i amcangyfrif gan ddefnyddio cyfraddau 'contractio allan', er gwaethaf y disgwyliad y bydd rhai awdurdodau lleol yn debygol o sefydlu timau mewnol, wedi'i wneud am ddau reswm: yn gyntaf, er symlrwydd, ac yn ail, am fod contractio allan yn debygol o fod o leiaf mor ddrud â thîm mewnol ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n penderfynu ei bod yn fwy buddiol sefydlu tîm o'r fath. Mae'n debygol hefyd y bydd awdurdodau sydd â nifer fach o domenni nas defnyddir yn penderfynu gweithio gyda chyrff eraill, gan gynnwys awdurdodau eraill, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

8.14. Mae'r gyfundrefn yn caniatáu ar gyfer y prif elfennau canlynol.




8.15. Ar gyfer rhai elfennau o'r gyfundrefn, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gweithredu ar gyfer pob tomen nas defnyddir. I eraill, cyfrifoldeb tirfeddianwyr yw gwneud hynny. Mae hyn yn cael ei nodi ar gyfer pob math o weithgaredd yn yr adrannau isod.

**Mapio / rhestr o domenni nas defnyddir**

8.16. Cyn y gellir cynnal asesiad o domenni nas defnyddir, yn gyntaf bydd angen eu mapio. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â thomenni glo nas defnyddir ond bydd angen ei wneud ar gyfer tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo fel rhan o'r gyfundrefn newydd.

8.17. Bydd y gwaith o fapio tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo a chreu a chynnal rhestr o'r holl domenni nas defnyddir yn cael ei wneud gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cael ei gwblhau o fewn y lefelau staffio tybiedig, ac felly nid yw'n gost ychwanegol y tu hwnt i gostau'r Awdurdod (gweler Tabl 1).

8.18. Mae tua 2,500 o domenni glo nas defnyddir, ac amcangyfrifir bod 20,000 a mwy o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. O gofio mai prif amcan yr Awdurdod yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd (o dan adran 2 y Bil), mae'n fwy tebygol o ganolbwyntio ar y mathau o beryglon a gyflwynir gan domenni glo nas defnyddir, na'r mathau o beryglon a gyflwynir gan domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Mae hyn yn rhannol oherwydd eu lleoliad – maent yn llawer llai tebygol o fod yn agos at dai preswyl ac yn llawer llai tebygol o fod mewn cymoedd cul, serth. Felly, mae'n debygol y bydd tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn cael eu hidlo o'r broses mewn niferoedd llawer mwy yn yr asesiad rhagarweiniol, ac mae disgwyl i'r rhai sydd wedi'u cofrestru yn y gyfundrefn fod mewn categori llawer is, ar gyfartaledd.

Tabl 1 – Costau ychwanegol mapio tomenni nas defnyddir y tu hwnt i gostau rhedeg yr Awdurdod.

| | |
|---|---|
| Costau ychwanegol mapio tomenni nas defnyddir y tu hwnt i gostau rhedeg yr Awdurdod | £0 |

**Asesiadau Rhagarweiniol**

8.19. Bydd asesiadau rhagarweiniol yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniad desg ynghylch a oes angen cynnal asesiad llawn ar domen nas defnyddir. Bydd yr asesiad rhagarweiniol yn asesu a yw'n ymddangos bod y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir (o dan adran 7 y Bil) yn cael eu bodloni. Bydd y broses yn ceisio hidlo tomenni nas defnyddir o'r broses os oes tystiolaeth ddigonol i ddangos nad ydynt yn fygythiad i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd neu na allent beri bygythiad o'r fath mewn achos o ansefydlogrwydd.

8.20. Bydd yr asesiad bwrdd gwaith hwn yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod o fewn y lefelau staffio tybiedig, ac felly ni cheir costau ychwanegol uwchlaw'r rhai sy'n gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod (gweler Tabl 2).

8.21. Ar gyfer tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, amcangyfrifir y bydd yr Awdurdod yn dechrau ystyried y rhain yn 2032-33, y chweched flwyddyn lawn i'r gyfundrefn fod yn fyw, ar ôl canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir i ddechrau.[15] Amcangyfrifir y bydd wedyn yn cynnal asesiadau rhagarweiniol ar 500 o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo y flwyddyn wedi hynny. Defnyddir amcangyfrifon o'r cyfraddau cwblhau ar gyfer gwahanol weithgareddau i gyfrifo lefelau staffio gofynnol yr Awdurdod,

[15] Er na fyddai hyn yn atal yr awdurdod rhag asesu unrhyw domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo os oedd o'r farn fod cyfiawnhad dros eu hystyried yn gynharach yn y broses.

amseriadau gweithgareddau dilynol neu bryd y bydd tomenni nas defnyddir yn debygol o gael eu hychwanegu at y gyfundrefn lawn.

8.22. Fel y nodir ym mharagraff 8.18, yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, rhagwelir na fydd y rhan fwyaf o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn cael eu hystyried yn fygythiad i les pobl ac y byddant yn cael eu heithrio rhag cael eu hychwanegu at y gofrestr ar ôl asesiad rhagarweiniol.

8.23. Bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo y mae'n credu sydd fwyaf tebygol o gael eu rhoi yng nghategori 1 neu 2 (sy'n cynrychioli'r tomenni nas defnyddir hynny sy'n peri'r bygythiad mwyaf), ac o'r herwydd, mae amcangyfrifon cost yn seiliedig ar gyfradd 'pasio' gychwynnol uwch, a fydd wedyn yn gostwng. Tybiwyd y bydd 90% o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn 'pasio' asesiad rhagarweiniol (sy'n golygu y bydd angen asesiad llawn) yn y flwyddyn gyntaf y mae tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo wedi'u cynnwys, gan ostwng yn llinol i 10% yn y bedwaredd flwyddyn, lle mae'n parhau wedyn. Byddai'r rhagdybiaethau hyn yn golygu, erbyn diwedd y cyfnod gwerthuso o 15 mlynedd, y byddai 30% o'r 4000 o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo a ystyriwyd - y rhai mae'r Awdurdod yn credu sydd angen eu gwerthuso fwyaf - wedi pasio asesiad rhagarweiniol. Byddai disgwyl i hyn ostwng wrth i weddill yr ystad nad yw'n lo gael ei gwerthuso.

Tabl 2 – Costau ychwanegol asesiadau rhagarweiniol y tu hwnt i gostau rhedeg yr Awdurdod

| | |
|---|---|
| Costau ychwanegol asesiadau rhagarweiniol y tu hwnt i gostau rhedeg yr Awdurdod | £0 |

**Asesiadau Llawn**

8.24. Pwrpas asesiadau llawn yw ystyried yr holl ffactorau arwyddocaol a nodwyd ar safle sy'n ymwneud â sefydlogrwydd y domen nas defnyddir a'r ardal gyfagos a materion sydd â'r potensial i effeithio ar sefydlogrwydd. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau arwyddocaol a allai beri bygythiad i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd neu os bydd ansefydlogrwydd, ac maent yn berthnasol i reoli’r domen nas defnyddir. Dyma sylfaen y broses o gategoreiddio tomenni nas defnyddir a bydd yn darparu gwybodaeth allweddol i ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer tomen nas defnyddir.

8.25. Bydd asesiadau llawn yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod ar gyfer yr holl domenni nas defnyddir nad ydynt yn cael eu 'hidlo' yn y cam asesiad rhagarweiniol. Bydd hyn yn defnyddio adnoddau mewnol yr Awdurdod yn bennaf, a bydd angen gweithio drwy'r tomenni nas defnyddir ar gyflymder dichonadwy. Bydd y categorïau presennol a

ddefnyddir gan y Tasglu yn galluogi'r Awdurdod i flaenoriaethu'r tomenni nas defnyddir hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu categoreiddio yn y categorïau o domenni nas defnyddir sy'n peri'r bygythiad mwyaf posibl.

8.26. O'r tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo sy'n cael eu hasesu'n llawn, tybir, at ddibenion yr RIA, y bydd tua 60% yn cael eu hidlo, gyda'r gweddill yn cael eu categoreiddio yn yr un modd â'r tomenni glo nas defnyddir. Mae hynny'n golygu, o'r rhai yn y gofrestr asedau, tybir bod 3% yn perthyn i Gategori 1, 12% yn perthyn i Gategori 2, 32% yn perthyn i Gategori 3, a 53% yn perthyn i Gategori 4. Mae'r disgwyliadau cyfredol yn awgrymu bod y rhain yn debygol o danamcangyfrif y niferoedd a fydd wedi'u hidlo erbyn y cam hwn, a goramcangyfrif nifer y tomenni nas defnyddir sy'n peri'r bygythiad posibl uchaf. Fodd bynnag, yn absenoldeb data mwy pendant ar domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, defnyddir dull gochelgar er mwyn osgoi tanamcangyfrif costau rheoli tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Gan fod eu categori yn pennu amlder a chost gweithgareddau dilynol, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, mae hyn yn debygol o arwain at oramcangyfrif o gostau yn y ddogfen hon.

8.27. Mae Tabl 3 yn crynhoi canlyniadau'r rhagdybiaethau'n ymwneud ag asesu tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo:

Tabl 3 – Crynodeb o ganlyniadau'r rhagdybiaethau’n ymwneud ag asesu tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo

| | Tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo |
|---|---|
| Amcangyfrif o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo | 20,000+ |
| Asesiadau rhagarweiniol wedi’u cynnal ar *x* o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo hyd at 2039-40 | 4,000 |
| | |
| O'r rhain, ychwanegwyd at y gyfundrefn | 480 |
| O'r rhain, fel Categori 1 | 14 |
| Categori 2 | 58 |
| Categori 3 | 154 |
| Categori 4 | 254 |

8.28. Gall yr Awdurdod ddewis hefyd cynnal asesiad llawn ychwanegol o domen nas defnyddir, er enghraifft os oes newid mewn amgylchiadau. Amcangyfrifir y bydd hyn yn digwydd ar gyfer 20% o domenni nas defnyddir Categori 1 bob blwyddyn, 10% o Gategori 2, ac 1% o domenni nas defnyddir sydd o'r bygythiad lleiaf posibl. Er symlrwydd, tybir bod y rhain yn dechrau ar unwaith pan fydd tomen nas defnyddir yn cael ei hychwanegu at y gyfundrefn.

8.29. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r Awdurdod Glo mewn perthynas â chyfundrefn fonitro'r ystad tomenni nas defnyddir. Mae'r cyllid hwn wedi dod i gyfanswm o £986,400 yn 2021-22, £753,869 yn 2022-23, £883,662 yn 2023-24 a £933,158 yn 2024-25. Er mwyn darparu ar gyfer hyblygrwydd ym mhenderfyniadau gweithredol yr Awdurdod, ac i gyfrif am ddefnydd posibl o gontractwyr allanol, yn enwedig mewn perthynas â'r angen am gyngor arbenigol, tybir y bydd y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru yn parhau ond y bydd yn cael ei reoli gan yr Awdurdod o 1 Ebrill 2027, yn lle'r tîm Diogelwch

Tomenni Glo yn Llywodraeth Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yr Awdurdod fydd â'r disgresiwn i benderfynu ar y ffordd y caiff y cyllid ei ddefnyddio ac at ba ddiben (gan gynnwys allanoli i'r Awdurdod Glo). At ddibenion yr RIA, rydym yn tybio cytundeb cyllido gwerth £1miliwn y flwyddyn, fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 4**: costau blynyddol[16] ar gyfer cyfundrefn fonitro'r Awdurdod Glo, £(000).

| | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Comisiwn Llywodraeth Cymru** | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| **Ailgodi am weithgareddau yr Awdurdod** | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | 2034-35 | 2035-36 | 2036-37 | 2037-38 | 2038-39 | 2039-40 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Comisiwn Llywodraeth Cymru** | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 13,000 |
| **Ailgodi am weithgareddau yr Awdurdod** | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (1,000) | (13,000) |
| **Cyfanswm** | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Costau archwilio manwl**

8.30. Mae'r archwiliad manwl o domenni nas defnyddir yn ymarfer technegol cynhwysfawr. O dan y fframwaith rheoleiddio arfaethedig, archwiliad manwl yw'r math cyntaf o archwiliad a wneir ar domen nas defnyddir ar ôl iddi gael ei gofrestru. Dylid cynnal yr archwiliad o fewn chwe mis ar gyfer pob tomen nas defnyddir Categori 1 a 2. Yna dylid ymgymryd â hwy o leiaf bob dwy flynedd (Categori 1) neu dair blynedd (Categori 2).

8.31. Gellir eu cynnal yn amlach, er enghraifft mewn ymateb i newid a nodwyd fel rhan o archwiliad cyffredinol. Efallai y byddant yn cael eu gwneud ar domenni nas defnyddir Categori 3 a 4 hefyd, ond nid oes gofyniad i wneud hynny. At ddibenion yr RIA, rhagdybiwyd bod 10% o domenni nas defnyddir Categori 3 yn cael archwiliad manwl bob blwyddyn.

8.32. Bydd archwiliadau manwl yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod o fewn y lefelau staffio tybiedig, ac felly ni fydd costau ychwanegol uwchlaw y

[16] Effaith net comisiwn monitro'r Awdurdod Glo, heb ei ddisgowntio.

rhai sy'n gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod (wedi'u cynnwys yn opsiynau 2A a 2B, isod). Noder, nid yw'r gweithgaredd hwn wedi'i nodi yn y Bil, ond yn hytrach, bydd dogfennau canllaw gan Lywodraeth Cymru yn manylu ar yr hyn a ragwelir.

**Archwiliad cyffredinol**

8.33. Bydd y gyfundrefn reoleiddio newydd yn galluogi archwiliad 'llai technegol' i adrodd ar y cyflwr a'r prif fathau o nodweddion ar y safle. Dylai'r rhain ddigwydd o leiaf bob chwe mis ar gyfer tomenni nas defnyddir Categori 1, a phob naw mis ar gyfer rhai Categori 2. Er nad oes gofyniad sylfaenol o ran pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau ar gyfer tomenni nas defnyddir sy'n peri'r bygythiad posibl isaf, tybir y bydd 20% o domenni nas defnyddir Categori 3 a 10% o domenni nas defnyddir Categori 4 yn cael archwiliad cyffredinol bob blwyddyn – sy'n cyfateb i un bob pum mlynedd ar gyfer Categori 3 ac un bob deng mlynedd ar gyfer Categori 4.

8.34. Bydd archwiliadau cyffredinol yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod o fewn y lefelau staffio tybiedig, ac felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol uwchlaw y rhai sy'n gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod (wedi'u cynnwys yn opsiynau 2A a 2B, isod). Yn debyg i archwiliadau manwl, nid yw'r rhain yn cael eu mandadu yn y Bil, ond yn hytrach, bydd dogfennau canllaw yn manylu ar yr hyn a ragwelir.

**Datblygu cynlluniau rheoli**

8.35. O dan y gyfundrefn reoleiddio newydd, y bwriad yw mai'r Awdurdod fydd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau rheoli. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol llunio cynlluniau rheoli; yn hytrach, bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn egluro'r disgwyliad y dylid llunio cynlluniau rheoli, ac yn pennu'r paramedrau ar gyfer y rhain. Yr Awdurdod fydd yn penderfynu sut y bydd y cynlluniau rheoli yn cael eu llunio, gan gynnwys defnyddio'r cyllid a amlinellir ym mharagraff 8.29, pe bai'r Awdurdod yn dymuno gwneud hynny. Dylai pob tomen nas defnyddir Categori 1 a 2 gael cynllun o'r fath, a bydd yr Awdurdod yn penderfynu a oes angen un ar unrhyw domenni Categori 3 neu 4. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei lywio gan waith y Tasglu.

8.36. Bydd y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau rheoli hyn yn cael ei wneud gan yr Awdurdod o fewn lefelau staffio tybiedig, ac felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol uwchlaw y rhai sy'n gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod (wedi'u cynnwys yn opsiynau 2A a 2B, isod).

### Amcangyfrif o amser a threuliau ar gyfer gweithgareddau'r gyfundrefn

8.37. Cafodd nifer yr oriau sy'n ofynnol gan swyddogion ar raddau gwahanol eu meincnodi yn erbyn y gwaith a wneir fel rhan o'r Tasglu a gwiriwyd y ffigurau gyda'r Awdurdod Glo i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr. Yna cyfunwyd y rhain ag amcangyfrifon o gyfraddau contractio allan fesul awr ar gyfer pob gradd a'u defnyddio i amcangyfrif costau contractio allan y gwahanol fathau o weithgaredd. Amcangyfrifwyd costau hefyd.

8.38. Ni thybir arbedion maint, gan nad oes digon o ddata i amcangyfrif y rhain yn gywir.

Tabl 5 – Amcangyfrif o amser (oriau) a threuliau (fesul archwiliad) ar gyfer gweithgareddau'r gyfundrefn

| Gweithgaredd | Arweiniol | Uwch | Archwilydd | Treuliau |
|---|---|---|---|---|
| Asesiad Rhagarweiniol | 0 | 1 | 5 | - |
| Asesiad Llawn | 4 | 17 | 0 | £150 |
| Cynllun Rheoli | 2 | 9 | 24.5 | £150 |
| Archwiliad Cyffredinol | 0 | 3 | 9.5 | £150 |
| Archwiliad manwl | 1 | 4 | 12 | £150 |

Tabl 6 – Amcangyfrif o gyfraddau contractio allan fesul gradd

| Gradd | Arweiniol | Uwch | Archwilydd |
|---|---|---|---|
| **Cyfradd yr awr** | £135 | £110 | £90 |

### Costau gwaith cynnal a chadw arferol

8.39. Mae gwaith cynnal a chadw arferol yn elfen hanfodol o reoli tomenni nas defnyddir yn rhagweithiol, a bydd yr Awdurdod yn darparu cyngor i berchnogion tomenni nas defnyddir yn y gofrestr drwy gynlluniau rheoli ac adroddiadau archwiliadau. Pe bai'r perchnogion yn cwblhau'r gwaith cynnal a chadw arferol a gynghorir gan gynlluniau rheoli, bydd yn helpu i sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn aros mewn cyflwr a gynhelir yn dda, ac felly'n lleihau'r risgiau y bydd problemau'n gwaethygu, ac o fethiannau.

8.40. Bydd gofynion cynnal a chadw yn amrywio'n sylweddol rhwng tomenni nas defnyddir, a thros amser ar yr un domen nas defnyddir.

8.41. Er enghraifft, mae gwneud gwaith clirio cynhwysfawr ar y ceuffosydd ar domen nas defnyddir yn debygol o fod yn ymarfer llawer mwy llafurddwys ar ôl cyfnod estynedig pan na wnaed unrhyw waith clirio na phe bai'r gwaith clirio'n cael ei wneud yn flynyddol.

8.42. Ni ddylai'r gwaith cynnal a chadw arferol a wneir gan y perchnogion, yn dilyn cyngor a roddwyd gan yr Awdurdod drwy gynlluniau rheoli ac

adroddiadau archwiliadau, fod yn wahanol i waith sydd eisoes yn cael ei gwblhau lle mae tomen nas defnyddir yn cael ei chynnal i lefel ddiogel ac felly nid oes unrhyw gost ychwanegol wedi'i chynnwys.

**Gwaith angenrheidiol ar frys**

8.43. Yn ogystal â gwaith cynnal a chadw arferol, efallai y bydd angen gweithrediadau penodedig o dan y gyfundrefn, yn dilyn cyfnod hysbysu. Yn ogystal, mae’r gyfundrefn yn caniatáu i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau ar unwaith os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol.

8.44. Mae'n anodd iawn rhagweld a fydd angen gweithrediadau ar unwaith a phryd. Fodd bynnag, un o ddibenion sylfaenol y gyfundrefn ei hun yw lleihau nifer yr achosion o ddigwyddiadau o'r fath. O'r herwydd, disgwylir y bydd y swm sy'n rhaid ei wario ar waith o'r fath yn cael ei leihau o ran nifer yr achosion o'r fath, ond hefyd o ran eu costau o ganlyniad i waith cynnal a chadw parhaus. Tybir y bydd swm y cyllid a ddyrennir i weithrediadau ar unwaith a gyflawnir gan yr Awdurdod yn gostwng 5% y flwyddyn.

8.45. Gall yr Awdurdod wneud gwaith brys ar dir heb ei gofrestru pan nad oes perchennog wedi'i gofrestru ar gyfer darn o dir yng Nghofrestrfa Tir Ei Fawrhydi. Mae'r data presennol yn awgrymu bod 12% o'r ystad domenni yng Nghymru yn cynnwys tir anghofrestredig.

8.46. Yr agwedd olaf rydym wedi'i hystyried yw pan nad yw'r perchennog yn gallu talu am y gwaith, heb roi ei hun mewn caledi ariannol sylweddol.

8.47. Y data gorau sydd ar gael ar gyfer gwaith o'r fath yw'r data a wnaed fel rhan o gynllun grant Diogelwch Tomenni Glo Llywodraeth Cymru. Ar sail hyn, rydym yn disgwyl i'r Awdurdod wario tua £2m y flwyddyn ar waith sydd ei angen ar frys.

8.48. Bydd yr Awdurdod yn talu'r costau hyn i ddechrau, oherwydd bod angen i'r gwaith gael ei wneud ar unwaith, ac yna gellir eu hadennill oddi wrth y tirfeddiannwr neu dirfeddianwyr perthnasol, ac eraill mewn rhai achosion. Tybir na ellir adennill 75% o wariant o’r fath, yn unol â ffigurau ym maes polisi Cronfeydd Dŵr ac felly mae hyn yn cael ei gynnwys yn y costau blynyddol, a ddangosir isod. Sylwer y bydd y costau sy'n cael eu harddangos isod yn cael eu hysgwyddo a'u cwblhau gan yr Awdurdod, ond bydd y gwaith yn cael ei ariannu drwy barhad y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo. Darperir rhagor o fanylion am hyn isod, yn adran 8.49, a bydd y cyllid grant yn cwmpasu, nid yn unig y gwaith brys ond hefyd rannau o waith cynnal a chadw arferol a wneir gan y cyrff a nodir yn y tabl isod, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Felly, nid yw hyn yn golygu costau newydd o ganlyniad i'r Bil.

Mae'r cyrff a nodir yn y tabl isod eisoes yn gwneud gwaith brys pan ystyrir bod angen.

Tabl 7: Costau blynyddol ar gyfer gwaith angenrheidiol ar frys, yn ôl corff[17], £(000)

| Perchennog Mwyafrif | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Awdurdod** | 1,468 | 1,395 | 1,325 | 1,259 | 1,196 | 1,136 | 1,078 |
| **Awdurdodau Lleol** | 114 | 108 | 103 | 98 | 93 | 88 | 84 |
| **CNC** | 45 | 43 | 41 | 38 | 37 | 35 | 33 |
| **Yr Awdurdod Glo** | 12 | 12 | 11 | 11 | 10 | 10 | 9 |
| **Tir Preifat** | 319 | 303 | 288 | 273 | 259 | 246 | 234 |
| **Cyfanswm** | 1,958 | 1,860 | 1,767 | 1,679 | 1,595 | 1,515 | 1,439 |

| (£1000oedd) | 2034-35 | 2035-36 | 2036-37 | 2037-38 | 2038-39 | 2039-40 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Awdurdod** | 1,025 | 974 | 925 | 879 | 835 | 793 | 14,289 |
| **Awdurdodau Lleol** | 79 | 75 | 72 | 68 | 65 | 61 | 1,107 |
| **CNC** | 31 | 30 | 28 | 27 | 26 | 24 | 437 |
| **Yr Awdurdod Glo** | 9 | 8 | 8 | 7 | 7 | 7 | 120 |
| **Tir Preifat** | 222 | 211 | 202 | 191 | 181 | 172 | 3,101 |
| **Cyfanswm** | 1,367 | 1,299 | 1,234 | 1,172 | 1,114 | 1,058 | 19,056 |

**Buddsoddiad cyfalaf mawr a chynlluniau grant yn y dyfodol**

8.49. Nid yw buddsoddiad cyfalaf mawr, nad yw'n fuddsoddiad brys, yn cael ei fandadu gan y gyfundrefn. Fel rhan o'r RIA, rydym yn tybio y bydd y cynllun grant sy'n cael ei redeg ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn parhau. Tybir bod grant cyfalaf o £11m a grant refeniw o £10.3m yn parhau, a dylai hyn fod yn ddigonol nid yn unig i dalu am y buddsoddiad cyfalaf brys sydd ei angen, a amlinellir yn yr adran uchod, ond hefyd y gwaith cynnal a chadw cyfalaf nad yw'n waith brys neu waith cynnal a chadw arferol ar yr ystad tomenni nas defnyddir. Mae'r grant yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y gwaith o'i reoli yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar 1 Ebrill 2027. Cyfrifoldeb yr Awdurdod fydd dyfarnu llythyrau grant a dosbarthu cyllid yn briodol. Mae'r rhagdybiaeth o £11.3m o gyllid grant y flwyddyn yn seiliedig ar gyllid grant y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr grant wedi gwneud ceisiadau gwerth cyfanswm o £27m yn

[17] costau blynyddol fesul corff ar gyfer gwaith brys, heb ei ddisgowntio.

2024-25 yn unig, felly mae'n bosibl iawn y bydd y galw am gyllid yn sylweddol uwch na'r £11.3m rydym wedi'i dybio yn yr RIA hwn. Felly, bydd angen i'r Awdurdod flaenoriaethu'r ffordd y mae'n dyrannu ei gyllid yn yr un modd ag y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud wrth redeg y Grant Diogelwch Tomenni Glo - bydd hyn yn cynnwys dyrannu cyllid dros gyfnod gweithredol aml-flwyddyn. O ystyried bod y cyllid hwn eisoes yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, y gost net i'r Awdurdod fydd sero. Mae'r tabl isod yn dangos y gwerthoedd, gan dybio bod £11.3m o gyllid yn parhau bob blwyddyn.

Tabl 8: costau blynyddol[18] ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo, £(000).

| | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid cyfredol Llywodraeth Cymru** | 11,300 | 11,300 | 11,300 | 11,300 | 11,300 | 11,300 | 11,300 |
| **Grant Diogelwch Tomenni Glo (a reolir gan yr Awdurdod)** | (11,300) | (11,300) | (11,300) | (11,300) | (11,300) | (11,300) | (11,300) |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | 2034-35 | 2035-36 | 2036-37 | 2037-38 | 2038-39 | 2039-40 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid cyfredol Llywodraeth Cymru** | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 156,000 |
| **Grant Diogelwch Tomenni Glo (a reolir gan yr Awdurdod)** | (12,000) | (12,000) | (12,000) | (12,000) | (12,000) | (12,000) | (156,000) |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Costau cyfle Llywodraeth Cymru: Canllawiau**

8.50. Er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i arfer ei swyddogaethau, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar faterion sy'n cynnwys monitro, apelau a chodi tâl. Yn unol ag adran 69 o'r Bil, wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru. Yn nhablau 9A a 9B

[18] Effaith net y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo, a reolir gan yr Awdurdod.

isod, ceir amcangyfrif o gostau staff Llywodraeth Cymru a ysgwyddir wrth baratoi'r dogfennau canllaw perthnasol. Mae hyn yn cynnwys amser a dreulir yn drafftio canllawiau, dogfennau ymgynghori perthnasol, ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a chysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r costau'n cael eu gwasgaru ar draws 2025/26 a 2026/27.

Tabl 9A – Costau datblygu canllawiau 2025/26

| Gweithgaredd | Gradd | Amser | Cost |
|---|---|---|---|
| Paratoi Canllawiau | 7 x 2 | (7 mis yr un) | £108,318.00 |
| | SEO x 2 | (7 mis yr un) | £83,276.67 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr | (1 mis) | £10,665.08 |
| Cyfieithu | HEO x 2 | (0.5 mis) | £4,754.92 |
| Cyfanswm | | | £207,014.67 |

Tabl 9B – Costau datblygu canllawiau 2026-27

| Gweithgaredd | Gradd | Amser | Cost |
|---|---|---|---|
| Paratoi Canllawiau | 7 x 2 | (8 mis yr un) | £123,792.00 |
| | SEO x 2 | (8 mis yr un) | £95,173.33 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr | (1.5 mis) | £15,997.63 |
| Cyfieithu | HEO x 2 | (0.5 mis yr un) | £4,754.92 |
| Cyfanswm | | | £234,962.96 |

**Costau'n ymwneud ag apelio i PEDW**

8.51 Mae'r gyfundrefn yn cynnwys hawliau i apelio ar sawl pwynt. Os bydd rhywun yn manteisio ar yr hawliau hyn bydd hynny'n arwain at gostau mewn perthynas â naill ai'r person a benodir gan Weinidogion Cymru (mae'n debygol mai Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) fydd hynny), neu ar gyfer y llysoedd. I gyfrifo'r costau posibl sy'n gysylltiedig â hyn, amcangyfrifwyd nifer yr apelau yn seiliedig ar nifer yr hysbysiadau sy'n destun apêl sy'n debygol o gael eu rhoi mewn perthynas â'r gwahanol gategorïau o domenni nas defnyddir. Mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 10 –Amcangyfrif o nifer yr hysbysiadau sydd i'w rhoi y flwyddyn, wedi'u rhannu yn ôl categorïau o domenni nas defnyddir

| Categori | Nifer | Hysbysiadau % y flwyddyn | Nifer yr Hysbysiadau y Flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 1 | 83 | 10 | 8 |
| 2 | 267 | 5 | 13 |
| 3 | 706 | 1 | 7 |
| 4 | 1209 | 1 | 12 |
| Cyfanswm | | | 40 |

8.52 O ystyried y diffyg data sydd ar gael ar nifer yr apelau, rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd 25% o hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gyflawni gweithrediadau yn destun apêl, sy'n golygu cyfanswm o 10 y flwyddyn.

8.53 Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o geisiadau i amrywio neu ganslo hysbysiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig. O ystyried natur y cais a'r materion sy'n debygol o gael eu codi (gan gynnwys, er enghraifft, anghydfodau ynghylch a oes angen gweithrediadau, neu, os oes eu hangen, natur y gweithrediadau), rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd 80% o apelau'n cael eu pennu ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan y person a wnaeth y cais a phartïon eraill â buddiant ac 20% mewn gwrandawiadau llafar.

8.54 Mae hyn yn golygu y bydd y gost gyfartalog i PEDW o glywed apelau yn uchafswm o £100k y flwyddyn. Mae'r gost amcangyfrifedig hon yn seiliedig ar gost gyfartalog PEDW yn ystyried apêl, wedi'i lluosi â nifer yr apelau a ragwelir. Disgwylir i'r costau hyn godi o 2027-28.

## Cost Opsiwn 2A (addasu corff sy'n bodoli eisoes)

8.55. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried gweithredu'r gyfundrefn a gostiwyd uchod drwy addasu corff sy'n bodoli eisoes i fod yn Awdurdod. Mae'r costau hyn felly yn ychwanegol at gostau'r gyfundrefn yn "Opsiwn 2".

8.56. Byddai'r costau'n cynnwys addasu corff sy'n bodoli eisoes i ddarparu'r gyfundrefn reoleiddio newydd, yn ogystal â'r costau parhaus i'r corff o oruchwylio a gweithredu'r gyfundrefn. Bydd y costau presennol a roddir i'r Awdurdod Glo ar gyfer ei raglen archwilio yn trosglwyddo i'r Awdurdod, a byddai'r cronfeydd hyn wedyn ar gael i'w defnyddio gan yr Awdurdod fel y gwêl yn dda, fel yr amlinellir yn adran 8.29. Byddai hyn yn cynnwys nid yn unig cost ymgymryd â'r swyddogaethau newydd, ond cynnydd mewn costau gweinyddol cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ehangu staff a swyddogaethau.

8.57. Byddai'n rhaid i'r corff presennol fodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Papur Gwyn a'u crynhoi yma ym mharagraff 7.21. Mae'n bwysig nodi

nad oedd yr un o'r cyrff cyhoeddus a ystyriwyd yn bodloni'r holl feini prawf gofynnol. Yn dilyn ymgyngoriadau â rhanddeiliaid, lle ystyriwyd achosion o blaid ac yn erbyn addasu cyrff presennol i gyflawni'r gyfundrefn reoleiddio newydd, argymhellwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith[19] y dylai'r Awdurdod fod yn gorff newydd.[20] Felly, nid yw addasu corff sy'n bodoli eisoes yn cael ei ystyried yn opsiwn dichonadwy.

8.58. Fodd bynnag, er mwyn rhoi darlun cyflawn, mae'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u cynnwys.

8.59. Bydd rhai costau'r un fath p'un a yw corff presennol yn cael ei addasu, neu gorff newydd yn cael ei sefydlu. Pan fo hynny'n wir, mae'r gost wedi'i chynnwys yn y ddau opsiwn, ond mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adran Opsiwn 2B er mwyn atal ailadrodd.

8.60. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r costau y byddai eu hangen o hyd pe bai corff presennol yn cael ei addasu, ac y gellid ei amsugno gan ddarpariaeth bresennol y corff hwnnw, gan ystyried y gost cyfle o ailneilltuo amser staff yn y modd hwn. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n cydweithio'n agos â chyrff hyd braich, yn ogystal â swyddogion yn nifer o'r cyrff hynny. Mae hyn wedi helpu i feincnodi ein costau yn erbyn enghreifftiau bywyd go iawn.

**Cyflogau staff**

8.61. Gellir rhannu'r staff yn dri chategori cyffredinol: y rhai sy'n ofynnol i ymgymryd â'r gweithgareddau a amlinellir yn opsiwn 2 uchod ("staff y gyfundrefn"); uwch staff y sefydliad, gan gynnwys ei Fwrdd ("uwch staff"); a staff sy'n ymgymryd â swyddogaethau 'corfforaethol' sy'n ofynnol i gefnogi staff a gwaith y sefydliad ("staff corfforaethol").

8.62. Mae gofynion staff y gyfundrefn yr un fath ar gyfer corff presennol wedi'i addasu ag ar gyfer corff newydd gan fod angen 'gweithgareddau'r gyfundrefn' yn y ddau achos a byddent yn newydd mewn corff presennol a chorff newydd. Mae'r rhain i'w gweld isod yn opsiwn 2B. I grynhoi, mae hyn yn golygu 33 aelod o staff ar gyfanswm cost o £33 miliwn, neu £2.2m y flwyddyn.[21]

8.63. Bydd corff presennol yn caniatáu rhywfaint o arbedion effeithlonrwydd o ran staff uwch, gan gynnwys y Bwrdd. Tybir y byddai angen aelod ychwanegol o'r Bwrdd ar gorff presennol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd

---

[19] Comisiwn y Gyfraith, "Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad", 2022, ym mharagraff 2.2.

[20] Comisiwn y Gyfraith, "Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad", 2022, ym mharagraffau 2.28 – 2.65

[21] Dros y 15 mlynedd y mae'r awdurdod yn cael ei sefydlu yn ystod ein cyfnod amser 15 mlynedd. Yn syml, y cyfanswm wedi'i rannu â 15. Felly, nid dyma'r swm arian parod cyfartalog (2024) bob blwyddyn.

yn cynnwys arbenigedd technegol ar domenni nas defnyddir, yn ogystal â thri uwch swyddog newydd (G6) i redeg is-adran 'tomenni' newydd. Felly, tybir bod angen 4 aelod ychwanegol o uwch staff I ar gorff presennol, gyda chyfanswm cost o £5.2 miliwn, neu £0.3m y flwyddyn.[22]

8.64. Yn olaf, byddai'r staff corfforaethol yn caniatáu rhai arbedion effeithlonrwydd, ond mae angen bod yn ymwybodol o'r gost cyfle o ailgyfeirio rhywfaint o'r adnodd presennol hwnnw i waith sy'n gysylltiedig â'r is-adran newydd. Tybir felly y byddai angen 16 aelod ychwanegol o staff corfforaethol ar gorff presennol i gefnogi'r llwyth gwaith a'r staff newydd, ar gyfanswm cost o £17.1 miliwn, neu £1.1m y flwyddyn dros 15 mlynedd.[23]

8.65. Yna ychwanegir swm wrth gefn o 5% at yr holl gostau staffio i gyfrif am rywfaint o hyblygrwydd ac ansicrwydd o ran staffio. I grynhoi, mae hynny'n rhoi cyfanswm nifer y staff ychwanegol i gorff sy'n bodoli eisoes o 53, a chyfanswm cost ar gyfer staffio o £58 miliwn, neu £3.9m ar gyfartaledd y flwyddyn (dros y 15 mlynedd ar ôl sefydlu'r Awdurdod).

**Costau nad ydynt yn gostau staff**

8.66. Byddai nifer o'r costau nad ydynt yn gostau staff yr un fath ag ar gyfer corff newydd ac fe'u nodir isod. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau fel datblygu a chynnal y gofrestr asedau, creu gwefan, meddalwedd arbenigol ac offer ar gyfer staff y gyfundrefn, costau'r offeryn a thechnoleg.

8.67. Bydd costau eraill yn cael eu lleihau yn gymesur â'r gostyngiad yn nifer y staff rhwng opsiynau 2B a 2A. Mae hyn yn cynnwys elfennau fel cost gliniaduron neu ofod swyddfa. Mae swm wrth gefn o 25% hefyd yn cael ei ychwanegu at y costau nad ydynt yn gostau staff i adlewyrchu'r ansicrwydd. Mae manylion costio wedi'u cynnwys yn opsiwn 2B, isod, ond ar gyfer opsiwn 2A, gyda'i 53 o staff, rydym wedi cymryd yn ganiataol bod costau nad ydynt yn gostau staff yn gymesur â chostau cyfartalog staff ar gyfer opsiwn 2B.

8.68. Mae hyn i gyd yn rhoi cost nad yw'n gyflog o £21.4 miliwn.

8.69. Fel y nodwyd uchod, tybir bod cyllid yr Awdurdod Glo yn parhau ac yn dod i gyfanswm o £13m. Gan y tybir bod y cyllid hwn yn parhau ac y bydd yn ôl disgresiwn yr Awdurdod i'w ddefnyddio, mae hyn wedi'i ddidynnu o'r amcangyfrif cyffredinol o'r gost, sy'n ystyried gwariant ychwanegol o ganlyniad i'r opsiwn.

---

[22] Dros y 15 mlynedd y bydd yr uwch staff cyflawn yn eu swydd.

[23] Dros y 15 mlynedd y bydd yr awdurdod yn cael ei sefydlu yn ystod ein cyfnod o 15 mlynedd.

**Amcangyfrif cyffredinol o'r gost**

8.70. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif cyffredinol o'r gost o £66.4 miliwn, neu £4.4 miliwn y flwyddyn dros y 15 mlynedd y byddai'r corff wedi'i sefydlu'n ffurfiol fel yr Awdurdod.

Tabl 11 – Amcangyfrif cyffredinol o'r costau dros gyfnod o 15 mlynedd

| **Costau** (£miliynau) | **Nifer** | **Cyfartaledd y flwyddyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Uwch staff | 4 | 0.3 | 5.2 |
| Staff y gyfundrefn | 33 | 2.2 | 33 |
| Staff corfforaethol | 16 | 1.1 | 17.1 |
| Gan gynnwys 5% wrth gefn | | | 2.8 |
| **Costau staff** | **53** | **4** | **58** |
| **Costau rhedeg yr Awdurdod** | | | **21.4** |
| **Cyllid yr Awdurdod Glo** | | | **-13** |
| **Cyfanswm** | | | **66.4** |

8.71. Felly cyfanswm cost ychwanegol (uwchlaw'r hyn y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd) opsiwn 2A ac opsiwn 2 yw £66.4 miliwn dros y cyfnod o 15 mlynedd, wedi'i grynhoi yn y tabl isod, lle tybir bod y gost o weithredu'r drefn reoleiddiol yn cael ei dalu gan y Grant Diogelwch Tomenni Glo sydd eisoes yn bodoli.

Tabl 12 – Cyfanswm cost Opsiwn 2A (dros y cyfnod asesu 15 mlynedd)

| **Costau** (£miliynau) | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Cost sefydlu a gweithredu'r Awdurdod | **66.4** |
| Cost gweithredu'r gyfundrefn reoleiddio | **14.3** |
| Grant Diogelwch Tomenni Glo | **-14.3** |
| **Cyfanswm** | **66.4** |

## Cost Opsiwn 2B (sefydlu corff newydd)

8.72. Yn yr un modd ag opsiwn 2A, mae'r costau yn yr adran hon yn ymwneud â'r Awdurdod, ac maent yn ychwanegol at gostau'r gyfundrefn a nodwyd yn opsiwn 2 uchod.

8.73. Mae nifer o ragdybiaethau wedi'u gwneud o ran strwythur, maint ac ystyriaethau sefydlu ar gyfer yr Awdurdod.

**Cyflogau staff**

8.74. Cyfrifwyd costau taliadau cydnabyddiaeth gan ddefnyddio costau cyflog cyfartalog diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer bandiau cyflog yr uwch wasanaeth sifil (SCS) a bandiau cyflog nad ydynt yn rhan o'r uwch wasanaeth sifil. Mae rolau technegol (timau cynnal a chadw, cynghorwyr ac archwilwyr) wedi cael eu codi 10% i adlewyrchu'r her o ran recriwtio i rolau o'r fath. Cefnogwyd amcangyfrifon o niferoedd staffio gan sgyrsiau gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda chyrff hyd braich, yn ogystal â thrafodaethau cefndir gyda swyddogion yn y cyrff hynny.

8.75. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer Bwrdd, gan gynnwys aelodau anweithredol a fyddai'n gweithio'n rhan-amser (amcangyfrifir y byddai chwech o'r rhain), gan gynnwys y Cadeirydd. Byddai yna uwch staff gweithredol hefyd, ac amcangyfrifir y byddai pedwar o'r rhain (1x SCCS3, 2x SCCS1, 1x G6). Cyfanswm cost cyflog amcangyfrifedig uwch staff, gan gynnwys y Bwrdd, yw £8.3 miliwn, neu £0.6m y flwyddyn.[24] Nodir manylion cyflog, fesul gradd, (sy'n cynnwys "argostau") yn nhabl 13 isod.

[24] Dros y 15 mlynedd y mae'r Awdurdod wedi'i sefydlu.

Tabl 13 – Cyflogau staff

| **Cyflogau** | **Cost flynyddol** |
|---|---|
| SCS 3 | £189,592 |
| SCS 2 | £163,417 |
| SCS 1 | £127,981 |
| Gradd 6 (cynnydd) | £123,773 |
| Gradd 6 | £112,521 |
| Gradd 7 (cynnydd) | £102,128 |
| Gradd 7 | £92,844 |
| SEO (cynnydd) | £78,518 |
| SEO | £71,380 |
| HEO (cynnydd) | £62,765 |
| HEO | £57,059 |
| EO (cynnydd) | £48,991 |
| EO | £44,537 |
| Cadeirydd Bwrdd | £12,288 |
| Cyfarwyddwr anweithredol | £9,504 |

8.76. Byddai bron i hanner y staff disgwyliedig yn gweithio'n uniongyrchol ar y gyfundrefn. Mae hyn yn cynnwys y timau canlynol (mae'r graddau'n amrywio o EO i G6):

- Cyfarwyddwr Cyswllt, Gweithrediadau, Cyflawni Technegol a Data (1x G6, un)
- Data (1x G7, 1x SEO, 2x HEO, 3x HEO, saith)
- Cynnal a chadw (1x G7, 2x SEO, 2x HEO, pump)
- Cynghorwyr technegol (1x G7, un)
- Gorfodi, cydymffurfiaeth a chodi tâl (1x G7, 1x SEO, 1x HEO, tri)
- Archwilwyr (2x G7, 6x SEO, 8x HEO, 16)

8.77. Mae profiad y Tasglu ers 2020, gan gynnwys ei waith gyda'r Awdurdod Glo ar y gyfundrefn archwilio, a chydag awdurdodau lleol gyda'r cynllun

grant, wedi caniatáu nid yn unig i fanylion y gyfundrefn gael eu treialu 'ar lawr gwlad', ond hefyd i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o'r hyn y mae rhedeg cyfundrefn o'r fath yn ei olygu.

8.78. Cefnogwyd hyn drwy amcangyfrif nifer yr oriau, ar bob gradd, sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â phob un o'r tasgau o fewn y gyfundrefn, ac felly darparu'r isafswm lefel staffio sy'n ofynnol - bydd y galw yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac amcangyfrifir bod y nifer cymedrig cyfredol o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd eu hangen ar gyfer y tîm archwilio ychydig o dan 13, ond mae ffigur uwch wedi cael ei ddefnyddio i adlewyrchu bod tîm sefydlog o staff llawn amser yn debygol o gael ei ffafrio gan yr Awdurdod, yn ogystal ag awydd i beidio â gweithredu ar 100% o'r capasiti damcaniaethol. Tybir bod cyllid sy'n cyfateb i gost bresennol cyfundrefn archwilio'r Awdurdod Glo yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod i ddal opsiwn yr Awdurdod i wneud hynny, a'i ddefnydd tebygol o gynghorwyr arbenigol allanol neu drefnu capasiti drwy gontract allanol.

8.79. Amcangyfrifir bod cyfanswm y staff yn y maes hwn yn 33. Cyfanswm cost cyflogau yw £33 miliwn, neu £2.2m y flwyddyn.[25]

8.80. Y grŵp olaf o staff yw'r rhai sy'n ymgymryd â rolau corfforaethol a chefnogol. Tybir bod y rhain yn cynnwys Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyllid, Caffael, TGCh, Llywodraethu, Cyfathrebu a Strategaeth. Amcangyfrifir bod 34 ohonynt, a bod eu costau cyflog yn £34.2 miliwn, neu gyfartaledd o £2.3m y flwyddyn.[26] Mae hyn yn cynnwys y timau canlynol (mae'r graddau'n amrywio o EO i G7):

- Strategaeth a Chyfathrebu (1x G7, 1x SEO, 1x HEO, 1x EO, pedwar)
- Polisi a Strategaeth (1x G7, 1x SEO, 1x HEO, tri)
- Cyfreithiol (4x G7, 4)
- Adnoddau Dynol (1x G7, 1x SEO, 1x HEO, tri)
- Cyllid (1 x G7, 1x SEO, 1x HEO, tri)
- Caffael (1x G7, 1x SEO, dau)
- TGCh (3x G7, 3x SEO, 1x HEO, 1x EO, wyth)
- Cymorth gweithredol a llywodraethu (2x G7, 1x SEO, 1x HEO, 3x EO, saith)

[25] Dros y 15 mlynedd y mae'r Awdurdod wedi'i sefydlu.
[26] Dros y 15 mlynedd y mae'r Awdurdod wedi'i sefydlu.

8.81. Yna ychwanegwyd swm wrth gefn o 5% at yr uchod i gyrraedd cyfanswm cost staff o £79.3 miliwn, neu £5.3 miliwn y flwyddyn dros y 15 mlynedd y mae'r Awdurdod wedi'i sefydlu.

8.82. Mae CLlLC wedi mynegi pryder posibl ynghylch y gronfa staffio sydd ar gael yn y De, ac wedi awgrymu'r niwed posibl i awdurdodau lleol, pe bai eu haelodau staff presennol yn gadael eu swyddi ac yn ymuno â'r Awdurdod.

**Costau nad ydynt yn gyflogau**

8.83. Y maes arall o gostau i'r Awdurdod, yw costau nad ydynt yn staff. Amcangyfrifir bod y rhain yn £32.8 miliwn, a darperir dadansoddiad o'r categorïau cost isod.

8.84. Mae'r costau hyn hefyd wedi'u meincnodi, lle bo hynny'n bosibl, yn erbyn gwaith a gofynion y Tasglu, trafodaethau gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus hyd braich, a chyda swyddogion mewn cyrff o'r fath, ac sydd o faint tebyg i'r rheiny.

8.85. Fodd bynnag, bydd y broses weithredu yn un sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Ni ddisgwylir i'r Awdurdod gael ei sefydlu cyn 2027. O'r herwydd, mae'r amcangyfrif o gostau, er mor gywir â phosibl ar hyn o bryd, yn rhagarweiniol. Wrth i'r gwaith paratoi ar gyfer y gweithredu fynd rhagddo, bydd modd mireinio'r costau.

8.86. Ychwanegir swm wrth gefn blynyddol o 25% at yr amcangyfrif o gostau nad ydynt yn staff i adlewyrchu'r ansicrwydd hwn.

**Strategaeth offeryniaeth a thechnoleg**

8.87. Mae cost sylweddol yn gysylltiedig â chaffael neu ddefnyddio technoleg ar gyfer cynnal gweithgareddau technegol fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil ac sy'n cael eu llywio gan y rhaglen dechnoleg.

8.88. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith o dreialu technoleg a wneir fel rhan o waith y Tasglu. Y bwriad yw darparu data allweddol i gefnogi a gwella'r gwaith o fonitro tomenni nas defnyddir, yn ogystal ag archwilio awtomeiddio'n rhannol elfennau o'r gyfundrefn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio synwyryddion gogwydd, symudiad neu ddŵr, neu ddadansoddiad awtomatig o ddelweddau lloeren.

8.89. Bydd technoleg yn bwysig wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno cyfundrefn fwy effeithiol, a chynyddol gost-effeithiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arbedion effeithlonrwydd o ddefnyddio technoleg yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn yr RIA hwn oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â newidiadau technolegol yn y dyfodol.

8.90. Cyfanswm y gost a ragwelir ar gyfer y categori hwn yw £6.1 miliwn (£376k y flwyddyn unwaith y bydd y gyfundrefn wedi'i sefydlu ynghyd â £1.1m o gostau sefydlu untro yn ystod cyfnod sefydlu'r

gweithrediadau). Mae hwn wedi'i gynnwys fel rhan o'r gost o sefydlu a rhedeg yr Awdurdod.

**Cofrestr genedlaethol o domenni (datblygu a chefnogi)**

8.91. Bydd y gofrestr ei hun yn gofyn am yr hyn sydd yn ei hanfod yn system rheoli asedau gydag elfen ar gyfer y cyhoedd. Mae'r costau ar gyfer y system hon yn seiliedig ar gostau cyfredol cynhyrchion rhaglenni Microsoft Dynamics ac fe'u cynhwysir yn y £6 miliwn o wariant cysylltiedig â thechnoleg. Mae hon yn debyg i rai systemau eraill yn y sector cyhoeddus fel y rhai sy'n cael eu rhedeg gan CNC ond bydd ganddi ei gofynion ei hun.

8.92. Mae dadansoddiad cynnar gan swyddogion wedi nodi costau cychwynnol i sefydlu ac addasu system o'r fath o £1.5 miliwn, sy'n cynnwys partner gweithredu D365, trwyddedau cychwynnol a chost rhedeg amgylcheddau cwmwl, ac yna costau trwyddedu a chymorth parhaus o tua £40,000 y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu system, gan gynnwys nodweddion i'r cyhoedd;
- Cefnogaeth flynyddol;
- Trwyddedau gwe a ffonau symudol blynyddol.

8.93. Mae hyn wedi arwain at gost flynyddol barhaus o £40,000.

**Costau eraill**

8.94. Mae'r costau eraill yr eir iddynt yn cynnwys elfennau fel:

- caledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol, gan gynnwys pecynnau arbenigol;
- cerbydau a'u defnydd;
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac offer safle;
- gofod swyddfa a chyfleustodau;
- gwefan a marchnata;
- costau sefydlu swyddfa.

8.95. Cyflwynir dadansoddiad o'r costau tebygol yn ôl categori isod:

Tabl 14 – Dadansoddiad o'r costau tebygol yn ôl categori

| **Categori cost – costau sefydlu a chostau rheolaidd blynyddol** | **Cyfanswm y gwariant (£)** |
|---|---|
| Technoleg TG – gan gynnwys seilwaith TG, meddalwedd, systemau, nwyddau traul | £5.9m |
| Costau'r wefan | £0.2m |
| Costau swyddfa – gan gynnwys taliadau gwasanaeth | £11.4m |
| Costau recriwtio | £0.3m |
| Costau cerbydau a PPE | £5.4m |
| Hyfforddiant | £0.8m |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | £0.1m |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | £0.1m |
| 25% wrth gefn | £6.2m |
| Costau PEDW | £1.3m |
| Llunio dogfennau canllaw | £0.4m |
| **Cyfanswm** | **£32.8m** |

8.96. Gan y byddai corff newydd yn cael ei ychwanegu fel corff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’r tabl uchod yn cynnwys costau i ariannu Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru am y gwaith y mae’n ofynnol iddo ei wneud yn unol â darpariaethau perthnasol Atodlen 1 i’r Bil.

8.97. Amcangyfrifir bod costau recriwtio cychwynnol yn £300,000 yn 2026-27 (costau uwch sy’n ymwneud â phenodi uwch aelodau o staff), ac yna £200,000 yn 2027-28 pan ddisgwylir i'r rhan fwyaf o staff gael eu recriwtio. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gost barhaus flynyddol o £13,000 i dalu'r cyfraddau gadael cyn gorffen.

8.98. Amcangyfrifwyd costau hyfforddi fel canran o gyflogau staff, wedi'u hamcangyfrif ar 1%, sy'n cyfateb i £800,000 (£60,000 y flwyddyn).

### Crynodeb o'r costau

8.99. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, cyfrifwyd bod cyfanswm cost sefydlu a gweithredu'r Awdurdod yn £99.1 miliwn, neu £6.6 miliwn y flwyddyn am y 15 mlynedd ar ôl sefydlu'r Awdurdod. Mae'r gost hon yn cynnwys costau sefydlu, costau staff, a chostau rhedeg nad ydynt yn staff. Mae'r costau'n cael eu rhannu fel costau pontio o £5.6m rhwng 2025-26 a 2026-27 a chostau rheolaidd sy'n dod i gyfanswm o £92.2m o'r adeg pan fydd yr Awdurdod yn mynd yn fyw.

8.100. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cost sefydlu a gweithredu'r Awdurdod.

Tabl 15 – Cost ddangosol sefydlu a gweithredu'r Awdurdod (dros y cyfnod asesu o 15 mlynedd)

| **Costau** (£miliwn) | **Cyfansymiau** |
|---|---|
| Cyfanswm costau sefydlu a rhedeg | 32.8 |
| Costau rhedeg staff | 79.3 |
| Cyllid yr Awdurdod Glo | -13.0 |
| **Cyfanswm** | **99.1** |

## Cyfanswm cost Opsiwn 2B gan gynnwys costau Opsiwn 2

8.101. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost yr opsiwn hwn yn £99.1 miliwn dros y cyfnod o 15 mlynedd, wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

Tabl 16 – Cyfanswm cost Opsiwn 2 (dros y cyfnod asesu o 15 mlynedd)

| **Costau** (£miliwn) | **Cyfansymiau** |
|---|---|
| Cost sefydlu a gweithredu'r Awdurdod | **99.1** |
| Cost gweithredu’r gyfundrefn reoleiddio | **14.3** |
| Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo | **-14.3** |
| **Cyfanswm** | **99.1** |

Tabl 17 - Crynodebau o gostau opsiynau **(dros y cyfnod asesu o 15 mlynedd)**

| | Opsiwn 2 a 2A | Opsiwn 2 a 2B | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm costau sefydlu a rhedeg | **£66.4m** | **£99.1m** | **£32.7m** |
| **Cyfanswm** | **£66.4m** | **£99.1m** | **£32.7m** |

## Manteision Opsiwn 1

8.102. Fel yr amlinellwyd uchod yn 7.6, ni chymerir yr opsiwn 'busnes fel arfer' i gynnwys gwaith presennol y Tasglu a'r cynllun grant cysylltiedig.

8.103. Felly, ystyrir mai gwerth cymdeithasol presennol net Opsiwn 1 – 'busnes fel arfer' heb unrhyw dybiaeth bod y Tasglu yn parhau – at ddiben y dadansoddiad hwn yw sero.

## Manteision Opsiwn 2

8.104. Mae'r manteision sy'n debygol o gronni o weithredu cyfundrefn hirdymor sy'n ymdrin â gwaddol canrifoedd o gloddio a chwarela yng ngorffennol diwydiannol Cymru yn amrywiol ac yn gymhleth. Wrth werthuso'r manteision unigol, ystyrir bod tair yn rhannol feintioledig, sef:

- Costau a gaiff eu hosgoi o lithriadau tomenni nas defnyddir,
- Gwelliannau lles, a
- Manteision cyflogaeth.

8.105. Mae'r tair mantais hyn yn cynnwys lefel uchel o ansicrwydd, ac yn unol â hynny mae'r asesiad a ddarperir yn fwriadol ochelgar. Mae manteision eraill hefyd, megis rhai cysylltiedig ag iechyd a'r amgylchedd, lle na theimlwyd bod modd darparu amcangyfrif meintioledig rhesymol.

8.106. Mae'r dadansoddiad o'r manteision yn ystyried Opsiynau 2A a 2B gyda'i gilydd gan fod manteision y ddau opsiwn yn cael eu hasesu i fod yr un fath. Nid oedd yr asesiad mewn perthynas ag Opsiynau 2A a 2B yn seiliedig ar fanteision meintioledig, ond gan hyfywedd a phriodoldeb pob opsiwn, fel y trafodwyd uchod.

### Cost a gaiff ei hosgoi o lithriad tomen lo

8.107. Wrth amcangyfrif costau a gaiff eu hosgoi o lithriadau tomenni o dan y gyfundrefn arfaethedig, mae tri ansicrwydd sylweddol:

- Y tebygolrwydd y bydd tomen benodol yn llithro,
- Cost llithriad o'r fath, pe bai'n digwydd,
- Y gostyngiad yn y tebygolrwydd neu'r gost oherwydd gweithredu'r gyfundrefn.

8.108. Yn ogystal, rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder a dwyster digwyddiadau glawiad uchel a llifogydd cysylltiedig mewn ardaloedd sydd â chrynodiad uchel o domenni, yn enwedig cymoedd y De.[27] Byddai disgwyl i ddigwyddiadau o'r fath gynyddu'r risg o fethiannau. Fodd bynnag, mae'r modelau ar gyfer hyn, ac yn enwedig yr effaith debygol ar domenni, yn cyflwyno ansicrwydd

[27] Er enghraifft. "There are increased risks from intense rainfall on soils made up of unconsolidated material from contaminated land, spoil tips, and mine tailings in former mining areas" (page 26) or "With annual mean rainfall increasing in Wales, especially in South Wales, climate change may increase the risk of future slope failures" (tudalen 88), Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU, 2021

ychwanegol sylweddol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn ein dadansoddiad.

8.109. Yn olaf, mae'n hanfodol nad ydym yn cyfuno'r ymgais i amcangyfrif costau a gaiff eu hosgoi o'r fath gydag unrhyw fath o ragfynegiad o fethiannau posibl yn y dyfodol. Bwriad gweithredu cyfundrefn newydd yw lleihau'r bygythiad i les pobl a berir gan unrhyw ansefydlogrwydd posibl mewn tomenni nas defnyddir. Yn ymarferol, mae cyfundrefn o fonitro a chynnal a chadw rhagweithiol yn golygu nid yn unig ostyngiad yn y tebygolrwydd o fethiannau tomenni, ond bydd yr archwiliadau rheolaidd a'r gwaith rhagweithiol yn golygu y bydd unrhyw ddigwyddiadau niweidiol yn debygol o ddod i sylw'n gynharach a bod yn llai arwyddocaol hefyd. Byddai'r ddau yn golygu costau dilynol is.

8.110. Felly, y dull gweithredu sydd wedi'i ddefnyddio yw allosod data diweddar sydd ar gael er mwyn rhoi syniad o gostau posibl a gaiff eu hosgoi. Mae aelodau o Grŵp Cynghori Technegol y Tasglu (gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, CNC, a'r Awdurdod Glo) wedi darparu amcangyfrifon o'r costau a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau niweidiol ar domenni[28] yn seiliedig ar y degawd cyn i'r Tasglu gael ei sefydlu (2010-2020). [29]

8.111. Mae'r costau hyn wedi'u cyfyngu i gostau uniongyrchol ymdrin â'r digwyddiad. Nid yw'n cynnwys unrhyw gostau anuniongyrchol, fel effeithiau ar gynhyrchiant economaidd neu gostau cyfle, gan nad oes data dibynadwy ar gael. Felly ystyrir ei fod yn amcangyfrif ceidwadol o gyfanswm y costau cysylltiedig.

8.112. Darparwyd data gan ddeuddeg awdurdod lleol (gyda 70% o domenni glo nas defnyddir wedi'u lleoli yn eu hardaloedd) a CNC. Roedd rhywfaint o'r data a ddarparwyd yn cynnwys amcangyfrif o'r costau. Felly, mae'n bwysig nodi bod yr hyn sy'n dilyn yn amcangyfrif a adeiladwyd ar ddata rhannol sydd, serch hynny, yn rhoi syniad defnyddiol o gostau diweddar. Nodwyd 17 digwyddiad o'r fath, gyda chyfanswm cost o tua £31 miliwn. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau a nodwyd yn 2020.

8.113. Er mwyn defnyddio'r data yn ein dadansoddiad cymerwyd y camau canlynol:

- Ar gyfer pob digwyddiad a adroddwyd, neilltuwyd un ffigur (lle darparwyd ystod, y pwynt canolog), ac un flwyddyn ariannol (y

[28] Roedd y cais yn benodol ar gyfer llithriadau, tirlithriadau ar raddfa fawr o ganlyniad i law, methiant seilwaith (e.e. unrhyw ddigwyddiad lle'r oedd yr effaith a ddeilliodd wedi effeithio ar berfformiad y tomenni neu ddiogelwch y cyhoedd, lle'r oedd angen ymyrraeth/cyweirio wedi hynny)
[29] Dewiswyd degawd i gydbwyso'r awydd am ddata mwy diweddar gyda'r angen i osgoi gorgynrychioli 2020 trwy gyfnod rhy fyr. Cymerwyd yr amser nes sefydlu'r Tasglu i leihau'r risg y byddai ei waith yn effeithio ar y data. Byddai amserlen fyrrach wedi rhoi cyfanswm sylweddol uwch. Rhoddir cymhariaeth isod.

flwyddyn y nododd yr Awdurdod fod y 'digwyddiad' wedi digwydd).

- Yna cafodd y ffigur hwn ei uwchraddio i brisiau 2024-25 gan ddefnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros.[30]
- Cafodd y rhain eu hadio i ddarparu cost rannol llithriadau dros y cyfnod ym mhrisiau 2024 – cost rannol am nad oedd pob awdurdod lleol wedi darparu data.
- Yna ystyriwyd cyfran y tomenni â’r bygythiad posibl uchaf sydd o fewn yr awdurdodau lleol a oedd wedi dychwelyd data (70%), a chafodd y cyfanswm ei allosod gan ddefnyddio hynny (hynny yw, ei luosi â 100/70).
- Yn olaf, cafodd y ffigur hwn ei gynyddu wedyn (gan 12/10) i ddarparu ffigur ar gyfer deuddeng mlynedd (hyd yr amser y bydd y tomenni â’r lefel uwch o fygythiad yn rhan lawn o’r gyfundrefn o fewn ein cyfnod dansoddi).

8.114. Nid yw hyn yn ystyried bod effaith gadarnhaol gwaith cynnal a chadw yn ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn y caiff ei wneud. Felly, pe bai’r gyfundrefn yn peidio â gweithredu ar ddiwedd ein cyfnod amser o 15 mlynedd, byddai cyfres hir o gostau wedi’u hosgoi y dylid eu hystyried yn briodol fel manteision yn y cyfnod dadansoddi. Gall rhai mathau o waith gael effaith am flynyddoedd lawer, hyd yn oed os yw’r effaith honno'n lleihau dros amser, ac felly byddai unrhyw gyfrifiad o'r fath yn debygol o ychwanegu'n sylweddol at fanteision amcangyfrifedig y gyfundrefn. Fodd bynnag, byddai'n gymhleth amcangyfrif hirhoedledd manteision o'r fath, a byddai'n cymhlethu un ansicrwydd gydag un arall, felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad.

[30] Ffigurau Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-september-2023-quarterly-national-accounts

Tabl 18: Costau posibl a gaiff eu hosgoi

| | |
|---|---|
| Cyfnod amser dadansoddi data tomenni hanesyddol | 10 mlynedd |
| Data a dderbyniwyd gan ALlau a oedd yn cynnwys y ganran hon o domenni â'r lefel uchaf o fygythiad posibl | 70% |
| Cyfanswm cost uniongyrchol ymdrin â digwyddiadau (arian parod) | £31.2 miliwn |
| Cyfanswm y gost wedi'i uwchraddio i 2024 | £35.5 miliwn |

8.115. Mae hyn yn rhoi is-gyfanswm ar gyfer ein costau a gaiff eu hosgoi dangosol o £42.6 miliwn (£38.7 miliwn wedi'i ddisgowntio i brisiau 2024).

8.116. Yn ogystal â'r elfennau o ansicrwydd a amlinellir uchod, mae ciplun data ar gyfer cyfnod cyfyngedig hefyd yn debygol o golli llithriadau posibl prinnach ond ar raddfa fwy. Mae'n amlwg mai Aberfan yw'r mwyaf trychinebus o fethiannau o'r fath, ac nid yw'r dadansoddiad hwn yn bwriadu diystyru canlyniadau dinistriol y drasiedi hon sy'n dal i fod yn graith ar yr hen gymuned lofaol hon. Yn amlwg, o ran dadansoddi economaidd, byddai defnyddio dull Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF ar gyfer un drychineb fel Aberfan yn cyrraedd swm cyfwerth â channoedd o filiynau o bunnoedd.[31]

8.117. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol cyflwyno tystiolaeth y gellid ystyried ei bod yn awgrymu y byddai digwyddiad tebyg yn cael digwydd eto: mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei gallu i osgoi unrhyw drychinebau tebyg rhag digwydd eto ac ni ddylid tanamcangyfrif yr ymdrech rydym eisoes wedi'i gwneud i sicrhau na all digwyddiad o'r fath byth ddigwydd eto. Dylid nodi hefyd bod Aberfan yn weithrediad tipio gweithredol, ac nid yn domen nas defnyddir.

8.118. Yn hytrach, mae'r dadansoddiad hwn yn ceisio cynnwys senario ddamcaniaethol fwy cymesur ac ar raddfa fwy. Mae'n seiliedig ar enghraifft o fewn ein hamserlen, ond un a ddigwyddodd yn Lloegr ac ni chafwyd unrhyw farwolaethau. Ym mis Chwefror 2013, digwyddodd

[31] Gweler 00.00 isod am drafodaeth gyffredinol ar ddull o'r fath.

tirlithriad mewn tomen sborion ym Mhwll Glo Hatfield yn Lloegr. Fel Aberfan, roedd Hatfield yn safle gweithrediadau mwyngloddio gweithredol. Fe wnaeth y methiant ddifrodi rhan fawr o reilffordd yn Swydd Efrog, gan amharu ar wasanaethau trên am bum mis.[32] Er na ddigwyddodd hyn yng Nghymru, mae amodau geoffisegol a phroffil risg y domen yn golygu ei fod yn rhoi syniad da o gostau posibl methiant tebyg mewn maint yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod cost adfer a chyweirio yn dilyn Hatfield yn £65 miliwn (£82.8 miliwn ym mhrisiau 2024). Nid yw hyn yn cynnwys y gost a oedd yn gysylltiedig â chau rheilffordd am chwe mis.[33]

8.119. Mae digwyddiad maint Hatfield wedi'i gynnwys yn ein dadansoddiad fel digwyddiad unwaith mewn hanner can mlynedd, sy'n rhoi cyfanswm i ni, o'i leihau i gyfnod 12 mlynedd,[34] o £19.9 miliwn. Yn ychwanegol at y ffigur uchod, mae hyn yn rhoi cyfanswm gweithio o £62.5 miliwn.

8.120. Er nad yw'r ymdrech liniaru a ragwelir yn y gyfundrefn reoleiddio yn gwarantu dileu unrhyw risg yn llwyr, bydd yn lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni nas defnyddir. Mae'n anodd diffinio i ba raddau y gellir rhagweld gostyngiad o'r fath cyn cynnal asesiadau cynhwysfawr o'r holl domenni. Fodd bynnag, mae asesiad mewnol gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu mai amcangyfrif rhesymol ond gochelgar yw cymryd yn ganiataol y byddai gostyngiad o 80% mewn costau sy'n gysylltiedig â methiannau tomenni nas defnyddir oherwydd mesurau lliniaru llwyddiannus. Byddai hynny'n ymddangos fel llai o fethiannau, a llai o effeithiau lle'r oeddent yn dal i ddigwydd. Mae hyn wedi'i gymhwyso i'r dadansoddiad i leihau cyfanswm yr amcangyfrif o gost a gaiff ei hosgoi.

8.121. Mae'r cyfrifiad yn arwain at gost wedi'i hosgoi ar gyfer ein cyfnod asesu[35] o £50.0 miliwn**.** At ddibenion cyfrifo ffigurau blynyddol, ac i ddisgowntio'r cyfanswm dros amser, cymerir mai £4.2 miliwn y flwyddyn yw hyn. Mae hyn yn rhoi cyfanswm gwerth (wedi'i ddisgowntio) o **£38.7 miliwn**. Mae hyn yn cael ei grynhoi isod.

---

[32] https://www.bgs.ac.uk/case-studies/hatfield-colliery-south-yorkshire-landslide-case-study/
[33] Comisiwn y Gyfraith, Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Asesiad Effaith
[34] 12 mlynedd i adlewyrchu'r cyfnod yn ein cyfnod dadansoddi pan fo gwaith cynnal a chadw gweithredol yn cael ei wneud, er mwyn peidio ag ystyried costau a gaiff eu hosgoi ar gyfer tomenni nad ydynt o fewn y gofrestr genedlaethol yn gyfan gwbl ac yn elwa'n llawn ar y gyfundrefn.
[35] Y deuddeng mlynedd y mae tomenni glo â lefel bygythiad uwch yn y gyfundrefn.

Tabl 19: Costau a gaiff eu hosgoi dangosol

| Amcangyfrif | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyfanswm 12 mlynedd yn seiliedig ar ddata gan y grŵp technegol | £42.6 miliwn |
| Cyfwerth â 12 mlynedd o Hatfield | £19.9 miliwn |
| Cyfanswm amcangyfrif 12 mlynedd | £62.5 miliwn |
| Lleihau i adlewyrchu 80% o effaith | £50 miliwn |
| Yn rhoi swm y flwyddyn | £4.2 miliwn |
| Yn rhoi cyfanswm cost a gaiff ei hosgoi ddangosol, wedi'i disgowntio | **£38.7 miliwn** |

**Gwelliannau lles**

8.122. Mae cynnydd ym mharodrwydd pobl i ddefnyddio safleoedd hamdden yn agos at domenni nas defnyddir, yn rhoi arwydd defnyddiol a meintioliedig o'r cynnydd i werth lles ardaloedd sydd â thomenni nas defnyddir.

8.123. Nid yw hyn i danbrisio'r effaith ehangach ar gymunedau ac unigolion o wybod bod y tomenni yn eu hardal yn cael eu monitro a'u rheoli'n rhagweithiol. Mae hyn yn bwysig iawn. Fodd bynnag, mae'r gallu i fodelu mantais o'r fath yn feintiol yn gyfyngedig. Bwriad y dadansoddiad cyfredol yw gweithredu fel procsi amherffaith ond dangosol ar gyfer hynny. Yn fwy uniongyrchol, gellir ei ystyried fel ceisio modelu'r gostyngiad hanesyddol yn y defnydd o fannau gwyrdd ger tomenni nas defnyddir, a fyddai'n cael ei gywiro'n rhannol trwy gyfundrefn gynhwysfawr o fonitro a chynnal a chadw'r tomenni.

8.124. Mae'r Land, Environment, Economics and Policy Institute (LEEP) ym Mhrifysgol Caerwysg wedi datblygu Offeryn Gwerth Hamdden Awyr Agored (ORVal) sy'n amcangyfrif gwerth lles yn seiliedig ar ymweliadau â safleoedd hamdden ledled Cymru a Lloegr.[36] Mae'r offeryn yn rhaglen we a ddatblygwyd gyda chyllid gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU.

8.125. Mae LEEP yn diffinio gwerth lles fel ffigur sy'n disgrifio cyfwerth ariannol y lles a ddaw i ran unigolion o ganlyniad i gael mynediad at

[36] Gweler https://www.leep.exeter.ac.uk/orval/

fannau gwrdd.[37] Mae gwerth lles mannau o'r fath yn amcangyfrif ariannol o'r lles ychwanegol a ddaw i ran oedolion sy'n byw yng Nghymru a Lloegr yn sgil gallu cael mynediad i'r mannau hynny.

8.126. Prif bwrpas yr offeryn yw darparu gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i lywodraeth, busnesau a chymunedau o ran deall manteision mannau gwyrdd hygyrch. Mae'n fodel galw am hamdden soffistigedig sy'n defnyddio set ddata fawr iawn i amcangyfrif y gwerthoedd lles hyn.[38]

8.127. Mae'n fodel lefel person sy'n rhoi amcangyfrifon o ymddygiad hamdden person sydd â nodweddion penodedig sy'n byw mewn lleoliad penodol. Gellir defnyddio'r model i ragweld pa fannau gwyrdd y gallai unigolyn ymweld â nhw dros gyfnod o flwyddyn a faint o werth lles y mae'n ei gael o bob un o'r mannau gwyrdd sydd ar gael iddo ymweld â nhw.

8.128. Er mwyn defnyddio'r model, tynnwyd y gwerthoedd lles diweddaraf o'r offeryn hwn ar gyfer pob un o'r 16 awdurdod lleol[39], y mae'n hysbys bod tomenni glo nas defnyddir yn eu hardal. Roedd hyn yn rhoi llinell sylfaen. Yna, tybiwyd y byddai'r gwerth lles blynyddol yn cynyddu yn gymesur ag arwynebedd pob awdurdod lleol sydd wedi'i orchuddio gan domenni glo nas defnyddir (defnyddir hwn fel dirprwy ar gyfer agosrwydd safleoedd hamdden i domenni) sy'n amrywio o 0% i 9.75%. Mae hwn yn cael ei gymhwyso bob blwyddyn o'r adeg y mae'r ymyrraeth yn weithredol, am hyd at 15 mlynedd, y cyfnod amser a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad effaith.

8.129. Mae'r cydbwysedd a geisir rhwng cydnabod nad yw'r offeryn ond yn cyfleu'r manteision o ran hamdden, ac nid unrhyw fanteision tebyg eraill, a'r diffyg tystiolaeth (y naill ffordd neu'r llall) ynghylch effaith debygol cyfundrefn reoli gynhwysfawr ar ddefnydd tir hamdden.

8.130. Er mwyn cyfrifo amcangyfrif ar gyfer gwella gwerth lles, caiff y gwerth lles amcangyfrifedig ar gyfer pob awdurdod lleol ei luosi gan arwynebedd tomenni yn yr awdurdod lleol hwnnw. I gyfrif am yr ansicrwydd bod gwerth lles mannau gwyrdd o amgylch tomenni yn gynrychioliadol a gallai fod yn oramcangyfrif o ystyried y math o amgylchedd a'i ansawdd (sy'n debygol o amrywio rhwng ardaloedd), mae'r gwerth yn cael ei ostwng 50%. Pwrpas y cyfrifiad hwn yw

[37] Ffynhonnell: https://www.exeter.ac.uk/v8media/research/leep/documents/publications/reports/orval_user_guide.pdf#:~:text=The%20Recreation%20Demand%20Model%20that%20underpins%20the%20ORVal%20Tool%20is – tudalen 14.

[38] Ffynhonnell: https://www.leep.exeter.ac.uk/orval/pdf-reports/ORVal2_User_Guide.pdf - tudalen 3

[39] Ynys Môn, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Caerdydd, a Sir Fynwy.

amcangyfrif y gwelliant mewn gwerth lles, o ystyried yr ymdrechion lliniaru yn sgil y gyfundrefn reoleiddio newydd. Mae hon yn ymgais dybiannol i grynhoi manteision cyfundrefn reoleiddio gynhwysfawr i gymunedau sy'n byw yng nghysgod tomenni nas defnyddir – i bob pwrpas, dychwelyd yn rhannol y gwerth lles ar gyfer yr ardal i'r hyn y gallai fod heb bresenoldeb tomenni nas defnyddir. Rydym yn cydnabod, er ei fod yn fodel soffistigedig, ei fod yn fesur rhannol o fudd lles y gyfundrefn.

8.131. Amcangyfrifir bod y cynnydd hwn mewn gwerth lles yn £38.8 miliwn (£27.7 miliwn wedi'i ddisgowntio) dros y cyfnod asesu o 15 mlynedd. O ran sensitifrwydd, byddai hyn yn £19.4 miliwn neu £58.2 miliwn pe bai gwerth gostyngiad o 25% neu 75% yn cael ei gymhwyso yn lle'r 50% a ystyriwyd yn y dadansoddiad hwn.

**Manteision cyflogaeth anuniongyrchol**

8.132. Gellir hefyd gysylltu canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol â gweithredu'r gyfundrefn reoleiddio arfaethedig. Mae canlyniadau o'r fath yn gysylltiedig â newidiadau cadarnhaol mewn canfyddiad am y mathau o weithgarwch cyflogaeth y gellir eu cynnal o amgylch yr ardaloedd.

8.133. Gall cynnydd mewn gwerth lles fel y trafodwyd uchod gyfrannu'n gadarnhaol hefyd at welliant mewn rhagolygon cyflogaeth. Gall hyn fod mor syml â chynyddu hyder cymuned mewn perthynas â sefydlogrwydd tymor hwy tomenni nas defnyddir cyfagos, gan arwain at fwy o barodrwydd i sefydlu busnes newydd, neu fuddsoddi yn y tir ei hun at ddefnydd mwy cynhyrchiol.

8.134. Nid yw'r asesiad hwn wedi cynnal dadansoddiad sector-wrth-sector o dwf cyflogaeth ond mae wedi ystyried cyfartaledd cyfanswm cyfradd twf cyflogaeth yn yr 16 ardal awdurdod lleol sy'n cynnwys tomenni glo nas defnyddir. Roedd hyn yn gynnydd blynyddol o 1.1% ar gyfartaledd dros y degawd o 2010.[40]

8.135. Mae effaith gweithredu'r gyfundrefn ar gyflogaeth ger tomenni nas defnyddir wedi'i amcangyfrif ar gyfer awdurdodau lleol unigol, gan ddefnyddio'r niferoedd cyflogaeth presennol ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw fel llinell sylfaen, ac yna cyfrifo ffactor cyfradd twf unigol gan ddefnyddio'r gyfradd twf cyflogaeth flynyddol gyfartalog tymor canolig ar gyfer yr awdurdod lleol ynghyd ag arwynebedd tomenni nas defnyddir yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw (eto, fel dirprwy ar gyfer

[40] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed . Mae data y tu hwnt i 2020 wedi'i eithrio i beidio â chynnwys effaith ystumiol ac anarferol COVID-19.

agosatrwydd at domen nas defnyddir). Ystyrir bod hyn yn gynnydd untro mewn cyflogaeth.

8.136. Er enghraifft, mae Blaenau Gwent, sydd â'r arwynebedd tir mwyaf yn cael ei orchuddio gan domenni glo nas defnyddir hysbys o bell ffordd sef 9.75% a chyfradd twf cyflogaeth cyfartalog flynyddol o 1.3%, yn rhoi ffactor twf blynyddol o 0.13% i ni (hynny yw, 9.75% wedi'i luosi ag 1.3%.) Yna gellir lluosi hyn â nifer y gweithwyr, sef 31,100, i amcangyfrif oddeutu 40 o gyfleoedd cyflogaeth newydd yn ystod ein cyfnod amser o 15 mlynedd. Yn achos Torfaen, sydd ag arwynebedd tir canolig wedi'i orchuddio gan domenni nas defnyddir, mae ganddo ffactor twf blynyddol o 0.02% (3.22% o arwynebedd tir wedi'i orchuddio gan domenni nas defnyddir wedi'i luosi â chyfradd twf cyflogaeth gyfartalog flynyddol o 0.3%), a lefel sylfaenol o gyflogaeth o 41,000, gan roi amcangyfrif o oddeutu 9 o gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol yn ein cyfnod amser o 15 mlynedd.

8.137. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu y gellid gweld ychwanegiad untro o tua 194 o swyddi ledled y wlad o ganlyniad i'r gyfundrefn. Mae hyn yn cynrychioli tua 0.014% o nifer y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru, neu 0.017% o fewn yr 16 awdurdod lleol sydd â thomenni glo nas defnyddir. Mae'n amcangyfrif ceidwadol ac nid yw'n cynnwys twf cyflogaeth pellach a fydd yn gysylltiedig â rhaglenni adfer posibl ar safleoedd tomenni nas defnyddir hyfyw.

8.138. Mae'r cyfleoedd gwaith hyn wedi'u cynnwys fel mantais ar ôl i'r tomenni glo nas defnyddir sy'n peri'r bygythiad posibl mwyaf gael eu hymgorffori'n llawn yn y gyfundrefn a'u hystyried yn sefydlog (mewn termau crynswth) dros weddill y gyfundrefn.

8.139. Er mwyn mesur mantais economaidd y cynnydd hwn mewn cyflogaeth, penderfynwyd ar werth ariannol drwy gymhwyso cyflog blynyddol ar lefel isafswm cyflog o £20,048 (£11.44 yr awr[41] am wythnos 35 awr[42]). Mae hyn yn cyfateb i **£50.5 miliwn** dros y cyfnod dan sylw.

8.140. Er nad yw wedi'i brofi'n empirig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl dadleoli ar dwf cyflogaeth. Tybir, at ddibenion y dadansoddiad hwn, ac o ystyried y niferoedd bach dan sylw, bod y niferoedd cyflogaeth yn ychwanegol at gyflogaeth bresennol, yn seiliedig ar unigolion yn ymuno â'r gweithlu o'r newydd.

8.141. Darperir crynodeb yn ôl awdurdod lleol:

[41] Llywodraeth y DU, National Minimum Wage and National Living Wage rates
[42] ONS, Average actual weekly hours of work for full-time workers (seasonally adjusted)

Tabl 20: Creu cyflogaeth, crynodeb yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod Lleol | Cyflogeion | gorchudd tomenni | Twf blynyddol cyfartalog | GF penodol | Swyddi Newydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 31,100 | 9.75% | 1.3% | 0.13% | 39.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 65,200 | 2.55% | 0.7% | 0.02% | 12.3 |
| Caerffili | 85,100 | 4.68% | 1.8% | 0.09% | 72.6 |
| Caerdydd | 185,600 | 0.06% | 2.0% | 0.00% | 2.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 78,400 | 0.14% | 0.3% | 0.00% | 0.3 |
| Sir y Fflint | 78,200 | 0.12% | 1.0% | 0.00% | 0.9 |
| Ynys Môn | 30,600 | 0.00% | 0.1% | 0.00% | 0.0 |
| Merthyr Tudful | 24,200 | 5.54% | 0.1% | 0.01% | 1.5 |
| Sir Fynwy | 45,400 | 0.17% | 0.9% | 0.00% | 0.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 61,500 | 2.28% | 1.0% | 0.02% | 14.4 |
| Sir Benfro | 55,700 | 0.02% | 0.9% | 0.00% | 0.1 |
| Powys | 60,700 | 0.06% | 0.1% | 0.00% | 0.0 |
| RhCT | 99,800 | 5.21% | 0.6% | 0.03% | 29.1 |
| Abertawe | 113,400 | 0.49% | 1.7% | 0.01% | 9.5 |
| Torfaen | 41,000 | 3.22% | 0.7% | 0.02% | 9.3 |
| Wrecsam | 64,400 | 0.60% | 0.3% | 0.00% | 1.1 |
| **Cyfansymiau (16 ALl)** | **1,120,300.00** | | | **0.02%** | **193.9** |
| **Cymru Gyfan** | **1,432,700.00** | | | **0.01%** | |

Tabl 21: Crynodeb o fanteision wedi'u meintioli

| **Math** | **Cyfansymiau** |
|---|---|
| Costau a gaiff eu hosgoi | £54.1 miliwn |
| Gwerth lles | £38.8 miliwn |
| Cyflogaeth | £50.5 miliwn |
| **Cyfanswm** | **£143.4 miliwn** |

## Manteision heb eu meintioli

### Amgylcheddol

8.142. Mae nifer o fanteision amgylcheddol yn debygol o gael eu cefnogi gan weithrediad y gyfundrefn newydd. Nid ydynt o reidrwydd yn fanteision uniongyrchol i'r gwaith a wneir oherwydd y gyfundrefn, ond yn ymwneud mwy â galluogi cynlluniau mwy cadarnhaol yn

amgylcheddol; manteision o fwy o ymwybyddiaeth gyflwr tomenni nas defnyddir a rheolaeth briodol ohonynt; a'r gostyngiad mewn difrod amgylcheddol yn sgil methiannau tomenni nas defnyddir. Mae crynodeb yn dilyn.

### Costau amgylcheddol a gaiff eu hosgoi

8.143. Un o fanteision pwysig y gyfundrefn na ellir ei meintioli yw'r tebygolrwydd is o fethiannau yn y dyfodol o ganlyniad i gyflwr gwell tomenni nas defnyddir a'u bod yn cael eu monitro'n rhagweithiol. Bydd hyn yn debygol o arwain at leihad mewn effeithiau amgylcheddol cysylltiedig negyddol a fyddai'n codi o ganlyniad i fethiant tomen nas defnyddir, gan gynnwys yr effaith ar fioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n bodoli ar y domen nas defnyddir neu o'i hamgylch. Mae costau uniongyrchol methiannau a gaiff eu hosgoi yn cael eu nodi ym mharagraffau 8.107 ymlaen.

### Bioamrywiaeth

8.144. Gall rheoli tomenni nas defnyddir yn well hefyd wella gwerth bioamrywiaeth presennol y tomenni nas defnyddir: yn aml, mae gan domenni pyllau glo werth bioamrywiaeth uchel a bydd sicrhau bod y tomenni nas defnyddir hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac yn gallu eistedd yn ddiogel yn ein tirweddau yn y tymor hir yn bwysig wrth ddiogelu eu gwerth treftadaeth naturiol cyfoethog ar gyfer y dyfodol. Mae natur y tomenni nas defnyddir yn golygu eu bod yn brin eu maethynnau, sy'n atal rhywogaethau planhigion trech rhag cymryd drosodd; maent yn gymhleth iawn fel arfer, ac nid ydynt wedi'u tarfu drwy ddefnyddio gwrtaith na chemegion eraill arnynt, sydd fel arfer yn awgrymu y gall natur ffynnu'n ddirwystr.[43]

8.145. Mae'r fioamrywiaeth hon yn cynnwys 900 a mwy o rywogaethau infertebratau a gofnodwyd, gyda 22% ohonynt ar lefel blaenoriaeth cadwraeth yn y DU.[44] Yn bwysig, dylid cynnal ymyriadau ffisegol sy'n ofynnol i wneud rhai tomenni nas defnyddir yn fwy diogel mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar fioamrywiaeth ac yn adfer cynefinoedd priodol ar gyfer y dyfodol. Diffinnir y rhain ymhellach yn yr Asesiad Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F.

### Carbon deuocsid (CO2)

8.146. Gellir cyflawni gostyngiadau $CO_2$ posibl yn y tymor hir hefyd o ganlyniad i leihau, a'r canfyddiad o leihau, y risg sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir. Gallai rheoli tomenni nas defnyddir yn well arwain at leihau $CO_2$ a chaniatáu gwelliannau pellach fel plannu coed.

[43] Ffynhonnell: "Biodiversity Value of Coal Tips", Liam Olds, Colliery Spoil Biodiversity Initiative, cyflwyniad ar gael ar-lein drwy https://epwales.org.uk/events/biodiversity-value-of-welsh-coal-tips/

[44] Ibid.

Mae Cod Carbon Coetiroedd y DU, safon wirfoddol ar gyfer prosiectau creu coetiroedd yn y DU a fydd yn gwneud honiadau am y carbon deuocsid y maent yn ei atafaelu, yn enghraifft o fenter a all annog prosiectau o'r fath trwy ddarparu amcangyfrifon dibynadwy yn y pen draw o faint o garbon a gaiff ei atafaelu o ganlyniad i blannu coed, yn ogystal â rhoi statws wedi'i ddilysu i gwmnïau sy'n cymryd rhan, y gellid ei ystyried yn bwynt gwerthu deniadol i ddarpar gwsmeriaid.

8.147. Yn ogystal, gall yr allyriadau carbon posibl sy'n gysylltiedig â methiant fod yn sylweddol. Er enghraifft, arweiniodd tirlithriad Tylorstown at 60,000 tunnell o ddeunydd yn llithro i Afon Rhondda Fach. Mae symud y swm hwn o ddeunydd tomen gyda lori yn gofyn am filoedd lawer o deithiau gydag allyriadau cysylltiedig.

**Afonydd**

8.148. Mae Tylorstown yn cynnig enghraifft hefyd o'r risgiau sy'n gysylltiedig â deunyddiau tomenni yn disgyn i mewn i afon ac yn ei rhwystro. Arweiniodd blocio'r Rhondda Fach at roi oddeutu 4,000 o gartrefi mewn perygl o lifogydd pe na bai'r deunyddiau wedi cael eu symud yn gyflym. Byddai difrod o'r fath i eiddo yn creu cost sylweddol. Ni chafodd costau o'r fath eu cynnwys yn y cyfrifiadau o gostau a gaiff eu hosgoi uchod.

8.149. Bydd y gyfundrefn newydd nid yn unig yn lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau niweidiol o'r fath ond gall hefyd wella ymatebion i ddigwyddiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws gweithredu'n gyflym pe bai angen.

**Effeithiau Iechyd Meddwl**

Llithriadau a gaiff eu hosgoi

8.150. Mae astudiaethau wedi dangos effeithiau negyddol tirlithriadau ar lesiant meddyliol. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth o'r mwdlithriadau a ddigwyddodd yn Salerno, yr Eidal ym mis Mai 1998 fod goroeswyr y trychineb fwy nag 20 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o anhwylder straen wedi trawma (PTSD) nag aelodau yn y grŵp rheoli a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.[45] Awgrymodd hefyd y gallai'r tebygolrwydd cynyddol o anhwylder meddwl ymhlith y goroeswyr ddeillio o’r ffaith eu bod wedi wynebu risg o drychinebau tebyg, ar ôl profi sawl digwyddiad cymedrol yn dilyn digwyddiad 1998.

[45] Catapano F., Malafronte R., Lepre F., Cozzolino P., Arnone R., Lorenzo E., Tartaglia G., Starace F., Magliano L., Maj M. “*Psychological consequences of the 1998 landslide in Sarno, Italy: A community study*”, Acta Psychiatrica Scandinavica 2001; 104(6): 438-442, cyfeirir ato yn Kennedy IT, Petley DN, Williams R, Murray V. “A systematic review of the health impacts of mass Earth movements (landslides)”“ PLoS Curr. Ebrill 2015, ar gael ar-lein drwy https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4423842/

8.151. Mae perygl o lifogydd yn cael effeithiau iechyd meddwl tebyg. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru[46], ffactor ychwanegol sy'n achosi straen yn ystod y profiad o lifogydd yw'r straen sy'n gysylltiedig â glanhau ac adfer. Mae'n amlinellu pwyntiau straen o'r fath fel: diffyg mynediad at ofal iechyd, amharu ar weithgareddau'r aelwyd, colli cyfleusterau addysg a chymdeithasol, teimladau o golli rheolaeth oherwydd ofn i'r llifogydd ddigwydd eto, pwyntiau straen economaidd fel colli eiddo ac incwm, ac ymatebion i adroddiadau yn y cyfryngau.

8.152. Bydd yr ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn arfaethedig yn lleihau tebygolrwydd o fethiannau tomenni nas defnyddir a maint methiannau o'r fath, a thrwy wneud hynny, maent yn debygol o gyfrannu'n anuniongyrchol at fanteision seicolegol ac iechyd meddwl.

Manteision iechyd meddwl cyffredinol

8.153. Mae llawer o gymunedau, yn enwedig yng nghymoedd y De, yn byw yng nghysgod ffisegol a seicolegol tomenni nas defnyddir. Caiff hyn ei waethygu gan fethiannau hanesyddol sy'n fyw yn y cof, yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau fel Tylorstown, sy'n arwyddocaol er yn ffodus ni chafwyd unrhyw anafiadau, marwolaethau na difrod i eiddo.

8.154. Mae'r effaith hon yn gymhleth ac yn anodd ei meintioli, fel y mae'r lleihad mewn effaith yn sgil cyflwyno cyfundrefn gynhwysfawr a chorff ymroddedig i reoli'r bygythiadau posibl i les pobl sy'n deillio o ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiad posibl i les pobl mewn achos o ansefydlogrwydd.

8.155. Bydd y gyfundrefn yn gwneud corff cyhoeddus a enwir yn gyfrifol am reoli a monitro tomen nas defnyddir benodol, a allai arwain at effaith gadarnhaol ar berchennog neu feddiannydd tomen nas defnyddir ac unrhyw ymdeimlad o gyfrifoldeb y gallai deimlo ond nad yw o reidrwydd yn gallu cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw'n briodol.

**Cyflogaeth Uniongyrchol**

8.156. Er nad yw wedi'i gynnwys fel mantais wedi'i meintioli, bydd y corff arfaethedig yn cyflogi'n uniongyrchol 75 o bobl yng Nghymru. Mae'r rhain yn rolau y bydd angen eu cyflawni yn y cnawd yng Nghymru.

8.157. Mae'r elfen fwyaf o gostau ar gyfer y gyfundrefn newydd yn ymwneud â gweithrediadau cynnal a chadw. Yn aml mae'r rhain yn gofyn am weithwyr arbenigol, a bydd y gwaith sydd ei angen yn cael ei wneud yn rhai o rannau mwyaf difreintiedig y wlad.

[46] ICC, "*Llifogydd ac iechyd meddwl: gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymatebwyr rheng flaen*", https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/y-tywydd-ac-iechyd/llifogydd/llifogydd-iechyd-meddwl-gweithwyr-rheng-flaen/

8.158. Yn ôl y drefn arferol ar gyfer RIA, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y manteision a gyfrifwyd. Serch hynny, maent yn debygol o fod yn sylweddol.

**Methiant trychinebus, gan gynnwys colli bywyd**

8.159. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn ceisio cyfrifo senarios yn y manteision costau a gaiff eu hosgoi y gellir eu meintioli sy'n cynnwys unrhyw anaf i bobl neu golli bywyd.

8.160. Fodd bynnag, pe byddem yn ystyried hyn ymhellach mewn termau economaidd, gallai fod modd defnyddio'r dadansoddiad a wnaed gan y Grŵp Cynghori Technegol mewn perthynas â Covid.[47]

8.161. Mae hwn yn defnyddio Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd, y darperir gwerth ariannol (ym mhrisiau 20/21) o £70,000 ar eu cyfer. Hynny yw, dyna'r gwerth ariannol a ddefnyddir mewn dadansoddiadau o'r fath am bob blwyddyn o fywyd a gollir. Mae gwerthoedd ariannol tebyg yn cael eu defnyddio i amcangyfrif gostyngiad yn ansawdd bywyd rhywun.

8.162. Nid yw ei gynnwys yma yn awgrym bod methiant sy'n arwain at anaf neu farwolaeth mewn unrhyw ffordd yn debygol. Mae'n cael ei gynnwys i gydnabod nad yw digwyddiad effaith uchel, annhebygol iawn yn cael ei gofnodi yn ein dadansoddiad, ond y byddai'n achosi cost sylweddol.

8.163. Bydd y gyfundrefn arfaethedig yn lleihau ymhellach y tebygolrwydd sydd eisoes yn isel o fethiant sy'n achosi anaf i bobl.

8.164. Os byddwn yn ymchwilio i drychineb Aberfan 1966 a ddigwyddodd yng Nglofa Ynysowen yn Aberfan, fe arweiniodd at 144 o farwolaethau, gan gynnwys 116 o blant. Yn ôl ymchwil a gasglwyd gan awduron o Brifysgol Newcastle, Prifysgol Glasgow Caledonian a Phrifysgol Birmingham, mewn astudiaeth sy'n asesu gwerth ariannol blwyddyn o fywyd,[48] rhoddir gwerth bywyd dynol fel £1.6 miliwn (ar brisiau 2009-10). Mae hyn ynddo'i hun yn dangos, pe bai'r Bil yn llwyddo i leihau'r tebygolrwydd bod llithriad tomen yn arwain at fygythiad i les pobl, mae'r manteision o lai o anafiadau a marwolaethau ar raddfa trychineb tebyg i Aberfan, yn gorbwyso o ddigon y costau gweithredu. Fodd bynnag, dylid nodi na ddefnyddiwyd hyn wrth gyfrifo'r Gwerth Presennol Net.

---

[47] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/the-social-value-of-a-covid-case-january-2022.pdf

[48] A scoping study on the valuation of risks to life and health: the monetary Value of a Life year (VOLY) - GOV.UK (www.gov.uk)

**Cynnydd yng nghapasiti gwasanaethau canolog**

Mecanwaith codi tâl

8.165. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol i unrhyw Awdurdod Cymreig datganoledig o fewn ystyr adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau gweinyddol, technegol a phroffesiynol yn cwmpasu gwasanaethau cefn swyddfa fel cyllid, y gyflogres, adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth. Caiff yr Awdurdod godi ffi am ddarparu gwasanaeth o dan yr adran hon. Rhagwelir y bydd y systemau sy’n cefnogi’r gwasanaethau hyn yn fodiwlaidd ac yn gallu cael eu sefydlu gydag endidau cyfreithiol lluosog, gan alluogi cyrff cyhoeddus eraill i gael mynediad at y gwasanaethau canolog hyn i'w defnyddio, yn ôl yr angen. Mae’r Bil yn galluogi’r Awdurdod i godi tâl am ddarparu'r gwasanaethau hyn, a hwyrach y gallai hyn dalu’r costau cymorth yr eir iddynt wrth redeg y systemau hyn. Mae'n debygol hefyd y bydd arbedion maint ehangach i'w cyflawni yng nghostau gweithredu'r cyrff cyhoeddus sy'n manteisio ar y gwasanaethau canolog hyn.

**Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) a Chymhareb Cost a Budd (BCR)**

8.166. Mae NPSV a BCR Opsiwn 2/2B (cyflwyno cyfundrefn newydd a sefydlu corff cyhoeddus newydd) wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi’i ddisgowntio gan ystyried manteision a chostau wedi’u meintioli sefydlu'r fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

8.167. Yr NPSV cyffredinol yw £102.6 – £69.1 sy'n rhoi swm positif o £33.5 miliwn.

8.168. Cyfrifwyd y gymhareb cost a budd gan ddefnyddio'r un ffigurau, gan roi BCR o 0.48 gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

BCR Opsiwn 2/2B = $\frac{102.6 - 69.1\ miliwn}{£69.1\ miliwn}$ = **0.485**

## Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

8.169. Yr opsiwn a ffefrir yw **Opsiwn 2B**, cyfundrefn reoleiddio newydd a gefnogir drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd.

8.170. Mae'r Bil yn gam allweddol i gyflawni argymhellion adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith[49] a ganfu fod y gyfundrefn bresennol wedi dyddio a bod diwygio deddfwriaethol yn hanfodol i amddiffyn cymunedau glofaol rhag unrhyw dirlithriadau yn y dyfodol. Mae fframwaith rheoleiddio statudol newydd yn sail i'n huchelgais i ddarparu dull cenedlaethol newydd cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir a helpu i liniaru effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd (Opsiwn 2).

8.171. Fel y nodir mewn paragraff blaenorol, canfu dadansoddiad o gyrff presennol nad oedd yr un ohonynt yn addas i weithredu fel yr Awdurdod, ac felly sefydlu corff newydd yw'r opsiwn a ffefrir (Opsiwn 2B).

8.172. At hynny, er bod y Tasglu presennol yn gwneud gwaith hanfodol, ni chaiff ei ystyried yn opsiwn hirdymor hyfyw, fel y nodir ym mharagraff 7.10.

8.173. Roedd ymatebion i ymgynghoriad Papur Gwyn 2022 yn gefnogol dros ben i sefydlu cyfundrefn reoleiddio ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, a chreu corff cyhoeddus newydd â'i unig waith yw sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir.

8.174. Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad o gostau a manteision yr opsiwn a ffefrir yn arwain at fudd net cadarnhaol.

8.175. Mae ein cynigion yn cefnogi'n llawn hefyd yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod cysylltiad â'r holl nodau, mae cysylltiadau arbennig o glir â gweithio tuag at Gymru gydnerth,[50] iachach,[51] fwy cyfartal[52] o gymunedau cydlynus,[53] fel y nodir yn y Bennod nesaf ar yr Asesiadau Effaith.

---

[49] Comisiwn y Gyfraith, Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru: Adroddiad, Mawrth 2022

[50] "Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd a'r gallu i addasu i newid."

[51] "Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol."

[52] "Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)."

[53] "Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da."

**Asesiad o’r Gystadleuaeth**

8.176. Cynhaliwyd Asesiad Hidlo’r Gystadleuaeth i asesu'r effaith bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Bil. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith niweidiol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru. Mae canlyniadau prawf hidlo (sy'n cynnwys naw cwestiwn i’w hateb yn gadarnhaol neu’n negyddol) sy'n cefnogi'r casgliad hwn isod:

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu’n negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydyw |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydyw |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

# 9. Asesiadau o'r Effaith

9.1. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig (IIA) llawn, sy'n cynnwys yr holl ddarpariaethau yn y Bil. Mae crynodeb o'r effeithiau wedi'i amlinellu isod a bydd yr asesiadau effaith penodol yn cael eu cyhoeddi fel y bo'n briodol.

9.2. Yn ogystal â'r Asesiad Sgrinio Iechyd, cynhaliwyd asesiadau penodol er mwyn deall effaith y Bil ar y meysydd canlynol:

- Hawliau Plant;
- Y Gymraeg;
- Cydraddoldeb;
- Prawfesur Gwledig;
- Diogelu Data;
- Bioamrywiaeth;
- Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol;
- Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder.

**Hawliau Plant**

9.3. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

9.4. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gyflwyno sawl digwyddiad ymgynghori gyda'r nod o gasglu barn pobl ifanc 14-16 oed. Yn ogystal, cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru Gynnig y Papur Gwyn i'r Grŵp Gweithredu ar Hawliau Plant ar 23 Mehefin 2022 gan ddefnyddio eu harbenigedd i fyfyrio ar sut mae'r cynigion yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

Effeithiau cadarnhaol

9.5. Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r cymunedau y gallai tirlithriadau o domenni nas defnyddir effeithio arnynt.

9.6. Gall tirlithriadau gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a gorbryder ymhlith pobl ifanc a phlant, er enghraifft nododd adroddiad adfer o dirlithriadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ddangosydd straen yn ymwneud ag addysg ac ysgolion, megis colli cyfleusterau addysg a cholli cymdeithasu sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol. Gallai natur ataliol y Bil atal sefyllfaoedd llawn straen o'r fath rhag digwydd.

9.7. Roedd plant a phobl ifanc yn gefnogol i gynigion y Papur Gwyn o wneud tomenni yn ddiogel i gymunedau'r dyfodol yn ystod y digwyddiad ymgynghori â phobl ifanc.

9.8. Fe wnaethant grybwyll y byddai'r gyfundrefn yn cael effaith fuddiol ar ddiogelu'r amgylchedd rhag rhagor o ddifrod. Roedd ganddynt agwedd gadarnhaol at y cynigion i greu corff newydd i reoli a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

9.9. Yn ogystal, cydnabuwyd bod mabwysiadu darpariaethau'r Bil yn gyfle i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylcheddau y mae plant a phobl ifanc yn byw ynddynt.

<u>Effeithiau negyddol</u>

9.10. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar Hawliau Plant, yn ystod yr ymgynghori â'r cyhoedd na'r trafodaethau â rhanddeiliaid, nac wrth baratoi'r asesiad hwn.

**Y Gymraeg**

9.11. Mae asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau, ac er na fydd y Bil yn cyfrannu'n uniongyrchol at *Cymraeg 2050, gellir ei* gysylltu â thema 2 – *cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg* – a thema 3 – *creu amodau ffafriol*. Er nad yw'n bosibl mesur effaith y Bil ar y Gymraeg, bydd y darpariaethau yn effeithio ar y Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd. Bydd rhagor o asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnal drwy gydol y broses o roi'r Bil ar waith.

9.12. Bydd y Bil yn sefydlu corff cyhoeddus newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod yn arfer swyddogaethau rheoleiddio, cydymffurfio a chynghori wrth weithredu'r gyfundrefn newydd ar gyfer rheoli tomenni. Mae'r Bil yn darparu bod yr Awdurdod yn cael ei ychwanegu at Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd ychwanegu'r Awdurdod at Atodlen 6 yn gosod safonau'r Gymraeg ar yr Awdurdod.

9.13. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am greu cofrestr electronig o domenni nas defnyddir, y bydd yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad ati. Bydd y gofrestr ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesedd ym maes technoleg ddigidol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau digidol.

9.14. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth, ac mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar sawl mater megis monitro, apelau a chodi tâl. Bydd yr holl is-

ddeddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn destun ymgynghoriad ac yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

**Cydraddoldeb**

9.15. Y bwriad yw ychwanegu'r Awdurdod, drwy orchymyn, at y rhestr yn Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010). Yn rhinwedd ei gynnwys yn y rhestr o awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 i Ddeddf 2010, bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo, wrth arfer ei swyddogaethau, i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig berthnasol.

9.16. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal sy'n nodi nad oes unrhyw effeithiau negyddol disgwyliedig ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

9.17. Credwn y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd, p'un a yw'n dod o fewn grŵp â nodwedd warchodedig ai peidio, drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a'r effeithiau cysylltiedig megis colli bywyd; anafiadau; pryderon iechyd corfforol a meddyliol tymor byr a thymor hir; difrod i dai, ysgolion a chanolfannau iechyd; amharu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygredd a dinistrio'r amgylchedd.

9.18. Prif ddiben y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'n debygol y bydd rhai manteision i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, fel pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, oherwydd mae'r rhan fwyaf o domenni glo nas defnyddir wedi'u lleoli yng nghymoedd y De, ardal sy'n profi lefelau uchel o dlodi.

9.19. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth, ac mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar sawl mater. Bydd is-deddfwriaeth a chanllawiau yn destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

**Prawfesur Gwledig**

9.20. Mae asesiad o'r effaith o ran prawfesur gwledig wedi'i gwblhau sy'n ystyried effeithiau'r Bil ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd a chymunedau gwledig ac ar fusnesau gwledig.

9.21. Bydd natur ataliol y Bil yn lleihau’r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir. Disgwylir i natur ragweithiol y gyfundrefn newydd effeithio’n gadarnhaol ar fusnesau a chymunedau gwledig (e.e. ffermydd) drwy leihau'r risgiau o domenni’n llithro a’r costau a ysgwyddir o ganlyniad i dirlithriad.

9.22. Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â'r gymuned ffermio yn ystod y digwyddiadau ymgynghori ar gynigion y Papur Gwyn ac ystyriwyd ymatebion gan sefydliadau gwledig ac unigolion o ardaloedd gwledig, megis pryderon ynghylch amseriadau archwiliadau a mynediad yn ystod gwaith datblygu polisi'r Bil. Rydym wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynrychiolwyr ffermio am ddatblygiad y Bil, megis cyfarfod ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad.

9.23. Bydd y Bil yn sefydlu ac yn rhoi swyddogaethau ar gorff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu llunio canllawiau i'r Awdurdod ar archwiliadau, ac yn bwriadu i'r canllawiau adlewyrchu ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad. Er enghraifft, cynghori ar amseroldeb archwiliadau, asesu a monitro ar dir gwledig a ddefnyddir ar gyfer pori a gweithgareddau ffermio eraill, a byddai gwaith arferol yn ystyried gweithgareddau penodol sy'n digwydd yn dymhorol, fel wyna yn y gwanwyn.

9.24. Mae'r pwerau yn y Bil yn gymwys i'r holl dir, felly bydd tir gwledig yn cael ei gwmpasu gan y darpariaethau yn y Bil. Bydd yr Awdurdod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i berchennog unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil.

9.25. Mae'r Bil yn cynnwys hawl apelio mewn rhai achosion, er enghraifft mewn cysylltiad â hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddiannwr ymgymryd â gweithrediadau, neu mewn perthynas â gorchymyn cyfrannu. Yn ogystal, mae’r Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â digolledu pan fo tir wedi'i ddifrodi, eiddo wedi'i ddifrodi, ei symud ymaith neu ei waredu, neu os oes aflonyddu ar fwynhad o dir. I rai perchnogion tomenni a thirfeddianwyr, gall costau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau angenrheidiol fod y tu hwnt i'w modd ariannol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd tirfeddiannwr yn gallu apelio yn erbyn hysbysiad i ymgymryd â gweithrediadau ar y sail nad yw’r perchennog yn gallu talu costau’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad.

9.26. Mewn argyfwng, mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau heb roi hysbysiad, pan fo'n ystyried bod angen cyflawni gweithrediadau ar unwaith. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn gweithredu i osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl, felly ni fydd yn ofynnol iddo roi hysbysiad i berchennog y tir cyn cyflawni'r gweithrediadau. Fodd bynnag, unwaith y mae wedi dechrau gweithrediadau, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad i berchennog y tir bod y gweithrediadau wedi dechrau.

9.27. Ni chynhaliwyd Asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan nad yw'r amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cwblhau'r Asesiad wedi'u bodloni. Pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil, byddwn yn ystyried y ddyletswydd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac a oes asesiad yn ofynnol.

**Diogelu Data**

9.28. Er bod ein sgrinio yn dangos nad oedd angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data, rydym, serch hynny, wedi paratoi un i asesu effaith darpariaethau'r Bil. Rhannwyd yr asesiad ar ffurf ddrafft gyda swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae eu hadborth wedi'i ymgorffori yn y ddogfen.

9.29. Mae'r asesiad yn ystyried y darpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i brosesu data personol, neu a allai arwain at brosesu data personol neu rannu gwybodaeth. Aseswyd y darpariaethau perthnasol i sicrhau eu bod yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol, a bod prosesu data personol neu rannu gwybodaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur. Aseswyd rheidrwydd a chymesuredd wrth ystyried prif amcan yr Awdurdod, fel y nodir yn adran 2 o'r Bil, i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

**Bioamrywiaeth**

9.30. Rhaid i'r Awdurdod fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

9.31. Gallai'r ddyletswydd ar yr Awdurdod i asesu a monitro tomenni nas defnyddir gyfrannu'n sylweddol at well dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar safleoedd tomenni nas defnyddir a thir cyfagos.

9.32. Bydd canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn hyrwyddo arferion ac egwyddorion i adeiladu capasiti ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth.

**Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

9.33. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â mater gwaddol gorffennol glofaol Cymru. Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, bydd y Bil yn darparu cyfundrefn reoleiddio newydd sy'n lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar y cymunedau hyn, y mae llawer ohonynt yn cael eu dosbarthu ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig gan ddefnyddio MALIC. O ystyried lle mae'r rhan fwyaf o'r tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru, rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol, oherwydd bod y cymunedau hyn yn byw mewn ardaloedd y mae tomenni glo nas defnyddir yn effeithio'n anghymesur arnynt.

9.34. Mae'r Bil yn cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod cysylltiad â’r holl nodau, mae cysylltiadau arbennig o glir â gweithio tuag at Gymru gydnerth, iachach, fwy cyfartal o gymunedau cydlynus.

Effeithiau cadarnhaol

9.35. Rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Effeithiau negyddol

9.36. I rai perchnogion tomenni a thirfeddianwyr, gall costau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau angenrheidiol fod y tu hwnt i'w modd ariannol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd tirfeddiannwr yn gallu apelio yn erbyn hysbysiad i ymgymryd â gweithrediadau ar y sail nad yw’r perchennog yn gallu talu costau’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad.

**Y System Gyfiawnder**

9.37. Rydym wedi ystyried effaith y Bil ar y System Gyfiawnder. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau a chyflwyno Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd effaith isel bosibl ar y system gyfiawnder. Mae Adran yr Arglwydd Brif Ustus hefyd wedi cael ei hysbysu am yr effaith a ragwelir y bydd y Bil yn ei chael ar ein System Gyfiawnder.

9.38. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r Awdurdod, a rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyfundrefn newydd. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio, cydymffurfio a chynghori wrth oruchwylio cyfundrefn newydd ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir. Cynigir cyfundrefn orfodi newydd i sicrhau ac annog cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn newydd. Mae hyn yn cynnwys:

- pwerau gorfodi sifil, gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau, ac i gael mynediad at domenni nas defnyddir a'u harchwilio;
- pwerau gorfodi ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir; a
- phwerau gorfodi troseddol.

9.39. Mae llawer o'r troseddau, hawliau apelio, darpariaeth ar gyfer ceisiadau i'r Llys ac ati yn seiliedig ar y darpariaethau presennol yn Rhan 2 o Ddeddf 1969. Bydd y Bil yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly, ni fydd Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â thomenni nas defnyddir sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae nifer fach iawn o domenni nas defnyddir sy'n mynd ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar gyfer y tomenni hyn, bydd Deddf 1969 a'r Bil yn gymwys. Bydd awdurdodau lleol Lloegr yn arfer pwerau o dan Ddeddf 1969 a bydd yr Awdurdod yn arfer pwerau a roddir iddo gan y Bil. Bydd pwerau o dan y cyfundrefnau priodol yn arferadwy mewn perthynas â'r domen drawsffiniol gyfan nas defnyddir (nid dim ond y rhan o'r domen sy'n dod o fewn yr awdurdodaethau daearyddol priodol).

9.40. Y rheswm yr ydym yn asesu'r effaith fel isel yn hytrach na "dim effaith" neu "ddibwys" yw oherwydd bod gan y Bil drothwy is ar gyfer gweithredu mewn perthynas â sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir na Deddf 1969 ac mae'r pwerau yn y Bil yn gymwys i'r holl dir, nid dim ond tomenni nas defnyddir a thir cyfagos lle mae gan berchennog y domen nas defnyddir fuddiant. Mae gan yr Awdurdod y swyddogaeth o ddarparu cyngor a chymorth i bobl mewn cysylltiad â thomenni nas defnyddir a rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu rheoli'n ddiogel heb, yn y mwyafrif helaeth o achosion, yr angen i ddefnyddio darpariaethau hysbysiadau, pwerau gorfodi ac ati yn y Bil.

**Sgrinio Effeithiau Iechyd Lefel Uchel**

9.41. Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

9.42. Mae'r Bil yn ataliol ei natur a bydd yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr a bydd yn rhoi pwerau i'r Awdurdod sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu cynnal yn iawn, i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau o ran ansefydlogrwydd tomenni. Mae tirlithriadau yn gallu

cael effaith drychinebus, gan gynnwys marwolaethau posibl, anafiadau, difrod i'r amgylchedd a seilwaith allweddol, yr effaith gysylltiedig ar gymunedau a chost sylweddol atgyweirio'r difrod. Mae cyfundrefn reoli effeithiol yn gallu helpu i leihau costau cyweirio yn sylweddol gan fod archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl, a thrwy hynny leihau'r angen am waith drutach os yw tomen yn llithro. Bydd y dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel, a bod risgiau'n cael eu rheoli i atal y tebygolrwydd o dirlithriadau.

9.43. Mae'r RIA ar gyfer y Bil yn disgrifio manteision heb eu maintioli o ran effaith y gyfundrefn reoli newydd a’r rôl y bydd yr Awdurdod yn ei chael ar iechyd cyffredinol ac yn fwy penodol ar iechyd meddwl cymunedau sy'n byw wrth ymyl tomenni nas defnyddir.

9.44. Bydd y gyfundrefn yn atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd a lleihau’r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol sy’n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl, fel yr adroddwyd yn yr RIA.

9.45. Mae natur ataliol y gyfundrefn newydd yn darparu ar gyfer monitro ac archwilio'r tomenni nas defnyddir, gan liniaru'r effaith y gallai digwyddiadau ei chael. Bydd y dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel, a bod risgiau'n cael eu rheoli i atal yn hytrach nag ymyrryd mewn tirlithriadau. Mae’r RIA yn cyfeirio at astudiaeth o'r mwdlithriadau a ddigwyddodd yn Salerno, yr Eidal ym mis Mai 1998. Mae'r astudiaeth yn dangos bod goroeswyr y drychineb fwy nag 20 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o anhwylder straen wedi trawma nag aelodau yn y grŵp rheoli a ddefnyddir yn y dadansoddiad.[54]

9.46. Mae llawer o gymunedau, yn enwedig yng nghymoedd y De, yn byw yng nghysgod ffisegol a seicolegol tomenni glo nas defnyddir. Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir wedi'u lleoli yng nghymoedd y De, bydd y Bil yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol, oherwydd bod y cymunedau hyn yn byw mewn ardaloedd lle mae'r tomenni glo nas defnyddir yn effeithio'n anghymesur arnynt. Bydd y Bil hefyd o fudd i gymunedau sy'n byw wrth ymyl tomenni nas defnyddir.

9.47. Mae'n gymhleth pennu'r effaith bosibl ar iechyd meddwl yn sgil cyflwyno cyfundrefn gynhwysfawr a chorff ymroddedig i reoli'r bygythiadau posibl

---

[54] Catapano F., Malafronte R., Lepre F., Cozzolino P., Arnone R., Lorenzo E., Tartaglia G., Starace F., Magliano L., Maj M. “*Psychological consequences of the 1998 landslide in Sarno, Italy: A community study*”, Acta Psychiatrica Scandinavica 2001; 104(6): 438-442, cyfeirir ato yn Kennedy IT, Petley DN, Williams R, Murray V. “A systematic review of the health impacts of mass Earth movements (landslides)” PLoS Curr. 2015 Ebrill, ar gael ar-lein drwy https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4423842/,

i les pobl sy'n deillio o ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu fygythiad posibl i les pobl mewn achos o ansefydlogrwydd.

9.48. Os bydd tirlithriad, ffactor straen a nodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[55], yn debyg i'r ymateb i'r risg o lifogydd pan fydd glanhau ac adfer ar ôl llifogydd neu dirlithriadau yn achosi diffyg mynediad at ofal iechyd, amharu ar weithgareddau'r aelwyd, colli cyfleusterau addysgol a chymdeithasol, teimladau o golli rheolaeth oherwydd ofn y bydd yn digwydd eto, pwyntiau straen economaidd fel colli eiddo ac incwm, ac ymatebion i adroddiadau yn y cyfryngau.

9.49. Yn ystod ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n hymgynghoriad ar gynigion y Papur Gwyn, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd unrhyw grŵp gan y cynigion yn y Bil.

9.50. Bydd asesiadau o'r effaith ar iechyd yn cael eu paratoi i gyd-fynd â'r broses o roi cynigion y Bil ar waith. Pan fo hynny'n briodol, cynhelir asesiadau o'r effaith ar iechyd i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

[55] Iechyd Cyhoeddus Cymru, "*Llifogydd ac iechyd meddwl: gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymatebwyr rheng flaen*", https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/y-tywydd-ac-iechyd/llifogydd/llifogydd-iechyd-meddwl-gweithwyr-rheng-flaen/,

# 10. Asesiad Fforddiadwyedd

10.1. Tra bod RIA yn asesu gwerth cymdeithasol ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, mae asesiad fforddiadwyedd yn asesiad ariannol yn unig. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn RIA yn cael eu tynnu o asesiad fforddiadwyedd.

10.2. I'r perwyl hwn, mae ffocws yr asesiad fforddiadwyedd hwn ar gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg yr Awdurdod, yn ogystal â chostau'r gyfundrefn fel y byddent yn gymwys i'r Awdurdod a chyrff cyfrifol eraill sydd â'r dasg o ymdrin â gwahanol agweddau ar y gyfundrefn.

10.3. Gan nad yw'r manteision a ystyrir yn y dadansoddiad hwn yn rhyddhau arian parod, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd.

10.4. Mae'r costau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu. Mae'r addasiad hwn wedi'i seilio ar amcanestyniadau datchwyddiant GDP sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2023.[56]

10.5. Gan mai dim ond hyd at 2028-29 y mae'r cyfraddau datchwyddiant GDP wedi'u darogan, cymhwysir cyfartaledd tair blynedd symudol y datchwyddydd GDP am weddill cyfnod yr asesiad. Er bod chwyddiant bellach yn gostwng, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

**Yr Awdurdod (a ariennir gan Lywodraeth Cymru)**

10.6. Yr amcangyfrif o gostau'r Awdurdod yw'r gyfran fwyaf o gostau cyffredinol ychwanegol y gyfundrefn, gan gynnwys cyfrifoldeb am weithredu'r gyfundrefn, gweithrediadau, ei sefydlu a chostau staffio. Mae'r costau hyn yn cael eu crynhoi isod.

[56] https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-november-2023/

Tabl 22 – Costau amcangyfrifedig yr Awdurdod

| **Math** | |
|---|---|
| **Costau'r Awdurdod** | £31,400,000 |
| **Staff yr Awdurdod** | £79,300,000 |
| | |
| **Gwaith brys** | £14,300,000 |
| **PEDW** | £1,300,000 |
| **Llai Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru** | -£13,000,000 |
| **Llai grant Diogelwch Tomenni Glo, sy'n talu am waith brys** | -£14,300,000 |
| **Cyfanswm** | £99,100,000 |

**CNC**

10.7. Mae'r costau y gellir eu priodoli i CNC yn ymwneud â'r costau y bydd disgwyl iddynt eu talu o ganlyniad i weithredu'r gyfundrefn newydd yn y Bil.

Tabl 23 – Amcangyfrif o'r costau y gellir eu priodoli i CNC

| **Math** | **Cyfansymiau** |
|---|---|
| **Gweithrediadau** | £319,950 |
| **Llai grant Diogelwch Tomenni Glo** | -£319,950 |
| **Cyfanswm** | £0 |

10.8. Byddai disgwyl i gostau ychwanegol i CNC sy'n gysylltiedig â'r Bil gael eu cynnwys mewn unrhyw grantiau gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol ac ni fyddant yn dod o'i gyllideb bresennol.

**Awdurdodau lleol**

10.9. Mae'r costau y gellir eu priodoli i awdurdodau lleol yn ymwneud â'r costau y bydd disgwyl iddynt eu talu o ganlyniad i weithredu'r gyfundrefn newydd yn y Bil.

Tabl 24 – Amcangyfrif o'r costau y gellir eu priodoli i awdurdodau lleol

| **Math** | **Cyfansymiau** |
|---|---|
| **Gweithrediadau** | £810,686 |
| **Llai grant Diogelwch Tomenni Glo** | -£810,686 |
| **Cyfanswm** | £0 |

10.10. Byddai disgwyl i gostau ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r Bil gael eu cynnwys mewn unrhyw grantiau gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol ac ni fyddant yn dod o'u cyllidebau presennol.

### Yr Awdurdod Glo

10.11. Mae'r costau y gellir eu priodoli i'r Awdurdod Glo yn ymwneud â'r costau y bydd disgwyl iddynt eu talu o ganlyniad i weithredu'r gyfundrefn newydd yn y Bil.

Tabl 25 – Amcangyfrif o'r costau y gellir eu priodoli i'r Awdurdod Glo

| Math | Cyfansymiau |
|---|---|
| **Gweithrediadau** | £87,610 |
| **Llai grant Diogelwch Tomenni Glo** | -£87,610 |
| **Cyfanswm** | £0 |

10.12. Mae gofynion y Bil yn cyd-fynd yn fras â'r dull y mae'r Awdurdod Glo eisoes yn ei gymryd gyda'i domenni ei hun. O'r herwydd, ni ddisgwylir y bydd yn gosod costau newydd ar y corff. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr Awdurdod Glo yn gorff Llywodraeth y DU ac yn cael ei ariannu am ei waith mewn perthynas â'i domenni ei hun gan Lywodraeth y DU.

### Crynodeb

10.13. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ariannol sy'n gysylltiedig â'r Bil ar draws yr holl gyrff hyn yn £99.1 miliwn dros bymtheng mlynedd. Er bod y ddogfen hon yn tybio y bydd yr arian a ddarperir ar gyfer y grant diogelwch tomenni glo yn parhau, bydd unrhyw ostyngiad yn y grant yn golygu na fydd agweddau cyfalaf y bil yn fforddiadwy.

10.14. Ar hyn o bryd nid oes cyllideb wedi'i dyrannu i dalu costau rhedeg yr Awdurdod. Er mwyn sicrhau bod cyllideb ar gael a bod y costau refeniw yn y Bil yn fforddiadwy, bydd angen blaenoriaethu'r cyllid mewn trafodaethau cyllideb yn y dyfodol neu ddod o hyd iddo o adnoddau presennol.

## 11. Adolygu ar ôl gweithredu

11.1. Rhagwelir y bydd adolygiad ôl-weithredu cychwynnol yn cael ei gynnal tua 5 mlynedd ar ôl i'r gyfundrefn ddod i rym, a fyddai'n 7 mlynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Erbyn hynny byddai'r mwyafrif helaeth o domenni glo nas defnyddir wedi cael eu hasesu'n llawn a, phan fo'n briodol, eu hychwanegu at y gofrestr a byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal ar yr adeg pan fyddai tomenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau cael eu hystyried.

11.2. Byddai adolygiad o'r fath yn debygol o ystyried effeithiolrwydd y gyfundrefn, gan gynnwys y canllawiau a fydd wedi'u cyhoeddi, yn ogystal â'r Awdurdod.

11.3. Bydd gwerthusiad parhaus yn bosibl hefyd drwy'r rhwymedigaethau statudol ar yr Awdurdod a nodir yn y Bil sef:

- llunio cynllun corfforaethol o sut mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod tair blynedd canlynol a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi adroddiadau blynyddol a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn flynyddol.

11.4. Gan nad yw'n bosibl mesur elfen wrthffeithiol 'llithriadau a gaiff eu hosgoi', mae'n debygol y bydd gwerthusiad am ystyried cadernid y gyfundrefn fonitro, a bennir mewn canllawiau, gan gynnwys adolygu pa mor aml y disgwylir i wahanol gategorïau o domenni gael eu harchwilio yn ogystal â'r meini prawf a ddefnyddir i roi tomenni mewn categorïau. Gall adolygiad o ryngweithio â chyfundrefnau amgylcheddol eraill fod yn werthfawr hefyd, yn ogystal ag effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith â chyrff statudol cyfundrefnau cysylltiedig.

11.5. Gellir ystyried yr effaith mewn perthynas â PEDW, gan ei bod yn anodd amcangyfrif faint o waith a fydd yn gysylltiedig â'r gyfundrefn newydd hon.

11.6. Bydd y gyfundrefn yn dibynnu hefyd ar gyflenwad digonol o staff cymwys i gynnal asesiadau ac archwiliadau technegol. Mae hwn yn faes a fydd angen sylw arbennig, yn barhaus, ac fel rhan o adolygiad.

11.7. Rhagwelir y bydd y defnydd o dechnoleg yn rhan bwysig o'r gyfundrefn, ac mae cyllideb sylweddol ar gyfer treialu a gweithredu technoleg wedi'i chynnwys yn yr RIA. Mae'n ddigon posibl y bydd technolegau newydd yn caniatáu ac yn gofyn am newid dull, yn enwedig o ran monitro. Mae'n debygol y bydd unrhyw adolygiad am ystyried effaith mabwysiadu'r dechnoleg hon ar y gyfundrefn, ac unrhyw newidiadau a allai fod angen canllawiau.

11.8. Rydym wedi gweld patrymau tywydd yn newid hefyd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac fel yr amlinellwyd ym mharagraff 8.5, disgwylir i hyn newid risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau glawiad uchel. Mae'n annhebygol y bydd yr effaith hon yn cael ei theimlo'n gyfartal a bydd angen ei hystyried yn y gwaith o dan y gyfundrefn. Mae'n debyg y byddai addasu'r gyfundrefn i hinsawdd sy'n newid yn rhan o adolygiad.

11.9. Yn olaf, mae'n bosibl y bydd adolygiad o'r fath yn ystyried y dull y dylid ei gymryd mewn perthynas â thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, a fydd wedi'u mapio erbyn hynny. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ddysgu o'r ystad lo ac yn caniatáu i'r Awdurdod fireinio ei ddull ar gyfer tomenni y rhagwelir y byddant yn cael eu gwerthuso, ar gyfartaledd, fel tomenni nas defnyddir sy'n peri llai o fygythiad posibl, gyda'r mwyafrif yn cael eu heithrio o'r gyfundrefn yn gyfan gwbl.

## Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol

# BIL TOMENNI MWYNGLODDIAU A CHWARELI NAS DEFNYDDIR (CYMRU)

---

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 9 Rhagfyr 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

**CRYNODEB A'R CEFNDIR POLISI**

2. Mae dros 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, yn bennaf yng nghymoedd y De. Ym mis Chwefror 2020, yn dilyn stormydd Ciara a Dennis, cafwyd cyfres o dirlithriadau tomenni glo yng Nghymru, gan gynnwys tirlithriad mawr o domen nas defnyddir yn Tylorstown a achosodd i dros 60,000 tunnell o falurion ddisgyn i Afon Rhondda Fach. Mae'r tirlithriadau hyn yn dangos y risgiau posibl i gymunedau a berir gan domenni nas defnyddir.

3. Sefydlodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo ddechrau 2020. Cafodd y tasglu raglen eang o waith gan gynnwys nodi lleoliad a statws yr holl domenni glo nas defnyddir yng Nghymru; sefydlu rhaglen o archwilio a chynnal a chadw tomenni glo; sicrhau bod deddfwriaeth yn addas at y diben, a datblygu blaenraglen i gyweirio tomenni glo nas defnyddir i fynd i'r afael â materion sefydlogrwydd hirdymor.

4. Er mwyn cefnogi'r rhaglen diogelwch tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £65 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd - 2022/23 i 2024/25 - i gefnogi awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw a chyweirio ar domenni glo.

5. Ym mis Hydref 2020, gwahoddodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn y Gyfraith i werthuso'r ddeddfwriaeth gyfredol ac i ystyried opsiynau ar gyfer deddfwriaeth newydd i sicrhau system reoleiddio gadarn, integredig a diogel yn y dyfodol, sy'n mabwysiadu dull unffurf o ran archwilio, cynnal a chadw a chadw cofnodion ynghylch tomenni glo. Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ar 24 Mawrth 2022. Gwnaeth nifer o argymhellion gan gynnwys

creu un awdurdod goruchwylio, llunio cofrestrtomenni glo, ac argymhellion yn ymwneud ag arolygu a chynnal a chadw tomenni glo yn barhaus.

6. Cyhoeddwyd Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru) , a oedd yn ymgynghori ar gynigion y Bil, gan Lywodraeth Cymru ar 12 Mai 2022. Tynnodd ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith a dadansoddiad pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn ym mis Tachwedd 2022. Gofynnodd y Papur Gwyn pa un a ddylai'r cynigion ar gyfer y Bil fod yn gymwys i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo (er enghraifft tomenni sy'n cynnwys gwastraff o ddiwydiant cloddio metel Cymru). Roedd y mwyafrif o'r ymatebion (88%) yn cytuno. Felly, mae darpariaethau'r Bil yn gymwys i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo. Dylid nodi yr amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni nas defnyddir (nad ydynt yn domenni glo) yng Nghymru.

7. Roedd consensws eang o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd nad oedd y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â thomenni glo nas defnyddir, sef Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ("Deddf 1969"), bellach yn addas at y diben. Roedd wedi ei deddfu ar adeg pan oedd gan Gymru ddiwydiant glo gweithredol. O ganlyniad, nid oedd wedi ei chynllunio ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir ac nid yw'n mynd i'r afael â hynny yn ddigonol. O ganlyniad, mae'r Bil yn datgymhwyso Rhan 2 o Ddeddf 1969 i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly, nid yw Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â thomenni nas defnyddir sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru.

8. Nod y Bil yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nad defnyddir drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

9. I grynhoi, mae'r Bil:
(a) yn sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ("yr Awdurdod") fel corff corfforedig. Prif amcan yr Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd,
(b) yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir,
(c) yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi'r Awdurdod i ddelio ag ansefydlogrwydd tomen a bygythiadau i sefydlogrwydd tomen. Mae hyn yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau ac i'r Awdurdod gynnal gweithrediadau ei hun, a darpariaethau cysylltiedig mewn perthynas â thaliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath,
(d) yn cynnwys darpariaethau atodol gan gynnwys pwerau mynediad i'r Awdurdod, darpariaethau rhannu gwybodaeth a phwerau i wneud gwybodaeth yn ofynno, ac
(e) yn creu troseddau cysylltiedig i gefnogi gorfodi'r drefn.

10. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 88 o adrannau a thair Atodlen.

## SYLWADAU AR YR ADRANNAU

### Rhan 1 – Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru.
### Trosolwg o Ran 1

11. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys adrannau 1 i 5 sy'n sefydlu'r Awdurdod; yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaethau pellach ynghylch yr Awdurdod; yn amlinellu prif amcan yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bil ac yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau cyffredinol ac atodol yr Awdurdod.

### Adran 1 - Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

12. Mae adran 1 yn sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru. Fe'i sefydlir fel corff corfforedig sy'n golygu ei fod yn gorff sydd â'i hawliau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau cyfreithiol ei hun ac sydd, er enghraifft, yn gallu ymrwymo i gontractau. Drwy gydol y Bil, mae cyfeiriadau at "yr Awdurdod" yn gyfeiriadau at y corff hwnnw.

13. Mae is-adran (3) yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr Awdurdod.

### Atodlen 1 - Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

14. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a threfniadau gweithredol yr Awdurdod. O dan adran 87, daw adran 1 i rym ar 1 Ebrill 2027, felly sefydlir yr Awdurdod fel corff corfforedig ar y dyddiad hwnnw. Daw Atodlen 1 i rym ar 1 Ebrill 2027 hefyd (adran 87(2)).

15. Mae paragraff 2 yn darparu y bydd gan yr Awdurdod rhwng 4 a 6 aelod anweithredol, a benodir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys aelod-gadeirydd. Caniateir penodi un o'r aelodau hyn yn ddirprwy aelod-gadeirydd.

16. Bydd aelodaeth yr Awdurdod hefyd yn cynnwys y person a benodir o dan baragraff 6 fel ei brif weithredwr. Bydd y prif weithredwr cyntaf yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru, gyda phrif weithredwyr dilynol yn cael eu penodi gan yr aelodau anweithredol. Yn unol â pharagraff 15, y prif weithredwr yw swyddog cyfrifyddu'r Awdurdod. Mae cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu ynghylch cyfrifon a chyllid yr Awdurdod fel y'u pennir gan Weinidogion Cymru.

17. Mae paragraff 2(1)(d) yn darparu bod rhaid i'r prif weithredwr a'r aelodau anweithredol benodi o leiaf un ond dim mwy na dau aelod i'r Awdurdod o blith staff yr Awdurdod. Gelwir yr aelodau hyn, ynghyd â'r prif weithredwr, yn aelodau gweithredol (paragraff 2(3)(b)). Mae paragraff 2(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio nifer yr aelodau a benodir i'r Awdurdod, ond rhaid i nifer yr aelodau anweithredol fod yn uwch na nifer

yr aelodau gweithredol bob amser er mwyn hybu trosolwg annibynnol o arfer swyddogaethau'r Awdurdod.

18. Ymhlith pethau eraill, bydd gan yr Awdurdod y pŵer o dan Atodlen 1 i benodi staff ac i sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud rheolau sy'n rheoleiddio ei weithdrefn a gweithdrefn unrhyw un neu ragor o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau.

19. Mae Atodlen 1 hefyd yn nodi'r gofynion adrodd ar gyfer yr Awdurdod. Mae paragraff 19 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio. Mae paragraff 19(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun corfforaethol nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil yn ystod y cyfnod cynllunio.

20. Bydd y cyfnod cynllunio cyntaf yn gyfnod o 3 blynedd gan ddechrau ag 1 Hydref 2027. Bydd cyfnodau cynllunio dilynol hefyd mewn cylchoedd 3 blynedd. Rhaid cyflwyno'r cynllun corfforaethol ar gyfer cyfnod cynllunio i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn i'r cyfnod cynllunio ddechrau.

21. Mae paragraff 20 yn nodi dyletswyddau'r Awdurdod mewn perthynas â llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru, a rhaid i Weinidogion Cymru osod copi gerbron Senedd Cymru.

22. Mae Rhan 8 o'r Atodlen yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol mewn cysylltiad â sefydlu'r Awdurdod.

**Adran 2 - Prif amcan yr Awdurdod**

23. Mae is-adran (1) yn darparu mai prif amcan yr Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i hybu safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd. Diffinnir ystyr "bygythiad i les pobl" yn adran 82.

24. Er enghraifft, gallai fod bygythiad i les pobl pe bai tomen nas defnyddir a leolir ger ardal breswyl yn mynd yn ansefydlog a lle gallai unrhyw lithriad sy'n deillio o ansefydlogrwydd arwain at farwolaeth pobl, salwch neu anaf difrifol i bobl neu ddifrod difrifol i eiddo.

25. Yn yr un modd, gallai bygythiad i les pobl fodoli lle gallai methiant tomen nas defnyddir, oherwydd ansefydlogrwydd, rwystro cwrs dŵr ac arwain at fygythiad llifogydd canlyniadol i les pobl.

26. Gallai bygythiad o'r fath fodoli lle gallai llithriad tomen nas defnyddir oherwydd ansefydlogrwydd rwystro priffordd ac achosi tarfu difrifol ar gyfleusterau ar gyfer trafnidiaeth.

27. Yn yr un modd, gallai bygythiad i les pobl fodoli pan fo tomen nas defnyddir sydd wedi ei lleoli ger llinellau a pheilonau pŵer trydanol yn mynd yn ansefydlog a lle gallai unrhyw symudiad tir oherwydd ansefydlogrwydd arwain at darfu difrifol ar gyflenwi ynni.

**Adran 3 – Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy**

28. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddarparu unrhyw wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau fel y bo'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ofyn i'r Awdurdod am wybodaeth sy'n ymwneud â nifer yr hysbysiadau o dan Ran 3 a ddyroddwyd gan yr Awdurdod mewn perthynas â thomenni categori 1 o fewn cyfnod penodol. Mae is-adran (2) yn darparu nad oes rhaid i'r Awdurdod aros am archiad gan Weinidogion Cymru, a chaiff, ar ei gymhelliad ei hun, roi gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan y Bil hwn neu unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau eraill.

29. Yn unol ag is-adran (5), diffinnir "cynhorthwy" at ddibenion yr adran hon i gynnwys cynnal gweithrediadau ar dir: er enghraifft, gwaith i atgyfnerthu wal gynnal ar domen nas defnyddir.

30. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff yr Awdurdod hefyd roi gwybodaeth neu gyngor i unrhyw berson arall (ac eithrio Gweinidogion Cymru) ar unrhyw fater sy'n ymwneud â thomen nas defnyddir benodol neu i domenni nas defnyddir yn gyffredinol, neu roi cynorthwy iddynt â'r mater hwnnw. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i godi ffi am ddarparu cynhorthwy o'r fath o dan is-adran (3). Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai'r Awdurdod godi tâl ar awdurdod lleol yn Lloegr am ddarparu cyngor a chynhorthwy gyda materion yn ymwneud â thomen nas defnyddir yn ei ardal, os yw'r domen honno'n mynd ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

31. Gan fod yr Awdurdod yn awdurdod cyhoeddus, bydd egwyddorion cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ffioedd a godir ganddo fod yn rhesymol.

**Adran 4 - Cynhorthwy ariannol**

32. Mae is-adran (1) yn galluogi'r Awdurdod i roi cynhorthwy ariannol i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwariant perthnasol. Mae is-adran (2) yn diffinio "gwariant perthnasol" at ddibenion y ddarpariaeth hon.

33. O dan yr adran hon, caniateir rhoi cynhorthwy ariannol, er enghraifft, i unigolion, awdurdodau cyhoeddus neu gorfforaethau. Yn ymarferol, mae'r mathau o gynhorthwy ariannol y rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn eu darparu yn cynnwys rhoi grant i ariannu gwaith cynnal a chadw sy'n hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch a gwaith cyweirio i leihau bygythiadau i les pobl.

**Adran 5 – Pwerau ategol**

34. Mae adran 5 yn darparu y caiff yr Awdurdod wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy’n ffafriol i’w harfer neu’n ddeilliadol i’w harfer. Mae hyn yn sicrhau, yn ogystal â’r pwerau penodol a roddir i’r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau craidd o dan y Bil, fod hefyd ganddo’r pwerau sydd eu hangen arno i allu gweithredu’n effeithiol, er enghraifft i ymrwymo i gontractau, neu i gaffael tir i ddarparu llety ar gyfer ei staff neu le ar gyfer ei gyfarpar.

35. Mae is-adran (2) yn gosod cyfyngiad ar allu’r Awdurdod i gael benthyg arian. Ni chaniateir iddo gael benthyg arian ond oddi wrth Weinidogion Cymru.

**Rhan 2 Asesu, Cofrestru a Monitro Tomenni Nas Defnyddir**

**Pennod 1 - Cofrestr tomenni nas defnyddir**

**Trosolwg o Bennod 1**

36. Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod lunio a chadw cofrestr o domenni nas defnyddir; yn pennu’r meini prawf ar gyfer cofrestru a chynnwys y gofrestr; yn rhoi hawl i’r cyhoedd i gael gweld y gofrestr ac yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i fonitro’r tomenni nas defnyddir yn y gofrestr.

**Adrannau 6 a 7 - Dyletswydd i lunio a chadw cofrestr a’r meini prawf ar gyfer cofrestru**

37. Mae adran 6(1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio a chadw cofrestr electronig o domenni nas defnyddir y mae wedi penderfynu eu bod (a) yn peri bygythiad i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd neu (b) y gallent beri bygythiad o’r fath pe bai ansefydlogrwydd.

38. Mae’r broses ar gyfer cynnwys tomenni nas defnyddir yn y gofrestr, neu eu dileu o’r gofrestr, wedi ei nodi ym Mhennod 3.

39. Mae adran 7 yn nodi’r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir.

40. Mae’r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni os yw naill ai adran 7(a) neu (b) wedi ei bodloni mewn perthynas â thomen nas defnyddir benodol. Felly, nid oes angen i domen nas defnyddir fod yn ansefydlog ar adeg yr asesiad i’w chynnwys yn y gofrestr. Rhaid ei chynnwys hefyd os gallai beri bygythiad i les pobl (a ddiffinnir yn adran 82 ac a eglurir ym mharagraff 37) pe bai’n mynd yn ansefydlog.

**Adran 8 - Cynnwys y gofrestr**

41. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i’r gofrestr electronig y mae’r Awdurdod o dan ddyletswydd i’w llunio a’i chynnal o dan adran 6, ar gyfer pob tomen gofrestredig, gynnwys map sy’n nodi ardal y domen. Yn ogystal, rhaid i’r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a restrir yn is-adran (2).

42. Mae is-adran (2) yn nodi'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn cofnod am domen nas defnyddir yn y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys rhif adnabod unigryw a roddir gan yr Awdurdod i'r domen (er enghraifft, gallai hyn fod yn gyfeirnod megis T28703). Mae is-adran (2)(f) yn darparu bod rhaid i gofnod yn y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Awdurdod cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

43. Mae is-adran (4) yn darparu na chaiff yr Awdurdod newid yr ardal sydd wedi ei mapio ar gyfer tomen nas defnyddir neu newid y categori sydd wedi ei ddyfarnu i domen ond yn unol â darpariaethau Pennod 5.

**Adran 9 - Caniatáu i'r cyhoedd weld y gofrestr**

44. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad electronig at y mapiau a'r wybodaeth yn y gofrestr ar bob adeg resymol. Yr unig eithriad i'r gofyniad hwn yw mewn cysylltiad â gwybodaeth a bennir drwy reoliadau a wneir o dan adran 8(2)(f), sef gwybodaeth nad oes rhaid iddi fod ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Yn ymarferol, bwriedir i'r ddyletswydd hon gael ei bodloni drwy sicrhau bod y gofrestr ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod.

**Adran 10 - Dyletswydd i fonitro tomenni cofrestredig**

45. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i fonitro sefydlogrwydd, a bygythiadau i sefydlogrwydd, pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr.

46. Mae is-adran (2) yn darparu, er mwyn cyflawni ei ddyletswydd monitro, y caiff yr awdurdod gynnal arolygiadau a gweithgareddau monitro eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Gallai gweithgareddau monitro eraill, er enghraifft, gynnwys defnyddio synhwyro o bell i ganfod symudiad tir.

47. Gan ddefnyddio pwerau o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau i'r Awdurdod ar fonitro. Bydd adran 69 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth arfer ei swyddogaethau monitro.

**Pennod 2 – Asesu Tomenni nas Defnyddir**
**Adran 11 - Trosolwg**

48. Mae adran 11 yn rhoi trosolwg o gynnwys Pennod 2.

**Adrannau 12 a 15 - Ystyr "asesiad rhagarweiniol" ac "asesiad llawn".**

49. Mae adran 12 yn diffinio "asesiad rhagarweiniol" at ddibenion Pennod 2. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau i'r Awdurdod ynghylch y ffordd y dylid cynnal asesiadau rhagarweiniol. Rhagwelir y bydd

asesiad rhagarweiniol ar ffurf arolygiad bwrdd gwaith a fydd yn edrych ar faterion megis uchder a chyfaint tomen nas defnyddir, ei hagosrwydd at dderbynyddion sensitif (megis tai, seilwaith ac ati), unrhyw wybodaeth am hanes y domen a allai fod yn berthnasol o ran ei sefydlogrwydd ac adroddiadau arolygu neu strwythurol sy'n bodoli eisoes.

50. Mae adran 15 yn diffinio ystyr "asesiad llawn" o domen nas defnyddir at ddibenion Pennod 2. Mae'r diffiniad yn cyfeirio at y meini prawf ar gyfer cofrestru, a ddisgrifir yn adran 7. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau ynghylch y modd y dylid cynnal asesiadau llawn. Rhagwelir y bydd asesiad llawn yn cynnwys archwiliad ffisegol o'r domen nas defnyddir gan berson sy'n meddu ar gymwysterau addas.

51. Ni chaniateir cynnal asesiad llawn ond ar ôl cynnal asesiad rhagarweiniol.

**Adran 13 - Asesiadau rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir**

52. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i (a) cynnal asesiad rhagarweiniol mewn perthynas â phob tomen nas defnyddir yng Nghymru, a (b) llunio adroddiad ar gyfer pob asesiad.

53. Mae tua 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod dros 20,000 o domenni nas defnyddir eraill (h.y. tomenni nad ydynt yn domenni glo) yng Nghymru. Ni ellir asesu pob tomen nas defnyddir ar unwaith. O ganlyniad, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio rhaglen waith sy'n nodi ei ddull arfaethedig o gynnal yr asesiadau rhagarweiniol sy'n ofynnol gan adran 13, ac amserlen ar gyfer gwneud hynny.

54. Rhagwelir y bydd y rhaglen waith yn cael ei datblygu fel mai'r tomenni nas defnyddir (p'un a ydynt yn lo ai peidio) y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn peri'r bygythiad mwyaf i les pobl fydd y cyntaf i gael asesiad rhagarweiniol. O ran tomenni glo nas defnyddir, bydd penderfyniadau ar flaenoriaethu asesiad rhagarweiniol yn seiliedig ar ddata presennol gan yr Awdurdod Glo.

55. Mae is-adrannau (3) i (8) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y rhaglen waith y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei llunio. Yn benodol, rhaid i'r Awdurdod anfon y rhaglen waith gyntaf at Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo o fewn 12 mis ar ôl i adran 13 ddod i rym. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r rhaglen a gyflwynir iddynt gan yr Awdurdod, neu gallant ei haddasu cyn ei chymeradwyo. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r rhaglen. Rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r rhaglen ar ei wefan. Caiff yr Awdurdod ddiwygio ei raglen gyhoeddedig, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Os yw'n gwneud hynny, rhaid cyhoeddi'r rhaglen ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Adran 14 – Asesiadau rhagarweiniol ychwanegol**

56. Bydd amgylchiadau pan fo'r Awdurdod wedi cynnal asesiad rhagarweiniol o domen nas defnyddir ac wedi penderfynu nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ei chynnwys yn y gofrestr. Rhaid cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol a rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad ar yr asesiad hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os yw'r Awdurdod yn ystyried bod asesiad o'r fath yn angenrheidiol mewn perthynas â'r domen berthnasol: (a) oherwydd newid mewn amgylchiadau; neu (b) oherwydd bod gwybodaeth ar gael na chafodd ei hystyried pan gynhaliwyd yr asesiad blaenorol.

57. Enghraifft o newid mewn amgylchiadau fyddai adeiladu ystad dai neu briffordd ger tomen nas defnyddir, a allai fygwth sefydlogrwydd y domen nas defnyddir. Enghraifft o wybodaeth newydd yw gwybodaeth nad oedd ar gael o'r blaen gan berchennog neu feddiannydd y domen nas defnyddir sy'n amlygu, er enghraifft, dystiolaeth o gynnydd o ran dŵr ffo o dir cyfagos a allai beri bygythiad i sefydlogrwydd y domen nas defnyddir.

**Adran 16 – Asesiad llawn o domen anghofrestredig**

58. Mae adran 16 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal asesiad llawn o domen nas defnyddir anghofrestredig os yw'n ymddangos i'r Awdurdod, ar sail asesiad rhagarweiniol o dan naill ai adran 13 neu 14, y gellir bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru'r domen. Rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad ar yr asesiad.

**Adran 17 - Asesiad llawn o domen gofrestredig**

59. Mae adran 17 yn darparu bod rhaid cynnal asesiad llawn ychwanegol a rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad ar yr asesiad hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os yw'r Awdurdod yn ystyried bod asesiad o'r fath yn angenrheidiol mewn perthynas â'r domen berthnasol: (a) oherwydd newid mewn amgylchiadau; neu (b) oherwydd bod gwybodaeth ar gael nas ystyriwyd pan gynhaliwyd asesiad llawn ddiwethaf mewn perthynas â'r domen.

60. Er enghraifft, gall yr Awdurdod benderfynu cynnal asesiad llawn ychwanegol o domen nas defnyddir sydd eisoes ar y gofrestr os yw'n cael gwybod bod seilwaith draenio o dan y domen wedi dymchwel ers i'r domen gael ei hasesu'n llawn ddiwethaf. Yn yr un modd, gall yr Awdurdod benderfynu cynnal asesiad llawn o domen gofrestredig os yw'n derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu nad yw'r domen bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru.

**Adran 18 – Hysbysiad o fwriad i gynnal asesiad llawn**

61. Cyn cynnal asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar dir y mae angen mynd arno at ddibenion yr asesiad.

62. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd angen rhoi hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y domen nas defnyddir. Yn ogystal, pan

na ellir cyrchu'r domen nas defnyddir yn uniongyrchol o briffordd gyhoeddus, bydd hefyd angen hysbysu perchnogion a meddianwyr ar unrhyw dir y bydd angen i'r Awdurdod ei groesi i gael mynediad i'r domen nas defnyddir. Rhoddir hysbysiad hefyd i berchnogion a meddianwyr ar dir ger y domen nas defnyddir, os oes angen mynediad i'r tir hwnnw fel rhan o'r asesiad llawn: er enghraifft, i asesu pa un a oes unrhyw ryngddibyniaethau rhwng tomenni neu i ystyried pa un a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru (o dan adran 7) wedi eu bodloni.

63. Diffinnir "perchennog" ar dir at ddibenion y Bil yn adran 83 i olygu'r person sy'n berchen ar y teitl rhydd-ddaliadol i'r tir neu sydd â thenantiaeth cyfnod penodol sydd ag o leiaf blwyddyn ar ôl ac nad yw'n gyfnod morgais. Mae hyn yn golygu nad yw banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n dal morgais ar ddarn o dir yn cael eu hystyried yn berchnogion at ddibenion y Bil. Mae adran 83(b) yn darparu nad yw person sydd â buddiant rifersiynol mewn tir a fydd ond yn cael ei wireddu pan ddaw tenantiaeth o'r fath i ben i gael ei ystyried yn berchennog at ddibenion y Bil.

64. Bydd y "perchennog" ar y tir, mewn llawer o achosion, yn feddiannydd ar y tir hefyd. Fodd bynnag, bydd achosion pan fo personau ac eithrio'r "perchennog" yn meddiannu'r tir: er enghraifft, bersonau sydd â thrwydded i feddiannu'r tir, neu bersonau sydd â thenantiaethau cyfnodol neu denantiaethau sydd â llai na blwyddyn ar ôl. Pan felly, bydd rhaid rhoi hysbysiad i'r personau hynny hefyd.

65. Mae is-adran (2) yn disgrifio'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn hysbysiad a roddir o dan adran 18(1). Ymhlith pethau eraill, rhaid i'r hysbysiad bennu'r dyddiad y gallai fod angen mynediad i'r tir. Ni chaiff y dyddiad sydd i'w bennu fod yn llai nag 14 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad. Felly, os rhoddir hysbysiad ar 1 Tachwedd, ni chaniateir ceisio mynediad tan 15 Tachwedd.

66. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddatgan y gall yr Awdurdod wneud cais am warant i fynd ar dir (yn unol ag adran 64) os gwrthodir mynediad. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r tir o dan sylw yn dir y Goron, oherwydd ni chaniateir gwneud cais am warant i fynd ar dir y Goron. Diffinnir tir y Goron yn adran 84(2).

**Adran 19 – Hysbysiad o gasgliadau asesiad llawn**

67. Pan fo'r Awdurdod yn llunio adroddiad ar asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad ynghylch casgliadau'r adroddiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno.

**Pennod 3 – Cofrestru a Dadgofrestru Tomenni Nas Defnyddir**
**Trosolwg o Bennod 3**

68. Mae Pennod 3 yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn pan fo'n bwriadu cofrestru tomen neu ddileu tomen o'r gofrestr.

**Adran 20 – Cynnig i gofrestru tomen**

69. Pan ddaw'r Awdurdod i'r casgliad bod y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen (adran 7) yn cael eu bodloni ar sail adroddiad asesiad llawn (adran 16), mae adran 20 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi "hysbysiad o gofrestriad arfaethedig" i'r personau a restrir yn adran 20(2)(a) a (b).

70. At ddibenion is-adran (2)(b), caiff personau sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir nad ydynt yn berchnogion (fel y'u diffinnir yn adran 83 o'r Bil) na meddianwyr ar y tir gynnwys, er enghraifft, y rhai hynny sydd â hawddfraint dros y tir.

71. Mae is-adran (3) yn disgrifio'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (1). Er enghraifft, rhaid i'r hysbysiad roi gwybod i'r person y rhoddir hysbysiad iddo o dan is-adran (2) y caiff gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod ar y cynnig i gofrestru'r domen (gan gynnwys y categori arfaethedig ar gyfer y domen). Rhaid i'r hysbysiad roi cyfnod o 30 diwrnod o leiaf i'r person, gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, i wneud sylwadau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os rhoddir hysbysiad ar 1 Hydref bod rhaid i berson gael tan o leiaf 31 Hydref i wneud y sylwadau. Rhaid i'r hysbysiad hefyd esbonio sut y caiff person gyflwyno sylwadau.

72. Gallai'r ffyrdd o gyflwyno sylwadau gynnwys, er enghraifft, gyflwyno sylwadau drwy e-bost neu drwy'r post i'r Awdurdod.

73. Rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i'r Awdurdod i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer personau a allai ei chael hi'n anodd cyflwyno sylwadau drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol.

74. O ran sylwedd y sylwadau, mater i'r sawl sy'n cyflwyno'r sylwadau fyddai penderfynu pa dystiolaeth ychwanegol y dymunant i'r Awdurdod ei hystyried wrth wneud penderfyniad ar gofrestru. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth y credant nad oedd yr Awdurdod wedi ei hystyried wrth gynnal ei asesiad.

75. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid y cyfnod amser ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**Adran 21 – Penderfyniad ynghylch cofrestru**

76. Mae adran 21 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn unwaith y bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnig i gynnwys tomen nas defnyddir yn y gofrestr wedi dod i ben.

77. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r hyn y mae rhaid i'r Awdurdod ei benderfynu a'r materion penodol y mae rhaid i'r Awdurdod roi sylw iddynt.

78. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â hanes adeiladu'r domen, datblygiad arfaethedig ar domen neu o'i chwmpas a fydd yn effeithio ar y domen, neu newidiadau i'r defnydd tir. Mae is-adran (5) yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn penderfynu bod y meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni, fod rhaid iddo gynnwys y domen yn y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

79. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff yr Awdurdod, os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, gofrestru tomen ac eithrio yn unol â'r cynnig a gynhwysir yn yr hysbysiad o gofrestru arfaethedig. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo'r Awdurdod yn ystyried sylwadau a gyflwynir yn unol ag adran 20(3) ac yn gosod y domen mewn categori gwahanol.

80. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn rhestru'r personau y mae rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad iddynt o'i benderfyniad, a'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad.

**Adran 22 – Cynnig i ddileu tomen o'r gofrestr**

81. Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod, ar sail adroddiad ar asesiad llawn o dan adran 17, nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn cael eu bodloni mwyach mewn perthynas â thomen yn y gofrestr, rhaid i'r Awdurdod roi "hysbysiad o ddadgofrestriad arfaethedig" i'r personau a restrir yn is-adran (2)(a) a (b) cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r personau a restrir yn is-adran (2)(a) a (b) yr un fath â'r rhai y mae'n ofynnol eu hysbysu ynghylch cynnig i gofrestru tomen o dan adran 20(2).

82. Mae is-adran (3) yn nodi'r hyn y mae rhaid i hysbysiad o ddadgofrestriad arfaethedig ei gynnwys a'r cyfnod byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau.

83. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid y cyfnod byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**Adran 23 – Penderfyniad ynghylch dileu tomen o'r gofrestr**

84. Mae adran 23 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn unwaith y bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnig i ddileu tomen nas defnyddir o'r gofrestr wedi dod i ben.

85. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r hyn y mae rhaid i'r Awdurdod ei benderfynu a'r materion penodol y mae rhaid i'r Awdurdod roi sylw iddynt. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol.

86. Mae is-adrannau (6) a (7) yn rhestru'r personau y mae rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad iddynt o'i benderfyniad a'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad.

**Pennod 4 – Y Categorïau o Domenni Nas Defnyddir etc.**
**Trosolwg o'r Bennod**

87. Bydd yr Awdurdod yn rhoi categori i bob tomen nas defnyddir sy'n cael ei nodi ar y gofrestr, yn seiliedig ar y gwahanol raddau y mae'r tomenni nas defnyddir yn peri pryder i'r Awdurdod. Mae'r Bennod hon yn esbonio'r categorïau o domenni nas defnyddir, sut y bydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar gategoreiddio ac yn darparu proses ar gyfer adolygu categoreiddio.

**Adran 24 – Categorïau tomenni nas defnyddir**

88. Mae is-adran (1) yn darparu y caniateir rhoi tomen nas defnyddir mewn un o bedwar categori ar y gofrestr: categori 1, 2, 3 neu 4. Mae gan y categorïau ddisgrifiad rhifol gan y bydd y gofrestr ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

89. Mae is-adran (2) yn darparu bod y pedwar categori yn cynrychioli'r graddau gwahanol y mae tomenni nas defnyddir yn peri pryder i'r Awdurdod. Rhaid gwneud penderfyniadau ar gategoreiddio tomen ar sail un neu ragor o'r ffactorau a nodir yn is-adran (3).

**Adran 25 - Datganiad polisi ar gategoreiddio**

90. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi datganiad o'i bolisi ar gategoreiddio tomenni nas defnyddir. Rhagwelir y bydd y datganiad hwn yn cynnwys materion megis dull gweithredu yr Awdurdod o ran categoreiddio a disgrifiad o'r gwahanol gategorïau.

91. Mae is-adran (2) yn galluogi'r Awdurdod i ddiwygio'r datganiad. Os yw'n gwneud hynny, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r datganiad ar ei ffurf ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y diwygiadau. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r datganiad ar ei wefan.

**Adran 26 – Categoreiddio cychwynnol tomen nas defnyddir**

92. Wrth gynnig cofrestru tomen o dan adran 20 neu benderfynu cofrestru tomen o dan adran 21, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r adroddiad ar yr asesiad llawn a gynhaliwyd o dan adran 16 a dilyn y polisi yn y datganiad a gyhoeddir o dan adran 25.

93. Wrth gynnig neu benderfynu ar gategori tomen caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, wybodaeth am hanes y domen a allai fod yn berthnasol o ran ei sefydlogrwydd.

**Adran 27 – Adolygiadau o gategori**

94. Mae'r Bil yn caniatáu i'r Awdurdod newid categori tomen yn dilyn adolygiad. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i adolygu categori

tomen cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan fo'r Awdurdod yn cynnal asesiad llawn o domen nas defnyddir sydd eisoes ar y gofrestr ac mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod y meini prawf ar gyfer cofrestru yn dal i gael eu bodloni.

95. Mae is-adran (2) yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i adolygu categori tomen ar unrhyw adeg arall.

96. Mae is-adran (3) yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn ystyried ar adolygiad y dylid newid categori tomen nas defnyddir, rhaid iddo gynnig categori gwahanol ar gyfer y domen cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

97. Mae is-adrannau (4) a (5) yn adlewyrchu adran 26(2) a (3), gan fod y darpariaethau hyn yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n ofynnol neu y caniateir i'r Awdurdod roi sylw iddynt wrth adolygu categori tomen nas defnyddir ac wrth gynnig categori gwahanol. Pan fu mwy nag un asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, caiff yr Awdurdod roi sylw i'r holl asesiadau hyn, ond dim ond adroddiad ar yr asesiad diweddaraf y mae'n ofynnol iddo roi sylw iddo.

**Pennod 5 – Newidiadau Hysbysadwy i'r Gofrestr**

**Trosolwg o Bennod 5**

98. Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr. Mae'n diffinio ystyr newid hysbysadwy, y broses y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn os yw'n bwriadu gwneud newid hysbysadwy, a'r broses ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch newid hysbysadwy.

**Adran 28 - Ystyr "newid hysbysadwy"**

99. At ddibenion Pennod 5, ystyr newid hysbysadwy yw newid i'r ardal a ddangosir fel ardal tomen nas defnyddir ar y map sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr, neu newid i gategori'r domen nas defnyddir.

**Adran 29 – Cynnig i wneud newid hysbysadwy**

100. Mae is-adran (1) yn disgrifio'r personau y mae rhaid i'r Awdurdod eu hysbysu os yw'n cynnig gwneud newid hysbysadwy.

101. Mae is-adran (2) yn disgrifio'r materion y mae rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1) (h.y. "hysbysiad o newid arfaethedig i'r gofrestr") fynd i'r afael â hwy.

102. Ymhlith pethau eraill, rhaid i'r hysbysiad roi gwybod i'r person y rhoddir hysbysiad iddo o dan yr adran hon y caiff gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod ynghylch y cynnig. Rhaid i'r hysbysiad roi cyfnod o 30 o ddiwrnodau o leiaf i'r person sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i gyflwyno sylwadau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os rhoddir hysbysiad ar 1 Hydref bod rhaid caniatáu hyd at o leiaf 31 Hydref i berson gyflwyno'r sylwadau. Rhaid i'r hysbysiad hefyd esbonio sut y gall person gyflwyno sylwadau.

103. Gallai'r ffyrdd o gyflwyno sylwadau gynnwys, er enghraifft, drwy e-bost neu drwy'r post i'r Awdurdod. Rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi arweiniad i'r Awdurdod i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer personau a allai ei chael hi'n anodd cyflwyno sylwadau drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol.

104. O ran sylwedd y sylwadau, mater i'r person sy'n gwneud y sylwadau fyddai penderfynu pa dystiolaeth ychwanegol y dymunant i'r Awdurdod ei hystyried wrth wneud penderfyniad, gallai hyn gynnwys gwybodaeth y mae'n credu nad yw'r Awdurdod wedi ei hystyried neu wedi cael mynediad iddi.

105. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid y cyfnod amser ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**Adran 30 - Penderfyniad ynghylch newid hysbysadwy**

106. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn wrth benderfynu pa un a ddylid gwneud y newid, unwaith y bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnig i wneud newid hysbysadwy wedi dod i ben.

107. Mae is-adran (5) yn darparu, wrth wneud ei benderfyniad, bod rhaid i'r Awdurdod roi sylw i unrhyw sylwadau am y cynnig gan berson y rhoddwyd hysbysiad iddo o dan adran 29. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff yr Awdurdod hefyd roi sylw i unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â hanes y domen a'i sefydlogrwydd.

108. Mae is-adran (7) yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn penderfynu gwneud newid hysbysadwy, fod rhaid iddo ddiweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

109. Mae is-adrannau (8) a (9) yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i'r Awdurdod ei dilyn i roi hysbysiad o'i benderfyniad.

**Pennod 6 – Darpariaeth Atodol**
**Trosolwg**

110. Mae Pennod 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n ategu'r darpariaethau eraill yn Rhan 2. Mae adran 31 yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolledidiad am ddifrod neu aflonyddu sy'n codi o ganlyniad i weithgarwch penodedig a gynhelir o dan Bennod 1 neu 2 o'r Rhan hon. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 - Hawliadau am Ddigollediad gan Berchnogion a Chyfranwyr. Mae adran 32 yn ei gwneud yn drosedd rhwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau o dan Ran 2 o'r Bil.

**Adran 31 - Digollediad am ddifrod neu aflonyddu**

111. Mae adran 31 yn darparu bod gan y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) hawlogaeth i adennill digollediad oddi wrth yr Awdurdod am ddifrod neu aflonyddu o ganlyniad i gynnal gweithgareddau a restrir yn is-adran (1).

112. Mae is-adran (4) yn darparu bod unrhyw anghydfod sy'n codi ynghylch hawliad am ddigollediad o dan yr adran hon i'w benderfynu gan y llys. Diffinnir "llys" yn adran 85 fel yr Uchel Lys neu'r llys sirol.

113. Mae is-adran (5) yn darparu bod Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â hawliadau penodol am ddigollediad o dan yr adran hon.

**Atodlen 2 - Hawliadau am ddigollediad gan berchnogion a chyfranwyr**

114. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hawliadau gan berchnogion neu gyfranwyr am ddigollediad. "Cyfranwyr" yw personau y gwnaed gorchymyn cyfrannu mewn perthynas â hwy o dan adran 46.

115. Mae paragraff 1(1) yn darparu bod yr Atodlen yn gymwys i berchennog ar dir pan fo'r Awdurdod wedi cynnal gweithrediadau o dan adran 42 neu ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at gynnal gweithrediadau, pan fo'r perchennog wedi hawlio digollediad o dan y Bil ac er gwaethaf unrhyw orchymyn cyfrannu a allai fod wedi ei wneud, fod gan y perchennog dreuliau i'w hysgwyddo mewn cysylltiad â'r gweithrediadau hynny neu'r ymchwiliadau hynny.

116. Mae paragraff 1(2) yn darparu bod yr Atodlen hefyd yn gymwys i gyfranwyr os caniateir hawlio cyfraniad oddi wrthynt mewn cysylltiad â threuliau yr eir iddynt gan berchennog ar dir wrth gynnal gweithrediadau o dan adran 34 neu gan yr Awdurdod wrth gynnal gweithrediadau o dan adran 42 neu ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at gynnal gweithrediadau, a bod y cyfrannwr wedi hawlio digollediad o dan y Bil oddi wrth berchennog ar dir neu'r Awdurdod.

117. Mae paragraff 2 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys pan fo perchennog ar dir yn ceisio gorfodi hawliad am ddigollediad oddi wrth yr Awdurdod o dan y Bil a bod gan yr Awdurdod hawlogaeth i wneud archiad am swm oddi wrth y perchennog o dan adran 51.

118. Mae paragraff 3 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys pan fo cyfrannwr yn ceisio gorfodi hawliad am ddigollediad oddi wrth yr Awdurdod neu dirfeddiannwr a bod gan yr Awdurdod neu'r tirfeddiannwr hawlogaeth i wneud archiad am swm oddi wrth y cyfrannwr (o dan adran 49 neu 51).

119. Mae paragraffau 2 a 3 yn atal yr hawliadau hynny am ddigollediad rhag cael eu gorfodi, ac eithrio drwy eu gosod yn erbyn archiad, am gyfnod o 12 mis. Diben y cyfyngiad hwn yw rhoi cyfle i wneud archiad am y symiau perthnasol (ac o bosibl eu hadennill) oddi wrth y peron cyn bod rhaid talu digollediad i'r person.

120. Mae paragraff 4 yn darparu bod cyfeiriadau at weithrediadau yn Atodlen 2 yn cynnwys gwaith adfer o ganlyniad i'r gweithrediadau hynny.

121. Mae paragraff 5 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno hawliad am ddigollediad y cyfeirir ato ym mharagraff 1. Mae adran 9 o Ddeddf Cyfyngiadau 1980 yn ei gwneud yn ofynnol i'r hawliad gael ei wneud o fewn 6 blynedd i ddyddiad cronni achos y person i adennill y digollediad, ac mae paragraff 5 yn nodi pryd y dylid ystyried bod achos y person i adennill y digollediad wedi cronni at y diben hwnnw.

**Adran 32 - Cosb am rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau**

122. Mae is-adran (1) yn darparu ei bod yn drosedd rhwystro neu ymyrryd yn fwriadol ag arolygiad neu weithgaredd monitro arall o dan adran 10, neu asesiad rhagarweiniol neu lawn o dan Bennod 2.

123. Mae is-adran (2) yn darparu bod person a euogfernir o drosedd o'r fath yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

124. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw torri is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fynegir yn adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n darparu nad yw Deddf gan Senedd Cymru yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond ei bod yn gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

**Rhan 3 – Ymdrin ag Ansefydlogrwydd Tomen a Bygythiadau i Sefydlogrwydd Tomen**

**Pennod 1 - Ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau**

**Trosolwg o'r Bennod**

125. Mae Pennod 1 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i roi hysbysiad i berchennog ar dir i'w gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal gweithrediadau ar y tir hwnnw i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â bygythiadau o'r fath, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir neu eu hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â hawl y perchennog i fynd ar ei dir i gynnal gweithrediadau mewn sefyllfaoedd pan na fo'r perchennog yn meddiannu ei dir. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau i bartïon sydd â buddiant o unrhyw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal gweithrediadau. Mae'r Bennod hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion cysylltiedig, megis hawliau apelio yn erbyn hysbysiad a gosod cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad. Mae hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ganslo hysbysiad ar ôl iddo gael ei roi ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu treuliau mewn sefyllfa o'r fath.

**Adran 33 – Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau**

126. Mae adran 33 yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol drwy hysbysiad i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau penodedig ar y tir os yw'r Awdurdod yn meddwl bod y gweithrediadau'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan a nodir yn is-adran (2).

127. Mae is-adran (2) yn darparu mai'r amcan yw (a) atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu (b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl. Felly, mae gan yr Awdurdod y pŵer i ymyrryd er budd sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir ar gamau amrywiol, gan gynnwys drwy gymryd camau rhagataliol.

128. Diffinnir "gweithrediadau" yn adran 85 fel rhai sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithrediadau adeiladu a pheirianneg.

129. Rhoddir y pŵer i'r Awdurdod i ddyroddi hysbysiadau i berchnogion ar dir. Mae hyn yn cynnwys perchnogion tomenni nas defnyddir ond caiff hefyd gynnwys perchnogion ar dir nad yw'n cael ei orchuddio gan domen nas defnyddir. Yn ymarferol, mae tir o'r fath yn debygol o fod yn dir sy'n union gerllaw tomen nas defnyddir pan fo'r amodau ar y tir hwnnw yn cael effaith uniongyrchol, neu y gallent gael effaith uniongyrchol, ar sefydlogrwydd y domen nas defnyddir.

130. Bydd y gweithrediadau y gallent fod yn ofynnol gan hysbysiad yn amrywio o ran natur a maint. Gallai rhai gweithrediadau fod yn gymharol fach eu natur, megis clirio malurion o gwlfert i ganiatáu draenio priodol a allai atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn ansefydlog. Yn yr un modd, gallai hysbysiad ei gwneud yn ofynnol cynnal gwaith atgyweirio mawr ar system ddraenio tomen nas defnyddir nad oes modd ei defnyddio mwyach.

131. Gallai enghraifft o'r math o weithrediadau y gallai fod yn ofynnol i berchennog ar dir nad yw'n domen nas defnyddir eu cynnal gynnwys gweithrediadau i ddal ac ailgyfeirio dŵr ffo sy'n gollwng yn afreolus ar domen nas defnyddir o dir cyfagos ac yn achosi ansefydlogrwydd.

132. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi'r gofynion gweithdrefnol y mae rhaid i'r Awdurdod eu dilyn wrth roi hysbysiad o dan yr adran hon.

133. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi canllawiau i'r Awdurdod ynghylch ei swyddogaethau o dan y Bennod hon. Mae hyn yn debygol o gynnwys canllawiau ar faterion megis caniatáu digon o amser, wrth bennu terfynau amser ar gyfer cwblhau gweithrediadau, i'r perchnogion gael y caniatadau angenrheidiol neu'r trwyddedau angenrheidiol i gynnal y gweithrediadau, er mwyn sicrhau bod yr amserlen a roddir ar gyfer cwblhau gweithrediadau yn rhesymol.

**Adran 34 - Hawl y perchennog i fynd ar dir etc.**

134. Mae adran 34 yn cydnabod bod angen i berchnogion nad ydynt yn meddiannu eu tir, neu unrhyw ran ohono, allu mynd ar eu tir os ydynt yn cael hysbysiad o dan adran 33 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal gweithrediadau ar y tir.

135. Mae is-adran (1) yn darparu, os nad yw perchennog ar dir sy'n cael hysbysiad o dan adran 33 yn meddiannu'r tir y mae rhaid cynnal y gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad arno, a bod ystad y perchennog yn y tir yn rhagori ar ystad neu fuddiant y meddiannydd, fod gan y perchennog yr hawl i fynd ar y tir (neu ran o'r tir) i gynnal y gweithrediadau ac unrhyw waith adfer canlyniadol. Gallai gwaith adfer o'r fath gynnwys gwaith i adfer tir amaethyddol. Enghraifft o pan fyddai ystad y perchennog yn rhagori yw pan fo'r perchennog yn dal yr ystad rhydd-ddaliad yn y tir a dim ond trwydded sydd gan y meddiannydd i feddiannu'r tir.

136. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff perchennog sy'n arfer hawl mynediad o dan is-adran (1) fynd â phersonau eraill, cyfarpar neu ddeunyddiau ar y tir. Mae hyn er mwyn hwyluso cynnal y gweithrediadau gofynnol.

137. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i berchennog y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33 i symud ymaith a gwaredu unrhyw eiddo sydd wedi ei leoli ar y tir sy'n eiddo i berson arall, os yw'r symud ymaith a'r gwaredu hwnnw at ddibenion cynnal gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad. Gallai eiddo o'r fath gynnwys peiriannau y mae angen eu symud cyn y gall y gweithrediadau ddechrau neu a allai gynnwys deunyddiau o'r domen nas defnyddir ei hun.

**138.** Mae is-adran (4) yn darparu, os yw'r perchennog ar y tir yn gwaredu eiddo o'r fath drwy ei werthu, fod rhaid i'r perchennog roi cyfrif i berchennog yr eiddo am yr enillion gwerthu. Fodd bynnag, mae is-adran (5) yn galluogi'r perchennog i ddidynnu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol wrth werthu'r eiddo ac i osod yr enillion gwerthu yn erbyn unrhyw swm y mae gan berchennog y tir hawlogaeth i'w adennill oddi wrth berchennog yr eiddo o dan Bennod 3.

**Adran 35 – Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant**

139. Mae is-adran (1) yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad i berchennog ar dir o dan adran 33 sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gweithrediadau, fod rhaid iddo hefyd roi copi o'r hysbysiad i unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr hysbysiad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw un a allai gael eu heffeithio gan gynnal gweithrediadau ar y tir, neu y gallai fod gofyn iddynt gyfrannu tuag at gost cynnal y gweithrediadau, yn cael gwybod amdanynt. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau o'r hysbysiad o fewn 7 niwrnod, gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad i'r perchennog.

140. Mae is-adran (2) yn rhagnodi'r personau sydd (yn ogystal â'r perchennog) yn bersonau sydd â buddiant yn yr hysbysiad.

141. Mae'r personau a restrir yn is-adran (2) yn cynnwys personau y gallai eu hymddygiad yn y gorffennol fod wedi achosi neu gyfrannu at yr angen i gyflwyno hysbysiad ac y gallai'r llys, yn unol â darpariaethau adran 46, ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at gostau'r gweithrediadau o dan orchymyn cyfrannu. Er enghraifft, person sydd, hyd y gŵyr yr Awdurdod, o fewn unrhyw adeg yn y 12 mlynedd cyn i'r hysbysiad gael ei roi i'r perchennog, wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i waredu gwastraff o fwynglawdd neu chwarel.

**Adran 36 – Hawl perchennog a phartïon â buddiant i apelio yn erbyn hysbysiad**

142. Mae adran 36 yn rhoi i berchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gweithrediadau ar dir yn unol ag adran 33, neu berson y rhoddir copi o'r hysbysiad iddo o dan adran 35, hawl i wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio neu ganslo'r hysbysiad.

143. Mae is-adran (3) yn nodi ym mharagraffau (a) i (f) y seiliau dros apêl o dan yr adran hon. Mae paragraff (f) yn galluogi cyflwyno apêl ar seiliau gweithdrefnol pan ddadleuir bod diffyg neu wall perthnasol yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, yr apelydd yn honni nad yw'r hysbysiad yn darparu digon o wybodaeth i alluogi cydymffurfio.

144. Mae is-adran (4) hefyd yn rhoi'r hawl i berchennog y cyflwynir hysbysiad iddo o dan adran 33 wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio neu ganslo hysbysiad ar y sail nad yw'r perchennog yn gallu talu costau'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad.

145. Gellid dwyn apêl ar y sail hon pan fo, er enghraifft, perchennog preifat tomen nas defnyddir yn wynebu hysbysiad sy'n gwneud yn ofynnol weithrediadau costus na allant eu fforddio. Ni fydd tirfeddiannwr sy'n gwneud cais llwyddiannus o dan is-adran (4) yn atebol am y drosedd o dan adran 39 o fethu â chydymffurfio â hysbysiad a ddyroddir o dan adran 33. Os bydd y cais yn llwyddo a bod yr hysbysiad adran 33 yn cael ei ganslo, er hynny bydd yr Awdurdod yn gallu dyroddi hysbysiad o dan adran 42 er mwyn sicrhau y cynhelir y gweithrediadau.

**Adran 37 — Penderfynu apelau**

146. Mae is-adran (1) yn darparu bod cais a wneir o dan adran 36 i amrywio neu ganslo hysbysiad a ddyroddir o dan adran 33 i'w benderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru ("person penodedig").

147. Yn ymarferol, bwriedir i geisiadau o dan adran 36 a 41 gael eu penderfynu gan Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW). Mae PEDW yn cynnal gwaith achosion sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Maent yn ymdrin ag apelau cynllunio a gorfodi, Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ac apelau amgylcheddol, ymhlith pethau eraill. Ar hyn o bryd mae ganddynt dîm o 20 o arolygwyr sy'n gwneud penderfyniadau apêl, gyda chefnogaeth 25 o staff cymorth.

148. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r person penodedig amrywio neu ganslo'r hysbysiad os yw'r person penodedig wedi ei fodloni bod unrhyw un neu ragor o'r seiliau y gwnaed y cais arno wedi ei phrofi neu eu profi. Pan fo hysbysiad yn cael ei amrywio, mae is-adran (3) yn darparu bod yr hysbysiad, ac unrhyw gopi ohono a roddir o dan adran 35, i'w drin fel pe bai bob amser wedi cael effaith fel y'i hamrywiwyd.

149. Mae is-adran (4) yn darparu pan wneir cais o dan adran 36 ac nad yw'n cael ei dynnu'n ôl, nad yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fel y cyfnod y mae rhaid cwblhau gweithrediadau ynddo yn dod i ben cyn penderfynu'r cais. Mae hyn yn golygu na all y person y rhoddwyd yr hysbysiad iddo fod yn euog o drosedd o dan adran 39 am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad tra bo penderfyniad y cais yn yr arfaeth.

150. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff y person penodedig estyn yr amser a bennir yn hysbysiad adran 33 ar gyfer cwblhau gweithrediadau. Caniateir arfer y pŵer hwn p'un a yw'r seiliau ar gyfer cais wedi eu profi ai peidio. Caniateir ei ddefnyddio, er enghraifft, os yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gweithrediadau a bennir yn yr hysbysiad ar fin digwydd, erbyn yr adeg y penderfynir yr apêl.

151. Mae is-adrannau (6) a (7) yn nodi'r camau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd unwaith y bydd cais o dan yr adran hon wedi ei benderfynu.

**Adran 38 — Darpariaeth atodol ynghylch apelau**

152. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu apelau a wneir o dan adran 36. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys darpariaeth sy'n rhoi disgresiwn i'r person sy'n penderfynu'r apêl i benderfynu sut y dylid penderfynu'r achos apêl h.y. drwy sylwadau ysgrifenedig neu wrandawiad. Gallai hefyd gynnwys darpariaeth sy'n rhoi disgresiwn i'r person hwnnw i benodi person arall i gynghori ar unrhyw faterion technegol sy'n codi mewn cysylltiad ag apêl.

153. Mae is-adran (2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch unrhyw fater arall (nad yw'n fater gweithdrefnol) sy'n gysylltiedig â phenderfynu apelau o dan adran 36. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys materion sy'n rhagarweiniol neu'n dilyn penderfynu apêl, neu na ellir yn rhesymol, am resymau eraill, eu nodweddu fel materion o weithdrefn. Enghraifft o hyn fyddai rhoi pŵer i fynd ar dir os yw hynny'n angenrheidiol i benderfynu apêl yn deg.

154. Gall rheoliadau a wneir o dan yr adran hon ymdrin â materion gweithdrefnol a materion eraill sy'n gysylltiedig â phenderfynu apêl. Mae rhagor o fanylion am y math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn y rheoliadau hyn wedi eu cynnwys yn y Datganiad o Fwriad Polisi a gyflwynwyd gyda'r Bil.

155. Mae is-adran (3) yn nodi enghreifftiau o'r materion y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau o dan yr adran hon roi disgresiwn i berson. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff rheoliadau o dan yr adran hon greu troseddau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y rheoliadau neu odanynt.

**Adran 39 - Cosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad**

156. Mae is-adran (1) yn darparu bod perchennog y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 33 yn cyflawni trosedd os yw'r perchennog, heb esgus rhesymol, yn methu â chynnal y gweithrediadau o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, neu, os yw'r cyfnod hysbysiad yn cael ei estyn o dan adran 37, o fewn y cyfnod estynedig hwnnw.

157. Mae is-adran (2) yn darparu bod person a euogfernir o'r drosedd o dan is-adran (1) yn agored i ddirwy.

158. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw torri is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fynegir yn adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n darparu nad yw Deddf gan Senedd Cymru yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond ei bod yn gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

**Adran 40 - Pŵer i ganslo hysbysiad**

159. Mae adran 40 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i ganslo hysbysiad adran 33. Caiff yr Awdurdod roi hysbysiad o ganslo i berchennog ar dir ar unrhyw adeg cyn i'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad adran 33 gael eu cwblhau, hyd yn oed os yw'r gwaith wedi dechrau neu os gwnaed cais i amrywio neu ganslo'r hysbysiad o dan adran 36.

160. Gall y sefyllfaoedd lle gall yr Awdurdod ddymuno canslo hysbysiad gynnwys, er enghraifft, sefyllfaoedd pan fo amgylchiadau'n newid ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad, a bod yr Awdurdod o'r farn y dylid bellach gyflawni gweithrediadau gwahanol ar y tir. Yn unol ag is-adran (6)(b), nid yw canslo hysbysiad yn effeithio ar bŵer yr Awdurdod i roi hysbysiad adran 33 pellach mewn perthynas â'r tir. Felly, gellid rhoi hysbysiad newydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithrediadau gwahanol gael eu cyflawni ar y tir.

**Adran 41 – Ad-dalu treuliau'r perchennog ar ôl canslo hysbysiad**

161. Mae adran 41 yn gymwys pan fo'r Awdurdod wedi canslo hysbysiad adran 33 a bod y perchennog y rhoddwyd yr hysbysiad iddo wedi mynd i wariant wrth gydymffurfio ag ef.

162. Mae is-adran (2) yn rhoi hawl i'r perchennog i wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ei ad-dalu gan yr Awdurdod am (a) unrhyw wariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad iddo gael yr hysbysiad, a (b) unrhyw wariant

yr aed iddo gan y perchennog y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad. Er enghraifft, gwariant sydd eisoes wedi ei dalu gan y perchennog er mwyn cynnal y gweithrediadau gofynnol, megis costau sydd wedi eu talu i gontractwyr neu i logi peiriannau neu dreuliau yr eir iddynt gan y perchennog o ganlyniad i ganslo contract ar gyfer gwaith neu gostau adfer y tir.

163. Mae is-adrannau (3) i (6) yn nodi sut y mae cais o dan yr adran hon i'w benderfynu.

164. Fel y nodir ym mharagraff 147 uchod, y bwriad yw penodi PEDW i benderfynu ceisiadau o dan yr adran hon ar ran Gweinidogion Cymru. Caiff y person sy'n penderfynu'r cais roi cyfarwyddyd i'r Awdurdod i ad-dalu'r perchennog a rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn.

165. Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu ceisiadau o dan yr adran hon. Mae is-adran (8) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â phenderfynu ceisiadau o dan yr adran hon. Mae hyn yn golygu bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch unrhyw fater arall (nad yw'n weithdrefnol) sy'n gysylltiedig â phenderfynu ceisiadau o dan yr adran hon. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys materion sy'n rhagarweiniol neu'n dilyn penderfynu'r cais na ellir yn rhesymol eu nodweddu fel materion o weithdrefn.

166. Mae is-adran (9) yn cymhwyso darpariaethau is-adrannau (3) i (5) o adran 38 i reoliadau a wneir o dan yr adran hon.

**Pennod 2 – Gweithrediadau a gynhelir gan yr Awdurdod**
**Trosolwg o'r Bennod**

167. Mae Pennod 2 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau ar dir i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir neu eu hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl (fel y'i diffinnir yn adran 82). Mae'n rhoi pwerau cysylltiedig i'r Awdurdod i symud ymaith eiddo o dir a gwaredu'r eiddo hwnnw. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i hysbysu perchnogion cyn cynnal gwaith ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copi o'r hysbysiad i bartïon â buddiant.

**Adran 42 – Pŵer yr Awdurdod i gynnal gweithrediadau**

168. Mae adran 42 yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau ar unrhyw dir, os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn cyflawni'r amcan yn is-baragraff (2). Fodd bynnag, mae'r pŵer hwn i gynnal gweithrediadau yn ddarostyngedig i'r gofyniad i roi hysbysiad i berchnogion a nodir yn adran 44.

169. Mae gan yr Awdurdod y pŵer i ymyrryd er budd sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir ar wahanol gamau, gan gynnwys trwy gymryd camau rhagataliol.

170. Diffinnir "gweithrediadau" yn adran 85 fel rhai sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithrediadau adeiladu a pheirianneg. Gallai enghreifftiau o weithrediadau o'r fath gynnwys clirio seilwaith draenio, cael gwared ar lystyfiant, atgyweirio strwythurau cadw, adfer nodweddion erydu a chyweirio ardaloedd tirlithriad.

171. Rhoddir y pŵer i'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau ar unrhyw dir. Mae hyn yn cynnwys tir y mae tomen nas defnyddir wedi ei lleoli arno, ond mae hefyd yn cynnwys tir arall. Yn ymarferol mae'r tir hwn yn debygol o fod yn dir sy'n union gerllaw tomen nas defnyddir pan fo'r amodau ar y tir hwnnw yn cael, neu â'r potensial i gael, effaith ar sefydlogrwydd y domen nas defnyddir.

**Adran 43 – Hawl yr Awdurdod i symud ymaith eiddo a'i waredu**

172. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff yr Awdurdod, at ddiben cynnal gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol ar dir, symud ymaith a gwaredu unrhyw eiddo y mae person arall yn berchen arno sydd wedi ei leoli ar y tir. Gallai eiddo o'r fath gynnwys peiriannau y mae angen eu symud cyn y gall y gweithrediadau ddechrau, neu a allai, er enghraifft, gynnwys deunyddiau o'r domen nas defnyddir.

173. Mae is-adran (2) yn darparu, os yw'r Awdurdod yn gwaredu eiddo o'r fath drwy ei werthu, fod rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif i berchennog yr eiddo am yr enillion gwerthu. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn galluogi'r Awdurdod i ddidynnu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol wrth werthu'r eiddo ac i osod yr enillion gwerthu yn erbyn unrhyw swm y mae gan yr Awdurdod hawlogaeth i'w adennill oddi wrth berchennog yr eiddo o dan Bennod 3.

**Adran 44 - Dyletswydd i roi hysbysiad i berchnogion**

174. Mae adran 44 yn datgan, gan amlaf, na chaiff yr Awdurdod gynnal gweithrediadau ar dir o dan adran 42 oni bai ei fod wedi rhoi o leiaf 21 o ddiwrnodau clir o hysbysiad i'r perchennog ar y tir o'i fwriad i wneud hynny. Mae cynnwys yr hysbysiad wedi ei bennu yn is-adran (2).

175. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn darparu, os yw'r Awdurdod yn credu bod angen cynnal gweithrediadau ar unwaith, y caiff gynnal y gweithrediadau hynny heb roi hysbysiad neu, pan fo wedi rhoi hysbysiad, cyn diwedd y cyfnod 21 o ddiwrnodau a amlinellir yn is-adran (1). Er enghraifft, gall yr Awdurdod ffurfio'r farn bod angen cynnal gweithrediadau yn syth ar ôl archwiliad o domen nas defnyddir yn dilyn cyfnod o law trwm sy'n datgelu bod y domen, neu ran ohoni, mewn perygl o fethiant ar fin digwydd heb waith i'w sefydlogi. Yn ymarferol, mae senarios o'r fath yn debygol o fod yn gymharol brin.

176. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn dechrau gweithrediadau ar dir heb roi hysbysiad, fod rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad i'r perchennog ar y tir fod y gweithrediadau wedi dechrau. Mae cynnwys yr hysbysiad hwn wedi ei bennu yn is-adran (5).

**Adran 45 – Dyletswydd i roi copïau o hysbysiad i bartïon â buddiant**

177. Mae adran 45 yn darparu, pan fo'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad i berchennog ar dir o dan adran 44 ei fod yn bwriadu, neu wedi dechrau, cynnal gweithrediadau, fod rhaid iddo hefyd roi copi o'r hysbysiad i unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr hysbysiad. Rhestrir y personau hyn yn is-adran (2). Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw un a allai gael eu heffeithio gan gynnal gweithrediadau ar y tir, neu y gallai fod gofyn iddynt gyfrannu tuag at gost cynnal y gweithrediadau, yn cael gwybod amdanynt. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau o'r hysbysiad ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r perchennog, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y diwrnod hwnnw.

**Pennod 3 – Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau**
**Trosolwg o'r Bennod**

178. Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cyfrannu, digollediad ac archiadau am adennill treuliau gan berchnogion ar dir a'r Awdurdod. Mae Pennod 3 hefyd yn nodi hawliau perchnogion a chyfranwyr i apelio yn erbyn archiadau o'r fath.

**Adran 46 - Gorchmynion cyfrannu**

179. Mae adran 46 yn darparu, pan fo rhaid i berchennog ar dir ysgwyddo treuliau o ganlyniad i gynnal gweithrediadau a bennir mewn hysbysiad a ddyroddir o dan adran 33 neu 44, y gall y perchennog neu'r Awdurdod wneud cais i'r llys am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i un neu ragor o bersonau eraill gyfrannu tuag at y treuliau hynny. Mae "llys" wedi ei ddiffinio yn adran 85 fel yr Uchel Lys neu'r llys sirol.

180. Ni chaniateir gwneud gorchymyn ond mewn perthynas â pherson a restrir yn is-adran (2).

181. Mae is-adrannau (5) a (6) yn nodi'r gofynion gweithdrefnol y mae rhaid i'r perchennog neu'r Awdurdod gydymffurfio â hwy wrth wneud cais am orchymyn o dan yr adran hon.

182. Rhaid i'r llys ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys yr holl faterion a restrir yn is-adran (7), wrth benderfynu pa un a ddylid gwneud gorchymyn, ac wrth benderfynu swm unrhyw gyfraniad. Os yw'r llys yn penderfynu gwneud gorchymyn, rhaid i'r gorchymyn bennu'r ganran o'r cyfanswm y gellir hawlio cyfraniad mewn cysylltiad ag ef o dan Bennod 3.

**Adran 47 – Ystyr "gorchymyn cyfrannu", "cyfrannwr" ac "y ganran benodedig"**

183. Mae'r adran hon yn cynnwys diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y Bil mewn perthynas â gorchmynion cyfrannu.

**Adran 48 – Digollediad am ddifrod, colled neu aflonyddu etc.**

184. Mae adran 48 yn rhoi hawlogaeth i'r personau a restrir yn is-adran (3) i gael digollediad oddi wrth naill ai'r perchennog ar y tir neu'r Awdurdod o dan amgylchiadau penodol.

185. Mae is-adrannau (1) a (2) yn nodi'r amgylchiadau y mae gan berson hawl i gael digollediad odanynt. Ni chaniateir hawlio digollediad ond pan fo gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol wedi eu cynnal yn unol â Rhan 3 neu pan fo'r Awdurdod wedi cynnal ymchwiliadau i benderfynu pa un a oes angen cynnal gweithrediadau. Os bydd, o ganlyniad i weithrediadau o dan adran 33 neu 42 neu o ganlyniad i waith adfer a gynhaliwyd o ganlyniad i weithrediadau o'r fath, dir yn cael ei ddifrodi, eiddo arall yn cael ei ddifrodi, ei symud ymaith neu ei waredu neu os aflonyddir ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir, mae gan y personau a restrir yn is-adran (3) hawlogaeth i gael digollediad. Os bydd, o ganlyniad i ymchwiliadau o dan adran 53, dir neu eiddo arall yn cael ei ddifrodi, neu os aflonyddir ar fwynhad unrhyw berson o unrhyw dir, mae gan y personau a restrir yn is-adran (3) hawlogaeth i gael digollediad.

186. Nid oes gan berchennog ar dir hawlogaeth i ddigollediad o dan yr adran hon am ddifrod, symud ymaith, colled neu aflonyddu sy'n deillio o weithrediadau a gynhaliwyd ganddynt hwy neu gan y perchennog blaenorol ar y tir.

187. Mae anghydfodau ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan yr adran hon i'w penderfynu gan y llys (a ddiffinnir yn adran 85 fel yr Uchel Lys neu'r llys sirol).

188. Mae Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â hawliadau penodol am ddigollediad o dan yr adran hon. Gweler y nodiadau ym mharagraffau 114 i 121 uchod mewn perthynas ag Atodlen 2.

**Adran 49 - Hawl perchennog i adennill treuliau oddi wrth gyfrannwr**

189. Pan fo gorchymyn cyfrannu wedi ei wneud o dan adran 46 mewn perthynas â gweithrediadau a gyflawnodd perchennog ar ei dir yn unol â hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 33, mae gan y perchennog hawlogaeth i adennill oddi wrth y cyfrannwr y cyfraniad a bennir yn y gorchymyn yn unol ag adran 49.

190. Fel yr eglurir yn y nodiadau ar gyfer adran 46, bydd y gorchymyn cyfrannu yn pennu'r ganran o gyfanswm y treuliau yr aed iddynt gan berchennog y caiff y perchennog eu ceisio fel cyfraniad. Mae is-adran (3) o adran 49 yn nodi sut y cyfrifir y cyfanswm, sef:

(a) y treuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan y perchennog wrth gynnal y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad a ddyroddir

o dan adran 33 ac unrhyw waith adfer canlyniadol a oedd yn rhesymol angenrheidiol,

(b) swm y digollediad y bu’n ofynnol i’r perchennog ei dalu, neu y gall fod yn ofynnol iddo ei dalu, o dan adran 48, ac

(c) swm y digollediad y gallai’r perchennog fod wedi ei hawlio o dan adran 48 pe bai’r gweithrediadau a’r gwaith adfer wedi cael eu cynnal gan yr Awdurdod yn hytrach na chan y perchennog.

191. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi’r gofynion gweithdrefnol y mae rhaid i berchennog eu dilyn i adennill treuliau oddi wrth gyfrannwr.

192. Mae is-adran (7) yn darparu bod yr adran hon ac adran 50 yn cael effaith gyda’r addasiadau a nodir yn Atodlen 3 mewn amgylchiadau pan fo perchennog ar dir wedi cynnal gweithrediadau a bennir mewn hysbysiad o dan adran 33 a bod yr Awdurdod wedi canslo’r hysbysiad hwnnw o dan adran 40.

**Atodlen 3 - Addasiadau i adrannau 49 a 50 pan fo hysbysiad o dan adran 33 yn cael ei ganslo**

193. Mae Atodlen 3 yn nodi’r addasiadau canlynol a fydd yn gymwys i adrannau 49 a 50 pan fo’r Awdurdod yn canslo hysbysiad y mae wedi ei roi i berchennog o dan adran 33.

194. Pan fo adran 49 neu 50 yn cyfeirio at weithrediadau a gynhelir yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 33, mae hyn i’w ddarllen fel cyfeiriad at weithrediadau a gynhaliwyd cyn canslo’r hysbysiad yn unig.

195. Rhaid cyfrifo swm y treuliau yr eir iddynt yn rhesymol gan y perchennog wrth gynnal gweithrediadau at ddibenion pennu’r cyfanswm y mae gan berchennog hawlogaeth i gyfraniad o dan adran 49 mewn perthynas ag ef, neu ba un a yw seiliau cais i amrywio neu ganslo archiad am gyfraniad o dan adran 50 wedi eu profi. Mae paragraff 3(1) o Atodlen 3 yn darparu, wrth gyfrifo swm y treuliau yr eir iddynt yn rhesymol wrth gynnal gweithrediadau mewn amgylchiadau pan gaiff yr hysbysiad ei ganslo, bod rhaid didynnu unrhyw swm sy’n dod o fewn paragraff 3(1)(a) a (b). Mae swm yn dod o fewn paragraff 3(1)(a) a (b) os yw’n adenilladwy neu wedi ei adennill gan y perchennog oddi wrth yr Awdurdod o dan adran 41 (gweler paragraffau 161 i 166 uchod) ac yn ymwneud â threuliau yr aed iddynt gan y perchennog o ganlyniad i’r hysbysiad a roddwyd iddynt o dan adran 33.

196. O dan baragraff 3(2), pan gaiff hysbysiad ei ganslo nid oes gan berchennog ar dir hawlogaeth i gyfraniad o dan adran 49 mewn perthynas â threuliau yr eir iddynt ganddynt wrth gynnal gwaith adfer.

197. Mae paragraff 4 yn nodi addasiadau sy’n gymwys os gwneir cyfarwyddyd o dan adran 41 sy’n caniatáu i’r perchennog adennill symiau oddi wrth yr Awdurdod mewn perthynas â’r gwariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad i gael hysbysiad o dan adran 33. Mae’r rhain yn cynnwys gofyniad bod rhaid pennu unrhyw symiau y gellir eu hadennill oddi wrth yr Awdurdod o ganlyniad i’r cyfarwyddyd mewn unrhyw archiad a roddir o dan adran 49

am gyfraniad tuag at dreuliau'r perchennog. Caiff person y rhoddir archiad o'r fath iddo wneud cais o dan adran 50 i amrywio neu ganslo'r archiad ar y sail nad yw'r swm a hawlir yn yr archiad yn rhoi ystyriaeth briodol i swm y mae rhaid ei ddidynnu yn rhinwedd paragraff 3.

**Adran 50 – Hawl cyfrannwr i apelio yn erbyn archiad perchennog**

198. Pan fo person yn cael archiad am gyfraniad o dan adran 49, gall (o fewn 6 wythnos i'r archiad gael ei roi) wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n amrywio'r archiad.

199. Mae is-adran (3) yn nodi ar ba seiliau y caniateir gwneud cais i amrywio archiad. Pan fo'r llys wedi ei fodloni bod un neu ragor o'r seiliau wedi ei phrofi neu eu profi, caiff y llys wneud gorchymyn yn leihau'r swm y gellir ei adennill oddi wrth y cyfrannwr (is-adran (4)).

**Adran 51 – Hawl yr Awdurdod i adennill treuliau penodol**

200. Mae adran 51 yn gymwys pan fo'r Awdurdod wedi cynnal gweithrediadau ar dir o dan adran 42. Yn yr achos hwn, caiff yr Awdurdod adennill oddi wrth berchennog y tir hwnnw y treuliau a nodir yn is-adran (1). Y "perchennog" yw'r person a oedd yn berchennog pan ddechreuodd yr Awdurdod gynnal y gweithrediadau (gweler is-adran (9)).

201. O dan is-adran (2), caiff yr Awdurdod adennill oddi wrth berchennog ar dir unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol gan yr Awdurdod wrth gynnal ymchwiliadau o dan adran 53 a arweiniodd at roi hysbysiad i'r perchennog o dan adran 33 (gweler is-adran (9) am esboniad o ba bryd y mae ymchwiliadau i'w trin fel pe baent wedi arwain at roi hysbysiad o dan adran 33). Caiff yr Awdurdod hefyd adennill swm unrhyw digollediad a adenillwyd neu y gellir ei adennill o dan adran 48 oddi wrth yr Awdurdod mewn perthynas ag ymchwiliadau o'r fath. Y "perchennog" yw'r person y rhoddir yr hysbysiad iddo o dan adran 33 (gweler is-adran (9)).

202. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff yr Awdurdod adennill treuliau oddi wrth gyfrannwr pan fo gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 46 mewn perthynas â threuliau y gall fod yn rhaid i'r perchennog eu hysgwyddo fel arall o dan is-adran (1) neu (2).

203. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi'r gofynion gweithdrefnol y mae rhaid i'r Awdurdod eu dilyn er mwyn adennill symiau o dan yr adran hon.

204. Mae is-adran (6) yn darparu bod archiad a roddir gan yr Awdurdod o dan is-adran (4) yn derfynol ac yn bendant oni bai bod cais i amrywio neu ganslo'r archiad yn cael ei wneud o dan adran 52.

205. Mae llog yn daladwy mewn perthynas ag unrhyw swm sy'n adenilladwy o dan yr adran hon yn unol ag is-adran (7) ac mae is-adran (8) yn darparu y caniateir talu unrhyw swm sy'n adenilladwy mewn rhandaliadau os yw'r Awdurdod yn cytuno i hynny.

**Adran 52 - Yr hawl i apelio yn erbyn archiad yr Awdurdod**

206. Mae adran 52 yn darparu hawl i berson y rhoddir archiad iddo o dan adran 51 i wneud cais i'r llys (fel y'i diffinnir yn adran 85) am orchymyn yn amrywio neu'n canslo'r archiad.

207. Mae is-adrannau (3) a (4) o adran 52 yn nodi'r seiliau y caniateir gwneud cais o'r fath arnynt, ac mae is-adran (5) yn darparu, pan fo'r llys wedi ei fodloni bod unrhyw un neu ragor o seiliau'r cais wedi ei phrofi neu eu profi, y caiff y llys wneud gorchymyn sy'n canslo'r archiad neu'n lleihau'r swm sy'n adenilladwy oddi wrth y person y rhoddwyd yr archiad iddo.

**Pennod 4 – Darpariaeth Atodol**
**Trosolwg o Bennod 4**

208. Mae Pennod 4 yn Bennod fer sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i gynnal ymchwiliadau ar dir i benderfynu a oes angen gwneud gweithrediadau penodedig ar dir yn ofynnol neu gynnal gweithrediadau o'r fath. Mae'r Bennod hefyd yn creu troseddau cysylltiedig.

**Adran 53 - Y pŵer i gynnal ymchwiliadau**

209. Mae adran 53 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i gynnal ymchwiliadau ar dir i benderfynu pa un a oes angen i'r Awdurdod wneud gweithrediadau yn ofynnol neu gynnal gweithrediadau ei hun, neu ba un a yw gweithrediadau yn cael eu cynnal yn unol â hysbysiad a roddir o dan adran 33.

**Adran 54 – Cosb am rwystro gweithrediadau etc.**

210. Mae is-adran (1) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro neu'n ymyrryd yn fwriadol ag - (a) ymchwiliad o dan adran 53, (b) cynnal gweithrediadau sy'n ofynnol gan hysbysiad o dan adran 33, neu (c) cynnal gweithrediadau o dan adran 42. Yn unol ag is-adran (3), mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

211. Mae is-adran (2) yn darparu bod person sy'n difrodi'n fwriadol neu'n ymyrryd fel arall ag unrhyw waith a gwblhawyd yn ystod gweithrediadau sy'n ofynnol drwy hysbysiad o dan adran 33 neu a gynhelir gan yr Awdurdod o dan adran 42 yn cyflawni trosedd. Yn unol ag is-adran (3) mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

212. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw torri is-adran (1) neu (2) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fynegir yn adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n darparu nad yw Deddf gan Senedd Cymru yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond ei bod yn gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

**Rhan 4 - Atodol**

**Trosolwg o Ran 4**

213. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau ynghylch rhannu gwybodaeth, pwerau i'w gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth a chosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 55 i 61.

214. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â rhoi hysbysiad cyn mynd ar dir, dyroddi gwarantau sy'n rhoi pwerau mynediad, mynd ar dir gyda gwarant, a heb warant, cosbau am rwystro mynd ar dir a mynd ar dir y Goron. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 62 i 67.

215. Mae nifer o ddarpariaethau amrywiol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau a darpariaeth weinyddol, technegol neu broffesiynol mewn cysylltiad â chanllawiau. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 68 i 70.

**Adran 55 – Ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol"**

216. Mae adran 55 yn diffinio "awdurdod cyhoeddus perthnasol" at ddibenion Rhan 4 o'r Bil. Mae rhai o'r adrannau yn Rhan 4 sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth yn gymwys yn benodol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol, tra nad yw eraill yn caniatáu gwneud archiad am wybodaeth oddi wrth awdurdodau o'r fath.

217. Mae is-adran (1) yn darparu bod Gweinidogion Cymru a nifer o awdurdodau cyhoeddus eraill yn "awdurdodau cyhoeddus perthnasol" at ddibenion Rhan 4. Yr awdurdodau cyhoeddus eraill hynny yw: Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Awdurdod Glo, ac Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer ardaloedd yng Nghymru.

218. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio ystyr "awdurdodau cyhoeddus perthnasol" yn is-adran (1). Yn unol ag is-adran (4), ni chaiff rheoliadau o'r fath gynnwys awdurdod cyhoeddus o fewn y diffiniad o "awdurdodau cyhoeddus perthnasol" oni bai bod yr awdurdod hwnnw'n "awdurdod Cymreig datganoledig" o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn golygu na chaniateir cynnwys awdurdod cyhoeddus yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol" onid yw ei swyddogaethau yn arferadwy o ran Cymru yn unig, a bod y swyddogaethau hynny yn rhai nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

**Adran 56 – Pŵer yr Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth**

219. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus perthnasol i ddarparu i'r Awdurdod wybodaeth y gofynnir amdani gan yr Awdurdod at ddiben arfer swyddogaethau a roddir gan y Bil neu odano.

220. Mae is-adran (2) yn darparu nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth i'r Awdurdod, a ni chaniateir iddo wneud hynny, pe bai hynny'n groes i unrhyw waharddiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth arall neu a osodir gan reol gyfreithiol arall. Er enghraifft, ni fyddai'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus perthnasol ddarparu gwybodaeth pe bai, wrth wneud hynny, yn torri deddfwriaeth diogelu data neu'n torri dyletswydd gyfrinachedd sy'n ddyledus i drydydd parti.

221. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus perthnasol roi ei resymau yn ysgrifenedig i'r Awdurdod pan fo'n gwrthod datgelu gwybodaeth i'r Awdurdod yn dilyn archiad o dan yr adran hon.

**Adran 57 – Dyletswyddau'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i rannu gwybodaeth**

222. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus perthnasol a'r Awdurdod, pan fo amgylchiadau penodol wedi eu bodloni, i roi gwybodaeth i'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

223. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus perthnasol, os daw'n ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu dystiolaeth o ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir, a'i fod yn ystyried y dylid rhannu'r wybodaeth honno â'r Awdurdod er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les pobl, i ddarparu'r wybodaeth honno i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Er enghraifft, gall awdurdod lleol ddod yn ymwybodol, fel rhan o gais cynllunio, o weithgarwch ar domen nas defnyddir, neu gerllaw tomen o'r fath, y mae'n ystyried y dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod amdano er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les pobl.

224. Yn yr un modd, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, os daw'n ymwybodol o rywbeth y dylid ei ddwyn i sylw awdurdod cyhoeddus perthnasol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod cyhoeddus, ddarparu'r wybodaeth honno i'r awdurdod cyhoeddus cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Er enghraifft, wrth asesu tomen nas defnyddir, os bydd yr Awdurdod yn dod yn ymwybodol o berygl tân ar y domen neu ar dir cyfagos, rhaid i'r Awdurdod ddarparu'r wybodaeth honno i'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer yr ardal honno.

225. Mae is-adran (3) yn darparu na all yr adran ei gwneud yn ofynnol na chaniatáu i awdurdod cyhoeddus perthnasol na'r Awdurdod roi gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiadau sydd wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth neu a osodir gan reol gyfreithiol arall.

**Adran 58 — Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau mewn tir**

226. Mae adran 58 yn cynnwys darpariaethau at ddiben helpu'r Awdurdod i gael gwybodaeth benodol.

227. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff yr Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd ar dir, neu berson sy'n cael rhent mewn cysylltiad â'r tir, ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig benodol i'r Awdurdod: sef, natur eu hystad neu fuddiant yn y tir ac a ydynt yn gwybod am unrhyw un arall sydd ag ystad neu fuddiant yn y tir. Os ydynt yn ymwybodol o unrhyw berson o'r fath rhaid iddynt, os yw'r wybodaeth honno'n hysbys, roi enw a manylion cyswllt y person hwnnw i'r Awdurdod. Mae peidio â rhoi gwybodaeth o'r fath, heb esgus rhesymol, neu roi gwybodaeth sy'n anwir ac yn gamarweiniol mewn modd perthnasol, naill ai gan wybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu wrth fod yn ddi-hid ynghylch pa un a yw'n anwir neu'n gamarweiniol, yn drosedd o dan adran 61.

228. Nodir ystyr "manylion cyswllt" yn is-adran (2).

229. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad o dan adran 58 yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth oni bai bod angen gwybodaeth o'r fath ar yr Awdurdod i'w alluogi neu i'w gynorthwyo i arfer swyddogaeth a roddir gan y Bil neu odano. Efallai y bydd yr Awdurdod, er enghraifft, angen gwybodaeth er mwyn cadarnhau pwy sydd ag ystad neu fuddiant mewn tir penodol, fel y gall yr Awdurdod gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan adran 35 o'r Bil i roi i bersonau penodol gopi o hysbysiad adran 33.

230. Mae is-adran (4) yn nodi'r cyfnod y caniateir i hysbysiad o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth ynddo.

231. Mae is-adran (5) yn egluro nad yw adran 58 yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiadau sydd wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth neu wedi eu gosod gan reol gyfreithiol arall. Mae is-adrannau (6) a (7) yn darparu, yn y drefn honno, na chaiff yr Awdurdod roi hysbysiad o dan adran 58 i awdurdod cyhoeddus perthnasol nac i awdurdod priodol y Goron mewn cysylltiad ag ystad neu fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat. Diffinnir "awdurdod priodol y Goron", "tir y Goron" a "buddiant preifat" yn adran 84. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod darpariaethau mewn mannau eraill yn y Bil sy'n caniatáu i hysbysiadau gael eu rhoi i awdurdodau cyhoeddus perthnasol neu mewn cysylltiad ag ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron: adran 56 (sy'n galluogi'r Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth) ac adran 59 (sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chael gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron).

**Adran 59 — Gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron**

232. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chael gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau yn nhir y Goron.

233. Mae is-adran (1) yn darparu bod adran 59 yn gymwys i ystad neu fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 84(2) a diffinnir "buddiant preifat", mewn perthynas â thir y Goron, yn adran 84(5).

234. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol y Goron ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan yr Awdurdod o dan is-adran (2), heblaw o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (4)(a) neu (b).

**Adran 60 – Gwybodaeth i nodi neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir etc.**

235. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff yr Awdurdod roi "hysbysiad gwybodaeth" i berson. Ni chaniateir rhoi hysbysiad gwybodaeth i awdurdod cyhoeddus perthnasol (is-adran (5)). Rhaid i hysbysiad gwybodaeth bennu'r math o wybodaeth y mae'r Awdurdod yn gofyn amdani, y mae rhaid iddi fod yn wybodaeth y mae'r Awdurdod yn credu y bydd yn ei ganiatáu neu'n ei helpu i asesu bygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i asesu sefydlogrwydd tomen nas defnyddir. Rhaid i'r Awdurdod fod â rheswm i gredu bod y person y rhoddir yr hysbysiad gwybodaeth iddo naill ai'n meddu ar yr wybodaeth neu fod ganddo'r wybodaeth o dan ei reolaeth. Mae'n drosedd, o dan adran 61, i beidio â rhoi'r wybodaeth heb esgus rhesymol, neu i roi gwybodaeth mewn ymateb i'r hysbysiad gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol, naill ai gan wybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol neu drwy fod yn ddi-hid ynghylch pa un a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol. Gallai gwybodaeth y gellid gofyn amdani o dan yr adran hon gynnwys, er enghraifft, wybodaeth am waith hanesyddol a wnaed ar domen nas defnyddir.

236. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff yr Awdurdod, yn yr hysbysiad gwybodaeth, ei gwneud yn ofynnol i berson roi gwybodaeth mewn ffordd benodol ac ar ffurf benodol. Er enghraifft, gallai'r hysbysiad gwybodaeth bennu bod rhaid i berson lenwi ffurflen benodol.

237. Mae is-adran (3) yn nodi'r cyfnod y caniateir i hysbysiad o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth ynddo. Mae is-adran (4) yn darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi neu ganiatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiadau sydd wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth neu wedi eu gosod gan reol gyfreithiol arall.

238. Ni chaniateir rhoi hysbysiad gwybodaeth i awdurdod cyhoeddus perthnasol (is-adran (5)). Mae adrannau 56 a 57 yn ymdrin yn benodol â rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol.

**Adran 61 - Cosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth**

239. Mae is-adran (1) yn darparu bod person y mae'n ofynnol iddo roi gwybodaeth yn unol â hysbysiad o dan adran 58 neu hysbysiad gwybodaeth o dan adran 60, yn cyflawni trosedd os yw'r person yn methu, heb esgus rhesymol, â rhoi'r wybodaeth ofynnol. Efallai y bydd gan berson esgus rhesymol dros y methiant os, er enghraifft, y bu'r person allan o'r wlad neu yn yr ysbyty yn ystod y

cyfnod yr oedd hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r wybodaeth ynddo. Fodd bynnag, bydd hyn yn fater i'w benderfynu gan y llys.

240. Yn unol ag is-adran (2), gellir cosbi'r drosedd hon, yn dilyn euogfarn ddiannod, drwy ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd.

241. Mae is-adran (3) yn darparu bod person y mae'n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan adran 58 neu 60 yn cyflawni trosedd os ydynt yn fwriadol neu'n ddi-hid yn rhoi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol, naill ai gan wybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu drwy fod yn ddi-hid ynghylch pa un a yw'n anwir neu'n gamarweiniol. Mae person a euogfernir o'r drosedd hon, naill ai yn y Llys Ynadon neu Lys y Goron, yn agored i ddirwy.

**Adran 62 – Pŵer i fynd ar dir**

242. Mae is-adran (1) yn rhoi'r pŵer i berson awdurdodedig i fynd ar unrhyw dir (nid dim ond tir y mae tomen nas defnyddir arno) i wneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a restrir ym mharagraffau (a) i (f) ar ran yr Awdurdod. Mae is-adran (4) yn diffinio mai ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod i weithredu ar ei ran. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn aelod o staff yr Awdurdod neu gallai fod yn drydydd parti. Ni fydd yr Awdurdod bob tro yn gallu gwneud y pethau a restrir yn is-adran (1) ei hun. Gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i ganiatáu i'r Awdurdod awdurdodi contractwyr sydd â gwybodaeth neu gyfarpar arbenigol i fynd ar y tir a chynnal gwaith ymchwilio neu fonitro ar ran yr Awdurdod.

243. Mae is-adran (2) yn caniatáu i berson awdurdodedig fynd â phobl eraill, cyfarpar a deunydd ar y tir a allai fod yn angenrheidiol at y dibenion a grybwyllir yn is-adran (1). Mae hefyd yn rhoi'r gallu i'r person awdurdodedig i adael cyfarpar a deunydd ar y tir. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, tra bod gweithrediadau'n cael eu cynnal, na fydd angen symud offer a pheiriannau ymaith o'r tir ar ddiwedd pob dydd.

244. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff person awdurdodedig, at y dibenion a nodir yn is-adran (1), gynnal arolygiadau ac archwiliadau ar y tir (mae hyn yn cynnwys profion ac arolygon); cymryd mesuriadau, tynnu lluniau a gwneud recordiadau; cymryd samplau o'r tir a'u symud ymaith. Dyma'r camau y gallai fod angen i berson awdurdodedig eu cymryd wrth wneud y pethau a grybwyllir yn is-adran (1) ar ran yr Awdurdod.

**Adran 63 - Mynd ar dir heb warant**

245. Mae is-adran (1) yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynnu mynediad i dir sy'n cael ei feddiannu oni bai bod o leiaf 48 awr o rybudd o'r mynediad arfaethedig wedi ei roi i bob meddiannydd ar y tir. Yn yr un modd, mae is-adran (2) yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynnu mynd â phobl eraill, cyfarpar neu ddeunydd ar dir sy'n cael ei feddiannu, ac na chaiff person awdurdodedig fynnu gadael deunydd ar dir o'r fath, oni bai bod o leiaf 48 awr

o rybudd o'r bwriad i wneud hynny wedi ei roi i bob meddiannydd ar y tir. Rhaid i hysbysiad gynnwys, pan fo'n berthnasol, fanylion y personau, y cyfarpar a'r deunydd sydd i'w cymryd ar y tir neu ei gymryd ar y tir, neu i'w gadael arno neu i'w adael arno.

246. Os yw'r person awdurdodedig yn ceisio mynediad 48 awr ar ôl rhoi'r hysbysiad, ond bod meddiannydd neu berchennog yn gwrthod mynediad i'r person awdurdodedig, bydd angen i'r person awdurdodedig wneud cais am warant i fynd ar y tir o dan adran 64.

247. Caiff person awdurdodedig, gyda chytundeb, fynd ar dir heb roi rhybudd ymlaen llaw.

248. Mae is-adran (3) yn datgymhwyso'r gofyniad, yn is-adrannau (1) a (2), i'r Awdurdod roi o leiaf 48 awr o rybudd pan fo'r Awdurdod yn credu bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog, a bod yr ansefydlogrwydd yn peri bygythiad i les pobl sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fynd ar y tir ar unwaith er mwyn:

(a) ymchwilio i weld a oes angen cynnal gweithrediadau o dan Ran 3, sef ymchwiliadau i benderfynu a oes angen i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau o dan adran 33, neu benderfynu a oes angen i'r Awdurdod ymgymryd â'r gwaith ei hun o dan adran 42; neu

(b) cynnal gweithrediadau ar dir a gwaith adfer canlyniadol ei hun o dan adran 42.

249. Pan fo'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni, caiff person awdurdodedig fynnu mynediad fel mater o hawl i dir sy'n cael ei feddiannu, heb roi hysbysiad, a gall fynnu bod personau eraill yn cael mynd ar y tir, a bod cyfarpar neu ddeunydd yn cael eu cymryd ar y tir, a'i adael arno.

250. Mae is-adran (4) yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynnu mynediad fel hawl i dir preswyl, er y gallai person awdurdodedig fynd ar dir preswyl gyda chydsyniad y meddiannydd. Os nad yw'r meddiannydd yn cydsynio, caiff y person awdurdodedig wneud cais am warant i fynd ar y tir. Mae'r amodau y mae rhaid eu bodloni i gael gwarant wedi eu cynnwys yn adran 64(3).

251. Diffinnir "tir preswyl" yn is-adran (7). Mae is-baragraff (a) o'r diffiniad yn cwmpasu pob annedd a rhannau o anheddau, gan gynnwys, er enghraifft, fflat mewn adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill, megis fflat gofalwr mewn ysgol. Mae is-baragraff (c) o'r diffiniad yn cwmpasu, er enghraifft, ardaloedd cymunol mewn bloc o fflatiau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol cael gwarant i fynd ar dir preswyl os nad yw'r meddiannydd yn rhoi cydsyniad i hynny.

252. Mae is-adran (5) yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynnu mynd ar dir o dan adran 62 ond ar adeg resymol. Yr eithriad i hyn yw pan fodlonir yr amod yn is-adran (3). Mewn achos o'r fath, caiff yr Awdurdod fynnu mynd ar

dir ar unrhyw adeg. Mae hyn yn cydnabod pan fo tomen nas defnyddir yn ansefydlog a bod angen mynediad ar unwaith o dan is-adran (3), fod rhaid i berson awdurdodedig allu mynnu mynediad.

253. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i berson awdurdodedig, cyn mynd ar dir, os gofynnir amdani gan berchennog neu feddiannydd, ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad a datgan diben mynd ar y tir. Rhaid iddynt adael y tir yr un mor ddiogel yn erbyn tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno, os ydynt yn gadael y tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.

254. Mae is-adran (7) yn darparu nad yw cyfeiriadau at "tir" yn yr adran hon yn cynnwys tir y Goron. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 84(2). Mae darpariaethau penodol sy'n llywodraethu mynd ar dir y Goron yn adran 67.

**Adran 64 – Gwarant i fynd ar dir**

255. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar dir, drwy rym os oes angen. Er enghraifft, caiff yr Awdurdod wneud cais am warant pan fo meddiannydd, ar ôl i'r cyfnod rhybudd 48 awr ddod i ben o dan adran 63(1), yn gwrthod caniatáu i berson awdurdodedig fynd ar dir. Yn yr un modd, bydd angen i'r Awdurdod wneud cais am warant os yw meddiannydd yn gwrthod mynediad i dir pan fodlonir yr amodau ar gyfer mynediad ar unwaith heb rybudd (fel y nodir yn adran 63(3)).

256. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i ynad heddwch fod wedi ei fodloni bod seiliau rhesymol dros fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1) a bod un neu ragor o'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni.

257. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff ynad heddwch hefyd ganiatáu, pan ystyrir ei fod yn angenrheidiol, i berson awdurdodedig fynd â phersonau eraill, cyfarpar neu ddeunydd ar dir neu adael cyfarpar neu ddeunydd ar y tir. Bydd y warant yn cynnwys y pŵer i'r person awdurdodedig wneud hyn, ac mewn achosion o'r fath, rhaid iddo gynnwys manylion y personau, y cyfarpar neu'r deunydd.

258. Mae is-adran (7) yn darparu bod gwarant yn parhau mewn grym hyd nes y cyflawnir y diben y'i dyroddir ar ei gyfer. Er enghraifft, os dyroddwyd y warant i ganiatáu i berson awdurdodedig fynd ar dir i gynnal gweithrediadau penodedig ar domen nas defnyddir, mae'r warant yn parhau mewn grym hyd nes y bydd y gweithrediadau hynny wedi eu cwblhau.

259. Mae is-adran (8) yn egluro nad yw cyfeiriadau at "tir" yn yr adran hon yn cynnwys tir y Goron. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 84(2). Mae darpariaethau penodol sy'n llywodraethu mynd ar dir y Goron yn adran 67. Mae i "tir preswyl" yr ystyr a roddir yn adran 63(7).

**Adran 65 - Mynd ar dir gyda gwarant**

260. Mae is-adran (1) yn darparu na all gwarant a ddyroddir o dan adran 64 roi pŵer i fynd ar dir ond ar adeg resymol, ac eithrio pan fo'r amgylchiadau yn is-

adran (2) wedi eu bodloni. Bydd yr hyn sy'n adeg resymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r hyn a ystyrir yn adeg resymol at ddibenion mynd i annedd yn debygol o fod yn wahanol er enghraifft, i'r hyn sy'n rhesymol wrth fynd ar dir nad yw'n dir preswyl.

261. Nid yw'r cyfyngiad bod rhaid i warant sy'n rhoi pŵer i fynd ar dir fod yn gymwys ar adeg resymol yn gymwys os yw ynad heddwch wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adran (2) wedi eu bodloni. Mewn achosion o'r fath, caiff y warant roi pŵer i fynd ar dir ar unrhyw adeg.

262. Yr amodau yw (a) bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog, a (b) bod ansefydlogrwydd y domen yn fygythiad i les pobl sy'n gofyn am fynediad ar unwaith i'r tir (drwy rym os oes angen) at ddiben a grybwyllir yn adran 62(1)(c) neu (e).

263. Pan fo person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir, mae is-adran (3) yn darparu, cyn mynd ar dir, fod rhaid iddo ddangos y warant a datgan diben mynd ar y tir, os gofynnir iddo wneud hynny gan berchennog neu feddiannydd ar y tir. Rhaid iddynt adael y tir yr un mor ddiogel yn erbyn tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno, os ydynt yn gadael y tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.

**Adran 66 - Cosb am rwystro mynd ar dir**

264. Mae adran 66 yn creu trosedd pan fo person yn rhwystro yn fwriadol berson sy'n arfer pŵer i fynd ar dir o dan adran 62 neu o dan warant a ddyroddir o dan adran 64. Mae is-adran (3) yn darparu bod person a euogfernir o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd.

**Adran 67 – Mynd ar dir y Goron**

265. Mae'r adran hon yn rheoli pŵer y person awdurdodedig i fynd ar dir y Goron. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 84(2).

266. Yn unol ag is-adran (1), ni chaiff person awdurdodedig fynd ar dir y Goron (a) oni bai bod ganddo ganiatâd gan awdurdod priodol y Goron neu (b) bod yr Awdurdod yn credu bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog a bod ansefydlogrwydd y domen yn fygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith, naill ai i ymchwilio i weld pa un a oes angen i weithrediadau fod yn ofynnol neu eu cynnal o dan Ran 3 neu i gynnal gweithrediadau o dan adran 42. Felly, yn ymarferol, ni fydd mynd ar dir y Goron heb ganiatâd ond yn bosibl mewn amgylchiadau pan fo'r Awdurdod yn credu bod angen mynd ar y tir ar unwaith. Dylai hyn fod yn ddigwyddiad prin. Er enghraifft, efallai y bydd angen i berson awdurdodedig fynd ar dir y Goron heb ganiatâd at ddiben cynnal gwaith i sefydlogi tomen nas defnyddir os yw'r Awdurdod yn credu bod tomen yn ansefydlog a bod risg uniongyrchol o dirlithriad a fyddai'n fygythiad i les pobl. Nid oes angen i'r domen nas defnyddir fod ar dir y Goron: efallai na fydd ond angen i'r person

awdurdodedig groesi tir y Goron er mwyn cael mynediad i'r domen nas defnyddir.

267. Pan fo'r Awdurdod yn credu, yn unol â'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (1)(b), fod angen mynd ar y tir ar unwaith, caiff y person awdurdodedig fynnu mynediad i'r tir a mynnu mynd â phersonau eraill, cyfarpar neu ddeunydd ar y tir a gadael cyfarpar neu ddeunydd ar y tir.

268. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff y person awdurdodedig fynnu mynediad i unrhyw ran o dir y Goron sy'n dir preswyl. Diffinnir tir preswyl yn adran 63(7). Felly, ni chaiff person awdurdodedig fynd ar dir y Goron sy'n bodloni'r diffiniad o dir preswyl ond gyda'r caniatâd priodol.

269. Mae is-adran (4) yn darparu, os yw person awdurdodedig yn mynd ar dir y Goron heb gydsyniad gan awdurdod priodol y Goron oherwydd bod yr amgylchiadau yn is-adran (1)(b) yn gymwys, fod rhaid i'r Awdurdod hysbysu awdurdod priodol y Goron cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

270. Mae is-adran (5)(a) yn darparu, os gofynnir iddo wneud hynny gan neu ar ran perchennog neu feddiannydd ar dir y Goron, fod rhaid i berson awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd iddo o dan adran 62. Os yw person awdurdodedig yn gadael y tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, mae is-adran (5)(b) yn gosod dyletswydd arno i adael y tir yr un mor ddiogel yn erbyn tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

**Amrywiol**

**Adran 68 – Darparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol**

271. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol i unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

272. Mae gwasanaethau gweinyddol, technegol a phroffesiynol yn cynnwys gwasanaethau "swyddfa gefn" fel cyllid, cyflogres, adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth. Caiff yr Awdurdod ddewis codi ffi am ddarparu gwasanaeth o dan yr adran hon.

**Adran 69 - Canllawiau**

273. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

274. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo apêl yn cael ei phenderfynu o dan adran 36 neu adran 41, fod rhaid i'r person sy'n penderfynu'r apêl roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 70 – Diwygio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969**

275. Mae adran 70 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ("Deddf 1969"). Gwneir y diwygiadau hyn o ganlyniad i sefydlu cyfundrefn newydd o dan y Bil hwn ar gyfer rheoli bygythiadau y gallai tomenni nas defnyddir eu peri i les pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

276. Prif effaith y diwygiadau yw dileu'r swyddogaethau a osododd Rhan 2 o Ddeddf 1969 ar awdurdodau lleol yng Nghymru at ddiben sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn berygl i aelodau'r cyhoedd. Yn hytrach, yr Awdurdod fydd yn gyfrifol am swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1969 yn effeithio ar gymhwyso Deddf 1969 i awdurdodau lleol yn Lloegr neu'r Alban. Mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â hwythau.

277. Mae nifer fach o domenni nas defnyddir sy'n mynd ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Bydd gan yr Awdurdod swyddogaethau mewn perthynas â'r tomenni hynny o dan y Bil hwn, a bydd gan yr awdurdodau lleol perthnasol yn Lloegr swyddogaethau mewn perthynas â'r tomenni hynny o dan Ddeddf 1969. Bydd swyddogaethau'r Awdurdod, ac awdurdodau lleol yn Lloegr, yn arferadwy mewn perthynas â'r tomenni trawsffiniol hynny yn eu cyfanrwydd (nid dim ond y rhannau o'r tomenni hynny sy'n dod o fewn yr ardaloedd daearyddol priodol). Gallai pwerau'r Awdurdod yn y Bil hefyd gael eu harfer mewn perthynas â thir yn Lloegr at ddiben ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen sydd wedi ei lleoli yn gyfan gwbl yng Nghymru, er enghraifft, pan fo'r unig fygythiad i sefydlogrwydd tomen yn bodoli dros y ffin yn Lloegr.

278. Mae adran 5 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer. O ran tomen drawsffiniol, gallai'r Awdurdod o bosibl ddibynnu ar y pŵer hwn i gydweithredu ag awdurdodau lleol yn Lloegr pan fo cydweithrediad o'r fath yn ffafriol i arfer swyddogaethau'r Awdurdod.

**Rhan 5 — Cyffredinol**
**Trosolwg o Ran 5**

279. Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â throseddau gan gyrff corfforedig ac yn pennu pwy all ddwyn erlyniadau am droseddau o dan y Bil. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil, gan gynnwys gweithdrefn y Senedd sy'n gymwys i bwerau penodol i wneud rheoliadau.

280. Mae Rhan 5 hefyd yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill o dan y Bil. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer achosion arbennig, gan gynnwys tir Eglwys Loegr. Mae'n darparu diffiniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn y Bil, a mynegai o dermau diffiniedig, gan restru lle maent i'w gweld yn y Bil. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch pa

bryd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym. Mae'n nodi enw byr y Ddeddf. Mae Rhan 5 yn cynnwys adrannau 71 i 88.

**Adran 71 - Troseddau gan gyrff corfforedig**

281. Mae'r adran hon yn darparu, pan gyflawnir trosedd yn y Bil hwn, neu mewn rheoliadau a wneir odano, gan gorff corfforedig, ac y profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad uwch-swyddog i'r corff, neu berson a oedd yn honni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ei ran, y bydd y person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o drosedd ac y bydd yn agored i gael ei erlyn.

**Adran 72 - Dwyn achos**

282. Caiff yr Awdurdod a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ddwyn erlyniad mewn cysylltiad â throsedd yn y Bil, neu mewn rheoliadau a wneir odano.

283. Gall trydydd partïon hefyd ddwyn erlyniad preifat mewn perthynas â throsedd yn y Bil, neu mewn rheoliadau a wneir odano, ond mae angen cydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i wneud hynny.

**Adran 73 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.**

284. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol neu ddarpariaeth gysylltiedig, neu unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (1). Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiad a geir yn y Bil hwn).

**Adran 74 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

285. Mae'r adran hon yn darparu bod pob pŵer yn y Bil i wneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol.

286. Mae is-adrannau (3), (4) a (5) yn darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau a ganlyn o'r Bil i'w wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol (h.y. rhaid gosod drafft o'r offeryn gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad):

(a) adran 38 (gweithdrefn etc. ar gyfer apelau o dan Bennod 1 o Ran 3);
(b) adran 41 (gweithdrefn etc. ar gyfer hawliadau am ad-dalu treuliau perchnogion o dan Bennod 1 o Ran 3);
(c) adran 55 (newid i ystyr "awdurdod cyhoeddus perthnasol" yn Rhan 4);
(d) adran 80 (cymhwyso Deddf i dir y mae'r Awdurdod yn berchen arno);
(e) adran 81 (newid i ystyr "tomen nas defnyddir");
(f) adran 73 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.) - pan fo'r rheoliadau'n addasu unrhyw

ddeddfwriaeth sylfaenol. Diffinnir "deddfwriaeth sylfaenol" yn is-adran (8).

287. Mae is-adran (6) yn darparu bod offerynnau statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw bŵer arall yn y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Adran 75 – Darpariaeth gyffredinol ynghylch rhoi hysbysiadau etc.**

288. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae hysbysiadau neu ddogfennau eraill i'w rhoi.

289. Mae is-adran (8) yn darparu nad yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â'r Goron. Yn hytrach, gweler adran 77.

**Adran 76 – Darpariaeth ychwanegol ynghylch rhoi hysbysiadau etc. i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir**

290. Mae'r adran hon yn gymwys, yn ogystal ag adran 75, pan fo gofyniad i roi hysbysiad neu ddogfen arall i berson a chanddo ystad neu fuddiant mewn tir neu i rywun sy'n meddiannu tir. Mae'n darparu dulliau ychwanegol o roi hysbysiad priodol i'r personau hyn. Gellir dibynnu ar y rhain pan na ellir dod o hyd i enw neu gyfeiriad person er bod ymholiadau rhesymol wedi eu gwneud.

291. Mae is-adran (6) yn darparu nad yw'r adran hon yn gymwys i'r Goron. Mae adran 77 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiadau etc. y mae rhaid eu rhoi i'r Goron.

**Adran 77 – Rhoi hysbysiadau etc. i'r Goron**

292. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo hysbysiad neu ddogfen arall i'w rhoi i'r Goron, fod rhaid ei roi neu ei rhoi i awdurdod priodol y Goron. Diffinnir "awdurdod priodol y Goron" yn adran 84(6).

**Adran 78 – Codi arian mewn achosion penodol i gwrdd â gwariant**

293. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth fel bod talu "gwariant perthnasol" wedi ei gynnwys fel diben awdurdodedig ar gyfer cymhwyso arian o dan adrannau 71 a 73 o Ddeddf Tir Setledig 1925, adran 25 o Ddeddf Dugiaeth Caerhirfryn 1817 ac adran 8 o Ddeddf Rheoli Ddugiaeth Cernyw 1863.

294. Mae is-adran (2) yn diffinio'r term "gwariant perthnasol".

**Adran 79 — Tir Eglwys Loegr**

295. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'r Bil yn gymwys i dir sy'n eiddo i Eglwys Loegr ac yn adlewyrchu strwythur unigryw Eglwys Loegr. Mae nifer bach o esgobaethau Eglwys Loegr sydd â thir yng Nghymru.

296. Mae is-adran (5) yn diffinio termau a ddefnyddir yn yr adran.

**Adran 80 – Pŵer i addasu cymhwysiad y Ddeddf i dir yr Awdurdod**

297. Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau. Os bydd yr Awdurdod yn caffael ystad neu fuddiant mewn tir yn y dyfodol, mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu cymhwysiad y Bil mewn perthynas â'r tir hwnnw.

**Dehongli**
**Adran 81 - Ystyr "tomen" a "tomen nas defnyddir"**

298. Mae'r adran hon yn diffinio "tomen" a "tomen nas defnyddir".

299. Mae'r ddau ddiffiniad yn cwmpasu tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo. Gallai tomenni nad ydynt yn domenni glo (y ceir llawer ohonynt yng Nghymru) gynnwys, er enghraifft, domenni sy'n etifeddiaeth o fwyngloddio metel a chwarela mwynau hanesyddol yng Nghymru.

300. Mae is-adran (3) yn darparu bod tomenni sydd wedi eu lleoli "yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru" yn dod o fewn y diffiniad o "tomen nas defnyddir". Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod i weithredu mewn cysylltiad â thomenni sy'n mynd ar draws y ffin, ac mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mewn perthynas â thomenni sydd yng Nghymru yn unig yn ogystal â'r rheini sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr (tomenni trawsffiniol). Esbonnir sut mae'r Bil yn gymwys i domenni trawsffiniol ym mharagraff 277 uchod.

301. Mae is-adran (3) yn gosod tomenni sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Chwareli 1999 ("Rheoliadau 1999") neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 ("Rheoliadau 2014") y tu allan i gwmpas y Bil. Effaith hyn yw nad yw'r Bil yn gymwys i unrhyw domenni gweithredol sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau neu chwareli gweithredol.

302. Os caiff Rheoliadau 1999 neu Reoliadau 2014 eu dirymu neu eu diwygio, mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio ystyr "tomen nas defnyddir". Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu'r cysylltiad rhwng y Bil a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu tomenni gweithredol a'r angen i osgoi gorgyffwrdd.

303. Mae is-adran (5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n eu galluogi i nodi disgrifiadau penodol o domen a fyddai'n dod y tu allan i'r diffiniad o "domen nas defnyddir" naill ai'n gyfan gwbl neu at ddibenion y darpariaethau hynny yn y Bil a bennir yn y rheoliadau. Gallai'r disgrifiadau gyfeirio at uchder, graddiant, cyfaint, arwynebedd tomen neu'r deunydd sy'n ffurfio'r domen, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.

304. Gallai rheoliadau o dan is-adran (5), er enghraifft, ddarparu nad yw'r Awdurdod o dan ddyletswydd i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 2 o'r

Bil mewn perthynas â thomenni pan fo croniad neu ddyddodiad dibwys o wastraff.

**Adran 82 - Ystyr "bygythiad i les pobl"**

305. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr "bygythiad i les pobl". Mae "bygythiad i les pobl" yn gysyniad canolog yn y Bil: mae adran 2(1) yn darparu mai prif amcan yr Awdurdod yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'r cysyniad yn codi drwy gydol y Bil, gan gynnwys yn y darpariaethau sy'n ymwneud â dyletswydd yr Awdurdod i lunio a chadw cofrestr (adran 6), y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir (adran 7), categoreiddio tomenni nas defnyddir yn y gofrestr (adran 24), dyroddi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ar dir gynnal gweithrediadau (adran 33) a phŵer yr Awdurdod i gynnal gweithrediadau ar dir ei hun (adran 42).

306. Darperir enghreifftiau o senarios lle gallai tomen nas defnyddir beri bygythiad i les pobl ym mharagraffau 24 - 27.

**Adran 83 – Ystyr "perchennog"**

307. Mae'r adran hon yn diffinio mai ystyr "perchennog", mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r person sy'n berchen ar y teitl rhydd-ddaliadol i'r tir neu sy'n dal tenantiaeth am gyfnod penodol sydd ag o leiaf blwyddyn ar ôl ac nad yw'n gyfnod morgais. Mae hyn yn golygu nad yw banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n dal morgais ar ddarn o dir yn cael eu hystyried yn berchnogion at ddibenion y Bil. Mae adran 83(b) yn darparu nad yw person sydd â buddiant refersiynol mewn tir na fydd ond yn cael ei wireddu pan ddaw tenantiaeth o'r fath i ben i gael ei ystyried yn berchennog at ddibenion y Bil.

**Adran 84 – Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron**

308. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bil sy'n ymwneud â'r Goron: "tir y Goron", "buddiant y Goron", "buddiant Dugiaeth", "buddiant preifat" ac "awdurdod priodol y Goron". Mae egluro bod "y Goron" i'w drin fel pe bai'n cynnwys Comisiwn y Senedd.

**Adran 85 – Dehongli cyffredinol**

309. Mae'r adran hon yn diffinio "y llys" a "gweithrediadau".

**Adran 86 - Mynegai o dermau wedi eu diffinio**

310. Mae'r adran hon yn darparu mynegai o'r termau sydd wedi eu diffinio neu eu hesbonio fel arall yn y Bil.

**Adran 87 - Dod i rym**

311. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pa bryd y mae darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

312. Mae is-adran (1) yn darparu y daw Rhan 5 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil hwn y Cydsyniad Brenhinol.

313. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd adrannau 1, 2 a 5 ac Atodlen 1 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2027.

314. Mae is-adran (3) yn darparu y daw darpariaethau eraill y Bil hwn i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Mae is-adran (4) yn galluogi gorchymyn o'r fath i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

**Adran 88 – Enw byr**

315. Mae adran 88 yn nodi enw byr y Bil, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Bil ac wrth gyfeirio ato. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Bil, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

# Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog.

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. | Datganiad yr Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil. | Pennod 3 - Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 5-30 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 51-105 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 31-38 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio. | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 31-38 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 38 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 120-163 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | | |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 51-105 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 53-54, 88-89, 98-103 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; | Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 39-50 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn. | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 111-112 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6B yn gymwys i'r Bil hwn. | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6C yn | |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | gymwys i'r Bil hwn. | |

# Atodiad 3 – Geirfa

| **Byrfodd** | **Ystyr** |
|---|---|
| Awdurdod | Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru |
| BCR | Cymhareb Cost a Budd |
| Bil | Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Deddf 1969 | Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 |
| FTE | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| GF | Ffactor Twf |
| LEEP | Land, Environment, Economics and Policy Institute, Prifysgol Caerwysg |
| MALlC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| NPSV | Gwerth Cymdeithasol Presennol Net |
| Papur Gwyn | Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru) Llywodraeth Cymru 2022 |
| PEDW | Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru |
| RIA | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| Senedd | Senedd Cymru |
| | |